**Atodiad 7** Cymuned Ddysgu Abertyleri – Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ynghylch lleihau lleoedd yn y cyfnod cynradd trwy'r Arolwg

Nifer yr ymatebwyr 751

- 13 o athrawon 12 ddim yn cefnogi'r cynnig, 1 yn cefnogi'r cynnig
- 7 o Lywodraethwyr 4 ddim yn cefnogi'r cynnig, 3 yn cefnogi'r cynnig
- 255 o Rieni 247 ddim yn cefnogi'r cynnig, 3 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol a 5 yn cefnogi'r cynnig
- 284 o Drigolion lleol 271 ddim yn cefnogi'r cynnig, 2 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol ac 11 yn cefnogi'r cynnig
- 18 o Staff nad ydynt yn addysgu i gyd ddim yn cefnogi'r cynnig
- 134 Eraill 122 ddim yn cefnogi'r cynnig, 2 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol a 10 yn cefnogi'r cynnig
- 40 o ddisgyblion 30 ddim yn cefnogi'r cynnig, 6 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol a 4 yn cefnogi'r cynnig

Nifer yr ymatebwyr trwy'r arolwg 751 ac o'r rheiny:

- Doedd 704 ddim yn cefnogi'r cynnig
- Roedd 14 yn cefnogi'r cynnig yn rhannol
- Roedd 33 yn cefnogi'r cynnig

Allan o'r cyfanswm o 751 o ymatebwyr i'r Arolwg na wnaethant sylw:

- Doedd 10 ddim yn cefnogi'r cynnig

## Sylwadau gan ymatebwyr sydd ddim yn cefnogi'r cynnig:

- Dydw i ddim yn cefnogi cau'r safle!
- Dylai fod cynlluniau i uwchraddio ac ehangu cyfleusterau addysgol yn yr ardal, nid eu lleihau. Nid oes amheuaeth y bydd pwysau ychwanegol ar gampysau eraill yn effeithio'n andwyol ar addysg plant.
- *Byddai nifer y disgyblion yn Ysgol Heol Roseheyworth yn uwch pe bai rhai rhieni'n cefnogi'r ysgol agosaf at eu cartref. Mae dysgwyr o Ystâd Roseheyworth, Arael View a chyfeiriadau eraill yn agos at Eglwys y Bedyddwyr Blaenau Gwent a chanddynt siblingiaid wedi cael lle yng Nghampws Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch sydd wedi hwyluso niferoedd isel yn eu hysgol agosaf am flynyddoedd lawer. *Mae ardal Arael View / Roseheyworth eisoes yn gymuned bellennig ac ynysig. Ysgol Heol Roseheyworth yw canolbwynt y gymuned gyfan. *Mae gan ddysgwyr Ysgol Heol Roseheyworth fynediad at y Caeau Chwaraeon yn y Maes Sirol drws nesaf sy'n gyfleuster gwych ar gyfer Addysg Gorfforol. Nid oes gan Gampws y Chwe Chloch na Champws Stryd Tyleri gae hyfryd o laswellt go iawn ar garreg eu drws. *Mae gan Ysgol Heol Roseheyworth olygfeydd gwyrdd tawel i ddisgyblion a staff yr ysgol. Mae tirweddau o'r fath yn fuddiol i lesiant meddyliol a chorfforol. *Mae'r ffordd at Gampws Stryd Tyleri yn un â thagfeydd mawr. Mae gan y stryd eisoes breswylwyr yn parcio y tu allan i'w cartrefi sy'n ei gwneud hi'n anodd i 2 gar basio. Mae amseroedd gollwng a chasglu yn anodd i bob modurwr sy'n mentro i fyny Stryd Tyleri. Mae'r strydoedd sy'n arwain at Gampws Stryd Tyleri'n rhai â thagfeydd mawr. *Ceir cyfleusterau parcio ceir annigonol yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch ar gyfer gofalwyr sy'n gollwng dysgwyr. Nid oes digon o leoedd parcio yng Nghampws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch heb ychwanegiadau pellach. *Ceir baw cŵn dros lawer o balmentydd. Mae esgidiau a phramiau pawb yn codi'r ysgarthion. Ceir mater Iechyd a Diogelwch o ran gwaredu ysgarthion o esgidiau ac olwynion pramiau. *Byddai rhieni â phlant o wahanol oedrannau yn ei chael hi'n anodd cerdded i Gampws y Chwe Chloch neu Gampws Stryd Tyleri o Arael View neu Roseheyworth, yn enwedig os oes ganddynt blant bach mewn coetsis cadair. Pe bai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion o'r lleoliadau hyn a hwnnw'n gludiant ar gyfer disgyblion yn unig, byddai datgysylltiad enfawr rhwng rhieni ac athro/athrawes dosbarth, ac o bosibl ysgol, eu plentyn. *Byddai cadw adeilad ysgol heb ail lawr sydd i fyny'r grisiau i'w weld yn synhwyrol ar gyfer dysgwyr a staff ag anawsterau symudedd, yn enwedig gan bod lifft Campws Stryd Tyleri yn torri i lawr yn rheolaidd ac weithiau'n peidio â chael ei atgyweirio am fisoedd lawer oherwydd anawsterau canfod a gosod darnau a brofir gan y cwmni arbenigol sy'n ymdrin â chynnal a chadw'r lifft. *Stryd Powell, Stryd Gray, Stryd Evelyn a Stryd Newall, mae'r rhain eisoes yn strydoedd â pharcio dwbl gan geir preswylwyr. Mae amseroedd gollwng a chasglu'r ysgol ar gyfer Campws Stryd Tyleri yn gwaethygu'r problemau parcio a wynebir gan breswylwyr a modurwyr eraill ac arnynt angen mynediad at y strydoedd hyn am resymau nad ydynt

yn gysylltiedig â'r ysgol. *Mae cynnal a chadw yn Ysgol Heol Roseheyworth wedi'i gategoreiddio yn ôl brys. Gellir gweithio trwy'r amserlen cynnal a chadw ar gyflymder arafach gan bod yr adeilad yn adeilad modern (26 oed) a'i fod i'w weld fel pe bai'n darparu lleoliad mwy na boddhaol i Ddysgwyr Campws Heol Roseheyworth. Mae llawer o ysgolion cynradd yn ardal Caerffili sy'n dal i gael eu defnyddio'n dyddio o Oes Fictoria neu gyfnod yn syth ar ôl Oes Fictoria. Mae'r adeiladau hŷn yma'n dal i ddarparu ar gyfer y plant yn eu cymuned ac yn darparu profiadau dysgu cyfoethogol i blant eu cymuned. Does bosibl bod gan yr Ysgolion hŷn yma yng Nghaerffili restr cynnal a chadw yn nhrefn brys y mae angen ymdrin â hi; nid oes unrhyw gynigion cyhoeddedig i leihau capasiti yn yr ysgolion hyn yr wyf fi wedi darllen amdanynt yn y wasg er y byddai rhywun yn cymryd yn ganiataol bod gan yr adeiladau hyn amserlenni cynnal a chadw enfawr. Efallai ei fod hyd yn oed yn wir nad yw'r ystafelloedd dosbarth yn cwrdd â disgwyliadau modern ond mae CBS Caerffili yn dal i gefnogi a defnyddio'r adeiladau hyn, y mae llawer ohonynt wedi para am dros 100 mlynedd. Dylai'r ffocws fod ar y profiadau dysgu a ddarperir i ddysgwyr ac nid y rhestr o faterion cynnal a chadw y mae angen mynd i'r afael â hwy. Gellir datrys y rhain o fewn ffrâm amser wahanol, yn amlwg. * Mae fforymau ar-lein yn erbyn y cynnig i leihau capasiti ar Gampws Heol Roseheyworth wedi tynnu sylw at y strwythur rheoli enfawr y mae CDdA yn ei gefnogi. Er bod datblygiad gyrfa i staff addysgu a chydnabyddiaeth ariannol gywir i athrawon profiadol yn gywir, mae angen Gwelliant Sylweddol ar CDdA o hyd yn ôl Adroddiad diweddaraf Estyn (Mai 2025). Byddai'n ymddangos bod gweithio gydag asiantaethau eraill fel iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfeiriad y mae angen ei gryfhau yn hytrach na chau Campws Heol Roseheyworth.

- 1. Mae angen sicrwydd bod unrhyw arian a arbedir yn mynd i gyllideb CDdA yn uniongyrchol ac nid i gyllidebau cyffredinol ar gyfer addysg. 2.Ar hyn o bryd mae dwy ystafell ddosbarth – y naill yn Roseheyworth a'r llall ar Stryd Tyleri sy'n cael eu defnyddio fel darpariaeth amgen i blant ag ADY. Rwy'n gwybod bod Gail Watkins yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, sut all y plant hyn gael eu lletya'n ffisegol yn y ddarpariaeth ADY yn Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch os yw cau Roseheyworth yn golygu bod angen y lle mewn ystafelloedd dosbarth y maen nhw'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer dosbarthiadau prif ffrwd llawn?
- Mae angen dadansoddiad ariannol llawn o gost cynnal a chadw pob un o'r pedwar campws. pam fod cymaint o leoedd gwag yn Y Chwe Chloch ers iddo agor yn 2019? faint o blant lleol sy'n mynychu'r Ysgol Gymraeg leol yn y Blaenau.
- · Mae angen asesiad effaith llawn ar gyfer cynnig o'r fath. Mae'r asesiad effaith integredig a atodwyd i'w weld fel pe bai'n dangos dim effeithiau negyddol o gwbl a dim camau lliniaru. Mae hyn yn frawychus o ystyried bod yr ysgol yn gwasanaethu un o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru/ bydd effeithiau ar y disgyblion - mae llawer wedi mynd trwy flynyddoedd covid ac mae gorbryder yn ofid gwirioneddol/nid yw'r effaith ddilynol ar yr ysgolion eraill yn cael ei harchwilio'n llawn nac ychwaith effaith colli ysgol mewn ardal heb hyb cymunedol gwirioneddol arall. Mae'r awgrym bod hyn rhywsut yn 'gwella ansawdd addysgol' ac yn darparu 'Profiad cryfach i'r gymuned a disgyblion' fel a amlinellir yn yr adroddiad wedi gwneud rhieni yn ddig iawn gan eu bod yn teimlo bod y cyngor yn dweud wrthynt beth sydd orau i'w plentyn heb ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol (ac rwy'n cytuno â hwy). Mae'r ymadroddion 'dulliau addysgu cyson', 'arferion cyffredin' a 'cydweithio ar draws campysau' yn achosi pryder mawr i mi hefyd - mae Roseheyworth wedi bod yn rhan o'r model 3-16 ers iddo ddechrau - pam nad yw hyn eisoes yn digwydd? A chan hynny, sut all unrhyw un fod ag unrhyw ffydd bod y model 3-16 yn gweithio? Mae gofyn cael dadansoddiad manwl o'r gwir gostau hefyd (colli swyddi/ pensiynau / yr hyn sy'n digwydd gyda'r adeilad 26 oed ac ati). Pam nawr? Pa dystiolaeth sydd gennym bod eich gwaith modelu ar gyfer niferoedd disgyblion yn y dyfodol yn gweithio? ble mae'n gadael ardal Roseheyworth - ni fydd ar neb â phlant eisiau byw yno os nad oes ysgol gyfagos (dim sicrwydd y byddant yn mynd i Stryd Tyleri) - sut mae hyn yn cyd-fynd â'r glasbrint ar gyfer twf? Yn y bôn, mae unrhyw benderfyniad i gau ysgol yn enfawr ac mae'r cyhoedd yn haeddu dogfen lawn a gonest sy'n mynd i'r afael â'r holl bryderon - mae'r ddogfennaeth a ddarparwyd yn codi mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb. Efallai y dylid ystyried bod yn onest ynglŷn â'r ffaith bod a wnelo hyn â chyllid yn unig??
- Colled fawr i deuluoedd a dyfodol ein plant
- Esgus gwael am yr adeilad sy'n heneiddio! Ysgol y Mileniwm, ychydig dros 26 oed! Nid yw hynny'n hen yn fy nhyb i! Mae fwyaf annheg symud y plant hyn i ddosbarthiadau a fydd wedyn yn orlawn. Ni ddylech gosbi addysg yr holl blant yr effeithir arnynt trwy fod yn gybyddlyd wrth ymdrin â mater mor bwysig. Beth am y materion iechyd a diogelwch cysylltiedig? Mae'r plant hyn yn haeddu gwell;

Abertyleri yw perthynas dlawd Blaenau Gwent fel ag y mae. Ni sy'n dioddef bob amser! Ceisiwch fod yn gybyddlyd yng Nglynebwy am unwaith.

- Mae ysgol yn lle i ddysgu a thyfu cyfeillgarwch, ni ddylid symud plant ifanc o gwmpas dim ond am mai dyna sydd fwyaf cyfleus i'r rhai mewn grym, rwy'n credu mai dim ond syniad i arbed arian yw hwn. Tybed a yw'n ymwneud â'r ffaith bod 36 aelod ychwanegol arall o'r Senedd i hawlio symiau ffiaidd mewn cyflogau a threuliau a bod cynghorau'n gorfod lleihau'r cyllidebau addysg a lles?
- Ni ddylai ysgol nad yw ond yn 26 oed fod angen cau oherwydd mai hi yw'r ysgol â'r costau atgyweirio mwyaf. Yn seiliedig ar y niferoedd a ddangosir o ran capasiti ym mhob grŵp blwyddyn ar draws CDdA i gyd yna mae'n amlwg y bydd tua 90% o ddisgyblion yn cael eu gorfodi i symud i gampws y Chwe Chloch. Sut allwch chi ddisgwyl i bobl deithio 2 awr ychwanegol wedyn ac i'r bobl heb gerbyd dalu'r costau ychwanegol. Heb sôn am yr effaith y bydd cau'r ysgol yn ei chael ar brisiau tai yn yr ardal oherwydd nad oes ysgol o fewn pellter cerdded yn yr ardal mwyach.
- Mae campws Abertyleri eisoes yn llawn, fel y mae campws y Chwe Chloch!   Sut ellir cau campws Roseheyworth a "gwasgu'r" plant i mewn i ddosbarthiadau sydd eisoes dan eu sang, ni fyddant yn cael yr addysg maen nhw'n ei haeddu.  Hefyd, disgwyl i'r plant gerdded i'r ysgol ac oddi yno, anghredadwy!!
- Nid oes gan Abertyleri lawer i'w gynnig i blant yn ystod eu magwraeth, h.y. Dim unman ar ôl ysgol Dim digwyddiadau cymdeithasol Dim digwyddiadau clybiau plant Yn awr ni fydd ysgol fabanod, beth am wneud lle sydd er gwell yma i'n plant yn Abertyleri
- Mae Abertyleri yn un o ardaloedd amddifadus Cymru. Trwy leihau'r campysau byddwch yn lleihau'r amser y mae athrawon yn ei neilltuo i bob disgybl, gan felly effeithio ar addysg disgyblion a rhoi rhagor o bwysau ar athrawon i wasgaru eu hamser yn deneuach. Mae mynediad yng nghampws y Chwe Chloch ac yng nghampws Abertyleri yn gythreulig o wael. Pam yr agorodd y Chwe Chloch wn i ddim. Mae'n beryglus gan bod y mynediad mor wael. Bydd cau roseheyworth yn rhoi pwysau ar deuluoedd am resymau cludiant, gyda disgyblion yn cael llai o amser gyda'u hathrawon. A bydd yn rhoi pwysau ar athrawon am eu bod yn gorfod gwasgaru eu hamser yn deneuach. Nid yw "arbed arian" yn rheswm dilys. Mae gan BSBG un o'r dosbarthiadau trethi uchaf, ond ardaloedd a danariennir yn ddifrifol. Bydd taro addysg yn effeithio ar ddyfodol Abertyleri ymhellach.
- Mae Abertyleri yn dref amddifadus ac mae'r plant yma eisoes dan anfantais. Trwy osod rhwystrau i'w haddysg fel gwneud iddynt deithio ymhellach i'r ysgol bydd eu presenoldeb yn gostwng. Rwy'n ffieiddio eich bod chi'n ceisio arbed arian trwy dynnu ysgol i ffwrdd ac rwy'n credu eich bod yn ceisio gwneud arbedion i dalu am aelodau ychwanegol o'r Senedd. Hefyd, mae'r traffig yn y Chwe Chloch yn y bore ac ar adeg casglu plant yn beryglus. Ceir tagfeydd yn Stryd Tyleri ar yr adegau hyn ac mae'n ymddangos nad oes neb yn meddwl am ddiogelwch y plant yn yr ysgol honno a'r plant hŷn sy'n cerdded i ac o Abertyleri. Yn y Chwe Chloch mae ceir wedi'u parcio ym mhobman gan nad oedd y maes parcio wedi'i ddylunio'n dda ac mae bron yn amhosibl gyrru heibio'r ysgol ar yr adegau hynny. Penderfyniad gwael iawn i gau Roseheyworth a dydw i ddim yn cytuno ag ef.
- Hollol ffiaidd
- Hollol afresymol cau ysgol nad yw ond yn 26 oed. Syniad llawer gwell fyddai cau'r Ysgol Gyfun ac ailddosbarthu'r plant hynny. Yr adeilad hwnnw yw'r hynaf ac mae angen gwneud llawer iawn o waith iddo. Nid yw'n addas i'r diben mwyach. Anfonwch nhw i'r ysgol newydd honno yng Nglynebwy y mae'r cyngor wedi gwario dros 4 miliwn arni yn ddiweddar! Caewch yr ysgol honno yn lle hynny, gan gael gwared ar yr holl staff arwain drud, sy'n costio ffortiwn. Ni fydd Abertyleri yn gweld eisiau'r ysgol honno. Mae enw ofnadwy ganddi!
- DDIM o gwbl!   Does dim digon o le yn yr ysgolion eraill a dyna un o'r nifer o resymau!
- Ddim o gwbl... mae yna eisoes bobl yn cael trafferth gyda systemau addysgol ac mae hyn yn mynd i wthio hynny hyd yn oed ymhellach. Ynysu plant ac yna caniatáu i eraill gael eu haddysgu mewn lleoliadau anniogel sydd eisoes yn orlawn na fydd ond yn achosi mwy o broblemau yn y tymor hir i Flaenau Gwent. Maen nhw'n gwybod yn iawn beth yw'r goblygiadau y bydd hyn yn eu hachosi. Efallai fod angen i holl bobl Abertyleri roi'r gorau i dalu'r dreth gyngor, wedyn efallai y byddwch chi'n stopio rhoi ein harian i'r bastards diog ar y rhengoedd uchaf wedyn sy'n meddwl am syniadau trychinebus!
- Hollol hurt, pan fydd y ddwy ysgol arall yn llawn yn barod, dydy'r seilwaith yn yr ysgol honno ddim yn gallu ymdopi â nifer y disgyblion fel y mae. Mae angen archwilio pen pwy bynnag a gymeradwyodd ardal gollwng plant mewn arddull Americanaidd yn y DU gan ei fod yn beth gwallgof. Rydych chi'n mynd o gwmpas yn gwastraffu arian ar sothach arall nad yw mor bwysig ag

addysg a llesiant y plant, mae angen i chi ailfeddwl ble allwch chi arbed arian, efallai fod angen ailstrwythuro oherwydd yn amlwg nid ydych yn meddwl am les Abertyleri yn y bôn.

- Ychwanegu at yr ysgolion sydd eisoes wedi'u gorlwytho ac sydd eisoes â diffyg adnoddau. Achosi mwy o anhrefn i strydoedd preswyl cyfagos sy'n un mater diogelwch mawr nad ymdriniwyd yn gywir ag ef erioed!
- Ar ôl y cyfarfod agored ddydd Llun rwy'n siomedig i weld y diffyg meddwl a fu cyn cynnig y newid hwn. Mae'r effeithiau y mae hyn yn debygol o'u cael ar ein plant yn niweidiol iawn iddyn nhw. Mae rhai plant yn cael amser digon anodd yn mynychu'r ysgol heb gael eu symud a heb orfod wynebu newid. O ran arbed costau beth am ddechrau gyda diddymu'r brandio 3-16: bydd hyn yn eich galluogi i gael gwared ar lawer o aelodau o'r UDA a allai arbed dros 400k cyn codiadau cyflog. Rwy'n credu os siaradwch chi gyda'r rhan fwyaf o rieni y byddant yn cytuno ei fod yn dal i deimlo'n debyg iawn i bedair ysgol ar wahân gan nad yw'r term ymbarél hwn wedi newid y ffordd o feddwl am yr ysgol, y cyfan y mae'n ei wneud bob blwyddyn yw galluogi staff i gael eu symud yn rhydd Nid wyf yn gweld unrhyw effeithiau cadarnhaol fel rhiant. Mae'r syniad y bydd dalgylchoedd yn newid ac nad ydych wedi meddwl beth fydd yn digwydd i'r plant sydd eisoes yn mynychu ysgol lle mae eu dalgylch wedi newid yn hollol hurt. Mae symud plentyn o ysgol i ysgol newydd i ffwrdd oddi wrth ffrindiau, staff y maent wedi dod i'w hadnabod a'u caru yn bryderus iawn! Nid ydych wedi meddwl sut y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw un. Beth am gau'r ysgol yn raddol dros nifer o flynyddoedd fel nad oes cymaint o effaith os yw'n wir nad yw cadw'r ysgol yn ddatrysiad hyfyw. Bod â chynllun 4 blynedd lle gallwch gadw rhan o'r ysgol ar agor, peidio â derbyn plant newydd. Mae gwneud hyn dros flwyddyn yn benderfyniad ofnadwy.
- Mae ysgolion cynradd CDdA yn orlawn fel y mae. Ni fydd plant yn cael budd o ddysgu'n iawn fel y dylent mewn ystafelloedd dosbarth gorlawn!
- Mae pob ysgol arall yn orlawn.
- Mae pob un o'm tri phlant wedi/yn mynychu ysgol roseheyworth. Mae fy ieuengaf yn mynychu'r uned feithrin ac wedi mynychu'r lleoliad gofal plant dros dro sydd hefyd ynghlwm wrth yr ysgol a bydd yn dechrau yn y dosbarth derbyn ym mis Medi. Mae hi wedi ymgartrefu'n dda fel y mae fy mab yntau ac mae gen i bryderon ynghylch eu dadwreiddio a'u hansefydlogi. Mae fy mhryder a oes digon o le yn yr ysgolion eraill hefyd yn bryder mawr gan fy mod yn ymwybodol eu bod eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Mae trefniadau gollwng a chasglu plant eisoes yn broblem hefyd.
- Nid yw gadael i un arall o adeiladau'r Cyngor aros yn wag a mynd â'i ben iddo at ddibenion canoli dysgu'n argoeli'n dda i'r gymuned na dysgwyr. Dylai profiad unigol i ddysgwyr fod yn bwysicach na niferoedd – ceir rheswm pam fod rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion penodol. Mae arbed arian trwy gynyddu capasiti mewn un ysgol yn diystyru'r profiad dysgu'n llwyr ac ni ddylid byth ystyried bod yr un drefn yn addas i bawb lle mae addysg yn y cwestiwn. Gwnewch yn well.
- Er nad yw fy mhlant wedi mynychu ysgol roseheyworth gan eu bod y tu allan i'r dalgylch, mae fy efeilliaid yn mynychu sesiynau mini me ac wedi gwneud ers tro. Gan bod y lleoliad hwn ynghlwm wrth yr ysgol mae wedi eu galluogi i ddeall proses yr ysgol yn llawn a hwythau'n cael eu cludo yno o Ystruth i'm galluogi i weithio. Mae sesiynau mini me yn rhan annatod o'n bywydau ac er gwaethaf trafodaethau am adleoli, sut fydd hyn yn effeithio ar fy mhlant - amgylchedd newydd arall i ddod i arfer ag ef, newidiadau staff posibl oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth, mae sesiynau mini me hefyd wedi gwario llawer o arian i gynnal a chadw'r tir maen nhw'n ei ddefnyddio gyda blodau rheolaidd, clytiau llysiau, ymhlith pethau eraill. Mae'r rhain i gyd yn bethau rydyn ni fel rhieni wedi cyfrannu atynt yn ogystal â grantiau i'n plant gael amgylchedd diogel a ffyniannus. Rwy'n cofio'r ysgol yn cael ei hadeiladu. Nid yw'n ddim oed bron o'i gymharu ag ysgolion lleol eraill. Bydd symud y disgyblion allan o ddalgylch eu hysgol gartref yn gost ariannol i rieni eraill, bydd yn golygu bod rhieni'n methu â chasglu eu plentyn o'r ysgol oherwydd bod neiniau a theidiau'n cerdded i'w casglu neu fod eu plentyn hŷn yn cael eu gollwng adref ar y bws ysgol tra'u bod hwythau'n aros gyda phlentyn iau. Dewisodd rhieni yr ysgol hon fel eu dewis 1af ac eto nid ydych yn gwrando ar rieni. Rwy'n gobeithio y byddan nhw'n dod at ei gilydd ac yn ymladd i gadw'r ysgol hon.
- Rwy'n bryderus iawn am y cynnig i gau'r ysgol hon. Bydd yr effaith ar addysg, llesiant a sefydlogrwydd y plant yn sylweddol. Mae llawer o ddisgyblion wedi meithrin perthynas gref â staff a chyfoedion, a bydd eu symud i amgylchedd newydd yn tarfu arnynt yn ddiangen ac yn achosi gofid emosiynol. I blant sy'n cael trafferth gyda newid, mae trefn yn hanfodol. Mae eu dadwreiddio'n creu risg y byddant yn wynebu rhwystrau o ran dysgu a llesiant meddyliol. Gall y broses bontio fod yn arbennig o anodd i ddisgyblion agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol, sy'n dibynnu'n helaeth ar amgylchedd cyfarwydd ac oedolion y maent yn ymddiried ynddynt. Rwyf

hefyd yn poeni am yr effaith ymarferol ar deuluoedd, gan gynnwys amseroedd teithio hirach, costau uwch, a'r pwysau y bydd hyn yn ei roi ar rieni sy'n gweithio. Mae'r ysgol hon yn rhan bwysig o'r gymuned leol a byddai ei chau yn golled fawr. Erfyniaf yn daer ar y Cyngor i ailystyried y penderfyniad hwn a chynnal asesiad llawn o'r effaith hirdymor y bydd yn ei chael ar blant a theuluoedd.

- Bydd cynnydd yn nifer y disgyblion ar y safleoedd sy'n weddill neu sy'n derbyn yn arwain at ddosbarthiadau mwy. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod "grwpiau disgyblion sy'n fwy o faint yn gwella rhyngweithio cymdeithasol a dysgu gan gymheiriaid". Fodd bynnag, mae hyn yn cyflwyno sawl risg gan gynnwys mwy o bwysau ar staff addysgu. Gall dosbarthiadau mwy wneud rheoli ymddygiad yn fwy o her, yn enwedig lle ceir cymysgedd o ddisgyblion ag anghenion a chefndiroedd amrywiol. Gall hyn arwain at amgylchedd dysgu llai ffafriol, gyda tharfu'n digwydd yn amlach a llai o gyfleoedd ar gyfer addysgu o ansawdd da a chymorth wedi'i dargedu. Ar gyfer disgyblion ac arnynt eisoes angen cymorth ychwanegol i barhau i ymgysylltu, gallai'r newid hwn effeithio'n negyddol ar eu cynnydd a'u profiad cyffredinol yn yr ysgol.
- Fel preswylydd pryderus, ni allaf gefnogi cau ysgol gynradd roseheyworth. Rwy'n deall bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd, a'i bod yn aml yn wir mai ystyriaethau ariannol yw'r rhai mwyaf blaenllaw. Fodd bynnag, erfyniaf arnoch i edrych y tu hwnt i'r mantolenni a gweld cost ddynol ddofn y cynnig hwn. Beth yw gwir bris dadwreiddio plant o ardal amddifadus nad yw teuluoedd llawer ohonynt yn gyrru ac a fydd yn gorfod cerdded ugain munud ychwanegol ym mhob tywydd i'r ysgol agosaf, gan eu dadwreiddio o'u hamgylchedd dysgu cyfarwydd, eu gorfodi i mewn i ysgolion sydd eisoes yn orlawn a thorri eu cysylltiadau â rhywle lle mae ganddynt ymdeimlad o berthyn? Beth yw cost erydu sylfeini cymuned sydd eisoes yn fregus ac sy'n ymdrechu am well.
- Fel cyn-riant sydd bellach yn fam-gu i ddisgyblion yn yr ysgol a minnau hefyd wedi gweithio yn y gegin, ni allaf gredu eu bod hyd yn oed yn meddwl am gau'r ysgol, mae'n syniad mor ffôl ac yn effeithio nid dim ond ar y plant ond ar rieni, hefyd mae fy wyrion wedi bod yno ers i sesiynau mini me ddechrau i'm merch allu gweithio, mae'n drist iawn, nid y plant sy'n bwysig yn y syniad hwn
- Fel cyn-ddisgybl (y cyntaf i fynychu), a minnau bellach yn rhiant i ddau (tri gynt) o blant sy'n mynychu ysgol roseheyworth, rwy'n teimlo'n gryf yn erbyn y cynnig diamcan hwn! Mae yna lawer o ffactorau pam. Mae cynnal a chadw'r ysgol yn gyfrifoldeb i'r cyngor! Pam ddylai'r plant orfod talu pris am y diffyg cynnal a chadw? Ac ar ôl ymweld â'r ysgol yn ddiweddar gyda'r gwasanaeth tân i gynnal digwyddiad diogelwch tân, siaradais gydag ychydig o athrawon a ddywedodd mai dim ond cot o baent a charpedi newydd y mae eu hangen arni! Parcio? Y cyfleusterau parcio yn roseheyworth yw'r rhai gorau yn Abertyleri mwy na thebyg yn ystod amseroedd codi a gollwng y tu allan i ysgolion, rydw i wedi bod i gampws Stryd Tyleri a champws y Chwe Chloch ac mae'n llanast llwyr, ni fydd ychwanegu rhagor o blant ond yn ychwanegu rhagor o dagfeydd at y ffyrdd ac ar gyfer mesurau diogelwch nid yw hynny'n dda i'r plant na'r gymuned! Niferoedd, yn ystod fy ymweliad â'r ysgol roedd y niferoedd i'w gweld yn fwy na'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddweud. Roedd pob dosbarth yn llawn ac eithrio blwyddyn 5 a oedd â disgyblion mewn digwyddiad chwaraeon lleol ar adeg fy ymweliad. Siblingiaid, a all y cyngor yn rhesymegol symud siblingiaid i'r un ysgol os oes angen gan y byddai'n llanast pe bai'n rhaid casglu un o Stryd Tyleri ac yna un arall o gampws y Chwe Chloch? Hefyd, mae'n debygol y byddai ar y rhan fwyaf yn roseheyworth eisiau i'w plentyn gael ei symud i Stryd Tyleri oherwydd bod brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol gyfun ar gyfer casglu a theithio adref. Lleiafrif bach fydd yn dewis y Chwe Chloch sy'n ychwanegu mwy o bwysau ar Stryd Tyleri a'r awdurdod lleol. Iechyd meddwl, mae rhai plant eisoes yn bryderus ac yn nerfus am yr hyn sydd o'n blaenau mwy na thebyg. Er enghraifft, efallai y byddant yn bryderus ynghylch mynd i'r ysgol gyfun mewn blwyddyn neu ddwy, ac ni fydd eu symud allan o'r amgylchedd y maent yn gysurus ynddo yn awr ond yn ychwanegu at broblemau iechyd meddwl a llesiant! Effeithiodd Covid ar lawer o blant yn enwedig fy rhai i, ni fydd hyn ond yn ychwanegu at hynny i lawer o blant, gadewch i ni ymddwyn fel oedolion cyfrifol, sef yr hyn yr ydych chi, fe dybiaf, a gwneud yr hyn sydd orau iddyn nhw a'u dyfodol yn feddyliol ac yn gorfforol. Rwy'n erfyn arnoch i ailystyried opsiynau eraill. Roeddwn i'n un o'r cyntaf yn yr ysgol hon pan agorodd 26 mlynedd yn ôl a dyma oedd amser gorau fy mywyd! Mae fy mhlant i gyd yn mwynhau'r ysgol hon yn un o'r ysgolion gorau yng Ngwent. Diolch i'r ysgol hon yr wyf fi a llawer o bobl eraill wedi datblygu i fod y bobl ydym ni heddiw, mae'r ysgol hon yn dal yn ifanc ac nid oes bai ar neb heblaw'r cyngor am y diffyg cynnal a chadw yn y safle hwn. Fe wnaethoch chi adeiladu canolfan ailgylchu wrth ei ymyl? Pam na chawsoch arian ychwanegol i helpu'r ysgol pan wnaethoch chi hynny? Ond yn bwysicaf oll, rwy'n credu bod angen

i chi wrando ar y plant hefyd! Gyda’u dyfodol hwy yr ydych chi’n potsian, mae eich cenhedlaeth chi wedi bod, peidiwch â difetha’u cenhedlaeth hwy.

- Fel un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd y Mileniwm Roseheyworth, credaf na ddylid cau Roseheyworth. Rhoddodd amgylchedd cefnogol ac anogol i mi ac mae'n parhau i ddarparu hynny i blant yn y rhan honno o Abertyleri. Efallai ei bod yn llai na'r ysgolion cynradd eraill yn CDdA, ond credaf mai dyna un o gryfderau'r ysgol gan bod hynny’n sicrhau cymuned glòs lle mae pob plentyn yn cael ei weld a'i glywed. O ganlyniad i gau Roseheyworth, byddai'r ysgolion cyfagos yn derbyn hyd yn oed mwy o blant a fyddai’n golygu bod mwy yn mynd heb eu gweld mewn dosbarthiadau mwy. Mae Roseheyworth yn anhygoel o arbennig, ac rwy'n erfyn arnoch i ailystyried y cynnig.
- Fel mam-gu a minnau wedi cael y pleser o fynd â’r plant i'r ysgol. Mae ysgolion yn un o gonglfeini'r gymuned, ar ddiwedd y dydd, mae'n ymwneud ag addysg y plant hyn.
- Fel preswylydd lleol sy'n byw yn agos at ysgol Stryd Tyleri Pryderon ynghylch traffig ar Stryd Tyleri Pryderon am bwysau ar y ddwy ysgol arall Pryderon am gynnydd yn y gyfradd enedigaethau Dim digon o leoedd Honni bod ysgol sy’n newydd ers 2000 yn costio gormod o arian a hithau â chyfleusterau gwych Teuluoedd yn yr ardal honno yn Abertyleri yn cael eu hynysu heb ysgol o fewn pellter cerdded
- Fel aelod o staff â 2 rôl, 1 yn Ysgol Roseheyworth ac 1 yn Stryd Tyleri, byddai'r cynnig i gau’r ysgol yn cael effaith ddinistriol ar fy mywyd a sefydlogrwydd ein cymuned. Fel llawer o’m cydweithwyr, rwy'n wynebu'r posibilrwydd o golli fy swydd neu gael fy ngorfodi i adleoli neu dderbyn cael fy adleoli i rywle arall, a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar fy mywoliaeth gan nad wyf yn gyrru. Mae'r mwyafrif ohonom sy'n gweithio yn y rolau hyn yn fenywod sy'n dibynnu ar leoliad yr ysgol yn agos at adref fel y gallwn gydbwyso gwaith â gofal plant a chyfrifoldebau gofalu. Os bydd yr ysgol yn cau, byddai dod o hyd i waith rhan-amser addas yn lleol yn hynod anodd, ac mae teithio ymhellach yn rhywbeth sy’n syml ddim yn realistig i lawer ohonom. Byddai hyn nid yn unig yn effeithio ar ein teuluoedd ond gallai ddyfnhau'r amddifadedd a deimlir eisoes yn yr ardal, gan gael gwared ar gyflogaeth sefydlog o gymuned sy'n dibynnu arni.
- Fel aelod o gymuned Abertyleri, hoffwn fynegi fy gwrthwynebiad i gau Ysgol Roseheyworth. Mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn effeithio ar deuluoedd plant sy'n mynychu'r ysgol, mae hefyd yn effeithio ar bob un ohonom sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal hon. Rwyf hefyd yn pryderu am y cynnydd sylweddol mewn traffig y byddai'r cynnig hwn yn ei greu o amgylch y Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae'r ardaloedd hyn eisoes yn cael trafferth gyda thagfeydd, problemau parcio, a heriau diogelwch ar y ffyrdd yn ystod amseroedd gollwng a chasglu y tu allan i ysgolion. Bydd ychwanegu cannoedd yn fwy o blant at y safleoedd hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn beryglus. Mae ffyrdd lleoedd yn syml yn methu ag ymdopi â’r niferoedd uwch o geir, bysiau a cherddwyr, gan greu risg go iawn a diangen i blant, rhieni a phreswylwyr. Byddai cau Ysgol Roseheyworth nid yn unig yn cael gwared ar ased cymunedol gwerthfawr ond byddai hefyd yn creu peryglon diogelwch y gellir eu hosgoi ac yn rhoi pwysau enfawr ar ysgolion eraill yn y dref. Mae Abertyleri yn haeddu atebion sy'n gwarchod addysg plant ac yn diogelu ein cymuned, nid penderfyniadau sy'n peryglu'r ddau.
- Fel un o rieni ac un o aelodau Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau campws y Chwe Chloch, rwy'n bryderus iawn am y cynlluniau ar gyfer cau ysgol Roseheyworth. Rwy'n cerdded o’r ardal ar bwys roseheyworth i’r Chwe Chloch bob dydd ac mae'n cymryd 40 munud gyda fy mhlentyn 11 oed, heb sôn am ba mor anodd fydd hi gyda bygi neu blant llai. Byddant yn flinedig cyn i'r diwrnod ddechrau. Mae hefyd yn cael effaith sylweddol oherwydd bod plant o ysgolion eraill yn dod adref yr un pryd ac ni all rhieni fod mewn dau le yr un pryd. Yn flaenorol byddai'n daith pum munud i’r ysgol ac yn ôl felly gallech fod yn ôl mewn pryd i gwrdd â'ch plentyn arall ond nawr byddai'n arhosiad hwy o lawer. Bydd maint y dosbarthiadau yn fawr, mae'r ysgolion yn cael trafferth darparu ar gyfer y nifer o blant AAA sydd ganddynt yn barod, sut ar y ddaear mae hynny'n mynd i weithio gyda'r uno. Sut mae pob athro/athrawes yn mynd i ddiwallu anghenion addysgol pob plentyn? A fyddwch chi'n codi estyniadau i’r ysgolion eraill? A fydd yr arian rydych chi'n ei arbed o gau Roseheyworth yn mynd yn uniongyrchol i addysg ein plant yn CDdA? Mae'r cyfleusterau parcio yng nghampws y Chwe Chloch eisoes yn annigonol ac mae rhieni yn gorfod cyrraedd dros hanner awr yn gynnar i gael lle i rywun Anabl neu hyd yn oed lleoedd o gwbl yn y maes parcio. Ar y daith mae pont gyda goleuadau traffig ac rydym eisoes wedi cael ein dal yno am tua 20 munud oherwydd maint y traffig gyda nifer fawr o gerbydau sy'n ceisio mynd drwodd yn ystod amseroedd ysgol. Rydym yn cerdded i'r ysgol yn bennaf, mae'r palmentydd yn gul ac ar y ffordd sy'n arwain at yr ysgol mae'r palmant wedi’i wneud o slabiau sydd wedi torri a chracio. Ni all fy mhlentyn redeg gan bod arnaf

ofn y bydd yn baglu, ceir hefyd finiau ailgylchu a adewir allan yn gyson, sydd hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cerdded, heb sôn am faw cŵn cyson. Mae Roseheyworth yn ysgol hyfryd, adeilad defnyddiol gyda mynediad hawdd. Byddwn yn teimlo'n drist pe bai'n cau a bod adeilad gwag arall yn Abertyleri. Mae gen i gariad angerddol at ein tref a'r cyfleoedd sydd ganddi i'n plant. Rydym wrth ein bodd ag ysgol Roseheyworth mae'n gaffaeliad i'r gymuned, mae ei hathrawon a'i staff yn rhagorol ac mae'r plant sy'n mynychu yn hapus. Bydd eich cynnig yn tarfu ar addysg y plant, os ydych chi'n eu hollti rhwng dwy ysgol rydych chi'n hollti ffrindiau, ac wynebau cyfarwydd drwyddi draw. Heb sôn am y plant sydd eisoes yn cael trafferth ymgartrefu yn yr ysgol, bydd hyn yn cael effaith niweidiol arnynt. Rwy'n gwybod hyn fel ffaith oherwydd bod fy mhlentyn yn queen st pan ddigwyddodd yr uno hwnnw, mae hi'n awtistig ac fe achosodd straen emosiynol sylweddol iddi ar y pryd. Rwy'n deall materion ariannol, ond fel ardal ddifreintiedig yn sicr dylem gael mwy o arian ar gyfer addysg, mwy o arian yn cael ei wario ar bob plentyn i roi cyfle i bob plentyn wireddu eu llawn botensial, gyda'r ysgol, y staff, a'r adnoddau y mae eu hangen ar bob ystafell ddosbarth i annog pob plentyn i dyfu ac, yn y tymor hir, newid Abertyleri. Os gwnewch chi arllwys yr arian i mewn i addysg a rhoi'r gorau posibl i'r plant hyn pwy a ŵyr beth allant ei gyflawni. Ysgolion llai, mwy o adnoddau a dyfodol gwell a mwy disglair. Diolch.

- Fel rhiant dydw i ddim yn gyrru a dydw i ddim yn gallu mynd â nhw i ysgol arall
- Fel rhiant i 2 blentyn ar gampws y Chwe Chloch, gallaf ddweud yn bendant y byddai'n gamgymeriad enfawr pe baech chi'n bwrw ymlaen â chau ysgol Roseheyworth. Mae'r cyfleusterau parcio neu ddiffyg cyfleusterau o'r fath ar gampws y Chwe Chloch yn hunllef lwyr bob dydd wrth ollwng a chasglu plant, gyda'r posibilrwydd o ychwanegu nifer aneirif o ddisgyblion a fydd yn ei dro yn dod â mwy o gerbydau yn golygu y bydd uffern o le. Fodd bynnag, y brif broblem fydd y plant hyn, plant nad yw eu rhieni yn gyrru, nad ydynt yn gallu tywys eu plant ar droed yr holl ffordd i gampws y Chwe Chloch, plant ag anghenion ychwanegol y mae arnynt angen trefn. Byddech chi'n achosi llawer iawn o straen i rieni a phlant pe baech chi'n bwrw ymlaen.
- Fel rhiant i blentyn sy'n mynychu Campws y Chwe Chloch, Blwyddyn 1, ar hyn o bryd, nid wyf yn meddwl bod yr ysgol hon yn addas i'r diben fel y mae, heb sôn am ychwanegu rhagor o blant ati. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn fach iawn, oes mae ganddynt stryd ddysgu ond bydd ychwanegu rhagor o blant at ddosbarth sydd eisoes â 30 o blant nid yn unig yn effeithio ar yr addysg y mae'r plant hyn yn ei chael yn barod ond bydd yn rhoi mwy o bwysau byth ar yr adnoddau. Mae bod â dosbarth â 35+ o blant yn chwerthinllyd, bydd eich lefelau addysg/arholiad ar ddiwedd hyn i gyd yn cael ergyd mewn blynyddoedd i ddod. Hefyd, gyda'r enw sydd gan Gymuned Ddysgu Abertyleri rydych chi'n paratoi'r plant hyn ar gyfer methiant, druan. Mae afiechydon yn lledaenu mor gyflym o amgylch ysgolion y dyddiau hyn, fel nad yw ychwanegu rhagor o blant at ysgol sy'n ymddangos yn eithaf llawn fel y mae, ond yn mynd i effeithio ymhellach ar bresenoldeb ac, eto, addysg y plant druan. Mae'r neuadd yn fach, a bydd 2 ystafell ddosbarth lawn arall o blant yn rhoi rhagor o bwysau ar gyfleuster y ffreutur ynghyd â gwasanaethau. A ydyn nhw i gyd i fod i gael eu gwasgu fel sardinau? Neu ydych chi'n mynd i wahanu'r ysgol rhwng plant cynradd/plant iau? Er ein bod yn cerdded i'r ysgol, gall hyn fod yn hunllef fel y mae gyda'r safonau parcio/gyrru ofnadwy o amgylch yr ysgol. Ni fydd ychwanegu rhagor o ddisgyblion o ysgol sydd 40+ munud ar droed i ffwrdd ond yn cael effaith bellach ar y tagfeydd, llygredd/allyriadau a'r perygl i blant sy'n cerdded i ac o'r ysgol.
- Fel rhiant i blentyn sy'n ofalwr am fy mam sy'n byw yn roseheyworth mae'n niweidiol i'm plentyn aros yn ysgol roseheyworth felly er lles yr holl blant a theuluoedd sydd yn yr un sefyllfa dylai'r ysgol aros ar agor.
- Fel aelod o staff rhan-amser yn Ysgol Roseheyworth a hefyd goruchwyliwr amser cinio wrth gefn, cael effaith ddinistriol ar fy mywyd a sefydlogrwydd ein cymuned. Fel llawer o'm cydweithwyr, rwy'n wynebu'r posibilrwydd o golli fy swydd neu gael fy ngorfodi i adleoli neu dderbyn cael fy adleoli i rywle arall, a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar fy mywoliaeth oherwydd fy rôl yn gofalu am fy mam. Mae'r mwyafrif ohonom sy'n gweithio yn y rolau hyn yn fenywod sy'n dibynnu ar leoliad yr ysgol yn agos at adref fel y gallwn gydbwyso gwaith â gofal plant a chyfrifoldebau gofalu. Os bydd yr ysgol yn cau, byddai dod o hyd i waith rhan-amser addas yn lleol yn hynod anodd, ac mae teithio ymhellach yn rhywbeth sy'n syml ddim yn realistig i lawer ohonom. Byddai hyn nid yn unig yn effeithio ar ein teuluoedd ond gallai ddyfnhau'r amddifadedd a deimlir eisoes yn yr ardal, gan gael gwared ar gyflogaeth sefydlog o gymuned sy'n dibynnu arni.
- Fel aelod o staff rhan-amser â 3 rôl yn Ysgol Roseheyworth, byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith ddinistriol ar fy mywyd a sefydlogrwydd ein cymuned. Fel llawer o'm cydweithwyr, rwy'n

wynebu'r posibilrwydd o golli fy swydd neu gael fy ngorfodi i adleoli neu dderbyn cael fy adleoli i rywle arall, a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar fy mywoliaeth. Mae'r mwyafrif ohonom sy'n gweithio yn y rolau hyn yn fenywod sy'n dibynnu ar leoliad yr ysgol yn agos at adref fel y gallwn gydbwyso gwaith â gofal plant a chyfrifoldebau gofalu. Os bydd yr ysgol yn cau, byddai dod o hyd i waith rhan-amser addas yn lleol yn hynod anodd, ac mae teithio ymhellach yn rhywbeth sy’n syml ddim yn realistig i lawer ohonom. Byddai hyn nid yn unig yn effeithio ar ein teuluoedd ond gallai ddyfnhau'r amddifadedd a deimlir eisoes yn yr ardal, gan gael gwared ar gyflogaeth sefydlog o gymuned sy'n dibynnu arni.

- Fel preswylydd nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn, gormod o draffig ar Stryd Tyleri. Damwain yn aros i ddigwydd.
- Fel preswylydd ehangach ardal y Chwe Chloch, bydd hyn yn achosi hyd yn oed mwy o draffig nag sydd ar hyn o bryd ac mae parcio yn ofnadwy o amgylch yr ysgol. Rwy'n credu y bydd hyn yn achosi mwy o ddamweiniau yn yr ardal, mae'n rhaid i ni feddwl am ddiogelwch y plant a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Fel athro a rhiant, rwy'n pryderu am yr effaith y bydd cau campws Heol Roseheyworth yn ei chael ar faint dosbarthiadau ac ansawdd addysgol. Mae staff ac adnoddau eisoes dan bwysau. Mae amsugno disgyblion ychwanegol i'r campysau sy'n weddill yn creu risg o gynyddu maint dosbarthiadau, lleihau sylw unigol, a rhoi rhagor o bwysau ar athrawon a staff cymorth. Bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar gynnydd, llesiant ac ymddygiad disgyblion - yn enwedig i blant iau a'r rhai y mae arnynt angen cymorth ychwanegol.
- Fel rhiant i blentyn a aeth i Roseheyworth. Roedd y gefnogaeth a gafodd yn anhygoel. Rwy'n credu y bydd cau’r safle’n niweidiol nid dim ond i'r plant presennol ond i'r holl blant yn y dyfodol. Ailystyriwch eich penderfyniad os gwelwch yn dda
- Fel rhywun sy'n gweithio gyda phlant ag ADY yn yr ardal, gan gynnwys yn CDdA Roseheyworth, ni allaf weld sut bod hyn yn deg â charfan o blant y mae angen ystyriaeth sensitif i'w gofal. Teithio - nid yw llawer o'r teuluoedd rwy'n gweithio gyda nhw yn gyrru ac ni allant gael mynediad at gludiant cyhoeddus yn hawdd oherwydd ADY eu plentyn. Bydd teithio o ardal Roseheyworth i'r ddwy ysgol arall yn anodd i deuluoedd nad oes ganddynt fynediad at eu cludiant eu hunain. Meintiau dosbarthiadau – rwyf wedi ymweld â CDdA Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch ac mae’r dosbarthiadau yno’n fawr yn barod. Mae llawer o'r plant rwy'n gweithio gyda nhw yn cael mynediad at ddarpariaeth Nyth lai y mae ei hangen arnynt oherwydd bod arnynt angen lefel uchel o oruchwyliaeth gan oedolion i gadw’n ddiogel, cwricwlwm synhwyraidd wedi'i addasu ac i osgoi gorlwytho synhwyraidd o ystafell ddosbarth brysur. Bydd uno darpariaeth ADY yn cynyddu maint dosbarthiadau eto.
- Oherwydd nad wyf am golli fy 2 swydd yn yr ysgol hon
- Oherwydd addysg y plant!
- A minnau’n un o'r disgyblion cyntaf erioed i fynychu'r ysgol hon ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen. Mae'n drist i mi weld cynnig y cyngor i gau'r ysgol berffaith hon gyda'r esgus ei bod wedi dadfeilio. Er nad oes gennyf Blant fy hun, gallaf yn sicr ddeall y bydd hyn nid yn achosi straen a tharfu yn unig i lawer o rieni yn yr ardal leol hon ond hefyd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol hon ar hyn o bryd. Byddent wedi magu hyder, sgiliau bywyd a chymeriad o fewn y waliau hyn, a hwythau yn awr yn wynebu cyfnod ansicr mewn oedran mor ifanc. Os gallaf fi ddeall hynny, rwy'n ei chael hi'n anodd bod y bobl sy'n gwneud y penderfyniad hwn, yn methu â deall hynny. Neu efallai mai’r gwir yw eu bod yn ei wneud a hwythau’n syml ddim yn poeni. Fel Cyngor lleol, dylech fod yn cefnogi eich preswylwyr ac yn dod o hyd i atebion i ddileu amgylchiadau fel hyn. Er mwyn y nefoedd, rydym yn talu digon o dreth gyngor i chi wneud hynny. Am unwaith, rhowch eich cymuned yn gyntaf ac ymladdwch dros yr hyn sy'n iawn. Rwy'n siŵr y byddech chi'n cael eich parchu llawer mwy amdano.
- Mae Eglwys y Bedyddwyr Bethany ger Campws y Chwe Chloch. Mae'r ffyrdd o amgylch campws y Chwe Chloch yn llawn tagfeydd ar amseroedd gollwng a chasglu o’r ysgol. Mae ceir yn parcio bob ochr i'r ffordd, gan ei gwneud hi'n anodd iawn gyrru heibio os oes cerbyd yn dod tuag atoch chi. Mae lleoedd parcio yn y maes parcio bob amser yn brin gan bod y maes parcio yn cael ei ddefnyddio gan staff addysgu, rhieni, ymwelwyr â Thŷ Ebwy Fach a defnyddwyr yr eglwys. Mae’n anorfod y bydd y tagfeydd hyn yn gwaethygu gyda mewnlifiad o ddisgyblion newydd yn teithio o ochr arall y dref i gael eu gollwng. Bydd pwysau parcio ceir hefyd yn cynyddu gyda staff addysgu ychwanegol, yn ogystal ag ar adegau gollwng plant.

- Mae fy mhlentyn yn y campws hwn ac nid wyf yn teimlo bod digon o le yn y campws arall. Mae'r ddau yn hapus ac wedi ymgartrefu ac rwy'n credu y bydd tarfu ar y plant a'u symud yn effeithio ar eu haddysg a'u hapusrwydd. Mae'n ysgol hyfryd gyda llawer o blant hapus ac athrawon da. Peidiwch â chau'r ysgol os gwelwch yn dda
- Aeth fy nau blentyn i'r ysgol hon a byddai'n drist iawn ei gweld yn wag ac yn peidio â chael ei ddefnyddio, a hithau'n ysgol mor hyfryd.
- Mae fy mhlant i gyd wedi mynychu'r ysgol hon. Byddai'n niweidiol i blant yn yr ardal na fyddent yn gallu teithio i ysgolion eraill. Heb sôn am y cynnydd yn nifer y dosbarthiadau sy'n cael effaith ar allu plant i ddysgu.
- Mae fy nau blentyn wedi cael eu baricedio neu eu hanfon allan o ystafelloedd dosbarth oherwydd ymddygiad ymosodol yn eu dosbarthiadau ar fwy nag un achlysur. Fel preswylydd rwy'n pryderu am y mewnlifiad o draffig ar y stryd, ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn cerdded y pellter o Roseheyworth a byddant yn dod â cheir, wythnos diwethaf roedd angen i riant a oedd yn aros am eu plentyn symud i mi oherwydd eu bod yn blocio'r ffordd. Rwyf hefyd yn pryderu am y modd y bydd hyn yn tarfu ar y plant, yn enwedig gan y bydd fy mab ym mlwyddyn 6 ym mis Medi.
- Mae gan y ddwy ysgol arall ddosbarthiadau mawr eisoes ac mae ceisio uno ysgolion trwy ychwanegu disgyblion at ysgol sydd eisoes yn llawn hyd eithaf ei chapasiti yn niweidiol i bob plentyn.
- Mae Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn llawn hyd eithaf eu capasiti, nid oes lle ar ôl yn yr ystafelloedd dosbarth. Nid yn unig dydy'r plant ag anghenion ychwanegol ddim yn cael digon o gymorth fel ag y mae, mae'r traffig a'r parcio'n ofnadwy
- Mae sefyllfa'r ceir ar gampws Tyleri yn ofnadwy ac os bydd disgyblion Roseheyworth yn cael eu trosglwyddo i gampws Tyleri bydd yn erchyll
- Bydd addysg plant yn dioddef.
- Bydd gan blant o Arael View/Y Rhodfeydd ac ati ffordd ofnadwy o bell i fynd i gyrraedd yr ysgol yn enwedig mewn tywydd gwael. Rydym yn byw yn un o'r ardaloedd mwyaf amddifadus a phrin bod rhai pobl yn gallu fforddio bwydo eu plant a chadw'r golau ymlaen, heb sôn am fforddio talu am deithio ar fws i'r ysgol, a gwlychu'n socian hyd yn oed wedyn oherwydd nad yw Campws Stryd Tyleri na Champws y Chwe Chloch ar y llwybr bws! Bydd dosbarthiadau hefyd mor orlawn, gyda phlant yn brwydro am sylw.
- Bu digon o darfu ar blant yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Covid). Mae'n gwbl ffiaidd bod eisiau cau ysgol nad yw ond wedi bod ar agor am 26 mlynedd, ac mae defnyddio'r costau cynnal a chadw fel esgus yn hollol bathetig. Rwy'n credu nad yw'r cyngor yn dweud y gwir am y rhesymau go iawn dros gau'r ysgol. Nid yn unig bydd cau'r ysgol yn tarfu'n ddiangen ar yr holl ddisgyblion, ble mae'r ystyriaeth ar gyfer plant ag ADY neu AAA a'r effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael arnynt? O safbwynt logistaidd, bydd yn hunllef. Ni all dimensiynau ystafell ddosbarth newid yn hudolus i ddarparu ar gyfer plant ychwanegol. Hefyd, sut mae rhieni nad ydynt yn gyrru ac sy'n byw yn rhy bell o gampysau i fod i sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel? Mae parcio yn gyfyngedig iawn yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch fel y mae.
- Mae angen yr ysgol hon ar blant yn Arael View a Roseheyworth gan bod yr ysgolion eraill yn rhy bell ac yn llawn i'r ymylon fel y mae.
- Ni ddylai plant Roseheyworth orfod cerdded yr holl ffordd i Stryd Tyleri i fynd i'r ysgol.
- Plant ac nid arian ddylai ddod yn gyntaf, hefyd mae iechyd meddwl mor bwysig i'r plant a'r staff addysgu. Nid ydych wedi meddwl am y naill na'r llall o'r ffactorau hyn.
- Mae angen meddwl am blant sy'n mynychu'r ysgol hon yn gyntaf. Mae'n amlwg nad ydych yn malio o gwbl am yr effaith y bydd hyn yn ei chael arnyn nhw!
- Mae addysg plant yn mynd i ddioddef yn aruthrol, mae bysiau i ysgolion yn creu perygl. Mae bysiau yn mynd i'r ysgolion hyn yn barod
- Bydd maint dosbarthiadau yn y ddwy ysgol arall yn rhy fawr. Sut y bydd rhieni plant Roseheyworth yn mynd â'r plant i gampws y Chwe Chloch/Abertyleri? Mae mynediad at y campysau hyn eisoes yn ofnadwy. Beth fydd yn digwydd i sesiynau mini me? Roeddwn i'n dibynnu arnyn nhw pan oedd fy merch yn ifanc.
- Mae angen cadw maint dosbarthiadau ar lefel sy'n cefnogi addysg fel blaenoriaeth, fy nealltwriaeth i yw bod yr ystafelloedd dosbarth yn y safleoedd eraill eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti a bydd ychwanegu mwy o blant at y cymysgedd yn niweidiol.
- Dosbarthiadau eisoes yn llawn yn y campws arall'

- Mae'r dosbarthiadau yn llawn yn awr heb ychwanegu plant eraill
- Mae dosbarthiadau ar gampws Tyleri eisoes yn fawr. Mae fy merch eisoes yn gorfod cael ei gwersi yn y coridor. Nid wyf yn gweld sut y bydd ychwanegu rhagor o blant at y campws yn dwyn budd.
- Mae dosbarthiadau yn Abertyleri eisoes yn orlawn.
- Dosbarthiadau yn rhy fawr. Bydd addysg yn dioddef yn arw. Pam cymaint o ddyled?
- Mae cau ysgol gynradd hyfryd a'i chyfuno â dwy arall yn syniad gwael oherwydd gall gael effaith negyddol iawn ar ddisgyblion a staff. Mae plant ifainc yn ffynnu mewn amgylcheddau cyfarwydd, anogol lle maent yn teimlo'n ddiogel, yn adnabyddus ac yn cael eu gwerthfawrogi; Gall eu tynnu o gymuned ysgol glòs achosi pryder, amharu ar gyfeillgarwch, ac effeithio ar eu hyder a'u dysgu. Mae ysgolion mwy, sy’n deillio o uno mwy nag un ysgol, yn aml yn golygu dosbarthiadau mwy a llai o sylw unigol, gan ei gwneud hi'n anoddach diwallu anghenion pob plentyn. Ar gyfer staff, gall yr ansicrwydd ynghylch colli swyddi, newid rolau, a chymudo hirach niweidio morâl a llesiant. Efallai y bydd athrawon a staff cymorth sydd wedi meithrin perthynas gref â theuluoedd yn teimlo bod eu hymroddiad a'u gwaith caled yn cael eu diystyru. Ar y cyfan, mae cau ysgol gynradd lwyddiannus yn creu risg o wanhau'r ymdeimlad o gymuned, sefydlogrwydd a gofal personol sydd mor hanfodol i ddatblygiad plant ac i dîm staff ymroddedig, llawn cymhelliant
- Mae cau ysgol gynradd sy'n ddim ond 26 oed yn anodd i’w gyfiawnhau, gan ei bod yn cynrychioli buddsoddiad cyhoeddus sylweddol a chymharol ddiweddar y dylid parhau i’w ddefnyddio yn hytrach na’i wastraffu. Mae'r adeilad yn debygol o fod yn bodloni safonau diogelwch, hygyrchedd ac addysgol modern yn well na llawer o ysgolion hŷn, gan wneud cau’r ysgol yn aneffeithlon. Y tu hwnt i'r strwythur ffisegol, mae gan yr ysgol rôl hanfodol fel hyb cymunedol, gan gefnogi teuluoedd lleol a meithrin ymdeimlad o berthyn, a fyddai'n cael ei golli pe bai'n cael ei chau yn llwyr. Byddai'r effaith ar blant ifainc yn sylweddol, gan y gall amseroedd teithio hirach darfu ar gyfeillgarwch, ac y gall newidiadau mewn amgylcheddau dysgu effeithio'n negyddol ar eu llesiant a'u datblygiad. Hefyd, byddai cau'r ysgol yn debygol o roi pwysau ar ysgolion cyfagos, gan arwain at orlenwi ac addysg o ansawdd gwaeth. Gallai hefyd gynyddu traffig a difrod amgylcheddol gan y byddai angen i fwy o blant deithio dros fwy o bellter. Ar ben hynny, buan iawn y gallai twf poblogaeth yn y dyfodol wneud y penderfyniad i gau yn un cibddall, gan bod ailagor ysgol yn llawer mwy costus a chymhleth na chadw un yn weithredol. Byddai colli staff profiadol a diwylliant sefydledig yr ysgol yn tanseilio parhad addysgol ymhellach, gan leihau dewis rhieni yn yr ardal. O ystyried ei bod yn bosibl bod datrysiadau amgen fel rhannu adnoddau neu ailstrwythuro timau arwain yn bodoli, dylai cau’r ysgol gael ei ystyried fel dewis olaf yn hytrach na cham angenrheidiol.
- Mae cau'r ysgol oherwydd pwysau ariannol a gostyngiad yn nifer y disgyblion yn anwybyddu'r gwerth hirdymor y mae'n ei ddarparu i ddisgyblion a'r gymuned. Mae'r ysgol hon yn cynnig amgylchedd cefnogol y mae llawer o ddisgyblion yn dibynnu arno. Byddai cau yn tarfu ar addysg ac yn rhoi straen ddiangen ar deuluoedd. Yn hytrach na chau'r ysgol, erfyniwn ar yr awdurdod i weithio gyda'r gymuned i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy.
- Byddai cau'r ysgol yn benderfyniad gwael..
- Byddai cau'r ysgol yn creu pryderon sylweddol o safbwynt ymarferol a diogelwch ar gyfer disgyblion, rhieni a staff. Mae'r ffyrdd a'r ardaloedd parcio o amgylch Stryd Tyleri a champws y Chwe Chloch eisoes yn rhai â thagfeydd mawr yn ystod amseroedd gollwng yn y bore ac amseroedd casglu yn y prynhawn. Ni fyddai ychwanegu 120 neu fwy o ddisgyblion eraill ond yn gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd. Byddai mwy o draffig yn cynyddu risgiau diogelwch i blant, rhieni, a thrigolion lleol. Y tu hwnt i bryderon ynghylch traffig, byddai lleoli dros 120 o ddisgyblion ychwanegol mewn dwy ysgol bresennol yn rhoi pwysau sylweddol ar le ac adnoddau. Mae ystafelloedd dosbarth, neuaddau, cyfleusterau ffreutur, a mannau parcio eisoes yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'n bwysig ystyried a oes gan y ddau adeilad y gallu i ddarparu ar gyfer cynnydd o'r fath heb beryglu gweithrediadau dyddiol. Ceir pryderon hefyd ynghylch ansawdd addysg a goruchwyliaeth. A fyddai pob disgybl yn parhau i gael addysg o’r un safon? A oes digon o staff cymwysedig i gefnogi a goruchwylio'r nifer cynyddol o blant yn briodol? Gall ystafelloedd dosbarth gorlawn effeithio ar ddeilliannau dysgu a lleihau faint o sylw y mae pob plentyn yn ei gael. Hefyd, byddai llawer o deuluoedd yn wynebu teithiau hirach. I blant yn Roseheyworth, gallai'r hyn a oedd unwaith yn daith gerdded fer am ddwy funud i gyrraedd yr ysgol fod yn daith ddeng munud mewn car, gan dybio bod gan rieni neu warcheidwaid fynediad at gludiant. Nid oes gan bob teulu hynny. Gallai'r newid hwn greu straen ddiangen a heriau logistaidd i lawer o aelwydydd. Am y rhesymau hyn, nid yw'n ymddangos mai cau'r ysgol sydd orau er lles y plant, teuluoedd, na'r gymuned ehangach.

- Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar bob plentyn
- Bydd cau'r ysgol hon yn cael effaith enfawr ar ein cymuned, aeth aelodau fy nheulu i'r ysgol hon ac mae mor bwysig ei bod yn aros ar agor
- Cau Ysgol Heol Roseheyworth *Yr ysgol sy’n lleol i’w cartref ddylai gael ei dyrannu i rieni lleol. Pe bai hyn yn digwydd, byddai nifer y disgyblion yn Ysgol Heol Roseheyworth yn uwch. *Gallai teuluoedd newydd symud i'r ardal gyda mwy o blant. *Mae ardal Arael View / Roseheyworth eisoes yn gymuned ynysig. Mae llogi bws yn gost enfawr, ynghyd â thacsis lle bo'n berthnasol. Ysgol Heol Roseheyworth yw canolbwynt y gymuned gyfan. *Fel un o Gyn-Lywodraethwyr yr Ysgol, gwelais y cyfleoedd chwaraeon yn Ysgol Heol Roseheyworth i'r plant lleol hyn gan bod ganddynt fynediad at y Caeau Chwaraeon yn y Maes Sirol drws nesaf. Nid oes gan Gampws y Chwe Chloch fynediad at gae chwaraeon dynodedig ar gyfer yr ysgol. Mae’r caeau gwyrdd a byd natur o'u hamgylch yn cael effaith ar iechyd meddwl a chorfforol. *A hithau’n swatio yn y dyffryn, mae gan Ysgol Heol Roseheyworth olygfeydd gwyrdd tawel ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol. Mae hyn yn sicr yn drysor yng nghoron Campysau CDdA. *Nid yw'r ffordd i Gampws Stryd Tyleri yn ffafriol ar gyfer mynediad â cherbydau. Mae gan y stryd eisoes breswylwyr yn parcio y tu allan i'w cartrefi sy'n ei gwneud hi'n anodd i 2 gar fynd heibio i’w gilydd. Mae amser agor yr ysgol yn y bore a diwedd y diwrnod ysgol yn ddigon â gwylltio pob modurwr sy'n mentro i fyny Stryd Tyleri. Mae'r strydoedd sy'n arwain at Gampws Stryd Tyleri yn profi tagfeydd mawr ac mae ganddynt nifer o dyllau. *Mae cyfleusterau parcio ceir yn annigonol yn Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch ar gyfer gofalwyr sy'n gollwng dysgwyr. Parcio annigonol ar Gampws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch heb ychwanegiadau pellach. *Baw cŵn ym mhobman. Mae’r ysgarthion yn mynd ar esgidiau a phramiau pawb. Perygl enfawr i olwg rhywun wrth dynnu'r ysgarthion ci oddi ar esgidiau a phramiau ac ati. *Byddai rhieni â phlant o wahanol oedrannau ynghyd â babanod mewn pramiau yn cael trafferth mynd â disgyblion ar droed i Gampws y Chwe Chloch neu Stryd Tyleri o Ystâd Arael View neu Ystâd Roseheyworth. Pe bai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion o'r lleoliadau hyn a hynny ar gyfer disgyblion yn unig, byddai datgysylltiad enfawr rhwng rhieni ac athro/athrawes dosbarth, ac o bosibl ysgol, eu plentyn. *Mae angen i Gymuned Ddysgu Abertyleri gadw o leiaf un ysgol gynradd yn ei phortffolio sy'n adeilad un llawr er mwyn hwyluso mynediad ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae'r lifft ar Gampws Stryd Tyleri sy'n galluogi'r Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 i ddigwydd ar y llawr 1af yn torri i lawr yn rheolaidd ac mae’n anochel y byddai hynny’n gwneud mynediad i gadeiriau olwyn yn amhosibl gan mai'r grisiau y tu mewn a'r grisiau allanol yw'r unig lwybr i'r ystafelloedd dosbarth ar y llawr uchaf.
- Gwastraff arian llwyr!!
- Yn bryderus y bydd gormod o blant ym mhob dosbarth, efallai na fyddant yn cael yr addysg maen nhw'n ei haeddu
- Yn pryderu y bydd maint dosbarthiadau’n cynyddu yn y dyfodol a hynny’n effeithio ar ansawdd dysgu i ddisgyblion. Effaith gyffredinol ar ddeilliannau dysgu disgyblion.
- Pryderon am ddarpariaeth y dosbarth Nyth sy'n cefnogi fy mhlentyn ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtostig - heb ysgol roseheyworth nid oes ganddo unrhyw leoliad cymorth i allu mynychu'r ysgol yn ddiogel.
- Pryderon am ddarparu'r dosbarth Nyth sy'n cefnogi fy ŵyr ag awtistiaeth yn ysgol Roseheyworth – heb hynny nid oes ganddo unrhyw leoliad cymorth i allu mynychu'r ysgol yn ddiogel.
- Mae ystyried cau ysgol AAA / ADY sy'n llai na 30 oed yn rhyfedd iawn, o ystyried bod safleoedd ysgolion cynradd hŷn yn fwy costus i'w cynnal a’u cadw ac ati, does bosib, ac mae’r potensial y gallai grwpiau brodyr a chwiorydd gael eu hanfon i ysgolion ar wahân yn golygu bod angen i’r cynnig gael ei fireinio'n drylwyr yn fy marn i er mwyn atal hynny cyn unrhyw beth arall yn enwedig os yw'r penderfyniad yn mynd yn ei flaen ni waeth beth mae'r arolygon hyn yn ei ddangos am farn y cyhoedd boed yn erbyn neu o blaid.
- Annwyl Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, rwy'n ysgrifennu fel aelod o gymuned ehangach Abertyleri a hefyd fel rhywun ag wyrion sy'n mynychu CDdA i fynegi fy ngwrthwynebiad cryf i'r bwriad i gau Ysgol Roseheyworth. Mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn effeithio ar y teuluoedd y mae eu plant yn mynychu'r ysgol; Mae'n effeithio ar bob un ohonom sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal hon. Mae’n anochel y bydd symud gwerth ysgol gyfan o blant i’r Chwe Chloch a Stryd Tyleri, y mae’r ddwy ohonynt eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti, yn arwain at ystafelloedd dosbarth gorlawn a staff sydd dan bwysau. Nid dyma'r math o amgylchedd dysgu y mae plant ein tref yn ei haeddu, ac mae'n creu risg o leihau ansawdd addysg ledled Abertyleri yn

ei chyfanrwydd. Rwyf hefyd yn eithriadol o bryderus am y cynnydd sylweddol mewn traffig y byddai'r cynnig hwn yn ei greu o amgylch y Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae'r ardaloedd hyn eisoes yn cael trafferth gyda thagfeydd, problemau parcio, a heriau diogelwch ar y ffyrdd yn ystod amseroedd gollwng a chodi y tu allan i'r ysgolion. Bydd ychwanegu rhagor o blant at y safleoedd hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn un beryglus. Mae'r ffyrdd lleol yn syml yn methu ag ymdopi â'r niferoedd uwch o geir, bysiau a cherddwyr, gan greu risg wirioneddol a diangen i blant, rhieni a phreswylwyr. Am y rhesymau hyn, erfyniaf yn daer ar y Cyngor i ailystyried. Byddai cau Ysgol Roseheyworth nid yn unig yn cael gwared ar ased cymunedol gwerthfawr ond byddai hefyd yn creu peryglon diogelwch y gellir eu hosgoi ac yn rhoi pwysau enfawr ar ysgolion eraill yn y dref. Mae Abertyleri yn haeddu datrysiadau sy'n diogelu addysg ein plant ac yn diogelu ein cymuned, nid penderfyniadau sy'n peryglu'r naill a'r llall.

- Mae gwneud hyn yn gywilyddus. Ydyn nhw wedi meddwl am rieni sy'n gweithio a fydd yn gorfod teithio ymhellach i fynd â'u plant i'r ysgol? Ydyn nhw wedi meddwl am y tagfeydd traffig y mae'n mynd i'w hachosi? Mae'n ddigon drwg ar gampws ysgol Tyleri nawr. Heblaw am y ffaith bod yr ysgol heb fod yno am yn hir iawn, am wastraff arian.
- Cywilyddus, mae'r dosbarthiadau eisoes yn llawer rhy fawr, hynny yw gyda 3 champws ysgol gynradd, poeni am ddysgu fy mhlentyn, mae hwn yn benderfyniad syfrdanol
- Ddim yn hoffi'r ffordd lechwraidd y cafodd hyn ei ddatgelu.
- Tarfu ar blant ag anableddau a hwythau wedi ymgartrefu yn yr ysgol hon gan eu symud i ystafell ddosbarth orlawn a pheri iddynt fod ar ei hôl hi yn sylweddol
- Ddim yn cytuno â dosbarthiadau mwy yn yr ysgolion eraill sy'n golygu mwy o bwysau ar staff a phrofiad dysgu gwaeth i ddisgyblion. Yn enwedig y rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Byddai'r pellter i'r ysgolion eraill ar gyfer rhieni sy'n byw ger ysgol roseheyworth yn fawr.. Yn enwedig i'r rhai sy'n gorfod cerdded heb gar/trwydded yrru. Ysgolion cymunedol bychain oedd yn rhoi nerth i bentrefi, ac mae'r ysgolion ehangach hyn yn mynd i gael effeithiau niweidiol ar bawb.
- Ddim yn cytuno â chau ysgol Roseheyworth
- Ddim yn cytuno â chau'r ysgol
- Peidio â'i chau
- Ddim yn cefnogi'r cynnig
- Nid yw'n ymddangos bod angen cau'r ysgol hon. Gormod o anfanteision o'i gymharu â manteision.
- Ddim yn cytuno â Chau'r Ysgol
- Peidiwch â chau'r ysgol
- Ddim yn cytuno â chau'r ysgol. Bydd yn tarfu ar blant a'r holl staff.
- Peidiwch â chau Ysgol Roseheyworth
- ddim yn ei hoffi - cadwch roseheyworth
- Ddim yn cefnogi cau'r ysgol
- Ddim yn cefnogi cau'r ysgol
- Ddim yn meddwl y dylai gau, mae'n angenrheidiol i blant Roseheyworth.
- Gall addysg yn y dyffryn fod yn wael iawn. Mae clywed bod ystafelloedd dosbarth eisoes yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti gyda disgwyliadau i ychwanegu mwy o ddisgyblion at yr ystafelloedd dosbarth yn anghredadwy.
- Mae addysg o'r pwys mwyaf, peidiwch â chau ysgol roseheyworth
- Bob tro y byddaf yn mynd heibio'r ysgol hon yn y boreau mae'r mwyafrif llethol o rieni yn dod â'u plentyn yma ar droed o'r ardal gyfagos nawr pe na bai'r ysgol hon yma sut ydych chi'n tybio y byddai'r plant tlawd hyn yn cerdded i ysgol ymhell i ffwrdd o'u cartref, byddech chi'n ychwanegu mwy o berygl nad yw'n angenrheidiol a minnau wedi byw yn yr ardal hon o Abertyleri trwy gydol fy mywyd fe es innau i'r ysgol hon gan nad oedd fy rhieni'n gyrru ac roedd yn agos iawn atom ni rwy'n gwybod pa mor beryglus yw'r daith gerdded i gyfeiriad y dref oherwydd gyrwyr anghyfrifol ac rwy'n dal i'w weld nawr pan fyddaf yn yr arhosfan bysiau yn mynd â'm mab i'w ysgol ef, rydych chi wedi diystyru'n llwyr y plant a'r rhieni wrth ymdrin â'r mater hwn ac rwy'n gobeithio y bydd pob un yn ymladd yn ôl ac yn dangos eich bod chi'n gwneud penderfyniadau eithafol a gwirion, Hoffwn hefyd ychwanegu bod gan y 2 ysgol y byddech chi'n gwasgu'r plant hynny i mewn iddynt ddigon o broblemau o ran gorlenwi fel y mae, felly rwy'n cynnig eich bod yn bwrw golwg ar hynny yn gyntaf.
- Ofnau am orlenwi mewn safleoedd eraill. Tarfu ar y bobl ifanc ar y safle presennol gan arwain at effaith niweidiol ar ddysgu. Mwy o bellter i deithio i safleoedd eraill sy'n arwain at fwy o ddefnydd o geir gan achosi mwy o dagfeydd o amgylch y safleoedd eraill.

- Materion ariannol- mae'n broblem gyda gormod o staff ar y rhengoedd uchaf. Mae angen bwrw golwg ar y strwythur staffio. Mae'r cyfnod cynradd yn cael ei gosbi am hunllef 3-16.
- Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, rwy'n rhiant i ddau o blant yn Roseheyworth. Mae fy mhlentyn ieuengaf ym mlwyddyn 1. Mae hi wedi cael dechrau anodd i fywyd a hithau wedi dioddef camdyfiant clun ac wedi treulio 18 mis mewn cast corff llawn o'i brest i lawr i'w thraed. Mae hi'n ymddiried yn ei hathrawon presennol yn Roseheyworth ac wedi meithrin perthynas wych â hwy ac mae'n teimlo'n ddiogel yn ei hamgylchedd. Rwy'n credu y byddai ei dadwreiddio o'i lle diogel yn niweidiol i'w hiechyd meddwl a'i llesiant. Mae hi'n cael trafferth mewn amgylcheddau prysur ac mae hyd yn oed meddwl am fod mewn dosbarth mwy nag ydyw ar hyn o bryd yn ein dychryn ni ac yn ei dychryn hithau. Mae hi wedi ffynnu ers y meithrin ac wedi dod yn un o ddisgyblion mwy abl a thalentog Roseheyworth hyd yn oed. Mae'n gwneud i'm merch, i mi ac i'm gŵr deimlo'n orbryderus tu hwnt am y posibilrwydd y gallai symud ysgol. Mae'r pryder y gallai ein plentyn syrthio ar ei hôl hi'n annealladwy ar hyn o bryd. Mae ein plentyn arall ym mlwyddyn 4 ar hyn o bryd. Unwaith eto, mae'n dibynnu'n helaeth ar yr ymddiriedaeth a'r berthynas y mae wedi'u meithrin gyda'r staff a'r diogelwch y mae'n ei deimlo o fewn yr adeilad yn Roseheyworth. Mae ei ddosbarth gyda'r lleiaf yn Roseheyworth. Ar hyn o bryd mae 17 o blant. Mae'n ffynnu yn y dosbarth hwn fel y mae ei ffrindiau hwythau. Mae'n 9 oed ac mae ei sgiliau darllen ar lefel uwchradd ar hyn o bryd. Byddai ei roi mewn dosbarth llawer mwy yn effeithio 100% ar ei addysg. Ar hyn o bryd mae ei athro yn y sefyllfa i allu darparu digon o ddysgu wedi'i dargedu sydd wedi bod o fudd mawr i'n plentyn. Rwyf wedi gofyn i'm mab sut y byddai'n teimlo mewn dosbarth mwy ac ysgol fwy. Mae'n teimlo'n bryderus iawn wrth feddwl am hynny ac nid wyf yn synnu o ystyried mai dim ond 9 oed ydyw. Pe bai'r ysgol yn cael ei chau, byddai ein mab yn cael ei symud ym mlwyddyn olaf yr ysgol gynradd. Ni allaf ddweud wrthych pa mor ofidus ydym ynghylch hyn. Ei ddadwreiddio ar adeg niweidiol yn ei addysg gynradd. Tarfu ar adeg pan ddylai deimlo'n fwyaf sefydlog cyn trosglwyddo i'r ysgol gyfun. Mae ein dau blentyn hefyd yn defnyddio darpariaeth clwb brecwast. Mae hyn yn rhywbeth na allwn fyw hebddo gan bod y ddau ohonom yn rhieni sy'n gweithio'n llawn-amser. Gwyddom fod 60 o blant yn defnyddio ein darpariaeth clwb brecwast yn roseheyworth ar hyn o bryd. Mae'n achos pryder i ni y gallai fod rhestr aros neu ddim lleoedd ar y campysau eraill. Rydym hefyd yn meddwl tybed ble fydd bwyd a hwyl yn cael ei gynnal yn ystod hanner tymor? Oherwydd ar hyn o bryd, mae disgyblion o bob un o'r 3 champws cynradd yn mynychu Roseheyworth ar gyfer hyn. Rydym hefyd yn poeni fel rhieni am yr agweddau o safbwynt diogelwch ar y ddau gampws arall. Rydym yn gwybod bod y tagfeydd yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn ofnadwy ar amseroedd gollwng a chasglu a bydd ychwanegu ceir rhieni Roseheyworth at hyn yn cynyddu'r siawns o ddamweiniau gyda thraffig a cherddwyr. Byddai sefyllfaoedd parcio yn ofnadwy yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch gyda thraffig ychwanegol a byddai'n sicr yn rhoi pwysau diangen ychwanegol ar ein gwasanaethau brys hefyd. Nid yw llwybrau cerdded o Roseheyworth i'r ddau gampws arall yn ddiogel, a llwybrau bysiau a phrif ffordd yr A467 yw'r unig lwybrau i rai plant. Mae yna rieni hefyd yn roseheyworth nad ydynt yn gyrru, mae ganddynt blant mewn grwpiau mini me ac yn yr ysgol. Sut fydd hi'n bosibl iddynt ymdopi? Rwyf hefyd yn cadeirio'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau yn Roseheyworth. Rydym wedi bod yn codi arian yn ddiflino dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer pob trip ysgol ac rydym yn llwyr ariannu teithiau nad yw dosbarthiadau yn gallu eu fforddio. Rydym wedi bod yn codi arian ac yn ddiweddar rydym wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer arwynebau ac offer chwarae newydd. Rydym yn darparu digwyddiadau mawr y mae'r gymuned gyfan yn dod at ei gilydd ynddynt ac yn eu mwynhau. Yr ysgol yw calon Roseheyworth a byddai ei cholli hi a'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau yn ddinistriol i'r gymuned leol. Fel aelod o'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau a rhiant rwyf wedi meithrin perthynas wych yn llawn ymddiriedaeth ag athrawon a staff yn roseheyworth. Rwy'n poeni am y pwysau a fyddai ar athrawon o ganlyniad i ddosbarthiadau mwy a chynnwrf wrth symud o ysgol y mae rhai wedi gweithio ynddi am 25 mlynedd. Mae gennym lawer o blant ag ADY yn Roseheyworth. Byddai'r cynnwrf ar gyfer y plant hyn yn ddinistriol. Yn ogystal â'r effaith ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant, byddai risg i'w haddysg yn wyneb y tebygolrwydd enfawr o syrthio ar ei hôl hi ac i'w presenoldeb hefyd. Byddai symud y plant hyn i ddosbarthiadau mwy, i ffwrdd o'u lle diogel a chael gwared ar eu clymau gyda'u hathrawon presennol yn drychinebus i'w hiechyd a'u haddysg. Does gen i ddim amheuaeth am hynny, yn enwedig ar ôl treulio cymaint o amser gyda nhw ers dod yn gadeirydd y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau. Mae gennym nifer o ofalwyr ifainc yn Roseheyworth. Yn achos un yn arbennig mae'r person maen nhw'n gofalu amdanynt yn byw yn union gyferbyn â gât yr ysgol.

Rhaid i'r plant hyn barhau i gael eu haddysg yn Roseheyworth fel y gallant aros yn hygyrch i'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt. Mae'r straen y byddai tarfu arnynt yn ei hychwanegu at fywydau'r plant hyn yn gwbl annerbyniol. Ceir hefyd blant sydd wedi symud i'r campysau cynradd eraill oherwydd materion bwlio. Rwy'n gwybod bod nifer o rieni a disgyblion yn poeni go iawn am y mater hwn. Erfyniad arnoch i ymlynu wrth eich datganiad cenhadaeth newydd fel cyngor Marmot - Gwrandewch ar eich cymunedau a chymerwch gamau beiddgar i wneud ein bywydau'n decach ac yn iachach. Rydym yn gofyn i chi wneud y penderfyniad cywir, i wrando arnom ni. Peidiwch â chau ein hysgol werthfawr iawn.

- Yn gyntaf, mae dosbarthiadau ar gampws y Chwe Chloch eisoes yn cael eu rhannu'n ddau ddosbarth ar wahân, er enghraifft blwyddyn 4 a blwyddyn 4-5, mae hyn yn cyfyngu ar rai disgyblion ac yn awr yn eu hatal rhag ceisio gwella eu hunain, yn ail mae'r sefyllfa parcio ar gampws y Chwe Chloch yn ofnadwy, mae 3 cilfach i bobl anabl yn yr ysgol (sydd bob amser yn llawn) mae'r cilfachau eraill i bobl anabl ym maes parcio'r Gwarcheidwad bob amser yn llawn, Mae'r maes parcio yn mynd yn orlawn ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac yn dod yn berygl i'r plant sy'n gadael yr ysgol, mae'r parcio y tu allan i'r ysgol i fyny'r ffordd yn ofnadwy hefyd, os ydych chi'n dod i lawr tuag at yr ysgol tua 3pm ac yn digwydd dod benben â char sy'n dod y ffordd arall mae hyn yn achosi rhwystr llwyr lle na all neb symud nes bod un person difeddwl yn symud ei gar sydd wedi'i barcio mewn lle peryglus neu wedi'i barcio ar ffurf parcio dwbl, Os ydych chi'n meddwl ychwanegu rhagor o ddisgyblion at gampws y Chwe Chloch, gan olygu mwy o geir (os ydych chi'n mynychu Roseheyworth oherwydd eich bod chi'n byw yn agos y mae hynny, nid yw'n bellter cerdded addas oddi yno i gampws y Chwe Chloch), bydd yn sefyllfa waeth byth ar ddiwedd y dydd/dechrau'r dydd, rydych chi'n siarad gyda'r pennaeth ynglŷn â'r problemau hyn ac mae hi'n trosglwyddo'r bai i'r cyngor (gan ddweud mai maes parcio y mae'r Cyngor yn berchen arno ydyw) ac rydych chi'n siarad gyda'r Cyngor ac maen nhw'n rhoi'r bai ar yr ysgol gan ddweud mai maes parcio'r ysgol ydyw, mae'n syniad ofnadwy i wasgu llwyth o blant i'r ysgolion eraill, pan gawsant eu dylunio a'u hadeiladu rwy'n siŵr eu bod wedi'u hadeiladu o fewn y mesuriadau ar gyfer y plant/pobl disgwyliedig a oedd i fod i fynychu ar ôl eu cwblhau, Rwy'n credu bod rhoi plant ychwanegol i mewn yn fesur iechyd a diogelwch y bydd Blaenau Gwent yn ei anwybyddu gan drosglwyddo'r bai i'r penaethiaid pan fydd popeth yn mynd o'i le!
- Yn gyntaf, mae'r broses o amgylch y cynnig hwn wedi bod yn hollol affwysol. Rwy'n gweithio i'r GIG fel uwch reolwr, ac fe'm dychrynwyd fod staff, rhieni a phlant wedi cael gwybod trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dim hysbysiadau blaenorol trwy'r ALl na'r Corff Llywodraethu. Yn ail, o ran y ffordd y mae Uwch Dimau Rheoli ar draws CDdA i gyd. Gallech arbed £500,000 yn llythrennol ar Uwch Aelodau o Staff yn unig. Pam fod angen Uwch Bennaeth, Dau Ddirprwy Bennaeth sy'n goruchwylio CDdA. Yna pennaeth a dirprwy bennaeth ar draws pob campws a hynny cyn cyfrif 5 pennaeth cynorthwyol yr ysgol gyfun. Rwy'n credu bod angen mynd i'r afael â'r strwythur cyn cau ysgolion. Taflu arian i ffwrdd fel conffeti. Hefyd, os oes gan yr ysgol ddyled dros £900,000, pwy sy'n atebol am adael i hyn gyrraedd y pwynt hwnnw? Mae'r ysgol yn cyflogi rheolwr cyllid? Os ydyn nhw'n atebol, mae hynny'n 30-40k arall y gallwch chi ei arbed. Rhowch reolwr busnes cymwys i oruchwylio'r ysgol i gyd ac i wneud y toriadau angenrheidiol. Pam fod angen i chi fod â 4 ffreutur? Pam na allwch chi ganoli'r ddarpariaeth arlwyo gan a'r cludiant i'r campysau eraill? Unwaith eto bydd hynny'n arbed staff. Y tu allan i oriau ysgol, pam na ellir defnyddio'r adeiladau ar gyfer gweithgareddau cymunedol? Rhoi neuaddau ar osod, Rhoi ystafelloedd dosbarth ar osod, Cynnig gwersi i oedolion a dod â chwmnïau trydydd parti i rentu'r cyfleusterau. Cymaint o gyfleoedd, ond yn anffodus mae CBSBG yn rhy ddiog i archwilio cyfleoedd. Yn anffodus, trwy gau'r ysgol hon rydych chi'n cosbi'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a difreintiedig sydd heb fodd i gyrraedd y campysau eraill. Rwy'n credu ei fod yn benderfyniad byrbwyll, yn hytrach nag edrych ar y cyfleoedd. Rwy'n eich cymharu ag Undeb Rygbi Cymru, am eich bod yn dewis y ffordd hawdd o ymdrin â hyn yn hytrach na gweithio'n galed ac unioni pethau.
- Yn gyntaf, mae'r cyfathrebu ynghylch y cynnig hwn gyda rhieni wedi bod yn uffernol, gyda'r cynnig yn cael ei gyhoeddi gyntaf trwy'r cyfryngau cymdeithasol a hynny heb ryw lawer o wybodaeth sydd, fel y gallwch ddychmygu, yn golygu nad yw'r negeseuon wedi glanio yn y ffordd a fwriadwyd o bosibl. Ni ddylai'r cynnig fod wedi cael ei gyflwyno heb gasglu barn fel cam cyntaf oherwydd o'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'n amlwg nad yw'r cynnig hwn yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif o'r rhai yr effeithir arnynt. Bydd effaith fawr ar barcio / gollwng / casglu ar gampysau eraill gydag effaith ar drigolion yn yr ardaloedd hynny hefyd. Sut y bwriedir mynd i'r afael â hyn? Mae Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch eisoes yn anhramwyadwy yn ystod amseroedd gollwng a chasglu

y tu allan i'r ysgolion. A allwn gael rhagor o wybodaeth am yr atgyweiriadau y mae eu hangen yn Roseheyworth a hynny mewn manylder gyda dyfynbrisiau ar gyfer yr atgyweiriadau os yn bosibl, pa gyllid sydd ar gael eisoes a pha arian y mae ei angen os gwelwch yn dda? A roddwyd unrhyw ystyriaeth i weithio fel cymuned i ddatrys unrhyw atgyweiriadau y mae eu hangen fel defnyddio busnesau bach lleol sy'n arbenigo yn hyn ac a fyddai o bosibl yn cynnig gostyngiad ar gyfer unrhyw waith y mae ei angen gan ei fod o fudd i'w cymuned a chan bod gan lawer ohonynt blant yn mynychu'r ysgol. Fel dewis arall, os oes angen atgyweiriadau llai, mae gan Roseheyworth Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau gwych a allai drefnu gwirfoddolwyr i gefnogi gyda phrosiectau/codi arian, ac ati. Beth yw'r cynnig ar gyfer defnyddio'r safle os cytunir ei gau? Ansawdd dysgu - rydych chi'n sôn bod capasiti ar y campysau eraill, ond nid dyma'r adborth/ymateb gan deuluoedd sydd â phlant sy'n mynychu'r campysau hynny. Maent yr un mor bryderus am orlenwi mewn ystafelloedd dosbarth a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd yr addysg y mae pob plentyn yn ei chael ac yn effeithio ar eu dyfodol. Sut mae'r penderfyniad yn mynd i gael ei wneud o ran yr ymatebion a geir - os nad yw'r mwyafrif yn cefnogi'r cynnig, beth yw'r camau nesaf a phwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol - enwau a swyddi unigolion sydd ag awdurdod i benderfynu.

- Cynnig ffôl a fydd yn effeithio'n negyddol ar bob un o'r campysau. Bydd effaith ddrwg ar staff, plant a thrigolion os bydd hyn yn mynd yn ei flaen
- Ers blynyddoedd lawer mae addysg plant yn BG wedi golygu bod ardal Abertyleri'n dioddef. Bu llawer o darfu arnynt dros y blynyddoedd. Mae'r ysgol 3-16 estynedig wedi bod yn broblem ers iddi agor gyda nifer o egwyddorion yn dod ac yn mynd yr un fath gyda dirprwyon a phenaethiaid y campws mae'r strwythur yn bendrwm ac rwy'n teimlo bod angen mynd i'r afael â hyn, er mwyn arbed arian yn lle cau ysgol nad yw ond yn 26 oed. 127 o blant, ble ydych chi'n bwriadu eu rhoi? Stryd Tyleri mae'r parcio yn Stryd Tyleri a Stryd Newall yn wael iawn yn y bore a'r prynhawn. Nid wyf yn siŵr am gampws y Chwe Chloch ond gan nad yw llawer o rieni yn roseheyworth yn gyrru a fydd cludiant? Mae hyn i gyd yn ymwneud ag arian, nid â'r hyn sydd orau i'r plant, wel, newidiwch y strwythur pendrwm, byddech chi'n arbed llwyth o arian, cadwch yr ysgol yr ystyrir ei bod yn adeilad newydd o'i gymharu â Bryngwyn a Stryd y Frenhines a oedd dros 100 mlwydd oed. Mae angen datrys 3-16, roedd fy merch yn 10 pan ddechreuodd hyn i gyd, mae hi bellach yn 23 ac nid oes unrhyw dda wedi dod ohono.
- A minnau wedi gweithio yn yr ysgol am nifer o flynyddoedd, roeddwn i'n gallu gweld pa mor hoff ac ystyrlon yw'r ysgol. Efallai fod y dosbarthiadau'n llai o ran niferoedd nag ysgolion eraill, ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae hyn yn helpu llawer o blant i ffynnu. Byddai cau'r ysgol yn wallgof, teithiau cerdded hir i'r ysgol nesaf, rydym yn cael mwy o dywydd gwlyb na sych. Nid yw'n deg â'r plant. Rydym yn disgwyl iddyn nhw fod wedi ymgartrefu a theimlo'n ddiogel. Nid bod mewn ystafelloedd dosbarth gorlawn a fyddai'n dod â mwy o straen i blant ac athrawon. Byddai salwch yn cynyddu, gan effeithio ar ddysgu plant yn ogystal â mwy o sŵn a mwy o bethau'n mynd â'u sylw. Nid yw'r plant hyn yn haeddu hyn!!
- Mae angen darparu dadansoddiad llawn o'r costau, mae'n ymddangos bod y rhain yn chwyddedig. Sut ydych chi'n bwriadu darparu cludiant? Sut ydych chi'n bwriadu darparu digon o staff a chreu arbedion ar yr un pryd
- Cyllid tuag at wisg ysgol newydd sbon ddim yn bresennol, bydd yn effeithio ar sut y mae plant wedi ymgartrefu ac ar eu hiechyd meddwl, ni fydd y plant yn cael digon ddysgu ac addysgu, capasiti cyfyngedig.
- Mam-gu neu dad-cu sy'n methu â mynd a'u hŵyr ymhellach i ffwrdd! Gormod yn y dosbarth. CBSBG yn talu am ormod o bobl ar y rhengoedd uchaf!
- Fel rhiant i ddau o blant sy'n mynd i'r ysgol hon, y mae un ohonynt yn awtistig ac yn blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd cau'r ysgol yn niweidiol i'w hiechyd a'i llesiant. Pa bynnag ysgol y bydd yn rhaid iddynt fynd iddi, bydd taith gerdded hir ar hyd ffyrdd prysur, sy'n rhywbeth nad yw wedi'i asesu. Rwy'n credu bod hon yn fwy na dim ond ysgol gan ei bod yn hyb cymunedol ar gyfer yr ardal. Mae campws Stryd Tyleri eisoes yn profi tagfeydd traffig difrifol pan fo pobl yn codi a gollwng eu plant.
- A oes unrhyw un wedi meddwl am hyn o'i ddechrau i'w ddiwedd, bydd hyn yn effeithio ar gymaint o bobl, o golli swyddi i lesiant plant. Ai'r gwir yw nad ydynt o bwys?
- Ydych chi wedi stopio i feddwl am ganlyniad syniad mor wirion. Colli swyddi a phlant dryslyd.
- A minnau wedi adnabod un o'r mamau sydd â dwy ferch fach yn yr ysgol am sawl blwyddyn bellach, gallaf weld bod y syniad i gau'r ysgol yn un trallodus iddi hi a'i phlant. Maen nhw'n hapus,

wedi ymgartrefu ac yn ffynnu lle maen nhw ac mae'r ysgol yn lleol i'm ffrind ac yn cyd-fynd â'i hamserlen waith, ei chyllideb ar gyfer teithio i'r ysgol ac mae hi'n flin iawn y bydd ei merched yn cael eu cynhyrfu'n emosiynol os bydd yn rhaid iddyn nhw symud.

- Ar ôl byw ar bwys campws Stryd Tyleri a'i fynychu maent eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti ac rwy'n credu y byddai'n niweidiol i addysg plant
- Bydd ei gau yn effeithio'n ddifrifol ar blant a'u teuluoedd, rwy'n gweithio'n llawn-amser i gyngor Blaenau Gwent ac mae'r ysgol hon ar garreg fy nrws. Mae fy merch ar hyn o bryd yn ffynnu yn yr ysgol hon a byddai'n effeithio'n ddifrifol arni yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn feddyliol pe bai hi'n cael ei symud i ysgol sydd eisoes yn orlawn.
- Sut allwch chi ddisgwyl i blant o Roseheyworth gymudo i Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch. Nid oes llawer o gapasiti yn Stryd Tyleri na'r Chwe Chloch felly ble maen nhw'n mynd i fynd. Dylech annog pobl i fynd i'w hysgolion dalgylch gan bod rhai yn teithio o Roseheyworth i safleoedd eraill.
- Sut allwch chi ddisgwyl darparu ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion eraill. Mae gan ddosbarth blwyddyn 1 fy ŵyr yn y Chwe Chloch eisoes 30 o blant ynddo. Dylem fod yn sicrhau bod maint dosbarthiadau yn cael eu cadw mor fach â phosibl i alluogi athrawon i roi eu sylw llawn iddynt a rhoi'r cyfle gorau i ddisgyblion ffynnu a dysgu.
- Faint o'r gorwariant sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â Heol Roseheyworth? A fydd yr arbedion mewn gwirionedd yn aros mewn addysg ynteu'n cael eu defnyddio mewn mannau eraill yng nghyllideb y cyngor? •A fydd cymorth ADY / AAA arbenigol yn cael ei gynnal. Mae'r Nyth wedi'i leoli yn yr unig ystafell ddosbarth sydd ar gael yn Stryd Tyleri, beth fyddai'n digwydd i'r plant sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn? Beth am y traffig a diogelwch ar y ffyrdd? Mae'r campysau yn cael trafferthion nawr ar dair ochr lle mae parcio yn y cwestiwn, a feddyliwyd o gwbl am hyn pan fyddant wedi'u lleihau i ddau gampws ? Beth fydd maint y dosbarthiadau yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch ar ôl y symudiad, ac a fydd yn golygu cynnydd mewn dosbarthiadau ag oedrannau cymysg? A allai nifer y disgyblion godi eto, ac os felly, a fydd capasiti yn cael ei golli yn barhaol, oherwydd nad oes lle ychwanegol unwaith y bydd Roseheyworth ar gau?
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau Campws Roseheyworth, bydd cau yn cael effaith niweidiol nid yn unig ar ddisgyblion ond ar y gymuned gyfan. Fel Cynorthwyydd Addysgu yn ardal Blaenau Gwent, rwy'n gweld drosof fy hun faint o bwysau sydd ar staff ac adnoddau mewn ysgolion ac os bydd y cynnig hwn i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen bydd yn ychwanegu at y trafferthion. Mae nifer y plant y mae arnynt angen darpariaeth arbenigol ychwanegol yn cynyddu ac mae rhestrau aros yn bodoli ar gyfer yr ysgolion cywir sy'n gallu darparu ar gyfer eu hanghenion. Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl cau ysgol nad yw ond yn 26 oed. Rwy'n gwybod mai 127 o blant yw'r ffrwd bresennol a bod hyn yn llai na'r campysau eraill ond nid yw hyn yn gyfiawnhad dros gau. Wir i chi, mae plant Blaenau Gwent yn haeddu gwell!
- Rwy'n wraig oedrannus ac mae'r traffig ar adeg danfon plant i'r ysgol a'u casglu o'r ysgol yn achosi pryder, mae pobl yn parcio ar balmentydd, mae'n beryglus, rwy'n ofni am fy mywyd. Os bydd mwy o blant yn mynychu ysgol y Chwe Chloch bydd yn gwneud y sefyllfa frawychus hon hyd yn oed yn waeth.
- Rwyf wedi fy nychryn gan y cynnig hwn a sut y cafodd ei gyflwyno i'r rhieni a'r athrawon trwy ddolen facebook o neges e-bost a ddatgelwyd yn answyddogol. Mae hyn yn ffordd ofnadwy i unrhyw gyngor ymddwyn, a hwythau heb feddwl o gwbl am deuluoedd ifanc sy'n byw yn eu cymuned a'r staff. Mae fy wyrion yn mynychu ysgol Roseheyworth ac wedi gwneud hynny ers eu bod yn 2 oed, ar ôl mynychu sesiynau mini me. Maen nhw wedi ffynnu ac wedi dwlu ar fywyd ysgol. Mae fy wyres ieuengaf wedi dangos arwyddion o orbryder ers i hyn ddigwydd. Cywilydd arnoch chi. Nid oes gennym ni'r atebion y mae angen iddi eu clywed oherwydd eich analluogrwydd a'r ffaith nad oes unrhyw gynllun gweithredu wedi cael ei rannu i egluro beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynnig i gau yn mynd yn ei flaen. Mae'r ddau o'm hwyrion wedi ffurfio grwpiau cyfeillgarwch clòs sydd bellach yn wynebu sefyllfa lle byddant yn cael eu hollti rhwng y 2 ysgol arall. Rydych chi'n dweud y byddant yn ffynnu mewn dosbarthiadau mwy.... Pa mor dda ydych chi'n adnabod y plant!? Oherwydd ni fydd hyn bob amser yn wir ac mae'r plant yn wynebu newidiadau enfawr a fydd yn fy marn i yn arwain at golli hyder a mynd yn dawedog. Fe aeth fy merch a'm mab yng nghyfraith i weld ysgolion lleol pan oedd hi'n amser gwneud cais am le meithrin, mae yna resymau pam eu bod wedi dewis roseheyworth ac rwyf mor falch eu bod wedi gwneud. Mae'r athrawon yno yn rhagorol yn yr hyn maen nhw'n ei wneud, mae'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau yn wych, mae'r disgyblion bob amser yn hapus, sy'n siarad cyfrolau, ac mae'r holl staff yn gyfeillgar a chroesawgar. Sut allech chi hyd yn oed meddwl am gau ysgol mor hyfryd, mae hynny y tu hwnt i

bob deall gen i. Os yw'r cyngor yn colli cymaint o arian, yna rwy'n derbyn y bydd cau'n digwydd, ond yn sicr ni ddylid ystyried cau ysgol neu fe ddylai hynny fod y dewis olaf un! Ble mae'r holl arian hwn yn cael ei golli i fod wedi gorfod ystyried y cynnig hwn hyd yn oed. Mae cymaint o bethau y mae angen i chi eu hegluro. A oes digon o leoedd parcio yn y ddwy ysgol!? Mae'r ddau gampws eisoes wedi mynegi sut y mae amseroedd gollwng a chasglu yn wallgof gyda cheir wedi'u parcio ar linellau melyn dwbl ac yn gorfod ildio'r ffordd wrth y mynedfeydd i gampws y chwe chloch, gyda rhai pobl yn cyrraedd i gasglu eu plant awr yn gynnar i warantu eu bod yn gallu parcio. Mae hyn yn swnio'n beryglus i mi. Os mai eich ateb chi yw bod mwy o rieni'n cerdded i'r ysgol, ydych chi wedi ystyried rhieni sy'n gweithio!? Plant /rhieni/brodyr a chwiorydd anabl ac ati. Rwy'n ddeiliad bathodyn glas ac yn casglu fy wyrion yn aml. Dim ond llond llaw o leoedd parcio i bobl anabl sydd yn roseheyworth ond rydw i bob amser yn gallu cael un. Mae'r maes parcio yn aml yn llawn, ond mae ceir wedi'u parcio mewn cilfachau parcio ac wrth y gylchfan yn y maes parcio, heb achosi unrhyw niwed ac yn sicr nid mor beryglus ag y mae Stryd Tyleri a'r chwe chloch yn swnio. Nid oes llwybr diogel i'm hwyrion gerdded i'r naill na'r llall o'r ysgolion eraill, ac rwy'n tybio y byddwch yn gweithio ar wneud llwybrau mwy diogel, croesfan sebra, goleuadau stryd a.y.b. Dillad llachar er mwyn diogelwch y plant ac ati. Rwyf hefyd yn pryderu, os bydd y cynnig hwn i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen, sut y byddwch chi'n eu trosglwyddo i'r ysgolion eraill, yn sicr bydd angen ymweliadau arnynt, a fydd yn tarfu ar eu haddysg a bydd fy wyres hynaf ym mlwyddyn 6 y flwyddyn nesaf, sut fydd hyn iddi hi. Yn sicr ni fydd hi'n symud ar ganol blwyddyn!? Rwy'n gryf yn erbyn hyn, os felly, naill ai mai angen eu symud ar ddechrau'r flwyddyn i gael y flwyddyn gyfan yno cyn yr ysgol gyfun neu mae angen eu gadael yn roseheyworth nes eu bod yn mynd i'r ysgol gyfun fel bod y newid yn tarfu gyn lleied â phosibl arnynt ac yn achosi cyn lleied â phosibl o straen emosiynol. Dydw i ddim yn hapus o gwbl gyda'r cynnig i gau campws Roseheyworth. Rwy'n credu, os gwnewch chi, y bydd hyn yn gamgymeriad enfawr.

- Rwy'n llwyr yn erbyn cau'r ysgol. Rwyf wedi bod yn teimlo mor drist wrth feddwl am hyn yn mynd yn ei flaen ers eich cynnig gael ei ddatgelu'n answyddogol. Mae gen i 2 ferch yn Roseheyworth ac mae gen i bryderon mawr ynglŷn â sut rydych chi'n meddwl bod trosglwyddo disgyblion i ddwy ysgol wahanol sydd eisoes yn brysur/llawn yn mynd i effeithio arnynt. Mae'r plant wedi ymgartrefu yn eu hamgylchoedd ac eisoes wedi ffurfio grwpiau cyfeillgarwch da sy'n wynebu cael eu rhwygo ar wahân. Bydd hyn ynddo'i hun yn niweidiol i'w hapusrwydd a'u llesiant. Hefyd bydd plant mewn ysgolion eraill eisoes wedi ffurfio cyfeillgarwch ac mae hyn yn creu heriau cymdeithasol newydd i'n plant ac rwy'n poeni y bydd fy ieuengaf yn enwedig yn mynd yn dawedog gan ei bod eisoes yn swil ac yn cael anhawster gyda newid. Yn ystod gwyliau'r Pasg, aethom am dro o gwmpas y ddwy ysgol arall ac roeddem yn teimlo'n drist iawn am y diffyg mannau awyr agored a chyfleusterau y gallwn eu gweld yno. Fe'm dychrynwyd gan y sefyllfa parcio yno, yn enwedig yn y chwe chloch. Mae mor gul yno ac roeddwn i'n gallu gweld bod angen i gerbydau ildio i draffig sy'n dod i mewn i'r system unffordd. Roedd y lleoedd yn gyfyng ac rwy'n credu y bydd yr anhrefn ar adeg casglu plant o'r ysgol yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd yno. Ydych chi'n mynd i estyn y maes parcio hwn i'w gwneud hi'n haws symud o gwmpas yn ddiogel!? Ychwanegu mwy o gilfachau ac ati. Mae angen cynllunio ymlaen llaw ac os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, mae angen iddo fod yn ffactor y byddwn yn disgwyl ei weld yn wella. Mae gan Roseheyworth faes parcio eang gyda lleoedd digonol ac mae'r traffig yn llifo'n hawdd gyda'r cylchfan yn y maes parcio a'r ffordd letach.... Mae'r cylchfan yn y Chwe Chloch yn fach... gyda ffyrdd cul, sy'n brysur, gyda chymaint o blant ysgol hefyd? Rwy'n ofni am resymau iechyd a diogelwch y bydd damwain. Mae gennym ni, yn Roseheyworth, fannau awyr agored helaeth, hyfryd a llawer o wyrddni/ponciau. Mae fy mhlant wedi mwynhau plannu a gofalu am y planhigion ac mae ganddynt iardiau chwarae eang i redeg o gwmpas arnynt. Mae gardd goedwig yno a mynediad i'r caeau chwarae sydd mor fuddiol i'r plant. Mae'r cynllun "bwyd a hwyl" yn yr haf bob amser yn rhedeg yn roseheyworth gan mai dyma'r gorau ar gyfer mannau awyr agored ac ystafelloedd dosbarth helaeth. Mae fy mhlentyn wedi mynychu'r cynllun hwn gan fy mod i a'u tad yn rhieni sy'n gweithio. Am y rheswm hwn, rydym yn defnyddio clwb brecwast hefyd. A fydd eu clwb brecwast ar gael i'n plant fynychu!? Mae cymaint o resymau cadarnhaol dros gadw roseheyworth ar agor, rwy'n cael trafferth gweld y pethau cadarnhaol yn eich cynnig chi a dim ond gweld eich rhesymau sy'n ymwneud ag arian yn y bôn y gallaf eu gweld. Os yw arian yn bwysicach i chi na llesiant a budd pennaf ein plant, yna rwy'n poeni. Fe wnes i a fy ngŵr benderfynu symud i'r ardal gan bod cyngor blaenau gwent bob amser yn cefnogi rhieni sy'n gweithio a'u teuluoedd, sy'n byw mewn ardal amddifadus, mae hyn yn bwysig i ni. Rwy'n dechrau meddwl y gallai cynghorau lleol eraill fod wedi bod yn ddewis gwell gan bod arian yn amlwg yn

bwysicach. Dylai cau ysgol wych fod yn ddewis olaf un, gan ei fod yn tarfu ar blant sydd wedi ymgartrefu ac sy'n hapus a chanddynt athrawon a staff cymorth gwych, ond mae'r cynnig hwn, a ddatgelwyd yn answyddogol, i'w weld yn opsiwn hawdd i chi. Cywilydd arnoch chi.

- Rwy'n llwyr yn erbyn y cynnig hwn. Rwy'n rhiant i fachgen bach awtistig sydd ar hyn o bryd yn mynychu Campws Stryd Tyleri o fewn y Ddarpariaeth Nyth. Pe bai'r ysgol yn derbyn y disgyblion ychwanegol o Roseheyworth, byddai'n rhaid i'r ddarpariaeth hon ddod i ben gan y byddai angen yr ystafell ddosbarth. Ni fydd fy mab yn ymdopi o fewn dosbarth prif ffrwd o 30+ o ddisgyblion. Mae'n frwydr enfawr i gael darpariaeth arbenigol gan bod y lleoedd yn gyfyngedig. Ni fydd yr ysgol yn diwallu ei anghenion, nac anghenion llawer o blant eraill ag ADY. Dim ond 26 oed yw ysgol Roseheyworth. Sut all y gost i'w chynnal a'i chadw a gwneud atgyweiriadau fod mor uchel. Sut fydd teuluoedd nad ydynt yn gyrru yn cael eu cynorthwyo i gludo eu plant i Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch? Mae parcio o amgylch yr ysgolion eisoes yn beryglus heb draffig a cheir ychwanegol. Mae'r strydoedd o amgylch yr ysgolion yn strydoedd cefn nad ydynt wedi'u gwneud ar gyfer llif traffig trwm. Mae hyn hefyd yn dwyn goblygiadau i breswylwyr. Sut fydd y staff yn cael eu cefnogi? A fydd eu swyddi yn ddiogel? Mae cymaint o gwestiynau heb eu hateb.
- Rwy'n pryderu am ddiogelwch plant mewn perthynas â cherdded. Oes unrhyw lwybrau diogel? Bysiau? A fydd hynny'n costio arian? Os yw'r adeilad yn aros o fewn y gwasanaeth addysg - ni fyddwch yn arbed arian beth bynnag gan bod angen cwblhau gwaith ar yr adeilad o hyd
- Rwy'n pryderu am y capasiti yn ysgol Stryd Tyleri. Pe bai cyngor BG yn fwy llym gyda'u ffiniau, ni fyddai hyn yn broblem. Er fy mod yn deall elfen o ddewis - mae CDdA bellach yn gymuned ddysgu, dylid rhoi plant yn yr ysgol agosaf posibl. Byddai hyn yn dileu problemau capasiti ac yn gwasgaru'r llwyth ar draws y 3 champws. Roedd fy mab yn cwyno'n rheolaidd am orfod rhuthro ei ginio oherwydd yr holl ddosbarthiadau yr oedd angen iddynt gael bwyd, nid oedd ganddo ddigon o amser i fwyta ei holl fwyd. Mae dosbarthiadau eisoes yn fawr iawn gyda 2 ddosbarth fesul grŵp blwyddyn. Er mwyn atal pobl rhag gorfod teithio ymhellach, dylid tynhau'r ffiniau. Nid cau ysgol sy'n llai na 30 oed.
- Rwy'n pryderu ynghylch cau ysgol Roseheyworth a symud plant i'r Chwe Chloch. Mae'r traffig yn y boreau a'r prynhawn yn beryglus, ni ellir ychwanegu rhagor o geir a rhieni at y broblem ddyddiol hon.
- Rwy'n ffieiddio eich bod am gau ysgol gynradd ac anfon plant ifanc i ysgolion eraill ymhellach i ffwrdd o ble maen nhw'n byw. Mae pobl yn cwyno am blant nad ydynt yn cerdded i'r ysgol mwyach ac nad ydynt yn heini a'u bod yn mynd i bob man mewn car ac mae hyn yn profi'r pwynt. Beth os nad yw'r rhieni yn gyrru? Hefyd, rwy'n byw yn y Chwe Chloch ac rwy'n cerdded i'r Gwarcheidwad bob dydd ac o 2.15 tan 3.30 mae'r traffig i lawr o dan y bont, o amgylch stryd Arael ac i fyny'r bryn i Warm Turn yn wallgof ac yn beryglus; allwch chi ddim hyd yn oed gyrru i fyny yno. Mae'r maes parcio yn ysgol y Chwe Chloch yn rhy fach ac rwy'n synnu nad oes unrhyw un wedi cael ei anafu'n ddifrifol. Rwy'n teimlo mai dim ond mater o amser ydyw. Rwy'n gwrthwynebu cau ysgol Roseheyworth.
- Rwy'n llwyr yn erbyn y cynnig hwn gan fy mod yn credu nad yw budd pennaf y plant wedi bod yn ystyriaeth, ac nad yw'r agweddau o ran diogelwch o ganlyniad i ychwanegu mwy o straen a phwysau at y campysau eraill wedi cael eu hystyried ychwaith. Bydd y cynnig hwn yn effeithio'n ddifrifol ar lesiant ac iechyd meddwl llawer o blant, gan achosi straen anhygoel, a gallai newid yn llwyr y ffordd y bydd rhai plant yn symud ymlaen gyda'u dysgu. A fydd dadansoddiad llawn o gostau rhedeg campws Roseheyworth?, dylai hyn fod yn gwbl dryloyw o ran ble yn union mae'r ffigyrau a gyflwynir yn cael eu gwario mewn gwirionedd. Sut mae'r cyngor yn bwriadu darparu cludiant i blant nad oes ganddynt y modd i gyrraedd y campysau eraill? Sut mae'r cyngor yn bwriadu ymdrin yn ddiogel â'r traffig a'r disgyblion ychwanegol ar adegau gollwng sydd eisoes yn beryglus yn ôl y sôn. Sut y mae'r cyngor/campysau yn bwriadu ymdrin â'r disgyblion ychwanegol yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn sydd eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Sut all y cyngor honni y bydd digon o gymorth addysgu ar gyfer y niferoedd arfaethedig yn y dosbarthiadau? Pan allai niferoedd dosbarthiadau fod yn y 50au.
- Rwy'n llwyr gefnogol i gadw'r ysgol ar agor.
- Rwy'n synnu at y cynnig hwn ac rwy'n gryf yn ei erbyn. Mae'r ysgol yn darparu canolfan ddysgu wych i'n plant, nid oes lle yn yr ysgolion eraill ac nid yw'n dderbyniol bod disgwyl i'r plant o Roesheyworth, Bournville a'r Blaenau deithio. Nid yw'r ysgol yn hen, mae'n adeilad o'r radd flaenaf.

- Rwyf wedi fy syfrdanu gan y cynnig hwn i gau Ysgol Roseheyworth. Mae ei lleoliad yn hollol ddelfrydol ac yn ddiogel i blant gael eu gollwng a'u codi yn ddiogel gyda digon o barcio heb achosi anhrefn i draffig lleol. Mae'r ffordd yn llawer lletach na'r rhan fwyaf o ffyrdd mynediad yn yr ardal. Mae Stryd Tyleri/Stryd Newall yn hunllef i ymgodymu â hwy eisoes, yn ogystal â Champws y Chwe Chloch a'r ffordd fynediad gyfagos. Mae'n drist nad yw gwaith cynnal a chadw wedi cael sylw pan oedd angen yn Roseheyworth. Ailystyriwch yn ofalus. Rwy'n gobeithio bod barn rhieni/gwarcheidwaid y plant yr effeithir arnynt wedi cael ei hystyried yn ofalus. Cofion cynnes. Dinesydd lleol pryderus.
- Rwy'n fam-gu i ddau o'r disgyblion, y mae gan un ohonynt ADY. Bydd y cynnig i gau'r ysgol yn effeithio'n ddifrifol ar ei ddysgu a gallai ei rannu ef a'i frawd oddi wrth ei gilydd.
- Rwy'n llwyr yn erbyn cau'r ysgol oherwydd yr effaith ar addysg a llesiant y plant.
- Rwy'n poeni am oblygiadau mwy o draffig ar gampws Stryd Tyleri ac ar gampws y Chwe Chloch. Fel y gwyddoch, mae traffig yn ystod amseroedd codi a gollwng yn effeithio'n fawr ar yr ardal ac mae'n hunllef i unrhyw un allu cael mynediad at eu cartrefi. Pe bai argyfwng, byddai'r gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd mynychu a chynorthwyo pe bai digwyddiad. Ni fyddai disgyblion a cherbydau ychwanegol ond yn gwaethygu'r mater hwn. Hefyd byddai uno'r dosbarthiadau yn cynyddu'r gymhareb rhwng disgyblion ac athrawon. Mae astudiaethau yn dangos bod dosbarthiadau mwy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddeilliannau dysgu.
- Rwy'n poeni am faint o draffig sy'n teithio i'r gwaith a fy mab yn cerdded adref o'r ysgol gyfun.
- Rwy'n poeni'n arw am fy mab, mae'n mynychu'r ystafell ddosbarth nyth yn ysgol Roseheyworth, mae'n awtistig ac rwy'n poeni ble y bydd yn mynd, a fydd y cymorth yn parhau ac rwy'n credu y gallai ei symud darfu'n fawr arno, mae'n fodlon yn ei ystafell ddosbarth fach nawr hefyd mae fy merch yn ddisgybl ym mlwyddyn 1, mae hi wedi gwneud ffrindiau ac wedi bod gyda nhw ers sesiynau mini me, rwy'n anghytuno'n gryf â chau'r ysgol.
- Rwy'n poeni y bydd gormod o blant ym mhob dosbarth a fydd yn effeithio ar eu haddysg.
- Rwy'n ysgrifennu fel aelod o gymuned Abertyleri i wrthwynebu cau Ysgol Roseheyworth. Mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar y dref gyfan; nid dim ond y teuluoedd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ysgol. Symud yr holl ddisgyblion i'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri; y mae'r naill a'r llall ohonynt eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti; creu ystafelloedd dosbarth gorlawn a rhoi pwysau diangen ar staff. Rydym hefyd yn poeni am y traffig ychwanegol y byddai hyn yn ei greu. Mae'r ardaloedd hyn eisoes yn cael trafferth gyda thagfeydd a materion diogelwch yn ystod amseroedd gollwng a chasglu; Bydd ychwanegu rhagor o ddisgyblion yn gwaethygu'r sefyllfa i blant, rhieni a phreswylwyr. Byddai cau Ysgol Roseheyworth hefyd yn arwain at golli swyddi; gan gynnwys rolau fel goruchwylwyr amser cinio a staff cymorth. Byddai tarfu fel hyn yn effeithio ar deuluoedd lleol ac yn creu ansefydlogrwydd y gellir ei osgoi yn ein cymuned. Am y rhesymau hyn; erfyniwn ar y Cyngor i ailystyried. Mae angen penderfyniadau ar Abertyleri sy'n cefnogi addysg ddiogel o ansawdd da ac yn diogelu ein cymuned - nid rhai sy'n ei rhoi dan straen.
- Rwy'n ysgrifennu fel aelod o gymuned ehangach Abertyleri i fynegi gwrthwynebiad cryf i'r bwriad i gau Ysgol Roseheyworth. Mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn effeithio ar y teuluoedd y mae eu plant yn mynychu'r ysgol; mae'n effeithio ar bob un ohonom sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal hon. Mae'n anochel y bydd symud gwerth ysgol gyfan o blant i'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri, y mae'r ddwy ohonynt eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti, yn arwain at ystafelloedd dosbarth gorlawn a staff sydd dan bwysau. Nid dyma'r math o amgylchedd dysgu y mae plant ein tref yn ei haeddu, ac mae'n creu risg o leihau ansawdd addysg ledled Abertyleri yn ei chyfanrwydd. Rydym hefyd yn eithriadol o bryderus am y cynnydd sylweddol mewn traffig y byddai'r cynnig hwn yn ei greu o amgylch y Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae'r ardaloedd hyn eisoes yn cael trafferth gyda thagfeydd, problemau parcio, a heriau diogelwch ar y ffyrdd yn ystod amseroedd gollwng a chodi y tu allan i'r ysgolion. Bydd ychwanegu cannoedd yn rhagor o blant at y safleoedd hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn un beryglus. Mae'r ffyrdd lleol yn syml yn methu ag ymdopi â'r niferoedd uwch o geir, bysiau a cherddwyr, gan greu risg wirioneddol a diangen i blant, rhieni a phreswylwyr. Am y rhesymau hyn, erfyniwn yn daer ar y Cyngor i ailystyried. Byddai cau Ysgol Roseheyworth nid yn unig yn cael gwared ar ased cymunedol gwerthfawr ond byddai hefyd yn creu peryglon diogelwch y gellir eu hosgoi ac yn rhoi pwysau enfawr ar ysgolion eraill yn y dref. Mae Abertyleri yn haeddu datrysiadau sy'n diogelu addysg ein plant ac yn diogelu ein cymuned, nid penderfyniadau sy'n peryglu'r naill a'r llall.
- Rwy'n ysgrifennu fel rhiant sydd â phlentyn yn Stryd Tyleri i fynegi fy mhryder am y cynnig i gau Ysgol Roseheyworth. Os bydd yr holl ddisgyblion hynny yn cael eu symud i Stryd Tyleri a'r Chwe

Chloch, bydd maint dosbarthiadau yma yn cynyddu'n sylweddol, ac rwy'n poeni am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddysgu fy mhlentyn a'r cymorth y gall athrawon ei ddarparu. Rwyf hefyd yn bryderus iawn am y traffig ychwanegol a fyddai'n dod i Stryd Tyleri yn sgîl y cynnig hwn. Mae'r ffyrdd eisoes yn brysur ac yn anodd ymgodymu â hwy yn ystod amseroedd gollwng a chasglu. Bydd ychwanegu hyd yn oed mwy o geir a cherddwyr yn gwneud y sefyllfa yn anniogel i blant, rhieni a thrigolion. Am y rhesymau hyn, erfyniaf yn gryf ar y Cyngor i ailystyried y cynnig hwn. Mae ein plant yn haeddu ffyrdd diogel a maint dosbarthiadau y gellir eu rheoli, nid pwysau a risg ychwanegol.

- Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy mhryderon ynglŷn â'r cynnig i gau'r ysgol gyfagos Rwy'n poeni am gapasiti cyfredol yr ystafelloedd dosbarth a'r effaith y gall disgyblion a staff ychwanegol ei chael ar yr amgylchedd dysgu. O'r hyn rwy'n ei ddeall, mae llawer o'r ystafelloedd dosbarth eisoes yn eithaf llawn. Gall cynyddu nifer y disgyblion heb fynd i'r afael â chyfyngiadau ffisegol yr adeilad arwain at orlenwi a llai o le i ddisgyblion ddysgu'n effeithiol. Mae gan faint yr ystafell ddosbarth rôl bwysig o ran cynnal amgylchedd addysgol cynhyrchiol, diogel a chyfforddus. Rwyf hefyd yn pryderu y gall dod ag athrawon newydd heb ddigon o le nac adnoddau yn yr ystafell ddosbarth roi straen ddiangen ar staff a disgyblion. Yn hytrach na gwella'r sefyllfa, gallai ei gwneud hi'n anos i athrawon reoli eu dosbarthiadau ac i ddisgyblion gael y sylw y mae ei angen arnynt. Am y rhesymau hyn, gofynnaf yn barchus i chi adolygu'r sefyllfa yn ofalus ac ystyried yr opsiwn o gau'r ysgol neu wneud trefniadau eraill sy'n sicrhau maint dosbarthiadau a chyfleusterau priodol i ddisgyblion a staff.
- Ysgrifennaf i fynegi fy mhryderon ynglŷn â'r bwriad i gau campws cyfagos yr ysgol yn Roseheyworth, a throsglwyddo disgyblion ychwanegol i ysgol fy mab o ganlyniad. Er fy mod yn deall bod angen gwneud lle i ddisgyblion a fydd yn cael eu dadleoli, rwy'n hynod bryderus am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar draffig a diogelwch cyffredinol yn yr ardal gyfagos. Mae traffig yn ystod amseroedd gollwng a chasglu eisoes yn broblem sylweddol. Ceir tagfeydd yn aml, mae parcio yn gyfyngedig, ac mae'r ffyrdd o amgylch yr ysgol yn mynd yn orlawn ac, ar adegau, yn beryglus i blant a rhieni. Pe bai rhagor o ddisgyblion yn cael eu hychwanegu, rwy'n ofni y bydd y materion presennol hyn yn gwaethygu'n sylweddol. Mae nifer cynyddol o gerbydau yn debygol o arwain at dagfeydd pellach, parcio anniogel, a mwy o risgiau i gerddwyr—yn enwedig plant ifanc sy'n ymgodymu â ffyrdd prysur.
- Ysgrifennaf i fynegi fy ngwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gau Ysgol Roseheyworth ac adleoli ei disgyblion i Ysgol Gynradd y Chwe Chloch neu Ysgol Gynradd Stryd Tyleri. Byddai cau Ysgol Roseheyworth yn cael effaith sylweddol a negyddol iawn ar y plant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r ysgol yn fwy na dim ond adeilad - mae'n amgylchedd cefnogol, cyfarwydd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall. Gallai amharu ar y sefydlogrwydd hwnnw gael canlyniadau difrifol i'w llesiant emosiynol, eu hyder a'u cynnydd academaidd. Hefyd, mae'n anochel y byddai symud y disgyblion hyn i ysgolion lleol eraill yn rhoi pwysau ychwanegol ar y lleoliadau hynny. Byddai dosbarthiadau mwy, adnoddau sydd dan bwysau, llai o fynediad at gymorth staff, a chyfleusterau gorlawn yn effeithio nid dim ond ar y plant sy'n dod i mewn ond hefyd ar y rhai sydd eisoes yn mynychu'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae athrawon a staff cymorth eisoes yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion disgyblion, ac mae straen bellach yn creu risg o leihau ansawdd addysg a gofal i bawb. Ceir pryderon ymarferol hefyd, gan gynnwys mwy o deithio i deuluoedd, tagfeydd traffig, a cholli hyb cymunedol hanfodol. Rhaid i benderfyniadau ar y raddfa hon flaenoriaethu llesiant plant, safonau addysgol, a chryfder hirdymor y gymuned. Am y rhesymau hyn, nid wyf yn cefnogi'r cynnig ac erfyniaf ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ailystyried y cynnig i gau'r ysgol ac archwilio atebion amgen sy'n diogelu disgyblion Roseheyworth a chymuned leol ehangach yr ysgol.
- Ysgrifennaf i fynegi'n ffurfiol fy mhryder mawr ynglŷn â'r bwriad i gau Ysgol Roseheyworth, penderfyniad a fyddai'n dwyn canlyniadau difrifol a pharhaol i gymuned Abertyleri ac ardal ehangach Blaenau Gwent. Am chwech blynedd ar hugain mae'r ysgol hon wedi bod yn gonglfaen sefydlogrwydd, cyfleoedd a chefnogaeth i deuluoedd sy'n byw yn un o ardaloedd mwyaf amddifadus y dref. Mae'n llawer mwy nag adeilad; mae'n achubiaeth. Byddai ei chau nid yn unig yn cael gwared ar sefydliad addysgol hanfodol ond byddai hefyd yn dyfnhau anghydraddoldeb, straen ar wasanaethau lleol ac yn lleihau rhagolygon llawer o blant yn y dyfodol. Mae Ysgol Roseheyworth wedi'i lleoli mewn cymuned lle mae llawer o deuluoedd yn wynebu heriau economaidd sylweddol. I'r teuluoedd hyn mae'r ysgol yn darparu trefn reolaidd, cynefindra ac amgylchedd diogel a chefnogol i blant nad oes ganddynt ddiogelwch o'r fath mewn mannau eraill.

Byddai cau'r ysgol ac ailddosbarthu disgyblion i Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddygymod ag amseroedd teithio hwy, amserlenni gwaith yr amherir arnynt a chostau cludiant uwch. Byddai'r beichiau ychwanegol hyn ar eu trymaf i aelwydydd agored i niwed sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Mewn cymunedau fel hyn mae ysgol yn gweithredu fel angor. Mae cael gwared arni'n creu risg bod y rhai sydd eisoes yn brwydro i gadw eu pennau uwchlaw'r dŵr yn cael eu hymyleiddio'n fwy. Ar ben hynny, mae dosbarthiadau yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Mae'n anochel y byddai dadleoli poblogaeth ysgol gyfan yn arwain at ddosbarthiadau mwy, llai o sylw unigol, mwy o lwyth gwaith i staff a phwysau sylweddol ar adnoddau sydd eisoes dan bwysau. Mae amodau o'r fath yn ei gwneud hi'n amhosibl cynnal addysg o ansawdd da a byddent yn creu anfantais yn arbennig i blant ac arnynt angen cymorth ychwanegol. Mae cau'r ysgol hefyd yn bygwth swyddi a sefydlogrwydd staff sydd wedi neilltuo blynyddoedd lawer i wasanaethu plant y gymuned hon. Mae'r unigolion hyn yn cyfrannu'n sylweddol at wead cymdeithasol yr ardal a byddai effaith eu colli'n cael ei theimlo'n ddwfn. Byddai effaith anghymesur ar fenywod, gan mai hwy yw'r gyfran fwyaf o'r gweithlu mewn rolau fel goruchwylwyr amser cinio, cynorthwywyr addysgu a glanhawyr. Mae llawer yn gweithio'n rhan-amser ac yn dibynnu ar agosrwydd yr ysgol i daro cydbwysedd rhwng eu cyflogaeth a chyfrifoldebau gofalu. Pe bai'r ysgol yn cau, ni fyddai llawer o'r menywod hyn yn dod o hyd i gyflogaeth leol gyfatebol, gan eu gadael heb waith a chynyddu amddifadedd mewn cymuned sydd eisoes yn wynebu heriau. Ceir pryder difrifol hefyd ynglŷn â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer yn dibynnu ar ddarpariaeth NYTH sy'n cynnig cymorth wedi'i deilwra, gorchwylion cyson a staff y maent yn ymddiried ynddynt. Mae adleoli'r plant hyn heb sicrwydd o gymorth cyfatebol yn creu risg o drallod emosiynol, atchweliad a risg o darfu ar eu cynnydd dros y tymor hir. Ni ellir symud darpariaeth arbenigol heb gynllunio gofalus, cyfleusterau priodol a staffio diogel. Nid oes sicrwydd y bydd gan ysgolion eraill y lle i allu efelychu ansawdd y cymorth y mae'r disgyblion hyn yn ei gael ar hyn o bryd. Mae'n arbennig o bryderus bod ysgol sy'n ddim ond chwech ar hugain oed ac mewn cyflwr ffisegol da yn cael ei hystyried ar gyfer cau. Ar adeg pan fo llawer o ysgolion llawer hŷn ledled Cymru yn parhau i fod ar agor er bod angen buddsoddiad sylweddol, nid yw cau adeilad modern sydd wedi bod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn benderfyniad cadarn o safbwynt ariannol nac o safbwynt strategol. Byddai colled o'r fath yn cael gwared ar seilwaith hanfodol ac mae'n un na fydd y gymuned byth yn dod drosti. Mae trigolion Abertyleri'n teimlo'n fwyfwy bod eu tref yn cael ei hanwybyddu a'i thanbrisio. Mae cau ysgol allweddol yn ei hardal fwyaf amddifadus yn atgyfnerthu'r gred bod eu plant yn haeddu llai a bod penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud heb ystyried canlyniadau cymdeithasol hirdymor. Dylai plant dyfu gan gredu yn eu potensial, credu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chredu bod eu dyfodol yn werth buddsoddi ynddo. Mae cael gwared ar eu hysgol leol yn anfon neges i'r gwrthwyneb. Mae'r cynnig i gau'r ysgol hefyd yn codi pryderon ynghylch sawl hawl allweddol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhwymo mewn cyfraith yng Nghymru. Mae'r hawl i addysg, yr hawl i ddatblygu i'w llawn botensial, yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu a'r hawl i gael eu clywed i gyd yn cael eu peryglu pan fydd ysgol yn cau heb dystiolaeth glir bod budd pennaf plant yn cael ei flaenoriaethu. Mae hawliau plant ag anableddau a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu peryglu'n arbennig os amherir ar eu systemau cymorth sefydledig. Mae amseroedd teithio hwy, gorlenwi a cholli amgylcheddau cyfarwydd hefyd yn peryglu hawl plant i orffwys, chwarae a datblygiad iach. Rhaid i'r awdurdod lleol allu dangos bod penderfyniadau sy'n effeithio ar blant yn diogelu eu llesiant, yn cynnal eu hawliau ac nad ydynt yn peri anfantais anghymesur i gymunedau amddifadus. Os na ellir dangos hyn, mae cau Ysgol Roseheyworth mewn perygl o dorri rhwymedigaethau cyfreithiol Cymru i'w phlant. Am y rhesymau hyn rwy'n annog yn gryf bod y cynnig i gau Ysgol Roseheyworth yn cael ei ailystyried. Mae plant Abertyleri yn haeddu sefydlogrwydd, cyfle a buddsoddiad ystyrlon yn eu dyfodol. Byddai cau eu hysgol yn tynnu'r rhain i ffwrdd.

- Rwy'n ysgrifennu i erfyn yn gryf arnoch i ailystyried y penderfyniad i gau ysgol ein plentyn. Mae'r ysgol hon yn fwy na dim ond adeilad lle mae gwersi yn digwydd – dyma galon ein cymuned, mae'n hafan ddiogel i'n plant, ac mae'n rhywle lle mae perthnasoedd cryf yn cael eu meithrin bob dydd. Byddai cau'r ysgol yn dwyn canlyniadau academaidd, emosiynol a chymdeithasol sylweddol i ddisgyblion. Mae llawer o blant yn ffynnu yma oherwydd y dosbarthiadau llai, y staff ymroddedig, a'r amgylchedd cefnogol sy'n eu galluogi i gael eu hadnabod fel unigolion yn hytrach na rhifau yn unig. Gall amharu ar y perthnasoedd hyn effeithio'n negyddol ar ddeilliannau dysgu, hyder a llesiant cyffredinol. Rydym yn gwybod bod gan Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch broblemau parcio wrth

ollwng a chasglu ac ni fyddai ychwanegu ein hysgol at hynny'n ddiogel iawn. Rydw i wedi dewis cadw fy mhlant yn yr ysgol hon er ein bod bellach yn byw yn Llanhiledd. Mynychais yr ysgol hon fy hun pan agorodd yn 2000 ac mae rhai o'r athrawon yn dal yno nawr.

- Fe wnes i gais i'm plentyn fynychu CDdA Roseheyworth oherwydd er fy mod yn byw yn y Blaenau mae'n agosach at Roseheyworth nag Ystruth neu Goed y Garn ac roedd fy mhlentyn yn mynychu sesiynau Mini me ar y safle yno. Gwrthodwyd fy mhlentyn felly nawr mae clywed bod nifer y disgyblion yn gostwng yn hurt pan wnaethoch chi wrthod lleoedd gan achosi hynny. Rwy'n gwybod am rieni eraill y mae hynny wedi digwydd iddynt hwythau. Dylai rhiant allu dewis ysgol y plentyn cyn belled â bod lleoedd ar gael. Nid yw bob amser yn ymwneud â chyfeiriad y cartref ond yn hytrach ble mae'r plant neu ble mae'r rhiant yn gweithio ac ati.
- Rwy'n deall bod cyllid a sefyllfaoedd ariannol yn anodd ond mae hon yn ysgol mor anhygoel. Mae angen mwy o ddarpariaethau fel hyn arnom nid llai. Mae'r amser a'r cymorth y maent yn gallu eu buddsoddi yn y disgyblion yn newid bywydau yn llythrennol. Ni fyddai fy mhlentyn maeth yn ffynnu ac yn cyflawni'n academaidd heb y cymorth, y buddsoddiadau a'r gred yn y staff gwych a Roseheyworth. Gallai dosbarthiadau mawr sy'n arbed costau beri anfantais i gymaint o bobl. Ystyriwch eich contract cymdeithasol ar gyfer eich trigolion, bwrdeistref decach, iachach a mwy cydnerth - nid yw hyn yn cyd-fynd â'r cynnig o gwbl
- Rwy'n deall, gyda'r diffyg presennol, bod angen archwilio cyfleoedd ond rwy'n teimlo nad cau campws Heol Roseheyworth yw'r ateb. Byddai cau'r ysgol yn dwyn canlyniadau hirdymor i ddisgyblion, teuluoedd, staff a'r gymuned ehangach. Yn ystod y broses ymgynghori, nodwyd y byddai disgyblion o Heol Roseheyworth yn symud i gampysau Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch. Efallai fod hyn i'w weld yn ateb syml i'r cyngor, ond i ddisgyblion, nid yw symud ysgol yn newid bach. Byddai'n rhaid iddynt addasu i amgylchedd newydd, athrawon newydd, a chyd-ddisgyblion newydd, a all fod yn straen ac effeithio ar eu dysgu a'u hyder. Mae bod mewn lle cyfarwydd lle maen nhw'n teimlo'n gyfforddus yn bwysig iawn. Bydd cau eu hysgol a symud i gampws newydd yn effeithio ar eu llesiant. Yn ail, pwynt mawr i'w ystyried yw faint o blant sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd. Mae hyn o fudd enfawr i blant a'u teuluoedd gan ei fod yn hyrwyddo dewis iach a chadarnhaol ar gyfer teithio i'r ysgol. Os bydd yr ysgol yn cau, byddai'n rhaid i lawer o'r plant hynny deithio ymhellach, sy'n debygol o olygu dibynnu ar geir neu gludiant cyhoeddus. Mae hynny nid dim ond yn anghyfleus - mae'n ychwanegu cost ac yn cynyddu traffig, sydd eisoes yn brysur yn ystod dechrau a diwedd y dydd. I rai teuluoedd, ni fyddai cerdded yn opsiwn mwyach. Ar y llaw arall, i deuluoedd nad ydynt yn berchen ar gar neu nad ydynt yn gallu fforddio cost cludiant, byddai'n golygu teithio am fwy na milltir bob ffordd ym mhob math o dywydd. Dychmygwch orfod cerdded am dros hanner awr i'r ysgol bob bore cyn dechrau diwrnod llawn o ddysgu, yn enwedig yn y glaw. Hefyd, rydw i wedi gweithio ar draws y tri champws cynradd ers dechrau fy swydd. Gall cael mynediad at Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch fod yn anodd iawn ar adegau. Bydd cau Heol Roseheyworth ac ail-gyfeirio traffig i'r safleoedd hyn yn gwneud mynediad i'r safleoedd hyn yn ystod amser gollwng a chasglu hyd yn oed yn fwy anodd ac o bosibl yn beryglus. Rwy'n teimlo bod angen ystyried dewisiadau eraill cyn ystyried cau'r ysgol. Mae'n ddealladwy bod angen lleihau'r diffyg ond a roddwyd unrhyw feddwl i weld a ellid creu arbedion mewn mannau eraill neu a ellid creu incwm? A allai neuaddau ysgolion gael eu defnyddio ar gyfer clybiau/grwpiau y tu allan i oriau ysgol? Mae ysgol leol yn y fwrdeistref yn cynnal grwpiau colli pwysau lleol, gan greu incwm. Mae'n ddealladwy na fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r diffyg cyfan, ond gellid ei ystyried i greu incwm i'r busnes. Rwy'n gobeithio bod y pwyntiau hyn yn cael eu hystyried, gan fy mod yn gwybod bod gan lawer o bobl eraill yr un farn â fi y byddai cau'r ysgol yn golled i'r gymuned ac yn peri anfantais i'n dysgwyr.
- Rwy'n credu bod angen 3 ysgol gynradd ar ein hardal oherwydd eu lleoliadau ar hyn o bryd a'u bod o fewn cyrraedd hawdd i blant lleol. Yn y cyfnod hwn o gysylltiadau cludiant gwael a llawer o draffig, mae teithio i'r ysgolion sy'n weddill yn hunllef i rieni a phlant, ac mae hefyd yn golygu problemau diogelwch i bawb.
- Rwy'n credu bod y cyfleusterau yn yr ysgol hon yn ased i'r gymuned leol, yn enwedig y caeau chwarae cyfagos.
- Rwy'n credu y byddai cau campws Heol Roseheyworth yn cael effaith negyddol ar blant CDdA. Er bod CBSBG wedi nodi yn y cynnig bod y niferoedd yn y dosbarthiadau'n cyd-fynd â'r hyn a argymhellir mewn canllawiau, nid wyf yn credu bod hyn yn wir. Byddai nifer y plant fesul dosbarth yn fwy na'r hyn a argymhellir mewn canllawiau ac yn effeithio ar addysg plant ar draws CDdA. Byddai maint dosbarthiadau yn effeithio'n negyddol ar staff addysgu sydd eisoes dan straen. Mae

parcio ar gampysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn achosi anhrefn wrth godi a gollwng ar hyn o bryd. Byddai ychwanegu'r holl ddisgyblion eraill o gampws Heol Roseheyworth yn creu uffern o le. Byddai plant ag AAA hefyd yn gorfod cael eu haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth gorlawn ac mae'r plant hyn eisoes yn dioddef yn y system addysg a ddarperir gan CBSBG. Rwy'n synnu, gwta 10 mlynedd ar ôl y broses uno i greu CDdA, rhywbeth nad oedd ar unrhyw riant nac aelod o staff ei eisiau, bod CBSBG yn chwilio am ffyrdd o arbed arian o fewn yr adran addysg eto. Ble mae'r ymchwiliad i gamreoli arian? Arian y dywedwyd wrthym yn ystod y broses ymgynghori ar gyfer uno ysgolion i greu CDdA y byddai'n talu am gost addysg ein plant ar draws pob campws. Pam fod CBSBG bellach yn eu cael eu hunain mewn dyled o fewn yr adran addysg eto? Sut mae hyn wedi digwydd eto? Dim ond 26 oed yw campws Heol Roseheyworth. NID hen adeilad yw hwn! Mewn cymhariaeth, beth yw'r costau cynnal a chadw rhwng campws RR a'r campws uwchradd? Faint o arian sy'n cael ei wario ar y tîm rheoli? Oni allai campws RR ddarparu addysg i blant AAA yn benodol? A fyddai gwneud y campws yn arbenigol yn darparu chwistrelliad o arian gan Lywodraeth Cymru? Mawr obeithiaf na fydd y cyngor yn bwrw ymlaen â chau'r campws hwn. Yr unig ganlyniad fydd arbed arian, ond bydd hyn ar draul addysg y plant yn yr ardal a cholli swyddi!

- Rwy'n credu na ddylai'r ysgol gau gan y byddai'r holl blant yn cael eu cadw oddi wrth eu ffrindiau ac y byddai eu dosbarthiadau yn rhy fawr.
- Rwy'n credu bod y cynnig hwn wedi cael ei wneud ar sail rhifau yn unig ac mae'n amlwg nad yw'r rhai sydd wedi cynnig hyn wedi bod yn yr ardal i weld sut y byddai hyn yn effeithio ar y gymuned a'r plant yn ogystal â'r ysgolion eu hunain. 1. Mae'r traffig a'r parcio o amgylch Stryd Tyleri yn ofnadwy fel y mae, felly byddai ychwanegu mwy at hyn yn eithaf hurt yn fy marn i, a byddai angen i bobl yrru gan bod Roseheyworth yn rhy bell i rai gerdded yno yn ogystal â phlant ifanc yn cerdded o gwmpas a fyddai'n achosi llawer mwy o berygl. 2. Stryd Tyleri, 4 blynedd yn ôl fe ddywedwyd wrthym fod y dosbarthiadau'n llawn neu bron yn llawn hyd eithaf eu capasiti fel yr oedd hi ac mai prin bod yr athro/athrawes yn gwybod enwau'r plant, sef y prif reswm y penderfynom ni fynd â'n mab i Roseheyworth. Mae'r ffaith bod yr athrawon a'r staff yn gwybod enw pob un o'r plant yr oeddent yn dod ar eu traws yn anhygoel ac yn gadarnhaol iawn, dyma'r math o berthynas y dylai disgyblion ei chael yn eu hysgolion, felly pam fyddech chi'n cau'r ysgol hon? 3. Mae'r Chwe Chloch allan o'r dalgylch ar gyfer Roseheyworth, felly sut mae hyn yn mynd i effeithio'n gadarnhaol pan fydd gennych naill ai costau mawr ar deithio am ddim y bydd angen ei ddarparu, neu lawer mwy o bwysau'n cael ei roi ar Stryd Tyleri am bod y safle'n gorfod derbyn cymaint o ddisgyblion newydd pan fo'r niferoedd mor uchel ag y mae. 4. Mae hyn yn amlwg yn ymwneud ag arian, felly yn hytrach na chau ysgol o bopeth a gwneud i'n plant ddioddef o ganlyniad, beth am edrych ar y pethau mwy diangen y mae'r Cyngor yn gwario arian arnynt.
- Credaf y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar addysg fy mhlant. Nid wyf yn gyrru a byddaf yn ei chael hi'n fwyfwy anodd mynd â'm plentyn i ysgolion Mae fy mhlentyn wedi meithrin cyfeillgarwch gydag ychydig o blant eraill yn agos iawn ac rwy'n gwybod y bydd rhai ohonynt yn cael eu gorfodi i fynychu campws gwahanol oherwydd eu lleoliad. Rwy'n teimlo bod yna ffyrdd gwell o arbed arian na difetha addysg plant.
- Ni allaf ddeall pam y gellid ystyried ysgol mor rhagorol ar gyfer cau, mae'n amlwg y byddai'n gywilydd llwyr cau sefydliad o'r fath.
- Ni allaf weld sut y gellir cyfiawnhau cau ysgol 26 oed. Hefyd pan fydd campysau eraill eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti, mae'n amlwg na fydd ein plant yn cael y profiad ysgol a'r safon addysgu y maent yn eu haeddu
- Ni allaf gredu eu bod yn gwneud hyn. Mae'n anghywir gwneud hyn i'r plant hyn, ar ddiwedd y dydd mae'r plant hyn yn bwysig!
- Ni allaf gasglu fy wyrion os yw'r ysgol hon yn cau. a yw fy mhlentyn i fod i roi'r gorau i'w waith! rhaid edrych ar gyflogau staff ar y rheng uchaf yn yr ysgol - niferoedd a chyflogau syfrdanol.
- Ni allaf gludo fy mhlant i Stryd Tyleri na'r Chwe Chloch. Sut y bydd fy mhlant yn mynd i'r ysgol?
- Ni allaf ddeall y cynnig hwn o gwbl. Mae llesiant plant a swyddi pobl yn y fantol. Felly, gadewch i ni ailfeddwl.
- Rwy'n anghytuno â chau Roseheyworth gan y bydd hyn yn cael effaith enfawr ar blant a staff.
- Rwy'n anghytuno â chau'r ysgol. Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y gaeaf, ydyn nhw i fod yn yr ysgol drwy'r dydd mewn esgidiau a dillad gwlyb.
- Nid wyf yn cytuno â'r cynnig i gau'r ysgol oherwydd addysg plant (dosbarthiadau gorlawn)

- Nid wyf yn cytuno â chau ysgol gynradd a rhannu'r plant rhwng dwy ysgol gynradd arall yn Abertyleri. Mae'r ysgolion a nodwyd fel rhai a fydd yn derbyn y disgyblion ychwanegol hyn eisoes yn llawn neu bron yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Mae'n anochel y bydd ychwanegu mwy o blant yn cynyddu maint dosbarthiadau, yn golygu bod rhaid i adnoddau ymestyn y tu hwnt i'w terfynau, ac yn lleihau'r sylw unigol y mae pob plentyn yn ei gael. Bydd hyn yn cael effaith ddifrifol ar ansawdd addysg. Mae athrawon a staff cymorth eisoes yn rheoli llwythi gwaith sy'n gryn her, a bydd pwysau pellach yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal safonau addysgu uchel. Gall ystafelloedd dosbarth gorlawn gyfyngu ar ddysgu effeithiol, lleihau mynediad at wasanaethau cymorth, a chyfyngu ar y defnydd o fannau a rennir fel neuaddau, llyfrgelloedd, ac ardaloedd awyr agored. Ceir pryderon sylweddol hefyd am lesiant a diogelwch. Gall dosbarthiadau mwy ac amgylcheddau prysurach mewn ysgolion gynyddu lefelau straen i ddisgyblion a staff. Gall plant gael trafferth gyda'r aflonyddwch o ganlyniad i gael eu symud i ffwrdd o leoliad cyfarwydd, grwpiau cyfeillgarwch, ac athrawon y maent yn ymddiried ynddynt. Mae llesiant staff yr un mor bwysig, a gallai pwysau ychwanegol arwain at ddiffygio, mwy o absenoldeb, ac anawsterau cadw athrawon profiadol. Yn y pen draw, ceir risg y bydd y cynnig hwn yn creu amgylchedd sy'n llai cefnogol, yn llai effeithiol, ac o bosibl yn anniogel. Dylai penderfyniadau ynghylch cau ysgolion flaenoriaethu deilliannau addysgol, diogelwch a llesiant plant uwchlaw popeth arall.
- Nid wyf yn cytuno â chau'r ysgol oherwydd y bydd yn effeithio ar addysg y plant.
- Nid wyf yn cytuno â chau'r ysgol hon. Mae'r ysgol yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymuned, gan ddarparu addysg a sefydlogrwydd i'r plant lleol. Byddai cau yn effeithio'n negyddol ar y plant a'r teuluoedd.
- Nid wyf yn cytuno â chau Ysgol Gynradd Roseheyworth
- Nid wyf yn cytuno â'r cynnig hwn.  Mae'n hollol afresymol disgwyl i blant gerdded i'r ysgol. Os nad yw rhieni/gwarcheidwaid yn gyrru, dylid bod wedi rhoi mwy o feddwl i hyn ac ymgynghori yn ei gylch.  Bydd plant ag anghenion arbennig, plant awtistig yn profi ansefydlogrwydd dwys.
- Nid wyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn i gau'r ysgol oherwydd y ffaith bod angen yr ysgol a beth ddaeth dros eich pen i fod eisiau ei chau a rhoi'r disgyblion mewn gwahanol ysgolion, ai er mwyn arbed arian? Bydd yn rhaid i'r disgyblion hyn deithio i ysgolion eraill ac rwyf wedi clywed bod ysgol y Chwe Chloch yn un a fyddai'n gorfod derbyn rhai o'r rhain, felly ysgol y Chwe Chloch y gwnes i ei gwrthwynebu ar adeg yr ymgynghoriad fel y'i gelwid ynghylch ei hadeiladu oherwydd ei lleoliad a'r tagfeydd y byddai'n eu hachosi, felly trwy wneud hyn mae arnoch eisiau rhoi mwy o ddisgyblion mewn sydd eisoes yn profi tagfeydd traffig, ac fe ddylech fod yn sylweddoli y bydd ychwanegu at y tagfeydd hyn yn achosi problemau parcio ac ati a diogelwch a beth yw'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Roseheyworth?
- Nid wyf yn credu bod y cynnig hwn wedi cael ei wneud gyda budd pennaf plant Blaenau Gwent mewn golwg. Rwyf hefyd yn teimlo y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol enfawr ar blant ag ADY sy'n ymdopi mewn ysgol brif ffrwd ar hyn o bryd OHERWYDD y dosbarthiadau llai, rhywbeth a fyddai yn ei dro yn rhoi mwy o bwysau ar ysgol arbennig Pen-y-cwm sydd eisoes yn cynnwys mwy o ddisgyblion nag y mae ganddi gapasiti ar eu cyfer.
- Dydw i ddim yn gyrru. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n llawer anos mynd â'm plentyn i'r ysgol.  Mae hi'n hoffi ei threfn reolaidd a bydd yn colli ei ffrind.  mae hon yn ysgol wych.
- Nid wyf yn ei gefnogi gan nad yw'r niferoedd yn gwneud synnwyr. hefyd mae'r ysgolion eraill eisoes yn llawn a bydd y plant hyd at yr uchafswm niferoedd yn yr ysgol a bydd hyn yn ddi-os yn cael effaith wael ar y dysgu gan y bydd gan athrawon lai o amser i roi sylw un-i-un ac nid oes unrhyw feddwl am lesiant y plant yn hyn, dim ond ffigyrau ar daenlen .ac fel Rhiant sy'n gweithio sut maen nhw'n disgwyl iddynt gael eu casglu ar amser gan bod parcio yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn ofnadwy ar hyn o bryd heb y plant eraill a fydd yn cael eu hychwanegu at yr ysgolion hyn.
- Nid wyf yn cefnogi cau campws Heol Roseheyworth a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y plant o bob campws cynradd. Mae'r plant eisoes yn cael anhawster gorfod newid dosbarth bob tymor a chael athrawon newydd a byddai eu symud yn llwyr a'u gwahanu oddi wrth eu ffrindiau yn tarfu arnynt go iawn. Mae'r parcio ar strydoedd y campysau eraill yn achosi anhrefn bob dydd a bydd y mewnlifiad o draffig trwy uno'r ysgolion yn cael effaith negyddol ar drigolion lleol yn ogystal â materion diogelwch gyda'r gwasanaethau brys.
- Nid wyf yn cefnogi cau Ysgol Roseheyworth, fel rhiant i blentyn ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig sy'n mynychu ysgol roseheyworth, rwy'n teimlo bod 0 ystyriaeth wedi bod i sut y bydd hyn yn effeithio nid yn unig ar fy mhlentyn ond ar eraill fel fe, mae fy mab fel llawer o blant ag

Awtistiaeth yn cael trafferth gyda newid, bydd hyn yn drawmatig iawn iddo ac eraill fel fe, Hefyd, rwy'n teimlo nad oes unrhyw ystyriaeth wirioneddol wedi cael ei rhoi i rieni nad oes ganddynt gludiant i'r ysgolion eraill hyn ac rwy'n teimlo bod hyn yn achosi straen ddiangen i'r aelwydydd hyn, ac mae'r sefyllfa barcio bresennol yn y Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn hollol uffernol, a bydd ychwanegu at hyn yn syml yn achosi mwy o straen ac mae'n anochel y bydd mwy o ddamweiniau. Nid yw cau roseheyworth yn ymarferol ac nid yw o fudd i unrhyw un o gwbl.

- Nid wyf yn cefnogi cau'r ysgol am sawl rheswm. Yr effaith emosiynol a seicolegol ar y plant hynny sy'n mynychu Campws Roseheyworth a hefyd yr effaith ar blant y ddwy ysgol a fyddai'n cael mewnlifiad sydyn o lawer o blant eraill sy'n ddryslyd iawn ac yn tarfu ar eu hamgylcheddau tawel presennol. Bydd yr effaith ar draffig ar amseroedd gollwng a chasglu yn lleoliadau'r ddwy ysgol arall yn aruthrol ac mae'n rhaid dweud bod gan y ddwy ysgol arall broblemau traffig eisoes yn yr ysgolion ac o amgylch yr ysgolion bob dydd. Mae'r ffigyrau sydd wedi'u crybwyll ar gyfer atgyweiriadau yn Roseheyworth wedi'u cymryd o arolygon a baratowyd yn 2022 ac mae peth o'r gwaith a restrir eisoes wedi cael ei wneud ond yn dal i gael ei gynnwys yn y gwaith 'i'w wneud'?? Beth sydd gan y cyngor mewn golwg ar gyfer yr adeilad presennol?? Swyddfeydd cyngor newydd?? Mae arian sy'n cael ei wario ar gyflogau gweithredol yn y cyngor yn symiau anferthol ar gyfer ardal mor amddifadus a dylai derbynwyr y cyflogau hynny fod â chywilydd ohonynt eu hunain am gymryd yr arian. Byddaf fi ynghyd â llawer o rai eraill yn gwrthwynebu'n ffurfiol pan fydd hyn yn mynd ymhellach ar ôl i'r ymarfer ymgynghori 'ticio blychau' hwn gael ei gwblhau. Fel rhywun â 3 o wyrion sy'n ddisgyblion yn Roseheyworth ac fel preswylydd lleol
- Nid wyf yn cefnogi cau campws Roseheyworth am y rhesymau canlynol. Bu sawl astudiaeth gyda thystiolaeth i ddangos y bydd dosbarthiadau mwy yn golygu bod adnoddau addysgu'n gorfod ymestyn yn rhy bell ac yn niweidio addysg a llesiant disgyblion. Mae'r sefyllfa traffig a pharcio, yn enwedig yn y Chwe Chloch, eisoes yn golygu bod y lleoliad ar ben ei dennyn ac mae'r maes parcio a'r fynedfa eisoes yn rhy fach. Bydd ychwanegu rhagor o ddisgyblion yn gwaethygu hyn ac rwy'n credu y bydd yn achosi problem diogelwch ar dir yr ysgol a'r strydoedd cyfagos. Hefyd, bydd llesiant emosiynol disgyblion yn dioddef yn fawr o ganlyniad i'r tarfu y byddant yn ei ddioddef yn sgîl symud o ysgol lle maent yn debygol o fod wedi ymgartrefu ac oherwydd newid yn eu trefn reolaidd a'r cludiant - yn enwedig y disgyblion hynny â mwy o anghenion neu ag anghenion arbennig.
- Nid wyf yn cefnogi dosbarthiadau gorlawn, bydd yn effeithio ar ddysgu ein plant, bydd gormod o bwysau ar athrawon, mae parcio'n hunllef fel y mae.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig gan y bydd yn cael effaith niweidiol ar bawb ym mhob ysgol a'r ardaloedd cyfagos. Byddai'r gost yn dal i fod yr un fath gan y bydd angen i chi ddarparu trefniant arall ar gyfer y mwyafrif o blant a chynnal a chadw adeiladau. Dylai pob plentyn fod â'r hawl i gael eu clywed a bod â llais ac nid cael eu gwthio o gwmpas fel rydych chi'n bwriadu ei wneud. Mae amrywiaeth eang o blant ym mhob un o'r 3 ysgol na fyddant yn ymdopi â symud neu â phlant newydd yn symud i'w dosbarthiadau felly bydd addysg yn dioddef oherwydd tarfu mewn dosbarthiadau ac ar adegau eraill o'r dydd. Roedd gan yr ysgol gyfun ran fawr i'w chwarae yn y ffaith bod gan y cyngor gymaint o ôl-ddyledion ac rwy'n credu ei bod yn well bod yr ysgolion i gyd yn newid yn ôl i fod fel yr oeddent yn hytrach na'u bod i gyd o dan un ymbarél.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig gan nad wyf yn gallu gyrru, mae'n mynd i gostio llawer o arian i mi fynd â'm merch yn ôl ac ymlaen i unrhyw ysgol arall. Hefyd mae diabetes math 1 ar fy merch ieuengaf ac mae'n rhaid iddi gael gofal arbennig gan athrawon y mae angen iddynt gael hyfforddiant ar gyfer ei chyflwr yn yr ysbyty. Rhoi inswlin ar amser byrbryd a swper, dosau cywiro pan fydd ei siwgrau yn uchel, gwirio lefelau siwgr yn y gwaed pan fydd lefel y siwgr yn ei gwaed yn isel, gwirio am getonau pan fydd lefel y siwgr yn ei gwaed yn uchel, gwirio nad yw ei phwmp inswlin yn gollwng inswlin ac nad oes unrhyw rwystrau ynddo. Ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Roseheyworth mae 4+ o athrawon wedi'u hyfforddi i ymdrin â'i chyflwr, os nad oes unrhyw un o'r athrawon hyn yn yr ysgol yna nid yw'n gallu mynychu'r diwrnod hwnnw oherwydd ei diogelwch. Felly, gan nad wyf fi'n gallu gyrru oherwydd fy nghyflyrau meddygol fy hun a chan bod gan fy merch ei chyflwr meddygol hithau, pe bai argyfwng lle mae angen i mi fynd ati cyn gynted â phosibl ni fyddwn yn gallu, ond a hithau yn roseheyworth dim ond i fyny'r stryd ydw i os bydd argyfwng yn digwydd a gallaf ei chyrraedd yn gyflym pe bai angen i mi wneud.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig am y rhesymau canlynol: * Rwy'n teimlo y byddai gormod o ddisgyblion yn Stryd Tyleri, lle mae dosbarthiadau eisoes yn rhy fawr yn fy marn i. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddysgu pob disgybl oni bai bod athrawon ychwanegol yn cael eu recriwtio. * mae'r

ffyrdd a'r maes parcio yn Stryd Tyleri yn llawn hyd eithaf eu capasiti ac yn berygl i bob cerddwr yn yr ardal, byddai hyn yn cael ei waethygu gyda mwy o ddisgyblion. * honnir bod y llwybr i'r ysgol o Ffordd Gwern Berthi yn llwybr diogel i'r ysgol. Nid yw hyn yn wir, oherwydd cyflymder traffig sy'n defnyddio Stryd Alma (ffordd newydd yr ochr chwith i'r Campws Uwchradd), gyda thraffig yn mynd yn gyflymach na 50mya mewn terfyn 20mya! Mae ambell ddamwain traffig wedi digwydd yma, yn ffodus nid oes unrhyw gerddwyr wedi cael eu hanafu hyd yma, ond rydych chi'n peryglu eich bywyd wrth groesi'r ffyrdd ar y groesffordd rhwng Stryd Alma, Heol Penybont a Heol Gwern Berthi. Mae'r rhain eisoes yn hynod beryglus i blant a phobl anabl eu croesi. Gyda mwy o blant o Roseheyworth yn defnyddio'r llwybr hwnnw, byddai'r perygl ddeg gwaith yn fwy! DS Mae angen mynd i'r afael â materion rheoli traffig yn yr ardal hon hyd yn oed heb y bobl ychwanegol a fyddai'n croesi pe bai'r cynnig hwn yn mynd drwodd!!

- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau campws heol rosehayworth. Mae fy mhlant i gyd wedi mynychu'r ysgol hon ac mae'n drist ei gweld yn mynd. Mae gen i blant eraill yn yr ysgol hon o hyd a bydd yn effeithio arnynt hwy, ac felly hefyd ar yr ysgolion eraill o ganlyniad i gau roseheyworth!
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau Campws Roseheyworth. Mae gen i fab ac wyres yn yr ysgol sydd ill dau yn hynod hapus yn eu hysgol ac yn ffynnu hyd eithaf eu gallu. Byddai eu symud i ysgol wahanol yn achosi pryder eithafol a fydd yn golygu na fyddent yn gallu ffynnu yn yr un ffordd. Mae'r cymorth y mae'r plant yn ei gael gan yr athrawon yn Roseheyworth yn anhygoel ac ni fyddai'r plant yn cael yr un faint o gymorth pe bai'n rhaid iddynt symud ysgol gan y byddai'r ysgolion yn cynnwys mwy o ddisgyblion nag y mae ganddynt gapasiti ar eu cyfer sy'n golygu na fyddai rhai plant yn cael cymorth
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau Campws Roseheyworth. Mae yna lawer o blant sy'n dibynnu ar gadw'r ysgol honno ar agor er mwyn iddynt gael addysg dda. Nid yw llawer o'r rhieni yn gyrru ac nid oes ganddynt fynediad at gerbyd ac felly nid ydynt yn gallu mynd â nhw i ysgol arall. Bydd hyn yn ychwanegu straen, pryder a phwysau pellach ar gyfer y rhieni hyn. Hefyd, gan ei bod yn bosibl y bydd angen i blant ychwanegol fynychu'r ddau gampws arall, sydd eisoes yn eithaf llawn, nid yw hyn yn deg â'r plant sydd eisoes yn eu mynychu. Bydd yr ystafelloedd dosbarth yn rhy lawn neu'n cael eu rhannu, gan effeithio ar eu haddysg, grwpiau cyfeillgarwch ac ati ac ychwanegu straen, pryder a phwysau ychwanegol yma hefyd.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Roseheyworth ac adleoli ei disgyblion i Ysgol Gynradd y Chwe Chloch neu Ysgol Gynradd Stryd Tyleri. Mae gan Roseheyworth rôl bwysig o ran darparu amgylchedd sefydlog a chefnogol i'w disgyblion. Byddai cau'r ysgol yn achosi tarfu diangen ar addysg a llesiant plant. Byddai hefyd yn ychwanegu pwysau sylweddol ar gyfer y Chwe Chloch a Stryd Tyleri, gan olygu bod staff, ystafelloedd dosbarth ac adnoddau'n ymestyn ymhellach, ac fe allai effeithio ar safonau i bob disgybl. Dylid ailystyried y cynnig hwn er budd pennaf y plant a'r gymuned leol.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau'r ysgol hon. Mae gan fy merch anableddau ac mae'n dibynnu'n helaeth ar y sefydlogrwydd, y drefn a'r cymorth y mae ei hysgol bresennol yn eu darparu. Byddai cau'r ysgol yn tarfu'n sylweddol ar ei haddysg, ei llesiant a'i diogelwch emosiynol. Mae plant ag anghenion ychwanegol yn aml yn cael newidiadau yn anodd iawn, a gallai ei symud i amgylchedd ysgol gwahanol gael effaith negyddol ddifrifol ar ei chynnydd a'i hiechyd meddwl. Byddai hyn hefyd yn effeithio ar ei chwaer iau, sy'n mynychu'r un ysgol. Byddai eu gwahanu neu orfodi'r ddau blentyn i symud yn creu straen ychwanegol i'n teulu ac yn tarfu ar y rhwydwaith cymorth sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn deall anghenion fy merch ac wedi datblygu gwybodaeth bwysig am y ffordd orau o'i chefnogi. Byddai colli'r amgylchedd hwn yn hynod niweidiol i'w datblygiad a'i sefydlogrwydd. Erfyniaf yn gryf ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried yr effaith ar ddisgyblion a theuluoedd sy'n agored i niwed fel ein teulu ni cyn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i leihau'r ysgol. Mae hyn yn hanfodol i'n cymuned.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau ysgol fy merch oherwydd ei bod yn chwarae rhan hanfodol yn ei thwf academaidd, ei llesiant emosiynol a'r ymdeimlad o gymuned. Byddai cau ei hysgol yn tarfu ar ei haddysg ac yn y pen draw yn dileu system gymorth bwysig i lawer o deuluoedd. Mae'r ysgol hon yn fwy na dim ond adeilad, dyma galon ein cymuned. Byddai cau'r ysgol hefyd yn cynyddu maint dosbarthiadau yn yr ysgolion eraill, yn achosi straen fawr oherwydd gorfod trosglwyddo (a ninnau'n byw yn lleol) Ar ben hynny, bydd hyn yn tarfu'n fawr ar grwpiau cyfeillgarwch, bydd yn effeithio ar hyder plant (yn enwedig pa mor anodd oedd hi i'm merch fynychu'r ysgol yn y dechrau) Yr ateb gorau fyddai canolbwyntio ar gryfhau'r ysgol nid ei chau

- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig, nid yw hyn yn dwyn unrhyw bethau cadarnhaol i Gymuned Abertyleri. Mae Campws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch yn llawn sy'n golygu y bydd plant yn cael safon addysgu is oherwydd meintiau’r dosbarthiadau, yn enwedig y plant sy'n ei chael hi’n anodd yn academaidd. Mae ysgol Roseheyworth yn cynnwys llawer o aelwydydd mewn tai cyngor sydd ar incwm isel, ac maen nhw'n dibynnu fynd â’r plant i'r ysgol ar droed a chadw'r cwlwm cymunedol clòs hwnnw, gan eu bod yn adnabod yr ysgol yn dda. Rydych chi'n gwneud i blant roseheyworth fod dan anfantais o’i gymharu â’u cymheiriaid, trwy eu symud a tharfu ar holl ddeinameg yr hyn maen nhw wedi arfer ac yn gyfforddus ag ef... Pam nad yw'r plant yn flaenllaw mewn ystyriaethau wrth feddwl am hyn?! Ydych chi hyd yn oed wedi siarad gyda'r plant i gael eu barn a'u pryderon am y cynnig i gau’r ysgol!
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig. Bydd cau Roseheyworth yn achosi trallod a phryder i'r plentyn sy'n gorfod symud ysgol, gan adael eu ffrindiau, athrawon, a lle maen nhw'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel, bydd hyn yn achosi problem iechyd meddwl difrifol i blant ifanc, gan hefyd effeithio ar y gallu i sicrhau eu bod yn dod i'r ysgol yn hapus ac effeithio ar bresenoldeb y disgybl a'r ysgol. Bydd effaith fawr ar addysg y plant, gyda gormod o ddisgyblion mewn dosbarth, ni fydd y plant yn cael y cymorth y mae ei angen. Mae gan Roseheyworth y "Nyth" sydd ar gyfer disgyblion ADY, ni fydd y plant yn y nyth yn cael y cymorth llawn y mae ei angen fel maen nhw'n ei wneud yn Roseheyworth oherwydd bod mwy o blant ag ADY yn yr ysgolion eraill, bydd hyn yn effeithio'n enfawr ar blant y nyth. Mae parcio yn Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch eisoes yn beryglus iawn i blant sy'n cerdded, yn mynd i mewn i'w ceir, neu wrth yrru i ffwrdd o'r ysgolion, sawl gwaith mae Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch wedi gorfod cael Heddlu Gwent yn patrolio'r ardaloedd oherwydd y parcio a'r amodau peryglus, bydd ychwanegu mwy o ddisgyblion i lawr yn yr ardaloedd yn ychwanegu mwy o geir sy'n cludo plant i'r ysgol ac oddi yno gan wneud yr amodau hyd yn oed yn fwy peryglus. Bydd yr amser teithio i'r llu o rieni sy'n gorfod mynd â’u plant i'r ysgol ar droed yn dyblu a fyddai'n gwneud llawer o ddisgyblion yn hwyr i'r ysgol. Hefyd, nid yw rhai rhieni neu blant yn gallu cerdded yn bell oherwydd anableddau, bydd hyn hefyd yn effeithio ar bresenoldeb y disgyblion. Mae ysgolion y Chwe Chloch a Stryd Tyleri ill dwy bron yn llawn, sy'n golygu nad oes llawer o le i ddisgyblion o Roseheyworth allu mynychu eu hysgolion. Ceir posibilrwydd y bydd y gyfraddau genedigaethau yn Abertyleri’n codi, a phan fydd hyn yn digwydd ni fydd digon o le yn yr ysgolion i'r plant hyn fynychu a allai olygu y bydd rhai plant yn mynd heb addysg gan nad yw rhieni yn gallu cael lle iddynt mewn ysgol.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig. Mae campws Stryd Tyleri a champws y Chwe Chloch eisoes yn llawn. Bydd ychwanegu rhagor o blant yn effeithio ar eu haddysg. Mae parcio yn ddrwg ar safleoedd y ddwy ysgol, bydd hyn yn achosi mwy o anhrefn ac yn ei gwneud yn beryglus i blant sy'n cerdded adref. Rwy'n ymwybodol bod rhai plant wedi bod yn cael eu haddysgu mewn coridorau yn ddiweddar oherwydd diffyg lle yn barod ar gampws Stryd Tyleri.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig. Ble fydd yr holl blant yn mynd pan nad oes gan y Chwe Chloch a Stryd Tyleri ill dau’r capasiti ar gyfer mwy na 100 o ddisgyblion. Bydd tarfu ar addysg y plant am bod gormod o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Mae parcio yn y ddau safle, Stryd Tyleri a’r chwe chloch, yn beryglus iawn ar adegau gollwng a chasglu, bydd ychwanegu mwy o ddisgyblion at yr ysgolion yn achosi mwy o darfu ar y strydoedd a bydd yn achosi damwain. Mae llawer o ddisgyblion eisoes yn cael trafferth gyda bywyd ysgol fel y mae a hwythau wedi bod yn yr ysgol am flynyddoedd lawer, trwy symud y disgyblion bydd yn achosi mwy o drallod i'r plant a bydd presenoldeb yn gostwng. Beth fydd yn digwydd ymhen blynyddoedd pan fydd mwy o blant yn dechrau ysgol a bod dim modd cofrestru disgyblion yn yr ysgolion. Bydd rhannu'r plant sydd â ffrindiau ac sy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol gyda'u hathrawon a'u ffrindiau yn achosi trallod a phryder i blant.
- Nid wyf yn cefnogi bod ag ysgol yn agos a bod fy mhlentyn yn gorfod trosglwyddo i gampws Stryd Tyleri neu’r Chwe Chloch gan bod meintiau’r dosbarthiadau eisoes yn rhy fawr ac y bydd yn cael effaith enfawr ar fy mhlentyn am na fyddant yn cael y gefnogaeth a'r help y mae eu hangen arnynt i ddysgu.
- Nid wyf yn cefnogi hyn gan ei fod yn tynnu’r dewis i ffwrdd, ystafelloedd dosbarth gorlawn 2 dewis plant.
- Nid wyf yn cefnogi'r penderfyniad hwn i gau Ysgol Gynradd Roseheyworth, dim ond 26 oed yw'r ysgol honno, mae'n ysgol sefydledig ac yn gwneud pethau gwych i bob plentyn sy'n mynychu, mae fy mhlentyn ar hyn o bryd ym mlwyddyn 4 ac yn caru ei ysgol, mae'n caru ei athrawon a'i ffrindiau y mae wedi eu hadnabod ers y dosbarth derbyn, byddai cau'r ysgol yn golygu gwneud pob aelod o staff yn ddi-waith, atal pob plentyn rhag cael addysg wrth iddynt aros i leoedd fod ar

agor a byddai hefyd yn golygu eu bod yn debygol o gael eu rhannu oddi wrth eu ffrindiau. Nid oes gan Ysgolion Cynradd Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch ddigon o le i ddarparu ar gyfer yr holl blant hyn, a ydych chi'n disgwyl i blant gael eu rhoi mewn ysgolion ymhellach i ffwrdd? Sut fyddwch chi'n mynd â'r plant hynny yno? ble fyddan nhw'n mynd? Gyda faint o'u ffrindiau fyddan nhw'n cael aros? Ble fydd y darparwr gofal plant (Mini Me) yn mynd? Mae fy mab yn mynychu'r ddarpariaeth honno hefyd ac mae'n hanfodol i mi allu gweithio'n llawn-amser. Ni allwch gau ysgol gynradd roseheyworth, ni ddylai'r plant gael eu cosbi am ddyled nad oes a wnelo â hwy o gwbl, mae angen i'r cyngor a phwy bynnag arall sy'n gysylltiedig ddod o hyd i ffordd wahanol yn hytrach na chau ysgol roseheyworth

- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn. Bydd symud fy merch i ysgol arall yn effeithio'n fawr arni. Mae ganddi grŵp cyfeillgarwch agos ac mae ganddi sesiynau addysgu llai gydag athrawon oherwydd nad yw'n ymgysylltu â sesiynau dosbarth mwy. Dewisais Roseheyworth yn fwriadol am y rheswm hwn a bydd ei symud i ysgol newydd gyda dosbarthiadau o 30 a mwy o blant yn cael effaith negyddol ar ei dysgu a'i gorbryder. Rwy'n llwyr wrthwynebu'r cynnig hwn a'r effaith y bydd yn ei chael ar blant pob campws.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn. Mae hon yn ysgol gymharol newydd gyda staff a chyfleusterau anhygoel. Byddai cau yn golygu dosbarthiadau mwy yn yr ysgolion eraill a fydd yn rhwystro dysgu plant.
- Nid wyf yn cefnogi hyn. Mae angen dosbarthiadau llai ar blant, nid rhai mwy. A yw llesiant staff yn cael ei ystyried?
- Nid wyf yn credu bod y cynnig wedi cael ei ystyried hyd at ei ben, wrth fynychu cyfarfodydd gyda'r ALl mae wedi dod yn amlwg nad oes llawer o gynllun at y dyfodol. Er enghraifft, ar ôl sgwrsio gyda thîm yr ALl am anghenion cludiant, nodwyd nad oes unrhyw gynllun i roi cludiant yn ei le ar gyfer disgyblion Roseheyworth. Y campws agosaf nesaf gan CDdA yw Stryd Tyleri sydd 1.4 milltir i ffwrdd, tua 27 munud ar droed, o'i gymharu â'r daith gerdded 5-10 munud y mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion yn ei gwneud bob dydd, sy'n gwneud y gofyniad i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn y bore yn llawer anos gan bod y cymudo'n cymryd yn hwy o lawer i'r rhai ar droed. O ran y rhai sy'n gallu ei wneud ar gludiant cyhoeddus neu â chludiant preifat bydd yn arwain at fwy o gost i deulu sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Fel aelod o staff, dylid tynnu sylw at y ffaith bod rhai disgyblion yn cael trafferth cyrraedd yr ysgol, ar amser neu o gwbl er eu bod dafliad carreg i ffwrdd. Os bydd yr ysgol hon yn cau, byddai'r ALl yn cynyddu'r bwlch rhwng ein disgyblion a'u haddysg. Hefyd, tra'r oedd tîm yr ALl yn ateb cwestiynau, fe'i gwnaed yn glir hefyd, nad oes unrhyw gynllun ar gyfer anghenion ADY yn y dyfodol. O fewn ein campws mae gennym o leiaf ddwsin o ddisgyblion sydd â chynllun dysgu ychwanegol oherwydd anghenion ADY. Byddai'r disgyblion hyn yn cael trafferth ffynnu a dysgu o fewn lleoliad prif ffrwd sef y cynllun presennol y mae'r cynnig yn ei gynnwys. Mae'r amgylchedd NYTH sydd gennym ar hyn o bryd yn rhoi eu lle eu hunain i'r disgyblion hyn i ddysgu. Fodd bynnag, gyda'r cynnig i gau'r ysgol, mae lle'n dod yn gyfyngedig, wrth geisio darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan roi dysgu mewn perygl i'r rhai sydd ag ADY. Mae'r ansicrwydd ynghylch dyfodol y ddarpariaeth ADY a'r amgylchedd NYTH yn codi pryderon pellach, gan bod y plant hyn yn dibynnu ar gymorth arbenigol cyson na ellir ei efelychu mewn mannau eraill heb gynllunio a buddsoddiad gofalus, gan gynyddu'r diffyg o bosibl. Pwnc arall y cyffyrddwyd arno oedd yr arbedion posibl y gellid eu gwneud trwy gau'r campws. Y prif sbardun ar gyfer cau yw arian, arbed arian o'r diffyg a'i ailddosbarthu ar draws CDdA. Fodd bynnag, nodwyd fod yr ALl yn ceisio lleihau'r diffyg trwy arbed £670,000 bob blwyddyn. Fodd bynnag, trwy gau'r campws dim ond £200000 fydd yn cael ei arbed bob blwyddyn, mae'r ansicrwydd o ble y bydd gweddill yr arbedion hyn yn dod wedi gwneud i lawer o weithwyr ofni am sicrwydd eu swyddi a'u bywoliaeth. Hyd yn oed gyda'r gostyngiad disgwyliedig yn nifer y disgyblion, nid yw'n bosibl arbed y symiau hyn heb gwtogi ar rai o'r meysydd lle ceir y gwariant mwyaf, sef swyddi. Yn ogystal â hyn, bydd gwariant pellach o £100000 mewn costau cyfalaf ar draws y ddau gampws arall ar gostau cyfalaf sy'n golygu y bydd mwy o arian yn cael ei wario, sy'n golygu llai o adnoddau. Llai o sicrwydd swyddi a llai o gymorth i'r disgybl, gan bod y ddau gampws arall yn gorfod gwneud i gyllideb sydd eisoes yn denau ymestyn i ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion. Nodwyd hefyd fod costau cynnal a chadw i gadw'r campws ar agor, ond yn ôl y sefyllfa yn 2022 ystyriwyd fod bron pob un o bwyntiau arolygu campws Roseheyworth yn foddhaol ac nid oes arolygiad diweddarach wedi cael ei gynnal. Felly, er y gallai'r cynnig arbed arian yn y tymor byr, nid wyf yn credu bod yr arbedion hyn yn rhoi digon o gyfiawnhad yn y tymor hir dros ddadwreiddio 152 o ddisgyblion (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys disgyblion meithrin) ac o leiaf 25

aelod o staff, o'u dysgu a'u swydd. Mae ychydig o resymau eraill pam nad wyf yn cefnogi'r cynnig hwn gan gynnwys sut y bydd cau'r campws hwn yn golygu llai o gymorth i'n disgyblion (gan bod swyddi'n cael eu colli i helpu gydag arbedion, sy'n golygu llai o staff cymorth a mwy o ddisgyblion ym mhob ystafell ddosbarth), tarfu ar eu dysgu (wrth iddynt symud ysgol, colli ffrindiau a rhwydweithiau cymorth cymdeithasol), cynnydd mewn pwysau ar staff sy'n cadw eu swyddi (mwy o ddisgyblion ym mhob dosbarth, gan olygu mwy o anghenion y mae'n rhaid eu diwallu, gan arwain at lai o foddhad yn y swydd a chynnydd mewn straen, gan gael effaith negyddol ar y gweithlu cyfan), a dosbarthiadau mwy (sy'n golygu llai o adnoddau a llai o ddysgu, wrth i athrawon geisio diwallu anghenion pawb). Mae Blaenau Gwent yn un o'r ALlau mwyaf amddifadus yng Nghymru, gyda 22% o'n ALl o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus ar gyfer addysg. Mae gennym hefyd y dosbarthiad addysg lleiaf fel ALl (MALIC, 2025). Ni ddylem fod yn gwneud yr amddifadedd hwn yn waeth trwy gau ysgol y mae ei dirfawr angen, byddai cau'r campws hwn yn achosi mwy o galedi i'r rhai sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Er y byddai'n arbed ychydig o arian, wrth ystyried popeth o fewn y cynnig hwn, byddai cau'r campws hwn yn fwy niweidiol, gan ddwyn llawer mwy o ganlyniadau negyddol na rhai cadarnhaol.

- Nid wyf yn credu y dylai hyn fynd yn ei flaen gan y bydd yn tarfu ar y plant ac y bydd yr ysgolion eraill yn mynd yn orlawn ac ni fydd hynny'n cefnogi'r plant nac athrawon yr ysgol ac mae'n cymryd cymaint o amser i'm plentyn ymgartrefu yn yr ysgol ac os penderfynwch gau'r ysgol nid wyf yn gwybod pa mor hir y bydd yn ei gymryd iddyn nhw ymgartrefu drachefn felly nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau'r ysgol.
- Nid wyf yn credu y byddai'r campysau presennol yn ymdopi â'r nifer ychwanegol o blant a fyddai'n cael eu hychwanegu atynt o Roseheyworth. Rwy'n credu y byddai'n effeithio'n negyddol ar ddysgwyr pob ysgol.
- Nid wyf yn credu y bydd cau'r ysgol yn helpu gyda llesiant fy nau blentyn, y mae un ohonynt yn cael trafferth gyda rhyngweithio cymdeithasol gan olygu y bydd trosglwyddo i gampws newydd yn frawychus iawn ac yn straen. Maen nhw'n gwneud yn wych yn Ysgol Roseheyworth ar hyn o bryd ac rwy'n teimlo y byddan nhw'n syrthio ar ei hôl hi yn eu hastudiaethau.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig, a minnau â phlentyn ar Gampws Stryd Tyleri fy mhryderon yw y bydd y cynnydd yn y niferoedd i'n hysgol yn gost fawr i'r plant presennol, bydd y straen ar staff a'r ysgol yn llawer mwy. Fy mhryderon yw mwy o ddisgyblion, bydd athrawon dan fwy o bwysau ac rydym eisoes yn gwybod bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd heb ychwanegiad. Mae campws stryd Tyleri eisoes i'w weld yn llawn iawn felly trwy ychwanegu mwy, bydd yn arwain at anhrefn. Mae'r adegau gollwng a chasglu plant eu hunain, yn enwedig gollwng plant yn y boreau yn yr ardal hon, yn hurt o brysur ac mae'r sefyllfa'n chwerthinllyd gyda cheir yn mynd i mewn ac allan o'r campws heb sôn am ychwanegu mwy at yr anhrefn. Yn ystod yr amseroedd cinio rwy'n ymwybodol eu bod yn rhuthro plant fel y gallant fwydo pob grŵp blwyddyn. Y lle yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae safle'r campws ei hun yn hectig a phrysur iawn. Hefyd mae angen cynyddu darpariaeth ADY erbyn 2030, nid yw anghenion y disgyblion hyn yn cael eu diwallu rhyw lawer fel y mae felly beth fydd y canlyniad iddynt hwy. Trwy fod angen cynyddu capasiti erbyn 2030 pam cau'r ysgol? Byddai rhoi disgyblion yn y brif ffrwd yn achosi straen yn yr ystafelloedd dosbarth, i athrawon ac i'r disgyblion eraill. Gan bod y trydydd campws yn bodoli gellir ei ddefnyddio i helpu ADY a gweithio ar y cyd â'r ysgolion, does bosib, fel bod y plant yn gallu aros yn eu hardaloedd a hynny'n rhoi gwell cyfleoedd i ddisgyblion ADY a'r disgyblion prif ffrwd. Gwell hynny na gweld yr ysgol yn cau. Sut fyddwch chi'n penderfynu pwy sy'n mynd i ble? A fydd yna reolau llymach newydd o ran dalgylchoed. Byddai'n drist iawn gweld yr ysgol yn cau.
- Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig am ei fod yn mynd i olygu dosbarthiadau mwy. Mae yna lawer o blant eisoes mewn llawer o ddosbarthiadau ar gampws Abertyleri a'r Chwe Chloch. Ar ben hynny, athrawon sy'n ceisio ymdopi â phlant ag anghenion arbennig. Neu ddim byd ond problemau ymddygiad gwael. Nid yw'r plant eraill wedyn yn cael y sylw llawn maen nhw'n ei haeddu. Tarfu. . ystafelloedd dosbarth. Ac rwy'n dychmygu y bydd swyddi'n cael eu colli ar ben hynny.
- Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig. Bydd hyn yn golygu teithio ymhellach i ysgol arall, gan wahanu fy wyrion ac ansicrwydd ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer fy ŵyr sy'n ddisgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau.
- Dydw i ddim yn meddwl y dylai ysgol sydd wedi bod yno am dros ddau ddegawd gael ei chau, mae'n lleol ac mae llawer o blant wrth eu bodd â'r ysgol honno. Bydd plant yn y pen draw yn teithio ymhellach i fynd i'r ysgol, a allai roi straen ar rieni sy'n byw yn lleol.

- Nid wyf yn credu y dylai campws heol roseheyworth gau. Mae yna deuluoedd nad ydynt yn gallu gyrru ac mae bod ag ysgol o fewn pellter cerdded yn ddelfrydol. Mae plant wedi gwneud ffrindiau a ffurfio cwlwm gyda'r athro a bydd popeth yn cael ei gymryd i ffwrdd a bydd yn annifyr iddyn nhw os oes rhaid iddyn nhw symud ysgol
- Nid wyf yn credu y bydd cau Campws Roseheyworth yn ganlyniad cadarnhaol i'r gymuned ac i staff.
- Nid wyf yn credu y dylai'r dosbarthiadau gael eu gorlenwi gan bod y rhan fwyaf ohonynt yn llawn eisoes.
- Nid wyf yn credu bod y plant yn ein hardal felly rwy'n credu bod cymryd ysgol oddi wrthynt mor anghwrtais iawn ac mewn gwirionedd ddim yn syniad da
- Nid wyf am i hyn effeithio ar addysg fy mhlentyn yn y dyfodol, rwyf hefyd yn poeni y bydd llai o leoedd yn y dyfodol i blant y dyfodol wneud cais i gampws y Chwe Chloch!
- Nid wyf yn credu bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno ynghylch sut y bwriedir gwneud lle i'r mewnlifiad o blant rhwng y ddwy ysgol sy'n weddill. Mae gwallau amlwg yn y ffigyrau a gyflwynwyd ac nid ydynt yn gwneud synnwyr, a hwythau'n ffigyrau is na swm gwirioneddol y rhifau. Nid yw'r rhifau rhwng y ffigyrau a gyflwynwyd yn cyfateb i'w gilydd nac yn cyd-fynd â'i gilydd ychwaith. Mae'n codi llawer o gwestiynau ynghylch sut y gwnaed yr asesiad hwn ar gyfer y cynnig mewn gwirionedd a pha mor hyfyw ydyw gan bod y data i'w weld yn llai na dibynadwy.
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig gan y gallai achosi trallod i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol oherwydd nad ydynt yn eu mannau diogel ac adnabyddus mewn lleoliad addysgol. Gall achosi trallod gyda theuluoedd incwm isel ac anallu i fynd i'r campysau newydd oherwydd materion ariannol neu ddisgyblion nad ydynt yn gallu teithio'n ddiogel trwy gerdded, maent yn orlawn yn y campysau eraill felly ni fydd ond yn ychwanegu at y broblem honno yn hytrach na symud disgyblion i gampws Roseheyworth i godi eu niferoedd a lleihau'r problemau gorlenwi yng nghampysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri
- Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gau'r ysgol gan y bydd yn effeithio ar y teuluoedd nad ydynt yn gyrru sy'n byw yn ardal areal view Rwy'n credu bod campws roseheyworth yn rhan fawr o'r gymuned mae fy mhlant i gyd wedi mynd yno ac yn dal i fod yn yr ysgol hon.
- Nid wyf yn credu y dylai'r ysgol hon gael ei chau.
- Nid wyf yn credu y dylai'r ysgol hon gau. Rhy bell i'r plant gerdded i ysgol arall
- Rwy'n ofni y bydd cau'r ysgol yn arwain at ystafelloedd dosbarth gorlawn a fydd yn effeithio ar addysg plant, hefyd mae parcio yn Stryd Tyleri eisoes yn ddrwg fel un o breswylwyr Stryd Newall rwy'n poeni bod hyn yn mynd i waethygu
- Rwy'n teimlo bod symud y plant i'r ysgolion eraill yn mynd i greu dosbarthiadau mwy nad wyf yn teimlo sy'n fuddiol i'r plentyn na'r staff.
- Rwy'n teimlo bod digon o ddisgyblion yn Stryd Tyleri lle mae fy mhlant yn mynychu ac ni fyddwn am iddo effeithio ar addysg fy mhlant
- Mae'n sioc i mi gan bod ganddyn nhw gyfleusterau gwych i'r genhedlaeth iau.
- Rwy'n ei gael yn hollol annealladwy y byddech chi'n ystyried cau ysgol sy'n cael ei pharchu'n dda o fewn y gymuned gyda chae chwarae ar garreg ei drws a symud y disgyblion i naill ai Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch sy'n hunllef lwyr i rieni a phreswylwyr fel ei gilydd ar adegau agor a chau ysgolion. Mae'r traffig yn ofnadwy nawr, bydd y weithred hon yn ei wneud yn waeth. Rwy'n bersonol yn credu bod ysgol y Chwe Chloch wedi'i hadeiladu yn y lle anghywir i ddechrau, mae parcio a gollwng yn jôc lwyr ac yn ystod misoedd y gaeaf nid oes llawer o olau haul yno felly pan fydd yr amodau'n rhewllyd yn gwaethygu'r sefyllfa bydd potensial i greu hunllef o ran iechyd a diogelwch. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n dod at eich coed ac yn gwrando ar farn y gymuned..... Mae disgyblion wrth eu bodd â'r ysgol, rhieni wrth eu bodd â'r ysgol..... gwnewch y peth gweddus a rhowch y gorau i'r penderfyniad hwn.
- Mae'r penderfyniad i gau'r ysgol hon yn sioc lwyr i mi, rwy'n deall y materion ariannu yn llwyr, mae'n troi arnaf ochr yn ochr â bod y cyngor yn hyrwyddo prosiectau diangen fel gorsaf reilffordd Abertyleri. Mae angen iddyn nhw gael gair gyda nhw eu hunain
- Rwy'n llwyr gredu na ddaw unrhyw fudd o gau'r ysgol ar wahân i roi mwy o arian ym mhocedi'r llywodraeth. Mae mwy o blant yn y dosbarth yn golygu llai o amser i bob plentyn. Mae'r ddwy ysgol eisoes ar ben eu tennyn a byddai hyn yn eu gwthio dros y dibyn. Mae angen amgylchedd diogel a sefydlog ar y plant i dyfu a datblygu, rydym yn llunio ein dyfodol yma.

- Rwy'n anghytuno'n llwyr â chau ysgol gynradd leol Roseheyworth. Rwy'n credu bod y cyngor yn un cafflwr mawr! Doeddwn i erioed o blaid yr ysgol 3-16 o'r diwrnod cyntaf ynghyd â'r rhan fwyaf o rieni. Mae'r cyngor yn cael ei ysgogi gan arian, sut allwch chi wasgu pob un o'r plant hyn i mewn i 2 gampws. Nid ydych chi'n meddwl am lesiant y plant o gwbl, na hyd yn oed yn ystyried barn y rhieni. Hefyd yn wael iawn ac yn ffiaidd nad oedd hyd yn oed yr athrawon yn ymwybodol nes iddo gael ei ddatgelu'n answyddogol. Rhydd i bob un ohonom ein barn, wel felly y dylai fod, ac fel rhiant y gwnaeth fy merch fynychu'r ysgol gynradd fach hon tan eleni, nid wyf yn cydsynio â'r hyn sy'n cael ei gyflwyno. Mae'n hunanol iawn. Ac rwy'n siŵr hefyd y bydd y safle'n dal i gael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol, cywirwch fi os ydw i'n anghywir, mae angen protestiadau, er mwyn i'r bobl wneud safiad ac i'w lleisiau gael eu clywed! Dylai'r ysgol hon aros ar agor. Rwyf hefyd yn breswylydd lleol!
- Rwy'n gwrthod y cynnig a gyflwynir yn llwyr. Er bod y sefyllfa ariannol yn gwbl ddealladwy, y gwir amdani yw y bydd y cynnig yn tarfu gymaint â phosibl ar y disgyblion yn Roseheyworth yn ogystal â'r rhai yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch. Yn gyntaf, bydd yn tarfu ar gyfeillgarwch presennol sydd eisoes wedi'i ffurfio. Fel rhywun sy'n gweithio ym maes addysg fy hun, mae bod yn hapus ymhlith cymheiriaid a bod eisiau mynd i'r ysgol bob dydd yn rhan sylfaenol o daith addysg plentyn. O'r hyn rydw i wedi'i weld, mae Roseheyworth yn darparu rhwydwaith cymorth gwych lle mae pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi.  Yn ail, beth yw'r cynigion a gyflwynir ar gyfer argaeledd clybiau brecwast? Fel rhywun sy'n dibynnu ar arlwy'r clwb brecwast a fyddai hyn ar gael o hyd? Byddai'r niferoedd arfaethedig a fyddai'n uno o fewn campws Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn awgrymu efallai na fydd lle i'r arlwy hon fod ar gael. Yn drydydd, cludiant. Mae llawer o deuluoedd yn cerdded i'r ysgol. Mae Stryd Tyleri ac yn fwy felly'r Chwe Chloch gryn bellter i ffwrdd o ddalgylch Roseheyworth ac er bod Stryd Tyleri o fewn y pellter mewn milltiroedd a nodir yn y canllawiau i'r rhan fwyaf mae'n ymddangos yn chwerthinllyd y byddai awgrymiadau o'r fath yn cael eu gwneud, hyd yn oed pe bai cludiant yn cael ei gynnig. Yn olaf, mae'r lleoliad 3-16 yn ei gyfanrwydd yn methu. Maent yn tanberfformio ym mron pob agwedd ar ddysgu ac addysgu, gyda sgoriau Capio 9, llythrennedd a rhifedd i gyd yn sylweddol is na'r cyfartaledd. Rwy'n credu, pe bai'r ysgol yn cael ei chau, y bydd maint dosbarthiadau yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn mynd yn sylweddol fwy, gan arwain felly at fwy o bwysau ar athrawon ac yn y bôn llai o daith ddysgu wedi'i phersonoli i'r disgyblion. Ni fydd hyn ond yn rhwystro eu siawns o gael addysg o'r safon uchaf yn ogystal â'r effaith y bydd yn ei chael yn y tymor hir gyda nod (gobeithio) yr ysgol i wella safonau dysgu ac addysgu.  Rwy'n llwyr yn erbyn y cynnig i gau ysgol Roseheyworth.
- Rwy'n deall yn iawn bod nifer y disgyblion wedi gostwng a'i fod yn gwneud synnwyr ariannol cau'r ysgol ddrutaf i'w rhedeg ond mae'r ffordd y mae'r cyngor wedi ymdrin â hyn yn anhygoel o dan din ac yn amhroffesiynol. Roedd yn rhaid i rieni ddarganfod trwy facebook, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw atebion gan yr ysgol a hyd y gwn i, nid yw'r cyngor wedi gwneud dim i baratoi'r ysgolion eraill ar gyfer y trawsnewid hwn. Mae gan fy merch awtistiaeth, mae hi'n treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn y NYTH lle mae hi'n cael cymorth da ac mae wedi cymryd amser hir i ddatblygu cysylltiadau â'r staff a disgyblion eraill. Ym mis Medi mae disgwyl iddi ddechrau yn y derbyn a symud o ddim ond 2.5 awr y dydd i 6. Mae hwn yn addasiad enfawr iawn iddi ac mae'n mynd i fod yn anhygoel o anodd. Nawr, mae'n debygol y bydd hi'n mynd trwy'r broses honno mewn ysgol newydd, gydag athrawon newydd a disgyblion newydd. Mae hyn yn ormod o newid ar unwaith ac mae'n debygol y bydd hi'n dechrau ofni ysgol, ofn a fydd ar y gorau yn aros gyda hi am flynyddoedd, ar y gwaethaf yn para am byth.  Mae cau'r ysgol i arbed arian yn mynd i effeithio'n negyddol ar gannoedd o ddisgyblion, staff a rhieni. Os oes diffyg cyllid mae hynny oherwydd camreoli'r gyllideb. Mae'r ffordd y mae'r cyngor wedi mynd ati i wneud hyn yn gywilyddus, yn amhroffesiynol ac yn anghynhwysol. Nid wyf yn gwybod dim! Mae hyn yn mynd i droi bywyd fy mhlentyn â'i wyneb i waered ac ni fu gan y cyngor hyd yn oed y proffesiynoldeb i fod yn agored ynglŷn â'r hyn y bydd y broses yn ei olygu. Doeddwn i ddim yn gallu dod i'r cyfarfod yn y clwb rygbi, rwy'n fam sengl, yn ofalwr llawn-amser ac yn methu â tharfu ar drefn reolaidd fy mhlentyn. Rwyf am wybod pa addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r ysgol newydd i'w gwneud yn hygyrch i blant ag anghenion arbennig? Mae arnaf eisiau gwybod yn union pryd mae disgwyl i blant NYTH symud i'w hysgol newydd? Rwyf am wybod a fydd yr athrawon/cynorthwywyr addysgu o roseheyworth yn cael eu rhoi i'r ysgolion newydd i wneud y broses bontio yn haws? Rwyf am wybod a fydd gennym ni fel rhieni lais ynghylch pa ysgol y bydd plant yn cael eu symud iddi? Rwyf am wybod a fyddwch chi'n ad-dalu'r arian i rieni y maen nhw wedi'i wario ar wisg ysgol a fydd nawr yn wahanol? Mae arnaf eisiau gwybod pam nad ydych wedi cyhoeddi datganiad cyhoeddus gyda'r

atebion hyn? Hoffwn hefyd wybod sut y mae'r gyllideb wedi cael ei rheoli mor wael fel bod ein plant bellach yn gorfod ymdrin â'r sefyllfa hon sy'n tarfu arnynt ar adeg mor dyngedfennol yn eu datblygiad? Mae dweud fy mod i'n ddig yn llai na'r gwirionedd, rwy'n gynddeiriog ac felly hefyd pawb arall. Fel aelodau'r cyngor, eich gwaith chi yw sicrhau eich bod yn rheoli'r gyllideb i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu i'r gymuned rydych chi'n ei gwasanaethu. Ni ddylid cosbi plant y gymuned hon am ddiffyg rhagolwg a diffyg gallu i reoli cyllideb y cyngor. Mae'n ddigon drwg eich bod chi'n gwneud hyn, mae'n waeth pa mor wael yr ymdriniwyd ag ef. Mae arnom ni eisiau atebion, rydyn ni'n haeddu atebion a'ch gwaith chi yw eu darparu.

- Mae gen i 2 nai a nith sy'n mynychu'r ysgol hon ac mae'r 3 wedi ymgartrefu'n iawn yma ac yn hapus gyda bod yn yr ysgol hon, ond yn bennaf rwy'n poeni'n fawr am y plant yn yr ysgol hon sydd ag anghenion gwahanol ac y mae arnynt angen help ychwanegol, rwy'n gwybod bod ganddyn nhw ddosbarth o'r enw dosbarth Nyth, yr unig reswm rwy'n gwybod hyn yw oherwydd bod fy nai sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ac wedi gorfod cael ei roi yn y dosbarth Nyth oherwydd ei fod mor ansefydlog mewn ystafell ddosbarth gydag eraill ar ddechrau'r flwyddyn yn mynychu'r ysgol ac yn mynd i'r nyth, mae hyn wedi helpu fy chwaer yng nghyfraith i'w gadw yn yr ysgol pan oedd adegau yr oedd hi a'i dad yn meddwl na fyddai'n bosibl oherwydd y straen yr oedd mynd i'r meithrin yn ei hachosi iddo a pha mor ansefydlog oedd e,  ond fe wnaeth ei symud i'r nyth brofi ei fod yn gallu aros yn yr ysgol nawr ac mae hynny wedi ei helpu yn fawr iawn, i rywun fel fe mae wedi cymryd amser hir i hyd yn oed ymgartrefu yno ac ymddiried yn yr athro sydd ganddo, i'r pwynt y bu bron i'w rieni orfod ei dynnu allan nes iddynt gael cynnig iddo fynd i mewn i'r ystafell nyth,  nid oes llawer o ysgolion yn cynnig y cyfleuster hwn ac i rywun fel fe byddai'n rhoi llawer o straen annioddefol a gallai achosi i fy chwaer yng nghyfraith ystyried ei dynnu allan eto oherwydd hyn pe bai'r ysgol yn cau, mae yna ffactorau eraill i'r 2 blentyn arall sydd mor hapus ond mae'n rhaid nodi sut roedd ein nai arall ychydig yn dawel ac yn swil cyn mynd i mewn i sesiynau mini me, i'r pwynt y byddai'n cynhyrfu pan fyddai rhywun yn mynd i mewn i'r ystafell yr oedd ynddi os nad oedd yn eu hadnabod ond ers mynychu mae wedi dod allan o'i gragen gymaint ac mae bellach hyd yn oed yn dweud helo wrth bobl nad yw wedi cwrdd â nhw cyn belled â bod un ohonom ni oedolion y mae'n ymddiried ynddynt o'i gwmpas ac wedi siarad gyda nhw yn gyntaf,  ond rwy'n credu bod help yr athrawon yno wedi helpu hyn a phe bai'r ysgol yn cael ei chau gallai hyn wneud iddo lithro'n ôl o ran y cynnydd y mae wedi ei wneud, mae ein nith wrth ei bodd yn mynychu yma ac rwy'n dwlu clywed ei straeon bob wythnos am wneud ffrindiau a chyflawni a ffynnu cymaint yma, mae hi hyd yn oed yn dweud sut mae hi'n cael pori yn y bag o gael ei dewis ar gyfer dechrau'r wythnos ac yn cyffroi'n arw pan fydd hyn yn digwydd ac mae wrth ei bodd yn gallu gwisgo ei dillad ei hun ar y diwrnod hwn, rwy'n meddwl y colli ysgol sy'n gwneud mor dda gyda'r 3 phlentyn hyn yn unig yn golled fawr i'r gymuned, y plant eraill a'r rhieni ac rwy'n meddwl y dylid ailfeddwl, diolch.
- Mae gen i 3 o wyrion yn yr ysgol, mae un ohonynt yn awtistig, bydd hyn yn effeithio'n ddrwg arno nid yw'n hoffi newid ac mae wedi ymgartrefu yn y nyth.mae fy ŵyr arall wedi gwneud llawer o gynnydd ers dechrau sesiynau mini me ac rwy'n credu y gallai newid ysgolion effeithio arno nawr ar y cam hwn.mae fy wyres bron yn 6 ac mae'r ysgol wedi ei helpu llawer gyda'i lleferydd a'i hyder. Bydd yn effeithio ar bob un o'r 3 mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae gen i blentyn 6 oed yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae hi wedi ymgartrefu ac yn hapus, nid wyf yn credu y byddai'n pontio'n dda oherwydd gorbryder y mae hi'n dioddef gydag ef. Mae gen i fachgen bach hefyd a fydd yn dechrau yn y meithrin ym mis Medi 2026 ac ni fyddai yntau'n ymdopi â symud ysgol ychwaith gan ei fod wedi cymryd ychydig o amser i ni ei helpu i ymgartrefu yn y lleoliad cyn-ysgol. Credaf y byddai'n niweidiol i'w haddysg a'u hapusrwydd.
- Mae gen i blentyn ar gampws y Chwe Chloch. Mae amseroedd gollwng a chasglu yn hunllef gyda niferoedd y disgyblion ar hyn o bryd. Ni fyddai ychwanegu disgyblion Roseheyworth at y cymysgedd ond yn gwaethygu materion.  Mae'r niferoedd sydd yn ei dosbarth yn yr ugeiniau uchel yn barod hefyd. Dim ond 26 oed yw ysgol Roseheyworth. Mae mynediad yn ardderchog. Mae fy mhlentyn wedi bod ar wibdeithiau ysgol o'r lleoliad, yn fwyaf diweddar i Lundain. Rwy'n nodi hefyd eich bod chi'n sôn bod niferoedd ar y gofrestr wedi gostwng. Yn 2021 roedd 637 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn 2025 roedd yn 617 sy'n ddim ond 20 yn llai sy'n cyfateb i ostyngiad bach o 3%, os oedd hyn yn gymaint o broblem pam nad oedd yn broblem bryd hynny. Fel preswylydd sy'n talu'r dreth gyngor, mae CBSBG yn parhau i gymryd mwy ac rydym yn cael llai yn gyfnewid, casgliadau biniau, tyllau yn y ffyrdd, sbwriel ond rwy'n teimlo mai targedu dyfodol a dyheadau plant Abertyleri am flynyddoedd i ddod yw'r gwaethaf oll. Cywilydd arnoch chi CBSBG.

- Mae gen i blentyn sy'n mynychu campws Y Chwe Chloch ar hyn o bryd ac rwy’n teimlo y byddai cau Roseheyworth yn effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd dysgu yn y Chwe Chloch a Stryd Tyleri gan ei bod yn anorfod y bydd maint y dosbarthiadau’n cynyddu. Rwy'n credu hefyd ei bod yn bwysig ystyried y tebygolrwydd y bydd y traffig yn y ddwy ardal yn cynyddu o ystyried nad yw'n daith gerdded fer i'r naill neu'r llall o'r ysgolion hyn o Roseheyworth. A siarad o brofiad, mae'r strydoedd o amgylch yr ysgol yn y Chwe Chloch eisoes ar ben eu tennyn ar adegau gollwng a chasglu plant. Rwyf hefyd yn teimlo dros y rhieni hynny nad oes ganddynt gludiant ac y bydd yn rhaid iddynt gerdded y 45 munud i’r Chwe Chloch ac yn ôl, ddwywaith y dydd.
- Mae gen i ŵyr ar gampws Roseheyworth sy'n hapus ac wedi ymgartrefu. Rwy'n credu y byddai'n niweidiol iddo pe terfid ar ei addysg.
- Mae gen i blant sy'n mynd i mewn i ddosbarth blwyddyn 2 ac ar hyn o bryd sesiynau Mini Me rydw i'n mynd i golli fy darpariaeth gofal plant. Bydd fy mhlant eraill yn mynd i ddosbarth mwy dydw i ddim yn gyrru, rydw i hefyd yn ofalwr.
- Mae gen i blant ar gampws Stryd Tyleri ac mae'r dosbarthiadau’n cynnwys niferoedd uchel fel y mae. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn cael trafferth gyda nifer y plant fel y mae a byddai ychwanegu rhagor o blant yn effeithio ar bob plentyn gan eu hatal rhag cael yr addysg maen nhw'n ei haeddu. Rydym hefyd yn ardal amddifadus ac mae disgwyl i rieni deithio i gampysau eraill yn rhoi straen arnynt yn ariannol a bydd yn effeithio ar bresenoldeb plant. Os nad oes digon o arian yn yr ysgol efallai y dylech edrych ar yr holl benaethiaid cynorthwyol a dirprwyon ar y campws uwchradd hyd yn oed gyda'r ailstrwythuro mae'n chwerthinllyd y swm o arian a wariwyd ar yr UDA dros anghenion addysgol gwirioneddol ein plant.
- Mae gen i wyrion ar gampws Stryd Tyleri, y mae gan un ohonynt AAA, beth fydd yn digwydd iddyn nhw gan nad oes digon o ystafelloedd dosbarth i ddarparu ar gyfer y plant sy'n dod o roseheyworth, hyd yn oed pe bai rhai yn mynd i’r Chwe Chloch, a fydd fy wyres yn dioddef.
- Rwyf wedi bod yn byw ar safle Roseheyworth am flynyddoedd lawer. Roeddwn i'n arfer bod yn wraig ginio fy hun pan oeddwn i'n iau. Mae meddwl eich bod chi'n gwneud penderfyniad i gau ysgol er mwyn arbed arian yn warthus. Mae'r effaith y gallai hyn ei chael ar y plant ifanc hyn yn bryderus. Mae hyn yn rhan annatod o'u cyfnod datblygu ac rydych chi'n cynnig tarfu arno a'r holl waith caled gan yr athrawon hyd at y pwynt hwn. Yn sicr, gallwch ddod o hyd i ffyrdd o gadw'r ysgol ar agor er mwyn y plant druan hyn y mae llawer ohonynt yn dod o ardal Dechrau’n Deg, a gadewch i ni beidio ag anghofio y dylid bod yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt.
- Rwyf wedi adolygu'r ddogfen ymgynghori ac wedi ystyried yr effaith ar ddisgyblion, staff, a'r gymuned ehangach. Mae'r cynnig i’w weld yn anymarferol, heb dystiolaeth ddigonol, ac nid yw’n mynd i'r afael yn llawn â'i ganlyniadau addysgol, cymdeithasol ac ariannol tebygol. Nid oes llawer o fanylion i egluro sut y bydd safonau addysgol yn cael eu cynnal, yn enwedig gyda dosbarthiadau mwy. Mae dosbarthiadau mwy yn debygol o leihau ansawdd yr addysgu a chyfyngu ar gymorth unigol, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd lle mae angen gwella eisoes. Fel ysgol 3–16, ceir pryderon presennol ynglŷn â pherfformiad yn y cyfnod uwchradd. Mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod dosbarthiadau llai o faint yn allweddol i wella deilliannau, yn enwedig mewn addysg gynradd lle mae sgiliau craidd yn cael eu datblygu. Nid yw'r cynnig yn dangos sut y bydd hyn yn cael ei ddiogelu. Nododd adroddiad Estyn yr angen i wella ansawdd yr addysgu a chryfhau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion hynny a gall eu gwneud yn anoddach i'w rhoi ar waith. Nod Cwricwlwm Cymru yw datblygu dysgwyr hyderus a galluog, ond mae hyn yn anodd mewn amgylcheddau gorlawn gyda llai o le a mwy o bwysau ar staff. Mae lleoliad presennol Roseheyworth yn cefnogi dysgu a llesiant mewn ffyrdd a allai gael eu colli. Nid yw'r effaith ar lesiant disgyblion, yn enwedig y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), wedi cael ei hystyried yn iawn. Mae amgylcheddau mwy, anghyfarwydd a mwy o deithio yn debygol o achosi gorbryder ac amharu ar gynnydd. Ceir hefyd fanylion cyfyngedig iawn o ran sut y bydd darpariaeth ADY yn cael ei chynnal. Mae anghenion grwpiau agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr ifainc, wedi cael eu hanwybyddu. Mae'r disgyblion hyn yn dibynnu ar sefydlogrwydd a chymorth lleol, y mae'r cynnig hwn mewn perygl o amharu arnynt. Ceir diffyg tryloywder mewn data allweddol a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad. Er enghraifft, mae niferoedd disgyblion i’w gweld yn anghywir pan gynhwysir plant meithrin a phlant sy’n codi’n 3, gan godi pryderon am gynllunio a chynaliadwyedd hirdymor. Nid yw ffactorau lleol fel twf tai a chynnydd yn y boblogaeth wedi cael eu hystyried yn llawn. Gall y galw am leoedd mewn ysgol godi, nid gostwng, gan godi amheuon ynghylch y cynnig. Mae gan yr ysgol rôl hanfodol yn y gymuned. Nid yw honiadau na fyddai cau’r ysgol yn cael rhyw lawer o effaith yn gredadwy, yn enwedig o ystyried colli

gwasanaethau fel gofal plant a darpariaeth gofleidiol.  Mae'r achos ariannol yn aneglur. Er y cyfeirir at ddiffygion, nid yw'r cynnig yn dangos sut y byddai cau yn darparu arbedion gwirioneddol. Mae costau ychwanegol - megis cludiant, seilwaith, a mwy o bwysau ar gampysau eraill - yn debygol. Mae'r cyfiawnhad mewn perthynas â chostau adeiladu yn wan hefyd, gan bod disgwyl i'r adeilad barhau i gael ei ddefnyddio, sy'n golygu y gall costau cynnal a chadw barhau i fod yn berthnasol. Mae diffyg tystiolaeth ynglŷn â thraffig, parcio, a llwybrau diogel i'r ysgol. Mae problemau presennol mewn safleoedd eraill yn debygol o waethygu, ac mae diffyg asesiad priodol yn bryder sylweddol.  Nid ymdrinnir yn llawn â threfniadau cludiant, gan gynnwys mynediad at glybiau brecwast. Heb ddarpariaeth ddibynadwy, efallai y bydd rhai teuluoedd yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau hanfodol.  Mae data presenoldeb wedi cael ei gyflwyno ar sail rhy eang i ategu casgliadau ystyrlon, gan gyfyngu ar ei werth wrth wneud penderfyniadau.  Ar y cyfan, nid oes gan y cynnig y dystiolaeth a'r manylion y mae eu hangen i gyfiawnhau newid mor sylweddol. Nid yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â materion allweddol gan gynnwys addysg, llesiant, darpariaeth ADY, effaith gymunedol, diogelwch, a chynaliadwyedd ariannol hirdymor.  Ceir pryder cryf bod ystyriaethau ariannol yn cael eu blaenoriaethu dros anghenion disgyblion a'r gymuned. Nid yw hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiadau i lesiant a lleihau anghydraddoldeb.  Mae angen sefydlogrwydd, diogelwch ac amgylcheddau dysgu cefnogol ar blant. Nid yw'r cynnig hwn yn dangos sut y bydd y rhain yn cael eu cynnal.

- Rwyf wedi adolygu'r ddogfen ymgynghori ac wedi archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd, rwyf wedi ystyried y goblygiadau ar gyfer disgyblion, staff, a'r gymuned ehangach. Mae'n amlwg bod y cynnig yn anymarferol, nad yw'n cynnwys digon o dystiolaeth, a'i fod yn methu â rhoi cyfrif yn ddigonol am y canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac ariannol y byddai'n eu creu.  Nid yw'r cynnig yn darparu digon o fanylion i egluro sut y bydd safonau addysgol yn cael eu cynnal, yn enwedig yng nghyd-destun dosbarthiadau mwy. Mae'n anochel y bydd dosbarthiadau mwy yn lleihau ansawdd yr addysgu ac yn cyfyngu ar y gallu i roi cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion—yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, lle mae data Capio 9 eisoes yn tynnu sylw at yr angen am ymyrraeth â ffocws. Fel ysgol 3–16, mae'r cyfnod uwchradd eisoes yn tanberfformio yn erbyn meincnodau cenedlaethol mewn meysydd allweddol. Mae tystiolaeth o bob rhan o Ewrop a De Asia yn dangos yn gyson bod dosbarthiadau llai yn hanfodol i wella deilliannau disgyblion. Mae'r cyfnod cynradd yn arbennig o hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau sylfaenol mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg, ochr yn ochr â meithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu ffynnu. Ar ben hynny, roedd adroddiad Estyn yn nodi'r angen i wella ansawdd yr addysgu a chryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r cynnig hwn yn dangos sut y bwriedir ymdrin â'r argymhellion hynny, mewn gwirionedd ceir risg y bydd yn ei gwneud hi'n fwy o her cyflawni hyn. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi amcanion clir, gan gynnwys datblygu dysgwyr uchelgeisiol, unigolion iach, a dinasyddion egwyddorol. Ni ellir cyrraedd y nodau hyn yn realistig mewn amgylcheddau gorlawn gyda llai o fynediad at fannau awyr agored, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad annibynnol a chymdeithasol, a mwy o bwysau ar staff. Mae gan gampws Roseheyworth, mewn cyferbyniad, amgylchedd naturiol helaeth sy'n cefnogi dysgu a llesiant. Mae'r ymgynghoriad yn methu ag ystyried iechyd meddwl a llesiant disgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a natur agored i niwed o fath arall. Mae amgylcheddau mwy o faint, sy'n llai personol ac amseroedd teithio hwy yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddisgyblion sy'n dibynnu ar drefn, cynefindra a sefydlogrwydd. Yn nodedig, mae darpariaeth ADY yn absennol i raddau helaeth o'r ddogfennaeth. Mae ar ddysgwyr ag anghenion ychwanegol angen cymorth cyson, arbenigol mewn amgylcheddau wedi'u teilwra i'w gofynion. Mae newid lleoliad yn creu risg y bydd ymddygiad yn llithro'n ôl, y ceir mwy o orbryder, o osgoi ysgol, ac o amharu ar y cynnydd a amlinellir mewn Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a Chynlluniau Gofal Iechyd Addysg (CGIA). Gall tarfu byrdymor effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion ag ADY hyd yn oed. Hefyd, nid ymdrinnir ag anghenion gofalwyr ifainc yng nghymuned Roseheyworth. Mae'r disgyblion hyn yn dibynnu'n fawr ar agosrwydd, gorchwylion rheolaidd, a rhwydweithiau cymorth lleol. Mae tarfu ar eu haddysg yn creu risg o roi rhagor o straen ar blant sydd eisoes yn wynebu cyfrifoldebau sylweddol. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at gyfraddau genedigaethau a niferoedd disgyblion rhagamcanol ond nid yw'n darparu ffynonellau dilys. Rhaid i unrhyw ddata a ddefnyddir i gyfiawnhau newidiadau sylweddol o'r fath fod yn dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r adroddiad yn nodi bod 127 o ddisgyblion yn Roseheyworth; fodd bynnag, nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys plant oed meithrin na Phlant sy'n

Codi'n 3. Pan gynhwysir y rhain, mae'r nifer gwirioneddol yn agosach at 161 o ddisgyblion. Mae'r anghysondeb hwn yn codi pryderon difrifol ynghylch cywirdeb cynllunio capasiti a chynaliadwyedd hirdymor, yn enwedig o ystyried bod yr ysgol yn cael ei disgrifio'n gyson fel rhan o fodel 3–16. Hefyd, nid yw ffactorau lleol fel datblygiadau tai newydd a mewnfudo wedi cael eu hystyried yn llawn. Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, disgwylir i Flaenau Gwent brofi cynnydd o 5.6% yn y boblogaeth rhwng 2022 a 2032. Mae'r twf hwn yn gysylltiedig â mentrau adfywio, gwell cysylltiadau cludiant fel rheilffordd Glyn Ebwy, a rhaglenni datblygu rhanbarthol. O ystyried y rhagfynegir y bydd tua 56 o gartrefi newydd rhwng 2026 a 2029 a bod tai yn ardal Abertyleri yn gymharol fforddiadwy, mae'n rhesymol cwestiynu a fydd y twf hwn yn y boblogaeth yn effeithio'n anghymesur ar yr ardal leol—gan gynyddu'r galw am leoedd mewn ysgolion yn hytrach na'i leihau. Mae gan Ysgol Roseheyworth hefyd rôl hanfodol o fewn y gymuned, yn swyddogaethol ac yn hanesyddol, fel Ysgol y Mileniwm. Nid yw'r honiad o fewn yr asesiad o'r effaith ar y gymuned y byddai'r effaith leiaf posibl neu ddim effaith yn gredadwy. Byddai cau'r ysgol hefyd yn effeithio ar ddarpariaethau cysylltiedig fel gofal plant Mini Me, sy'n rhan annatod o gefnogi teuluoedd lleol trwy gynnig gwasanaethau cofleidiol a chlybiau ar ôl ysgol sy'n agored i'r gymuned gyfan. Byddai unrhyw darfu ar y gwasanaethau hyn yn dwyn canlyniadau ymarferol ac emosiynol sylweddol. Mae'r cynnig yn cyfeirio at ddiffyg rhagamcanol o fwy na £900,000, sy'n codi i £4 miliwn yn y blynyddoedd i ddod, ond nid yw'n dangos yn glir sut y bydd cau Roseheyworth yn arwain at arbedion ariannol gwirioneddol. Mae costau ychwanegol sylweddol yn debygol o godi, gan gynnwys: • Darpariaeth cludiant i ddisgyblion sydd wedi'u dadleoli • Gwelliannau i'r seilwaith ar gyfer llwybrau diogel i'r ysgol • Rheoli traffig ac ehangu parcio ar gampysau a fyddai'n derbyn Ar ben hynny, mae'r cyfiawnhad dros gau ar sail oedran a chostau cynnal a chadw'r adeilad yn cael ei danseilio gan ddatganiad y cyngor ei hun y bydd yr adeilad yn parhau i fod o fewn y portffolio addysg. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen ysgwyddo costau cynnal a chadw o hyd, gan felly wanhau'r ddadl ariannol dros gau. Mae diffyg tystiolaeth nodedig yn ymwneud ag asesiadau traffig, capasiti parcio, a llwybrau diogel i'r ysgol. Mae campysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch eisoes yn profi heriau yn y meysydd hyn, ac mae'n anochel y bydd niferoedd disgyblion uwch yn gwaethygu'r materion hyn. Mae menter "Llwybrau Diogel i'r Ysgol" Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a lliniaru risgiau fel tagfeydd traffig a chroesfannau anniogel. Mae'r diffyg dadansoddiad o'r fath yn y cynnig hwn yn hepgoriad arwyddocaol ac yn awgrymu y byddai angen buddsoddiad ariannol ychwanegol, na roddwyd cyfrif amdano. Nid ymdrinnir â'r ddarpariaeth cludiant ar gyfer mynediad at y clwb brecwast ychwaith. Heb gludiant dibynadwy, ni fydd llawer o deuluoedd yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth hanfodol hwn, gan danseilio amcanion Llywodraeth Cymru i wella iechyd, maethiad a chyrhaeddiad disgyblion. Er yr amcangyfrif bod costau trafnidiaeth yn £30,000 y flwyddyn, ceir pryder dilys ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth hon, yn enwedig yng ngoleuni toriadau tebyg mewn awdurdodau cyfagos fel Caerffili. Enwir pryderon ynghylch presenoldeb yn yr adroddiad; fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar lefel campws cyfan, yn hytrach na chael eu rhannu ar draws cyfnodau gwahanol y strwythur 3–16. Mae'r dull hwn yn creu risg o guddio patrymau sylfaenol ac nid yw'n darparu sail ddigon manwl ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ar ei ffurf bresennol, mae'r cynnig yn anghyflawn ac nid yw'n cynnwys y dystiolaeth gadarn y mae ei hangen i gyfiawnhau newid mor sylweddol. Mae'n methu â mynd i'r afael yn ddigonol â meysydd allweddol gan gynnwys ansawdd addysg, llesiant disgyblion, darpariaeth ADY, effaith gymunedol, cludiant, diogelwch, a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Ceir pryder cryf bod y cynnig hwn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ystyriaethau ariannol, heb roi digon o ystyriaeth i'r effaith ddofn y bydd yn ei chael ar ddisgyblion, staff, a'r gymuned ehangach. Mae ymrwymiad y cyngor ei hun fel awdurdod Marmot yn pwysleisio lleihau anghydraddoldebau, cefnogi cymunedau, a blaenoriaethu iechyd a llesiant. Nid yw'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion hynny. Mae'r modd y bydd y cynnig yn tarfu ar addysg, yn cael effaith ar ddysgwyr agored i niwed, ac yn gwanhau seilwaith cymunedol yn gwrth-ddweud yn uniongyrchol yr amcanion i gyflawni deilliannau iachach, mwy teg i blant a theuluoedd. Mae plant yn haeddu sefydlogrwydd, diogelwch, ac amgylchedd sy'n meithrin eu datblygiad. Mae Ysgol Roseheyworth wedi darparu hyn yn gyson. Fel rhiant i blant ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 1 ar hyn o bryd, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun yr effaith gadarnhaol y mae amgylchedd a maint dosbarthiadau'r ysgol yn ei chael ar ganlyniadau addysgol. Mae fy mab ar hyn o bryd yn darllen ar lefel ysgol gyfun ac yn rhagori mewn llythrennedd a rhifedd. Mae fy merch, sy'n cael ei haddysgu ochr yn ochr â disgyblion Blwyddyn 2, eisoes yn gweithio ar lefel sy'n agos at Flwyddyn 3 mewn darllen, llythrennedd a rhifedd. Mae'n anodd dod i'r casgliad y byddai'r

deilliannau hyn wedi cael eu cyflawni mewn lleoliad mwy, sy'n fwy gorlawn lle mae'n anochel y ceir llai o sylw unigol. Mae'r enghraifft go iawn hon yn adlewyrchu'r pryder ehangach y bydd dosbarthiadau mwy a llai o gapasiti ar gyfer cymorth wedi'i dargedu yn cael effaith niweidiol ar gyrhaeddiad disgyblion. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn dangos sut y bydd safonau o'r fath yn cael eu cynnal os bydd disgyblion yn cael eu hadleoli i gampysau eraill. Yn seiliedig ar y pwyntiau uchod NID wyf yn cefnogi'r cynnig.

- Mae gen i bryderon sylweddol ynglŷn â'r effaith y bydd cynyddu maint dosbarthiadau yn ei chael ar y dysgwyr presennol. Yn enwedig o ystyried bod newid gyda strwythur a rolau staff ym mhob ysgol. Mae lefel y risg sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd a chanlyniadau gwael i ddisgyblion, yn ymddangos yn rhy uchel ar sail arbed arian. Mae cyfraddau treth gyngor ymhlith yr uchaf yn y DU ac mae'r gostyngiad ym mhob gwasanaeth, ond yn sicr yn y maes hwn, yn annerbyniol.
- Nid wyf yn gwybod ble rydych chi'n mynd i leoli 127 o blant yn ddiogel yng nghampws y Chwe Chloch a champws Stryd Tyleri! Mae'r dosbarthiadau eisoes yn ddigon llawn, ac yn orlawn, bydd hyn yn cael effaith enfawr ar addysg y plant.
- Rwy'n adnabod llawer o bobl sy'n anfon eu plant a'u hwyrion i'r ysgol nad oes rhaid iddynt deithio yn bell ac maen nhw'n hoffi mynd i'r ysgol bydd yn eu cynhyrfu i symud ysgolion
- Rwy'n gwybod am blentyn nad yw'n gallu cael y cymorth y mae ei angen arno nawr! Heb sôn am pan fydd rhagor o ddisgyblion yn cael eu hychwanegu at ddosbarthiadau sydd eisoes yn llawn... ni fydd y staff yn gallu ymdopi a beth am y rhai nad ydynt yn gyrru... Gorfod cerdded o Roseheyworth yr holl ffordd i Ysgol Gynradd Aber.... syniad hollol dwp.... mae rhieni'n cael dirwy pan nad yw plant yn yr ysgol beth am rieni fydd yn gorfforol yn methu â cherdded mor bell â hynny a fyddant yn cael eu dirwyo????
- Rwy'n byw yn Arael view rydym yn cerdded i'r ysgol gan ei bod o fewn pellter cerdded, mae fy wyres newydd ddechrau yn y meithrin gan bod rhaid i mi fynd gyda hi mae'n mynd i sesiynau mini me ac mae hi wedi ymgartrefu mor dda rwy'n gyrru ond mae fy nghar bob amser yn torri i lawr ni waeth beth fo'r tywydd mae hi wedi bod yn mynd hyd yn oed fy 4 plentyn gan ei bod o fewn pellter cerdded ac ni fyddem byth yn gallu cyrraedd ysgol arall gan y byddai'n cymryd 45 munud i 1 awr a hanner i'r ysgol arall aeth fy 4 plentyn yno ac roeddent bob amser yn yr ysgol rwy'n gweithio yn yr ysgol fel menyw brecwast a chinio ac mae'r gorbryder mae'n ei achosi i'r plant mor annheg
- Rwy'n byw ar Stryd Newall, mae gan gampws Stryd Tyleri gât ar Stryd Newall. Ar hyn o bryd mae problem gyda rhieni yn parcio ar Stryd Newall o 2pm. Mae'r mwyafrif yn parcio ar y palmant gyda'u hinjan yn rhedeg. Mae'n amhosibl mynd â phlant sy'n byw yn ardal Gelli Crug adref ar droed yn ddiogel o'r ysgol oherwydd faint o geir sydd ar y palmant. Bydd y sefyllfa'n waeth gyda phlant ychwanegol ar y campws.
- Rwy'n byw ar Stryd Newall ac mae'r traffig ar amseroedd ysgol yn y bore a'r prynhawn yn ofnadwy i ni sy'n byw ar barthau gollwng. Nid oes angen bod rhyw 60 o blant eraill yn cael eu hychwanegu at yr anhrefn i breswylwyr sy'n golygu mwy o draffig ac yn bendant mwy o risg o ddamweiniau a photensial i gerbyd fynd ar draws rhywun wrth iddyn nhw barcio lle na allwch weld o gwmpas os yw ceir yn dod. Meddyliwch am ddiogelwch a llesiant y plant a gwnewch y peth iawn
- Roeddwn i fy hun yn ddisgybl ar gampws Heol Roseheyworth pan y'i hagorwyd gyntaf, un o'r cyntaf i fynd i'r dosbarth meithrin a minnau wedi parhau i fynychu yr holl ffordd hyd at yr ysgol uwchradd! Mae fy mab yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd ac roedd fy merch hynaf yno nes iddi adael i fynd i'r ysgol gyfun! Ni ddylai hyn fod yn digwydd i'n hysgol
- Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig gan nad yw er budd pennaf y plant.
- Rwy'n cael trafferth gweld sut y mae cau ysgol gynradd yn un o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru yn syniad da. Trwy gau ysgol, byddwch yn awtomatig yn cael gwared ar reswm i bobl symud i'r ardal. Os nad yw pobl yn symud i'r ardal, yna yn ei dro ni fyddwch yn creu swyddi a chyfleoedd. Hefyd, ni allaf weld sut y bydd y 130 o ddisgyblion (mae hynny heb gyfrif y 60 yn y meithrin sy'n barod i symud i fyny) yn cael eu hintegreiddio'n ddiogel ac yn briodol i 2 safle CDdA sy'n weddill. fel cyn-lywodraethwr rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol na fydd modd cyflawni hyn heb effeithio'n ddifrifol ar allu'r plant hyn i ddysgu. Ymddengys nad yw hyn yn ddim mwy nag ymarfer arbed arian.
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau'r ysgol oherwydd gorlenwi mewn ystafelloedd dosbarth, a fydd hefyd yn cynhyrfu'r plant.
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau roseheyworth Mae'r cyfiawnhad dros y penderfyniad hwn i'w weld yn sylfaenol ddiffygiol ac yn methu ag ystyried y canlyniadau ymarferol i ddisgyblion, teuluoedd, a'r gymuned ehangach. Yn gyntaf, mae'r cynnig yn awgrymu ailddosbarthu disgyblion i

ddwy ysgol arall sydd wedi'u lleoli ar yr un campws. Fodd bynnag, mae'r ysgolion hyn eisoes yn llawn neu bron yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Mae'n anochel y bydd symud disgyblion ychwanegol i amgylcheddau gorlawn yn rhoi straen ar adnoddau, ystafelloedd dosbarth a staff. Ceir risg y bydd hyn yn lleihau ansawdd addysg, yn cynyddu maint dosbarthiadau, ac yn creu amgylchedd lle mae disgyblion yn cael llai o gymorth unigol. Yn ail, mae Roseheyworth yn gyfleuster cymharol fodern, dim ond 26 oed. Mae cau adeilad ysgol gweithredol o'r oedran hwn yn anodd ei gyfiawnhau o safbwynt ariannol a seilwaith. Mae arian cyhoeddus sylweddol eisoes wedi'i fuddsoddi yn yr ysgol hon, a byddai rhoi'r gorau i'w defnyddio cyn pryd yn ddefnydd gwael o adnoddau cyhoeddus. Yn drydydd, nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn ystyried yn ddigonol yr effaith ar lesiant disgyblion a sefydlogrwydd dysgu. Nid yw ysgolion yn fannau cyfnewidiol; maent yn gymunedau lle mae plant yn meithrin perthnasoedd, yn datblygu gorchwylion rheolaidd, ac yn magu ymdeimlad o berthyn. Mae gorfodi disgyblion i ysgolion sydd eisoes yn llawn yn creu risg o amharu ar eu haddysg a'u sefydlogrwydd emosiynol. Yn olaf, mae'r gymuned leol yn haeddu tryloywder ynghylch y gwir reswm y tu ôl i'r cynnig hwn. Heb dystiolaeth glir y bydd cau yn gwella deilliannau addysgol neu'n dwyn manteision hirdymor gwirioneddol, mae'r penderfyniad i'w weld yn ddiangen ac yn niweidiol. Am y rhesymau hyn, erfyniaf ar y cyngor i ailystyried y cynnig hwn ac yn hytrach canolbwyntio ar gefnogi a chynnal a chadw ysgol bresennol sy'n parhau i wasanaethu ei disgyblion a'i chymuned yn effeithiol.

- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau'r ysgol oherwydd yr effaith eang y bydd yn ei chael ar blant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach. Byddai hyn yn creu problemau mynediad sylweddol i deuluoedd heb gludiant o fewn radiws o 1.5 milltir (dan 8 oed) a 2 filltir (dros 8 oed), gan ei gwneud hi'n llawer anos i blant gyrraedd yr ysgol a lleihau cydraddoldeb mynediad at addysg. Mae yna bryderon difrifol hefyd ynglŷn â diogelwch, gyda mwy o draffig a pharcio cyfyngedig iawn yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch eisoes yn rhoi pwysau yn ystod amseroedd gollwng a chasglu. Ni fyddai hyn ond yn gwaethygu gyda theuluoedd ychwanegol yn cael eu dadleoli. Byddai effaith yn arbennig ar blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan nad yw teithiau hwy ym mhob tywydd ac addasu i amgylcheddau ysgol newydd, prysurach yn addas nac yn ddiogel i lawer o ddisgyblion. Gallai dosbarthiadau mwy a lleoliadau mwy gorlawn hefyd effeithio'n negyddol ar ddysgu a llesiant. Byddai'r newid hwn hefyd yn golygu bod plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu grwpiau cyfeillgarwch ac yn gorfod addasu eto i staff, gorchwylion rheolaidd ac amgylcheddau newydd. I lawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae hyn yn broses bontio fawr arall yn ystod cyfnodau pwysig a sensitif yn eu haddysg gynradd. Mae amseroedd teithio hwy hefyd yn debygol o arwain at flinder, llai o barodrwydd i ddysgu, a llai o ymgysylltiad yn ystod y diwrnod ysgol. Byddai rhieni a gofalwyr hefyd yn ei chael hi'n anos aros yn rhan o addysg eu plentyn oherwydd mwy o bellter a gofynion teithio, gan leihau cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ysgol. Y tu hwnt i'r effaith unigol ar deuluoedd, mae cau ysgol leol yn cael gwared ar hyb cymunedol pwysig. Mae gan ysgolion rôl hanfodol o ran dod â phobl at ei gilydd, cefnogi hunaniaeth gymunedol, a darparu ymdeimlad o berthyn. Byddai colli hyn yn gwanhau cydlyniant lleol ac yn gwneud bywyd pob dydd yn anos i lawer o deuluoedd. Mae pryderon hefyd am yr effaith ehangach ar ysgolion sy'n derbyn, a allai wynebu mwy o bwysau ar faint dosbarthiadau, adnoddau a gwasanaethau cymorth, gan gynnwys i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol. Yn olaf, byddai'r penderfyniad hwn yn golygu newid diangen arall i blant sydd eisoes wedi ymgartrefu yn eu hamgylchedd ysgol presennol. Gall symudiadau mynych effeithio ar hyder, sefydlogrwydd a llesiant emosiynol, yn enwedig i blant iau a'r rhai sy'n dibynnu ar drefn a chydnabod. Am yr holl resymau hyn, nid wyf yn credu bod cau'r ysgol er budd pennaf y plant, teuluoedd, na'r gymuned ehangach.
- Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig hwn yn gryf. Bydd y plant yn dioddef yn helaeth.
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau'r safle hwn. Byddai ei golli yn rhoi pwysau ychwanegol ar safleoedd sydd eisoes dan ormod o bwysau. Mae cau'r ysgol yn creu risg o beryglu capasiti ac ansawdd y ddarpariaeth i ddisgyblion.
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau Ysgol Roseheyworth a symud ei disgyblion i Ysgol Gynradd y Chwe Chloch neu Ysgol Gynradd Stryd Tyleri. Mae Roseheyworth yn rhan hanfodol o'r gymuned, gan roi sefydlogrwydd a chymorth i blant. Byddai ei chau yn tarfu ar addysg a llesiant disgyblion. Byddai hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y Chwe Chloch a Stryd Tyleri, gan gynyddu maint dosbarthiadau a gorfodi adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig i ymestyn ymhellach, a allai effeithio ar bob disgybl. Rwy'n annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ailystyried y cynnig hwn a blaenoriaethu anghenion y plant a'r gymuned ehangach.

- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau Ysgol y Mileniwm Roseheyworth, mae fy merch wedi gwneud nifer o ffrindiau ar y campws a bydd ei chau yn tarfu ar ei llesiant ac yn achosi straen ddiangen nid dim ond gyda hi ond gyda'r holl ddisgyblion eraill hefyd. Mae ysgolion lleol eisoes yn llawn neu'n agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti ac mae cau Roseheyworth yn gadael llawer o blant heb fynediad rhesymol at addysg yn eu cymuned. Bydd hyn yn gorfodi plant ifainc i deithio ymhellach, gan achosi trallod, aflonyddwch a phryderon ynghylch diogelwch. Mae Ysgol y Mileniwm Roseheyworth yn rhoi sefydlogrwydd, cymorth ac amgylchedd cymunedol hanfodol i'w disgyblion. Bydd cael gwared ar yr ysgol hon yn effeithio'n negyddol ar lesiant plant, parhad addysgol, ac iechyd meddwl. Nid oes tystiolaeth glir bod digon o leoedd ysgol eraill yn bodoli'n lleol. Heb gapasiti sicr, ceir risg y bydd cau'r ysgol yn creu problemau mynediad difrifol i deuluoedd. Erfyniaf ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ailystyried y cynnig hwn a gweithio gyda'r gymuned i ddod o hyd i atebion eraill sy'n cadw'r ysgol ar agor. Mae'r ysgol hon yn hanfodol i'n cymuned a dyfodol ein plant
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau Ysgol Gynradd Roseheyworth. Fel un o gyn-ddisgyblion yr ysgol ac aelod o'r garfan gyntaf i fynd trwy system Roseheyworth yn y mileniwm newydd, gallaf dystio'n bersonol i'r effaith gadarnhaol a pharhaol y mae'r ysgol yn ei chael ar ei disgyblion a'r gymuned ehangach. Rhoddodd Roseheyworth sylfaen ganolog yn fy mywyd a rhoddodd ddechrau ardderchog i mi yn fy addysg. Roedd fy ngrŵp blwyddyn yn fach, gyda dim mwy nag ugain o ddisgyblion. Fodd bynnag, roedd yr ysgol gyfan yn teimlo fel teulu. Roedd ymdeimlad cryf o gymuned a ddaeth â'r ardal leol at ei gilydd. Chwaraeodd pawb ran bwysig i greu'r amgylchedd hwn – o athrawon a staff cymorth i staff y gegin, glanhawyr, gofalwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r ymdeimlad hwn o berthyn yn rhywbeth na ellir ei ailadrodd yn hawdd mewn ysgolion mwy. Roedd staff yr ysgol yn ysbrydoledig a chawsant effaith ddofn ar fy mywyd. Fe wnaeth eu hymroddiad, eu gofal a'u hangerdd dros addysg chwarae rhan fawr i'm hysbrydoli i ddilyn gyrfa addysgu fy hun. Heb yr anogaeth a'r esiampl a osodwyd gan yr athrawon hynny, efallai na fyddwn byth wedi dilyn y llwybr hwn. Nid dim ond addysgu plant y mae Roseheyworth– mae'n eu hysbrydoli ac yn siapio'r bobl maen nhw'n datblygu i fod. Mae Roseheyworth bob amser wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i'w dysgwyr. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol o'i hamgylchoedd, gan gynnwys y caeau chwarae a'r ardaloedd coetir, gan roi profiadau gwerthfawr i blant y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi nid dim ond dysgu academaidd ond hefyd llesiant, hyder a chysylltiad â'r amgylchedd lleol. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi llawer o deuluoedd o rai o'r aelwydydd â'r incwm isaf yn y dref. I'r teuluoedd hyn, mae'r ysgol yn fwy na dim ond lle i gael addysg; mae'n ffynhonnell hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd, gofal a chymorth cymunedol. Ceir risg y bydd cael gwared ar yr ysgol leol hon yn gwneud i rai o'r plant mwyaf agored i niwed deimlo ar goll o fewn system fwy o lawer. Byddai cau Ysgol Gynradd Roseheyworth yn golygu colli hyb cymunedol sydd wedi gwasanaethu cenedlaethau o deuluoedd lleol. Erfyniaf ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried yn ofalus yr effaith hirdymor ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned cyn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.
- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i gau Campws Heol Roseheyworth ac ailddosbarthu disgyblion i gampysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae'r data yn y ddogfen ymgynghori ei hun yn codi pryderon difrifol pa un a oes digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n weddill i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol hyn heb orlenwi sylweddol. Yn ôl Ffigur 4, ar hyn o bryd mae gan Gampws Heol Roseheyworth 127 o ddisgyblion ar draws grwpiau blwyddyn. Os bydd y campws hwn yn cau, bydd angen i'r plant hyn gael eu hamsugno i'r ddwy ysgol sy'n weddill. Fodd bynnag, mae gan y Chwe Chloch eisoes 232 o ddisgyblion ac mae gan Stryd Tyleri 340 o ddisgyblion, sy'n golygu eu bod eisoes yn ddarpariaethau sylweddol fwy. Mae'n anochel y bydd ychwanegu 127 o ddisgyblion yn rhagor ar draws grwpiau blwyddyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gapasiti ystafelloedd dosbarth, adnoddau, staffio, a chyfleusterau a rennir. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau a gostyngiadau a ragwelir mewn derbyniadau, ond mae'r ffigyrau presennol yn dal i ddangos niferoedd sylweddol mewn carfannau meithrin a derbyn (Ffigurau 5 a 6). Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â sut mae'r cyngor yn bwriadu gwneud lle i'r disgyblion hyn yn ffisegol yn y blynyddoedd uniongyrchol ar ôl cau. Ble yn union fydd y dosbarthiadau ychwanegol yn cael eu lleoli? Sut fydd meintiau dosbarthiadau'n parhau i fod yn briodol? Pa ddarpariaethau sy'n cael eu gwneud i sicrhau na fydd effeithiau negyddol ar safonau addysgu, cymorth i ddisgyblion, a llesiant? Mae gorlenwi mewn ysgolion yn effeithio nid dim ond ar le; mae'n effeithio'n uniongyrchol ar amgylcheddau dysgu plant, mynediad at staff, rheoli ymddygiad, a llesiant cyffredinol. Ceir perygl y bydd dosbarthiadau mwy ac

adnoddau estynedig yn lleihau ansawdd yr addysg a'r cymorth sydd ar gael i bob plentyn. Ar ben hynny, mae cau ysgolion yn tarfu ar gymunedau sefydledig, cyfeillgarwch, a gorchwylion rheolaidd sy'n hanfodol i ddiogelwch a datblygiad emosiynol plant. I lawer o deuluoedd, mae Campws Heol Roseheyworth yn ddarpariaeth leol bwysig sy'n cefnogi hygyrchedd a chydlyniant cymunedol. Cyn bwrw ymlaen â chynnig i gau ar y raddfa hon, rhaid i'r cyngor ddangos yn glir sut y bydd lle i dderbyn y disgyblion heb orlenwi, sut y bydd ansawdd addysgol yn cael ei gynnal, a sut y bydd llesiant disgyblion yn cael ei ddiogelu. Yn seiliedig ar y ffigyrau a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon, nid yw'n glir ar hyn o bryd y gellir rhoi'r sicrwydd hwn. Am y rhesymau hyn, erfyniaf ar y cyngor i ailystyried y cynnig hwn ac archwilio datrysiadau eraill sy'n diogelu safonau addysgol a llesiant disgyblion o fewn Cymuned Ddysgu Abertyleri.

- Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y bwriad i gau Ysgol Roseheyworth. Bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith sylweddol a negyddol ar gampysau eraill yn yr ardal. Os bydd disgyblion yn cael eu hadleoli i safleoedd eraill, mae'n anochel y bydd yn arwain at ddosbarthiadau mwy ac ystafelloedd dosbarth mwy gorlawn. Ceir risg y bydd hyn yn lleihau ansawdd yr addysg a'r cymorth y mae disgyblion yn ei gael ar hyn o bryd. Mae ysgolion eisoes yn gweithio'n galed i reoli adnoddau a darparu amgylcheddau dysgu priodol, a bydd cynyddu nifer y disgyblion ar gampysau eraill yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff, cyfleusterau ac adnoddau. Mae yna bryderon diogelwch difrifol hefyd, yn enwedig o ran campws y Chwe Chloch. Mae parcio a thraffig yn yr ardal hon eisoes yn hynod broblematig. Mae'r sefyllfa bresennol yn anodd i rieni, staff a phreswylwyr lleol, ac mewn llawer o achosion nid yw'n ddiogel. Mae'n anochel y bydd cynyddu nifer y disgyblion ac ymwelwyr â'r campws yn gwaethygu tagfeydd a gallai greu rhagor o risgiau i blant sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno. Ni fydd cau Ysgol Roseheyworth yn effeithio ar un safle yn unig; bydd yn effeithio ar gymuned ehangach yr ysgol a'r campysau cyfagos. Cyn gwneud penderfyniad mor arwyddocaol, rhaid i'r cyngor ystyried yn llawn y canlyniadau ymarferol i ddisgyblion, rhieni, staff, a'r seilwaith lleol. Am y rhesymau hyn, erfyniaf yn gryf ar y Cyngor i ailystyried y cynnig hwn ac archwilio datrysiadau eraill nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar ansawdd addysg a diogelwch disgyblion ledled yr ardal.
- Awgrymaf y dylid cadw'r ysgol ar agor!
- Rwy'n mynd â'm hwyres i'r ysgol ac yn ei chasglu o'r ysgol
- Rwy'n credu y dylid dosbarthu'r plant rhwng tair ysgol gyda mwy o gysondeb o ran meintiau dosbarthiadau llai er mwyn gwella dysgu, rwy'n credu y dylid ystyried y dalgylchoedd yn fwy priodol wrth ddosbarthu'r plant ym mhob un o'r tair ysgol
- Rwy'n credu ei fod yn hollol ffiaidd bod arnoch eisiau symud a tharfu ar gymaint o blant. Nid ydych wedi ystyried plant ag ADY na fyddant yn ymdopi â'r newid enfawr. Mae pob un ohonom ni rieni yn gwybod bod y cyngor wedi ffidlo'r niferoedd ac wedi atal plant rhag mynd i roseheyworth i wneud iddo edrych fel nad yw eu disgyblion yn ddigon i gadw'r ysgol ar agor. Dichellgar iawn! Mae fy merch wedi cael ei hatgyfeirio oherwydd awtistiaeth/adhd ac mae ar amserlen ostyngol eisoes yn roseheyworth, felly mae ei thaflu i mewn i ysgol hollol newydd, gydag athrawon newydd, nid ei ffrindiau rheolaidd, yn ddim byd ond creulon. Ystafelloedd dosbarth gorlawn fydd diwedd ei haddysg, ni fydd hi'n ymdopi. Oherwydd gadewch i ni wynebu'r peth, mae'r chwe chloch a Stryd Tyleri eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti. A bydd yn cymryd 5 mlynedd arall i mi ei chynorthwyo i ymgartrefu rhywfaint eto mewn ysgol arall. Ni allaf hyd yn oed ddechrau esbonio pa mor gynddeiriog ydw i ynghylch y penderfyniad HUNANOL hwn gennych chi. Ac rwy'n gwybod fy mod i'n siarad ar ran yr holl rieni eraill. Y cyfan rydych chi'n poeni amdano yw lle gallwch chi arbed arian a llenwi eich pocedi. Does dim byd o'i le ar yr ysgol, roeddwn i'n un o'r disgyblion cyntaf i fynychu'r ysgol fy hun 26 mlynedd yn ôl ac mae ei chyflwr nawr fel yr oedd yr adeg honno, yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Fe ddefnyddiwch chi unrhyw esgus i wneud yr hyn y mae arnoch chi ei eisiau. Ni feddyliwyd am y disgyblion o gwbl, na hyd yn oed yr athrawon a fydd yn colli eu swyddi. Unwaith eto, ni allaf hyd yn oed ddechrau dweud wrthych faint y mae'r gymuned yn ffieiddio at eich penderfyniad ynghylch cau ysgol Roseheyworth. Rwyf eisoes yn gorfod cysuro a rhoi sicrwydd i'm plentyn 7 oed bob dydd sy'n llefain dros y ffaith bod yr ysgol y cymerodd gymaint o amser i ymgartrefu ynddi bellach yn cau. Byddwn wrth fy modd yn cwrdd yn bersonol â chi i drafod yr holl bwyntiau. Llanast llwyr o gyngor, dylai fod cywilydd arnoch. Nid oes gennyf unrhyw eiriau i ddisgrifio faint yr wyf fi a gweddill Abertyleri yn ffieiddio atoch. Am bobl farus, gwbl hunanol ydych chi.
- Rwy'n credu ei fod yn ffiaidd eich bod chi'n meddwl am gau ysgol y mae cymaint o rieni yn dibynnu arni. Rydych chi'n disgwyl i blant ifainc o'r ardal hon gerdded i naill ai campws Stryd Tyleri neu gampws y Chwe Chloch, neu i rieni sy'n cael trafferth dalu i fynd ar fysiau neu mewn tacsis. Sut y

mae'r plant ifainc hyn i fod i ganolbwyntio ar eu haddysg os ydynt eisoes wedi blino am iddynt orfod codi'n gynharach a cherdded mor bell i'r ysgol? Byddant yn ei chael hi'n anos ymuno mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ac efallai na fyddant yn yr un ysgol â'u ffrindiau, gan achosi mwy o drallod iddynt. Bydd gennych ddosbarth mwy ar adeg pan fo plant BG eisoes dan anfantais gyda'u haddysg o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Byddant yn colli mynediad at gae Roseheyworth sy'n wych ar gyfer datblygiad moesol, iechyd a llesiant. Hefyd darpariaethau ar gyfer plant niwroamrywiol gyda dosbarthiadau mwy a'r aflonyddwch o gamu allan o'u trefn arferol, pa gymorth ydych chi'n ei gynnig iddynt a'u rhieni a fydd yn gorfod ymgodymu â'r frwydr ychwanegol. Gobeithio y byddwch chi'n dod at eich coed ac yn gadael yr ysgol hon ar agor i'r teuluoedd sy'n perthyn i'r ochr hon o Abertyleri. Gobeithio nad yw hyn yn rhywbeth sydd eisoes wedi'i benderfynu

- Rwy'n credu y bydd yn syniad gwael iawn cau'r ysgol gan y bydd yn golygu bod yr ysgol gynradd arall dan ei sang
- Rwy'n meddwl y byddai'n gamgymeriad mawr cau'r ysgol. Byddai maint y dosbarthiadau yn llawer mwy a fyddai'n effeithio ar broses ddysgu y plant. Hefyd rhieni heb gludiant yn gorfod mynd â'u plant ymhellach ar droed mewn tywydd garw a fyddai'n golygu bod plant yn mynychu'r ysgol yn llai aml.
- Rwy'n credu ei fod yn warthus mynd ag ysgol dda oddi ar blant. Bydd hyn nid yn unig yn cael effaith enfawr ar eu haddysg ond beth am eu hiechyd meddwl? Mae plant wedi ymgartrefu yn yr ysgol hon, mewn gwirionedd yn mwynhau mynd. Ydych chi'n mynd i fod yn llai llym gyda nhw pan nad oes arnynt bellach eisiau mynychu'r ysgol oherwydd y cynnwrf/straen o symud, neu roi dirwyon iddynt? Mae Blaenau Gwent yn cymryd y cyllid o'r ardaloedd anghywir a fydd yn cael effaith negyddol iawn ar y plant yr effeithir arnynt. Fel y mae pethau, mae hon yn ysgol wych gyda staff gwych - bydd yn drueni ei gweld yn mynd oherwydd dewisiadau gwael a wnaed gan Flaenau Gwent
- Rwy'n credu ei fod yn rhy bell i blant deithio gan y byddai'r ysgol hon yn gwasanaethu cyrion Abertyleri sy'n arwain at gyrion y Blaenau
- Rwy'n credu bod cau'r ysgol yn syniad gwael, pan fydd yr ysgolion eraill yn llawn, yn ogystal â pheidio â bod yn deg â'r plant na'r rhieni, gwaith caled mynd â'ch plentyn i'r ysgol os nad ydych chi'n gyrru, nid wyf yn credu bod digon o feddwl wedi'i roi i hyn
- Rwy'n credu ei fod yn ofnadwy. Meddyliwch am y plant.
- Rwy'n credu ei fod yn ffiaidd eich bod chi'n cau'r ysgol mae fy ŵyr yn mynd i'r ysgol honno
- Rwy'n credu ei fod yn drist eu bod yn cau'r ysgol ac yn mynd i orfodi plant i mewn i ddwy ysgol arall sydd eisoes yn orlawn a bydd hyn yn gwneud cam â disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd gyda gwaith ysgol a hwythau'n syrthio drwy'r rhwyd
- Rwy'n credu y bydd addysg y plant yn dioddef, oherwydd dosbarthiadau gorlawn. Mae'n gynnig ofnadwy. Rwy'n gwrthwynebu'n gryf.
- Rwy'n credu y bydd maint y dosbarthiadau yn rhy fawr ac yn effeithio ar addysg y disgyblion. Bydd hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar athrawon
- Rwy'n credu bod nifer y plant a maint y traffig yn wallgof nawr. Rwy'n ofni meddwl sut y bydd gyda phlant ychwanegol
- Rwy'n credu bod angen i'r ysgol aros ar agor i'r plant sy'n mynychu'r ysgol honno o'r ardal gan nad yw mynd i ysgol ymhellach i ffwrdd er budd pennaf y plant. Mae campws y Chwe Chloch a Stryd Tyleri mor bell i blant ifainc fod yn cerdded iddynt ac nid yw'r tywydd yn wych yng Nghymru felly byddant yn cael eu gwlychu'n socian wrth fynd i'r ysgol ac yn gorfod eistedd mewn dillad gwlyb drwy'r dydd a hwythau o bosibl yn mynd yn sâl yna'n gorfod bod yn absennol #achubwchysgolroseheyworth
- Rwy'n credu y dylai'r ysgol aros ar agor oherwydd eu bod yn ffrindiau teuluol ac rwy'n gwybod bod eu plant yn mynychu'r ysgol, ac mae gan ddau ohonynt anghenion dysgu a bydd hyn yn anodd iawn iddyn nhw addasu i newid.
- Rwy'n credu bod y ffordd y cafodd ei rannu gyda'r staff yn annerbyniol. Mae staff wedi cael eu gadael yn bryderus gyda chwestiynau heb eu hateb, yn poeni am golli swyddi ac nid oes unrhyw beth wedi cael ei rannu i roi sicrwydd neu dawelwch meddwl. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, beth fydd yn digwydd i niferoedd yn y dosbarthiadau? Beth fydd yn digwydd i'r ddarpariaeth nyth? A fydd digon o le ar gyfer parcio? A yw athrawon mewn perygl o golli eu swyddi? A fydd yn rhaid i blant nad ydynt yn byw yn Abertyleri fynd i wahanol ysgolion i wneud lle i blant yn Abertyleri? Mae gennym nifer cynyddol o blant sy'n symud yma o wahanol wledydd? Beth fydd yn digwydd i'r

ddarpariaeth gofal plant sydd wedi'i sefydlu ar gampws Roseheyworth? Ble fyddant yn cael eu lletya? Trafnidiaeth i blant yn Roseheyworth i allu cyrraedd y campysau eraill? Beth fydd yn digwydd i'r plant y mae arnynt angen darpariaeth ychwanegol ac nad ydynt yn gallu ymdopi yn eu prif ystafell ddosbarth, wrth aros am ddarpariaeth newydd? Er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt, gan eu bod ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at ystafelloedd dosbarth sbâr a chael y cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol. A fydd rhywun yn gallu gweld faint o angen sydd gennym ym mhob dosbarth yn cynyddu o ran ymddygiad ac ADY ac ystyried ble y byddant yn mynd, sut y byddwn yn eu helpu. Sut y byddant yn trefnu'r dalgylch a ble fydd yn rhaid i blant Roseheyworth fynd ar y campws? Ble mae'r lle ar gyfer ADY? A fydd yn rhaid defnyddio ein hystafelloedd staff fel ystafelloedd dosbarth? Ble fydd CPA yn digwydd? Mae gennym ystafelloedd CPA? A fyddant yn cael eu troi'n ystafelloedd dosbarth? Mae llawer o ddosbarthiadau eisoes yn llawn ble fydd y plant yn mynd? Mae gen i ddosbarth o 30, mae fy nosbarth yn llawn, a fyddai disgwyl i ni fod â dosbarthiadau o fwy na 30?

- Rwy'n credu nad yw hyn yn deg ag unrhyw un o'r ysgolion ac na chafodd yr addysg a'r cymorth eu hystyried o gwbl heb sôn am y sefyllfa barcio fel y mae yng nghampws y chwe chloch Mae'n syfrdanol i fod hyd yn oed wedi meddwl am roi plant eraill i mewn, mae'r dosbarthiadau'n ddigon mawr fel y mae. Mae'n syniad ofnadwy !! Mae'n rhaid bod rhyw ffordd arall o gwtogi ar gostau eraill!! Rwy'n teimlo dros y plant !! Mor drist
- Rwy'n credu y bydd hyn yn cael effaith anhygoel ar addysg y plant.
- Rwy'n anghytuno'n llwyr â chau ysgol Roseheyworth. Byddai'n effaith enfawr ar addysg y plant draw yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch, mae'n hollol chwerthinllyd cau ysgol Roseheyworth.
- Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn. Mae disgwyl i blant gerdded pellter hir i ysgol wahanol yn gwbl annerbyniol i rieni/gofalwyr nad ydynt yn gyrru, sut mae disgwyl iddynt fynd â'u plant i'r ysgol?
- Rwy'n mynd â'm plentyn i'r ysgol ac oddi yno, ni allaf yrru a byddai symud yr ysgol i ffwrdd o gartref yn creu problemau gyda mynd â'm plentyn i'r ysgol
- Rwyf am gadw'r ysgol hon ar agor
- Fi oedd cadeirydd y llywodraethwyr pan gynhaliwyd y broses ymgynghori 3-16. Fe wnaethon ni ymladd yn erbyn yr ysgol 3-16 ar y pryd. Roedd gan Ysgol Gynradd Abertyleri a'r 3 ysgol gynradd arall ar y pryd gyllidebau ardderchog heb fawr ddim dyled. Cawsom ein gorfodi i ddod yn un ysgol fawr i ddiogelu'r ysgol gyfun oherwydd gostyngiad yn y niferoedd er nad oedd ar neb yn yr ysgolion cynradd eisiau i'r ysgolion gael eu huno! Addawyd y byddai'r 3 champws cynradd newydd yn cael eu diogelu. Dim ond 9 mlynedd yn ddiweddarach ac mae un o'r campysau heb amheuaeth yn cael ei gau. Ydynt, mae'r niferoedd ar hyn o bryd yn isel ond y prif reswm yw'r ddyled sylweddol a syfrdanol. Sut ar y ddaear bod yr ysgol mewn dyled o £900000, mae hynny'n hollol syfrdanol ac mae o ganlyniad i reolaeth wael. Bydd teuluoedd yn dioddef gan y byddant yn colli eu hysgol leol! Ysgol nad yw ond yn 26 oed. Roedd y broses ymgynghori ar gyfer yr ysgol 3-16 yn ffars ac rwy'n credu y bydd y broses bresennol hon yr un fath ac nid oes amheuaeth bod y penderfyniad eisoes wedi cael ei wneud! Cywilydd arnoch chi Blaenau Gwent
- Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn. Mynychodd fy mhlant Roseheyworth ac mae'n ysgol wych. Bydd effaith symud y plant rhwng y ddau gampws arall yn enfawr ac rwy'n credu ei fod yn niweidiol iawn. Rwy'n deall bod y campysau eraill eisoes yn gymharol llawn. Mae'r effaith y bydd yn ei chael ar ddysgu'r plant yn debygol o fod yn negyddol, gyda'r posibilrwydd o ddosbarthiadau gorlawn. Credaf hefyd y bydd effaith ar lesiant emosiynol y plant gan ei fod yn debygol o amharu ar grwpiau cyfeillgarwch sefydledig. Mae ein hysgol yn lle y mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi. Bydd hyn yn effeithio'n ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig a hwythau eisoes wedi ymgartrefu ac yn setlo ac yn ffynnu yn Roseheyworth. Bydd y plant hyn yn cael trafferth gyda'r broses bontio. Mae trigolion lleol Stryd Tyleri a champws y chwe chloch eisoes wedi mynegi pryderon o'r blaen am ddiogelwch ar adeg casglu a gollwng oherwydd faint o draffig sydd yn yr ardaloedd. Ni fydd ychwanegu'r plant o roseheyworth ond yn gwaethygu'r mater hwn. Roseheyworth ar hyn o bryd yw'r lle gorau ar gyfer amseroedd gollwng a chasglu oherwydd bod y maes parcio a'r safle yn agos at y rhan fwyaf o gartrefi yn yr ardal agos. O safbwynt aelod o staff Mini Me, rwy'n siomedig iawn am y ffordd y mae hyn wedi cael ei gynnig, heb unrhyw rybudd o gwbl gan y cyngor. Fe wnaethon ni ddod o hyd i'r wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel lleoliad Dechrau'n Deg, credaf y bydd colli'r gwasanaeth hwn yn ardal Abertyleri yn achosi prinder lleoedd blynyddoedd cynnar yn y gymuned, yn enwedig gyda Dechrau'n Deg yn ehangu'r hawl i gynnwys mwy o godau post yn rheolaidd. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig gofal

cofleidiol i blant sy'n cael y cynnig gofal plant. Mae'r plant hyn yn dod o deuluoedd sy'n gweithio ac os nad ydym yn agored yn Roseheyworth i gynnig y gwasanaeth hwn, yna byddai rhieni yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant arall er mwyn mynd i'r gwaith. Fel y soniais o'r blaen, nid wyf yn credu y byddai'r lleoliadau gofal plant eraill yn yr ardal yn gallu amsugno ein holl blant i'w lleoliadau. Gallai hyn orfodi rhieni heb ofal plant i orfod lleihau eu horiau gwaith, neu hyd yn oed roi'r gorau i'w swyddi yn gyfan gwbl, gan achosi hyd yn oed mwy o niwed i'n cymuned a hefyd i'r economi. Erfyniaf arnoch i ailystyried eich cynnig a dod o hyd i ffordd ymlaen a all ganiatáu i'n hysgol hyfryd aros ar agor!

- Hoffwn fynegi'n ffurfiol fy mod yn pryderu ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar Ysgol Gynradd Roseheyworth. I lawer o deuluoedd, mae safle Roseheyworth yn cynrychioli llawer mwy nag adeilad ysgol. Mae'n ymwneud â chynefin - ymdeimlad dwfn o berthyn, hunaniaeth a chysylltiad cymunedol. Mae cenedlaethau o deuluoedd wedi mynychu, ac mae'r ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r hygyrchedd hwn yn cryfhau cysylltiadau cymunedol ac yn cefnogi annibyniaeth a llesiant plant. Mae cyfran sylweddol o ddysgwyr ar hyn o bryd yn cerdded i'r ysgol. Os yw'n ofynnol i ddisgyblion fynychu campysau eraill, bydd llawer yn wynebu teithiau hwy o lawer. Heb sicrwydd y bydd cludiant yn cael ei ddarparu, gall hyn greu rhwystrau i deuluoedd. Cydnabyddir yn eang bod mwy o bellter teithio yn ffactor a all effeithio'n negyddol ar brydlondeb a phresenoldeb. Felly, dylid ystyried yr effaith bosibl ar bresenoldeb yn ofalus. Mae hefyd yn bwysig cydnabod mai dim ond 26 oed yw adeilad Roseheyworth. O ran seilwaith addysgol, mae hyn yn gymharol fodern. Ni all y ddadl dros gau fod yn rhesymol ar y sail bod yr adeilad wedi dyddio neu ddim yn addas i'r diben mwyach. Er bod nifer y disgyblion yn is o bosibl ar hyn o bryd, dylanwedir ar ffigyrau cofrestru ysgolion gan benderfyniadau lleoli awdurdodau lleol. Mae lle mae plant yn cael eu cyfeirio'n cael effaith sylweddol ar batrymau cofrestru. Felly, ni ddylid dehongli niferoedd is yn awtomatig fel diffyg galw. Hefyd, adeiladwyd Ysgol Gynradd y Chwe Chloch gyda chapasiti uwch na'r niferoedd cyfunol o Ysgol Gynradd Bryngwyn ac Ysgol Gynradd Heol y Frenhines. Mae'n anochel bod hyn wedi creu lleoedd gwag yn yr ardal. Fodd bynnag, mae ffigyrau capasiti yn cynrychioli uchafswm y niferoedd y mae lle iddynt, nid niferoedd cofrestru targed. Nid yw lleoedd gwag ar bapur o reidrwydd yn cyfateb i ddiffyg angen cymunedol neu hyfywedd hirdymor. I grynhoi, erfyniaf ar yr awdurdod lleol i roi ystyriaeth lawn i'r canlynol: • Pwysigrwydd cynefin a hunaniaeth gymunedol • Yr effaith ar lwybrau cerdded, pellter teithio a phresenoldeb • Cyflwr cymharol fodern yr adeilad • Y gwahaniaeth rhwng ffigyrau capasiti a'r galw gwirioneddol • Dylanwad derbyniadau a phenderfyniadau lleoli ar niferoedd ysgolion Mae safle Roseheyworth yn parhau i wasanaethu ei gymuned mewn ffyrdd ystyrlon a mesuradwy. Dylai unrhyw benderfyniad ynghylch ei ddyfodol adlewyrchu nid dim ond y capasiti rhifiadol ond hefyd y gwerth cymdeithasol, addysgol a chymunedol y mae'n ei ddarparu.
- Hoffwn gofrestru'n ffurfiol fy ngwrthwynebiad cryf i'r bwriad i gau Ysgol Gynradd Roseheyworth. Fel un o drigolion Abertyleri, rwy'n bryderus iawn am ganlyniadau ymarferol trosglwyddo disgyblion ychwanegol i gampws Stryd Tyleri. Mae'r trefniadau traffig a chludiant o amgylch y safle eisoes yn gryn her ar amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol. Mae tagfeydd, anawsterau parcio a phryderon diogelwch yn faterion adnabyddus i drigolion a rhieni yn yr ardal. Mae'n anochel y bydd cyflwyno nifer sylweddol fwy o ddisgyblion yn cynyddu nifer y cerbydau, cerddwyr a'r cludiant i ysgolion, gan waethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd i'w rheoli. Yn fy marn i, bydd hyn yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ac yn creu risgiau diogelwch pellach i blant, rhieni a thrigolion fel ei gilydd. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r seilwaith presennol o amgylch campws Stryd Tyleri ddarparu ar gyfer y cynnydd hwn yn realistig heb darfu sylweddol. Hoffwn hefyd fynegi pryder difrifol ynglŷn â chyflwr campws Roseheyworth. Dim ond tua 26 oed yw adeilad yr ysgol, sy'n codi cwestiynau pwysig ynglŷn â sut y mae wedi cyrraedd cyflwr lle mae cau yn cael ei ystyried. Mewn cymhariaeth, mae'r adeiladau ysgolion uwchradd lleol yn sylweddol hŷn ond yn parhau i weithredu. Mae hyn yn naturiol yn peri i drigolion gwestiynu a wnaed gwaith cynnal a chadw a buddsoddiad digonol ar safle Roseheyworth dros y blynyddoedd. Mae caniatáu i gyfleuster ysgol cymharol fodern fynd yn adfail ac yna nodi bod cyflwr yr adeilad yn ffactor yn y penderfyniad i gau'r ysgol yn bryderus iawn. Cyfrifoldeb yr awdurdod yw cynnal a chadw ei ystâd addysgol i safon briodol, ac mae'r sefyllfa bresennol yn codi amheuon pa un a yw'r cyfrifoldeb hwnnw wedi bod yn cael ei gyflawni'n briodol. Y tu hwnt i'r pryderon ymarferol, mae yna hefyd effaith sylweddol ar y gymuned y mae'n rhaid ei hystyried. Mae ysgolion yn ganolog i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r campysau yn Roseheyworth, y Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn

cefnogi eu cymdogaethau lleol eu hunain ac yn darparu hyb pwysig ar gyfer teuluoedd a bywyd cymunedol. Ceir risg bod lleihau nifer yr ysgolion lleol yn gwanhau'r cysylltiadau cymunedol hyn ac yn rhoi mwy o bwysau ar y safleoedd sy'n weddill. Byddai'r cynnig hefyd yn creu anawsterau ychwanegol i lawer o rieni a gofalwyr nad oes ganddynt fynediad at gar. Mae ysgolion lleol yn galluogi plant i gerdded i'r ysgol yn ddiogel yn eu cymunedau eu hunain. Mae cynyddu pellteroedd teithio a chydgrynhoi disgyblion mewn llai o gampysau yn rhoi baich anghymesur ar deuluoedd sy'n dibynnu ar gerdded neu opsiynau cludiant cyhoeddus cyfyngedig. Am y rhesymau hyn, erfyniaf yn gryf ar y Cyngor i ailystyried y cynnig i gau Ysgol Gynradd Roseheyworth ac i roi mwy o bwyslais ar y goblygiadau o ran cludiant i drigolion Abertyleri, yr effaith gymunedol ehangach ar draws y tri champws, a'r cyfrifoldeb i gynnal a chadw'r seilwaith addysgol presennol yn iawn.

- Rwy'n gweithio yn yr ardal leol ond nid ar gyfer CDdA, mae maint dosbarthiadau eisoes yn rhy fawr.
- Gweithiais yn yr ysgol hon am 15 mlynedd, rwy'n drist iawn o glywed eu bod yn meddwl am gau'r ysgol. Fe'i mynychwyd gan fy nau blentyn. Ni allaf ddeall pam, o wybod sut y mae'r ysgolion cynradd eraill yn orlawn yn barod, bod hyn hyd yn oed yn cael ei drafod.
- Rwy'n poeni y bydd Stryd Tyleri yn mynd yn orlawn ac na fydd yr amser iawn yn cael ei dreulio ar y plant
- Hoffwn gadw pob ysgol ar agor; Mae addysg yn bwysig!
- Rwy'n fam-gu ac mae'r ysgol hon wedi dysgu nifer o blant a dylai aros ar agor. Fe gaeoch chi bob ysgol leol sydd wedi bod yma am flynyddoedd lawer i wneud tair ysgol fawr
- Dydw i ddim yn hapus bod ysgol Roseheyworth yn cau ac yn uno â champws y chwe chloch a champws Stryd Tyleri. Mae'r ysgol eisoes yn eithaf gorlawn ac nid oes ganddi ddigon o leoedd parcio. Mae parcio yn drychineb llwyr yn y boreau ac yn enwedig ar amser mynd adref. Ni allaf ddychmygu faint o draffig a chythraul gyrru fyddai pe bai ysgolion eraill yn penderfynu uno. Mae hwn yn syniad ofnadwy. Trychineb yn aros i ddigwydd. Nid oes gan lywodraethwyr yr ysgol na'r cyngor unrhyw syniad faint o straen yw parcio ar amser mynd adref. Mae tagfeydd yn digwydd ac yn awr ni fydd lle o gwbl!
- Os bydd y campws hwn yn cau, bydd y campysau eraill yn llawn a bydd dysgu plant yn dioddef, ni allwch gael dau gampws cynradd yn unig, ni fydd yn gweithio gan bod dirfawr angen y campws hwn o hyd. Fel cyn-aelod o staff rwyf wedi gweld drosof fy hun sut mae plant wedi ffynnu o ran eu dysgu ac mae'r staff yn rhai heb eu hail
- Os bydd y cynnig hwn i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen, yna byddwch yn sicr yn colli'r aelodau o staff hŷn sydd wedi'u hyfforddi a'u holl flynyddoedd lawer o arbenigedd trwy'r broses colli swyddi. Os na ddarperir bysiau ysgol i'r plant yna bydd llawer mwy o geir yn cyrraedd y ddau gampws cynradd sy'n weddill, sydd eisoes yn orlawn iawn. Efallai y bydd rhieni heb geir yn dewis addysgu eu plant gartref yn hytrach na gadael i'w plant gerdded ar ein ffyrdd gorlawn. Pa gynigion sydd gennych chi ar gyfer adeilad gwag mawr arall yn ein tref? Dim ond ers y mileniwm y mae Roseheyworth wedi bodoli. Roeddwn i'n gweithio yn yr hen ysgolion hyfryd fel ysgol fabanod Crown ac Ysgol Plant Iau Cock and Chick cyn trosglwyddo i lawr i Roseheyworth ac fe barodd yr adeiladau hyn am gan mlynedd a mwy, nid dim ond 20! Rwy'n credu ei fod yn achos arall o'n cyngor yn taflu arian trethdalwyr i ffwrdd heb feddwl o gwbl am ein plant a'n cymuned.
- Os bydd yr ysgol hon yn cau yna bydd mwy o draffig wrth gampws y chwe chloch rwy'n byw ger yr ysgol hon ac mae'r traffig ar hyn o bryd yn ofnadwy mae'n ddamwain sy'n aros i ddigwydd pe bai ambiwlans neu injan dân yn dod i lawr y bryn hwn ni fyddent yn gallu mynd ymhellach
- Rwy'n rhiant i blentyn yn Stryd Tyleri. Mae'n hurt meddwl bod hyn hyd yn oed yn opsiwn, mae'r ysgol eisoes yn orlawn, nid yw anghenion plant yn cael eu diwallu, mae athrawon yn gorweithio. Mae'r llwyth gwaith a ddisgwylir eisoes yn llawer gormod. Mae casglu a gollwng y tu allan i'r ysgol yn fwy na phrysur. Dw i'n meddwl ei bod hi'n annheg hyd yn oed awgrymu uno'r ysgolion. Y disgyblion yw'r pwysicaf a byddant yn dioddef.
- Rwy'n hynod siomedig i weld mai cau yw'r penderfyniad yn ôl pob golwg gan y cyngor llafur ym mhob ffordd y gallant maen nhw'n dinistrio unrhyw beth da sydd gennym, bydd symud y plant hyn yn creu dosbarthiadau sy'n orlawn, mae'r ysgol hon yn 26 mlwydd oed dylai fod yn mynd am sawl blwyddyn yn rhagor. penderfyniad ofnadwy arall
- A yw Stryd Tyleri yn mynd i gymryd yr holl blant hyn mewn gwirionedd. Mae plant yn cael eu haddysgu mewn coridorau nawr ac nid coridorau dysgu rwy'n ei olygu – ond yn hytrach addysgu trwy'r dydd. Yr uchafswm ar gyfer dosbarth yw 30 ond mae cyfartaledd Cymru yn llawer is.

- Mae'n ysgol dda, rwy'n credu na ddylai'r ysgol gau gan ei bod yn rhan o'r gymuned ac y bydd pob disgybl yn cael ei ddadwreiddio i ysgol arall i ffwrdd oddi wrth ffrindiau a'u hamgylchoedd.
- Mae'n ofnadwy cau ysgol Roseheyworth, mae angen i blant gael eu haddysg yno nid mewn amgylcheddau cyfyng mewn ysgolion eraill.
- nid yw'n briodol
- Nid yw'n deg â'r disgyblion, yn enwedig fy merch, a fydd yn mynd i'r derbyn ym mis Medi 2026, sydd eisoes yn newid enfawr iddi. Mae hi wedi ffurfio cyfeillgarwch mor hyfryd a fydd yn effeithio arni. Fe wnes i gais iddi fynd i Stryd Tyleri yn wreiddiol ond fe'i gwrthodwyd! Nawr gallai hi gael ei lleoli yn unrhyw le nad yw'n deg â hi na ni fel rhieni.
- Bydd yn tarfu'n fawr ar y plant maen nhw'n bobl bwysig yma Hefyd yn llawer pellach i gerdded A yw'r ysgolion eraill yn mynd i ffitio'r plant yn gyfforddus?
- Bydd yn niweidiol i blant, dosbarthiadau rhy fawr, pell i deithio (costau) sy'n tynnu'r dewis oddi ar bobl
- Bydd yn gymaint o drueni cau ysgol mor boblogaidd. Cyfleusterau anhygoel a'r ysgol sydd wedi'i lleoli orau yn Abertyleri. Bydd hyn yn tarfu ar blant a'u haddysg. Ni fydd cau'r ysgol hon yn cefnogi plant yn yr ardal hon bydd yn gwneud dysgu ac ysgol yn anos o ran teithio a ffitio i mewn. A ddylem ni fod yn cau YSGOLION mewn gwirionedd? Mae digon o adeiladau gwag o gwmpas. Pam ydym ni'n cau ysgolion mewn ardal amddifadus??
- Bydd yn peryglu addysg disgyblion.
- bydd yn peryglu addysg disgyblion
- Bydd yn cynyddu maint dosbarthiadau, bydd addysg plant yn dioddef, bydd yn cael effaith ar lesiant athrawon
- Byddai'n drasiedi cau'r ysgol. Beth am y plant sy'n gorfod cerdded i'r ysgol.
- Mae'n syniad hollol chwerthinllyd. Ble mae ein holl blant yn mynd i fynd. Beth am y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol honno, beth am ffitio i mewn a theimlo'n gyfforddus. Mae hynny'n mynd i ddiflannu ar gyfer y plant i gyd .. yn talu'r dreth gyngor uchaf ac yn cael y gofal lleiaf. Pryd mae'n mynd i stopio!
- Mae'n ysgol mor hyfryd a chymaint o blant o gwmpas ardal yr ysgol y mae ei hangen arnynt. Mae'r parcio yn Stryd Tyleri a'r chwe chloch yn hunllef lwyr yn barod heb ychwanegu rhagor o blant at y campysau. Ni ddylid cau'r ysgol hon
- Mae'n ysgol gymharol newydd pam ei chau? Gwastraff arian chwerthinllyd
- Mae'n ysgol anhygoel, sydd wedi darparu addysg wych i'm plant i gyd, ddoe a heddiw. Mae ganddi'r mynediad (ffyrdd) gorau. Yr unig 'fantais' bosibl yw'r arian a arbedir, ond bydd ar draul addysg ein plant, iechyd meddwl, ac yn achosi anhrefn llwyr ar amseroedd casglu/gollwng. Mae fel bod y bobl sy'n cynnig hyn wedi gweld yr arian yn unig, nid y plant.
- Mae'n ffordd ofnadwy o bell i rieni a phlant gerdded os nad oes ganddynt fynediad at gar, ac mae'n llawer mwy o draffig yn yr ysgol ac o amgylch yr ysgol os oes ganddynt fynediad at gar.   Fy mhryder mwyaf yw y bydd creu unrhyw rwystr i fynediad hawdd at yr ysgol yn golygu y bydd llawer o blant yn peidio â mynd. Ar un o ardaloedd tlotaf y fwrdeistref y bydd hyn yn effeithio.   Beth fydd yr effaith ar faint dosbarthiadau?  Yn sicr, bydd effaith ar y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn y 2 ysgol arall 'Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y Gymuned Ddysgu, i ddiogelu a gwella safonau addysgol, a mynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol sylweddol a chynyddol.'    Mae'r paragraff hwn yn fy nharo i fel un sy'n rhyfedd o debyg i'r rhesymau a roddwyd dros sefydlu'r gymuned ddysgu - dim ond 10 mlynedd yn ôl - beth fydd yn wahanol y tro hwn? Sut allwn ni fod yn hyderus y bydd y cynnig yn sicrhau unrhyw beth y mae'n gobeithio ei gyflawni pan, a bod yn hollol onest, na ddylai fod wedi bod ei angen o fewn cyfnod mor fyr.  Rwyf wir yn gobeithio y bydd gwersi yn cael eu dysgu o'r 'ymgynghoriad' ynghylch creu'r ysgol 3-16 a oedd yn teimlo'n wag, yn ddiystyr ac wedi'i ragderfynu - mae pobl yn haeddu gwell ac mae angen gwybod y bydd eu barn yn cael ei hystyried.   Nid yw'n ymddangos fel cam cadarnhaol ar hyn o bryd.
- Mae'n ofnadwy ei bod yn cau
- Mae'n anodd i'r plant ac arnynt angen help ychwanegol i gael y cymorth yn y dosbarthiadau mwy. Mae traffig a pharcio yn yr ysgolion eraill eisoes yn glòs ac yn achosi problemau
- Nid yw ond yn syniad twp arall i gwtogi ar gostau a fydd hyd yn oed yn fwy niweidiol i blant Abertyleri. Cafodd uno ysgolion cynradd i achub yr ysgol uwchradd ganlyniadau trychinebus gan wneud y gwrthwyneb a llusgo safon y cyfnod cynradd i lawr. Mae'r staff wedi bod yn ddigalon am flynyddoedd ac mae hyn yn cael effaith enfawr ar blant. Mae fy mab yn casáu mynd i'r ysgol gan

nad oes hwyl mwyach. Mae athrawon yn gweiddi drwy'r amser oherwydd eu bod dan straen i'r eithaf neu maen nhw'n rhoi'r gorau iddi'n dawel oherwydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud – penderfynwch chi?? Ceir eisoes gormod o lawer o blant ag anghenion ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd heb yr help a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt, heb sôn am beth sy'n mynd i ddigwydd yn y 10 mlynedd nesaf pan fydd mwy o blant ag anghenion ychwanegol nag o blant heb anghenion o’r fath, ond does neb wedi ystyried y cynllun hwnnw hyd at ei ben!! Ni all 1 athro addysgu'r ddau ar yr un cyflymder a disgwyl i'r plant ffynnu mae hynny’n hollol chwerthinllyd.. Maen nhw'n cael eu gwahardd rhag chwarae gemau am fod yn blant. nid yw proses ad-drefnu arall yn mynd i wella unrhyw beth o ran addysg, dim ond rhoi arian ym mhoced gefn rhywun fel bonws. Hefyd, mae yna broblemau gyda champws y chwe chloch y mae angen mynd i'r afael â hwy o ddifrif cyn ychwanegu rhagor o bobl a thraffig. Mae angen adolygu trefniadau parcio gan ei bod yn hollol ofnadwy ceisio mynd i mewn ac allan o'r campws yn y bore a'r prynhawn. Mae'r maes parcio yn uffernol gyda'r tywydd rydyn ni wedi'i gael os yw'n bwrw glaw ceir pyllau enfawr ac mae dŵr sy'n gorlifo yn rhedeg i lawr y maes parcio oherwydd diffyg draenio, yna yn y gaeaf mae'r campws cyfan fel llawr sglefrio iâ enfawr gyda'r lloriau tila a ddefnyddiwyd heb unrhyw afael a neb yn y cyngor na’r gwasanaeth priffyrdd yn cyfaddef pwy sy'n gyfrifol am edrych ar ei ôl a'i raeanu hyd yn oed ar ôl nifer o negeseuon e-bost ac ymholiadau i gael ateb!!!! (Mae gen i luniau, fideos a’r negeseuon e-bost i ategu hynny)Hefyd pwll enfawr sy'n ymddangos y tu allan i'r dderbynfa pan fydd hi'n bwrw glaw, mae hynny hefyd oherwydd system ddraenio gachu felly mae'n ddrwg gennyf os nad wyf yn credu ei fod er budd pawb bod yr ysgol yn cau gan ein bod wedi cael llwyth o sbwriel gan y cyngor ac adrannau amrywiol dros y blynyddoedd ac mae pob penderfyniad a wnaed gan y rhain wedi bod yn niweidiol nid er gwell, felly na, nid wyf yn cefnogi'r cynnig o gwbl!!!! .......

- Mae'n rhy ifanc gan mai dim ond ers 26 mlynedd y mae wedi bod ar agor.
- cadw'r ysgol
- Diffyg parcio ar Gampws y Chwe Chloch, gormod o niferoedd mewn dosbarthiadau, annifyr i'r plant
- Byw ar stryd y dderwen dyma fy ysgol agosaf a'r ysgol y byddwn i'n ei dewis ar gyfer fy mab a fydd yn dechrau yn y meithrin yn 2027. Mae fy nith a'm nai eisoes yn mynd i'r ysgol hon ac mae'n ysgol mor hyfryd byddai'n drueni go iawn i'r gymuned gyfan pe bai’n cau. Hefyd, o ystyried mai dim ond 26 oed yw hi, ac o’i chymharu â llawer o ysgolion eraill ym Mlaenau Gwent mae’n ifanc ac yn wastraff arian pe bai’n cael ei chau
- Mae pobl leol yn defnyddio'r ysgol. Er bod llai o blant mewn rhai blynyddoedd, mae rhieni nad ydynt yn gyrru ac ati yn dibynnu ar yr ysgol, yn enwedig yn y tywydd gwael yr ydym yn cael llawer ohono
- Mae adnoddau lleol dan ddigon o straen fel y mae. ac mae'r traffig o amgylch yr ysgolion eraill eisoes yn ofnadwy heb faich ychwanegol disgyblion sydd wedi'u dadleoli o ysgolion eraill.
- Mae ysgolion lleol yn llawn hyd eithaf eu capasiti a byddai'n rhaid cludo'r plant o ysgol Rose Heyworth i'r ysgolion eraill am gost
- Angen ysgolion lleol
- Gwallgofrwydd, Gormod o blant mewn un dosbarth neu mewn coridorau, gormod o benaethiaid. Mae angen ariannol arnom
- Nid yw’n gwneud unrhyw synnwyr cau'r ysgol felly dydw i ddim yn ei gefnogi
- Nid oes gan lawer o blant sy'n mynychu'r ysgol fodd i deithio i fynychu campws arall. Ac mae'r ysgolion eisoes yn brin o staff heb wasgu rhagor o blant i mewn iddynt. Os oes angen gwneud toriadau, byddwn yn awgrymu edrych ar gyflogau cynghorwyr
- Iechyd meddwl plant, gorlenwi ystafelloedd dosbarth, traffig, cerdded i'r ysgol i blant, colli swyddi athrawon, plant nad ydynt gyda’u ffrindiau, parcio peryglus, ôl troed carbon, cost teithio, plant yn rhy flinedig ar ôl ysgol i allu gwneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, rhieni yn gorfod gadael swyddi os nad oes clybiau brecwast Grwpiau Mini Me yn cau dim gofal cofleidiol ar gyfer y ddarpariaeth feithrin.
- Mae grwpiau Mini Me wedi bod ar wahân i'r ysgol hon am dros 16 mlynedd, rydym wedi darparu gofal plant i blant o 2 oed i fyny. Mae gennym glybiau ar ôl ysgol a chlwb yn y gwyliau sydd hefyd yn rhedeg ar y safle hwn. Mae hyn yn helpu pob rhiant gyda gofal plant, er mwyn iddynt allu gweithio. Mae gennym blant o bob ardal yng Ngwent. Gan bod gennym hefyd blant Dechrau’n Deg a phlant 30 awr a gyllidir gan y llywodraeth sy'n mynychu 5 diwrnod yr wythnos. Gan bod llawer ohonoch yn ymwybodol bod y llywodraeth yn galw am leoliadau gofal plant i allu ffitio pob plentyn

mewn lleoliad gofal plant, gyda'r cynnig hwn i gau byddech wedyn yn cau lleoliad y mae ei ddirfawr angen ym Mlaenau Gwent. Rydym yn byw yn un o'r ardaloedd mwyaf amddifadus ac mae angen i'r holl ysgolion hyn aros ar agor i bob plentyn sy'n mynychu campws mini me a champws Roseheyworth. Nid ysgol yn unig yw hon ond ysgol â lleoliad gofal plant lle gall plant o 2 oed deimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn gan staff mini me a Roseheyworth. Mae angen hyn ar blant Roseheyworth, y Blaenau ac Abertyleri, er mwyn galluogi ein plant i gael dyfodol gwell.

- Mae angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â sut y bwriedir gwneud lle i'r dysgwyr a'u hailddosbarthu a lefel yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y dysgwyr mewn campysau eraill. A fydd plant yn Stryd Tyleri, sydd â'r nifer uchaf o ddysgwyr ac sydd agosaf at drigolion Roseheyworth, yn goddef gweld eu plant yn cael eu symud i gampws arall er mwyn atal atebolrwydd y cyngor am dalu am gludiant i'r ysgol? Os na, beth yw'r cynllun? Mae angen tryloywder llawn fel y gall y campws cyfan ddygymod a phrosesu'r ffeithiau.
- Mwy o draffig yn y Chwe Chloch.
- Nid yw symud plant o un ysgol i'r llall dim ond i gynyddu niferoedd yn iawn, o leiaf gyda llai o ddisgyblion i bob athro/athrawes bydd pob plentyn yn cael y sylw y mae ei angen arnynt ac yn cael gwell ansawdd addysg.
- Bydd symud plant o Roseheyworth i'r Chwe Chloch/Stryd Tyleri yn achosi hyd yn oed mwy o broblemau parcio, defnydd ceir a phwysau ar feintiau presennol dosbarthiadau. Mae parcio eisoes yn ofnadwy o gwmpas yr ysgolion a bydd mwy o draffig yn gwneud pethau'n waeth gan na fydd y plant o Roseheyworth yn cerdded i'r ysgol. Beth sy'n digwydd os nad yw rhieni yn gyrru. A fydd cludiant yn cael ei drefnu heb unrhyw gost ychwanegol i deuluoedd? Beth sy'n digwydd i staff. A fydd rhaid colli swyddi'n orfodol?
- Rhaid ei chadw ar agor
- Mae fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol hon ac rwy'n llwyr yn erbyn y cynnig hwn i gau'r ysgol gan ei fod wedi ymgartrefu yn yr ysgol ar ôl cael trafferth am flynyddoedd gyda bywyd ysgol ac mae ein trefniadau gofal plant yn gweithio gyda'n rhieni yn ei gasglu oherwydd nad ydynt yn gyrru a hwythau'n byw yn agos at yr ysgol. Rwy'n credu hefyd y bydd cynyddu maint y dosbarthiadau yn y 2 ysgol sy'n weddill yn cael effaith fawr ar addysg i'r holl blant
- Mae fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol hon a'r lleoliad Mini Me, mae ei anfon i ysgol sydd eisoes yn orlawn y tu hwnt i fod yn jôc
- Mae fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol hon ac rydw i yn erbyn y cynnig gan ei fod yn cael trafferth gyda'r ysgol fel y mae a bydd ei newid nawr yn achosi straen a chwalfa lwyr mae'r ysgol wedi bod yn wych yn cefnogi fy mab. Hefyd mae fy rhieni yn ei gasglu ac yn mynd ag ef i'r ysgol i mi weithio gan eu bod yn byw yn agos at yr ysgol os bydd yr ysgol yn cau byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i fy swydd gan na fyddai neb i'm helpu gan nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgolion eraill. Byddai'r ysgolion eraill yn orlawn iawn pe bai ein hysgol yn ymuno â nhw ac rwy'n credu y byddai hyn yn cael effaith fawr ar eu dysgu.
- Mae fy mhlentyn yn mynd i Stryd Tyleri lle mae'r dosbarthiadau eisoes yn llawn, nid oes eisiau mwy neu mi fyddant yn orlawn
- Mae fy mhlentyn wedi bod yn mynd i'r ysgol hon am 4 blynedd byddai'n hollol ddinistriol pe bai'n rhaid iddo adael yr unig ysgol y mae erioed wedi ei hadnabod.
- Mae fy mhlentyn mewn grŵp mini-me felly byddaf yn colli cymorth gofal plant fy mhlentyn. Dydyn ni ddim yn gyrru ac nid oes unrhyw gynlluniau eto o ran ble mae'r grwpiau Min Me yn mynd
- Mae fy mhlentyn wedi ymgartrefu yn yr ysgol hon, nid yn unig y bydd yn methu ag ymdopi â newid mawr. Mae gan y campws hwn bopeth y mae ei angen arno. Mae fy mab yn mynd i glwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol yma. Rwy'n gweithio'n rhan-amser mae gen i blentyn arall lle gallwn o bosibl golli fy swydd os byddaf yn hwyr drwy'r amser ar ôl ei ddanfon i'r ysgol pan fyddaf yn gweithio yn y cyfeiriad arall. Mae fy mam hefyd yn byw yn union y tu allan i'r ysgol, oherwydd problemau anabledd nid yw fy mam a nhad yn gallu teithio ar gludiant cyhoeddus i'w gasglu. Mae bwlio hefyd yn ffactor mawr yn yr ysgolion eraill, dim parcio adeg casglu sy'n golygu parcio ar linellau melyn dwbl i gerdded i'w gasglu. Y safle bysiau agosaf yw canol y dref sy'n 10 munud i ysgol Stryd Tyleri, ac eto ysgol y chwe chloch. Mae fy mhlentyn yn 7 oed ac rydyn ni'n byw 1.5 milltir o ysgol Stryd Tyleri. Rydym hefyd yn byw 3 milltir o ysgol y chwe chloch. Ystyriwch fy safbwyntiau ynghyd â phawb arall ar y mater hwn. Nid yn unig fi ond byddai pob rhiant a phlentyn yn cael eu brifo a'u dinistrio'n llwyr pe bai hyn yn digwydd.
- Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar fy mhlentyn pan fydd yn dechrau'r ysgol a bydd ei addysg yn dioddef

- Mae fy mhlant yn mynychu'r campws uwchradd a Stryd Tyleri. Mae gan gampws Stryd Tyleri eisoes 2 ddosbarth mawr ar gyfer pob grŵp blwyddyn (mae fy mhlentyn ym mlwyddyn 6). Ceir arian cyfyngedig ar gyfer llyfrau ac ati ac mae dosbarth presennol fy mab yn cynnwys disgyblion sy'n heriol (o ran ymddygiad), a fyddai'n gwaethygu gyda dosbarthiadau mwy.
- Mae fy mhlant yn dioddef llawer o orbryder ac nid yw eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion yn mynd i helpu gyda hyn! Maen nhw'n caru eu hysgol ac mae'n bellter byr o'u cartref y maen nhw'n dwlu arno gan y gallant gerdded yno ac oddi yno! Mae cau'r ysgol hon yn ddiangen! Beth sy'n digwydd os bydd y gyfradd genedigaethau yn codi dros y blynyddoedd nesaf ac nad oes lle i'r plant hyn?
- mae fy merch yn mynychu Campws Abertyleri ac rwy'n credu bod dosbarthiadau eisoes yn orlawn
- Mae fy merch yn mynychu roseheyworth, mae hyn yn hollol ddinistriol i golli'r ysgol hon. Byddai'n effeithio'n ddifrifol ar lesiant ac iechyd meddwl fy merch pe bai'n cael ei thaflu i mewn i ysgol arall i ffwrdd oddi wrth bawb a phopeth y mae hi wedi tyfu gyda nhw. Ni fu unrhyw feddwl am unrhyw un ond beth bynnag y mae ar y cyngor eisiau'r adeilad ar ei gyfer, cywilydd arnoch chi gyngor blaenau gwent am daflu ein plant allan o'u hysgol. Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad yn amlwg wedi'i thrin i ffafrio cau ysgol roseheyworth o ran y niferoedd sy'n mynychu pob campws. Rwy'n gwybod bod yna blant y gwrthodwyd iddynt fynd i roseheyworth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hwythau wedi gorfod mynd i Stryd Tyleri tra ydych wedi bod yn gweithio ar ostwng y niferoedd yn roseheyworth fel y gallwch chi wneud iddo edrych yn ddrwg. Ni ddylai dosbarth fod yn fwy na 20/30 fel arall sut y gellir parhau i ddiogelu ein plant, byddai llawer o blant i un athro/athrawes wirio eu llesiant neu eu haddysgu. Byddai ein plant yn rhif mewn coridor pell heb ffrindiau ac o bosibl yn cael eu bwlio ac ni fyddai neb yn sylwi. Mae yna hefyd risg na fydd yr holl blant yn gadael yr adeilad yn ddiogel pe bai argyfwng gan y byddai gormod ohonynt. Mae fy merch yn ffynnu yn roseheyworth ac wedi bod yn mynd yno er pan oedd yn 2 oed pan aeth i sesiynau mini me. Ysgol Roseheyworth yw lle diogel fy merch, ei hail gartref lle mae hi, trwy unrhyw drafferthion neu bryderon neu ofidiau, wedi cael ei chefnogi drwy'r ysgol, gan ddod o hyd i gysur trwy ei ffrindiau a'r staff. Cafodd fy merch hi'n anodd pan gollodd ei mam-gu a'i thad-cu a chafodd ei chefnogi trwy ysgol roseheyworth gan gael cymorth un-i-un a argymhellwyd trwy eu pryder, rwy'n ofni na fyddai hyn wedi cael ei ddatrys pe bai roseheyworth wedi cael ei huno ag ysgolion eraill gan y byddai llawer o blant i'r staff sylwi eu bod yn cael problemau neu fod y plentyn i'w weld yn bell i ffwrdd.
- mae fy merch yn mynychu Campws y Chwe Chloch. Rwy'n anghytuno â chau Campws Roseheyworth gan y bydd yn effeithio ar faint dosbarthiadau ar y campysau eraill. Mae dosbarthiadau mwy yn golygu y bydd darpariaeth wahanol yn llawer anos. Mae fy mhlentyn yn ddysgwr MAT ac eisoes nid yw'n cael ei hymestyn ddigon. Mae angen ystyried llesiant staff.
- Mae fy merch yn mynychu campws y Chwe Chloch, mae hyn yn mynd i effeithio ar ddysgu disgyblion yn yr ysgol, mwy o blant ym mhob dosbarth, ac mae'n anhrefn lwyr wrth gasglu a gollwng ar hyn o bryd, felly duw a'n helpo os bydd mwy o blant/ceir yn mynd yn ôl ac ymlaen.
- Mae fy merch yn mwynhau'r meithrin yma, maen nhw'n gwybod beth yw ei hanghenion ac yn ei chefnogi gyda lleferydd a mynd i'r toiled
- Mae fy merch yn mynd i'r ysgol hon, ac mae hi'n mwynhau mynd i'r ysgol hon. Mae yn y lleoliad delfrydol i'm gwraig fynd â'n merch i'r ysgol ac mae'n cysylltu â'i thaith gymudo i'r gwaith. Fyddwn i ddim eisiau ei thynnu oddi yno gyda pha mor dda mae ei haddysg yn mynd!
- Nid yw fy merch yn gallu mynd â'i phlant sydd i gyd yn fach i'r campysau eraill
- Mae fy merch wrth ei bodd yn ysgol roseheyworth ac ni fyddai'n gallu cyrraedd unrhyw un o'r ddwy ysgol arall byddai'n gwneud pethau'n llawer anos. Rwy'n credu mai roseheyworth yw'r ysgol orau allan o'r 3 os gwelwch yn dda peidiwch â'i chau
- Mae fy wyres yn yr ysgol a byddai cau'r ysgol yn effeithio'n ddwfn arni.
- Bydd fy wyrion yn cael eu rhoi mewn ysgol wahanol a dosbarth mwy a fydd yn tarfu ar eu plentyndod. Mae fy merch yn gofalu amdanaf ac mae angen iddi fod yn ôl i roi sylw i'm hanghenion. Os oes angen gollwng a chasglu mewn ysgol sydd ymhellach i ffwrdd, ni fydd hi'n gallu diwallu fy anghenion mor gyflym ag y mae ei angen arnaf
- Mae fy wyres a'i chyd-ddisgyblion yn ffynnu yn ei dosbarth. Mae arnom angen mwy o blant yn ffynnu mewn dosbarthiadau llai yn hytrach na'u gwthio i gyd i mewn fel ieir mewn fferm fatri. Yna elwa o fwy o aflonyddwch yn ein cymdeithas oherwydd nad oeddem yn gallu dod o hyd i'r arian? Ni allwn wneud cam â'n plant a'n hwyrion ni wnaeth ein rhieni gam â ni. Gadewch i'n plant gael yr un cyfleoedd ag a gawsom ni mewn dosbarthiadau bach unigryw gydag athrawon sy'n gofalu amdanynt. Bydd yn warth ac nid yn flaengar gan y bydd maint y dosbarthiadau yn cynyddu. Bydd hyn yn digwydd ac yna beth fydd yn digwydd i'r rhai sydd eisoes wedi'u stwffio i'r ystafelloedd

dosbarth? Am unwaith oni all y cyngor wneud y peth iawn a meddwl am ddyfodol ein plant a'u hamddiffyn.

- Mae fy mhrif bryderon ynglŷn â'r cynnig yn ymwneud â'r pellter y bydd yn rhaid i rai disgyblion ei deithio. Mae'n ymddangos yn anhygoel o annheg â rhieni a dysgwyr sy'n byw yn agosach at gampws Roseheyworth, yn enwedig os nad oes gan y rhieni eu cludiant eu hunain gan nad oes gan lawer ohonynt gar. Nid oes digon o wasanaethau tacsi yn yr ardal i ddiwallu'r anghenion hyn a byddai hyn hefyd yn rhoi straen ariannol bellach ar y teuluoedd hyn i dalu arian ychwanegol i fynd â'u plant i gampws y Chwe Chloch. Nid wyf ychwaith yn argyhoeddedig y byddai cludiant cyhoeddus yn darparu’n llawn ar gyfer y plant hyn a'u rhieni. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, rwy'n argymell yn gryf bod CBSBG yn darparu cludiant heb unrhyw gost ychwanegol i'r teuluoedd i helpu i hwyluso eu hanghenion a bod cymorth ychwanegol yn cael ei roi yn ei le i'r plant addasu i'w hamgylchedd dysgu newydd.
- Fy nghred bersonol yw y byddai'n well defnyddio’r safle hwn fel ‘canolfan adnoddau' i ddarparu ar gyfer dysgwyr ag ADY ar draws CDdA. Nid yw'r cyfleusterau presennol mewn safleoedd cynradd unigol yn diwallu anghenion y dysgwyr hyn wrth i nifer y plant y mae angen iddynt gael mynediad at amgylchedd mwy pwrpasol gynyddu. Nid yw staff cyfyngedig yn gallu cefnogi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol, ac mae dysgwyr nad ydynt yn cyflawni eu potensial yn cael eu gwthio i’r cyrion gan bod y flaenoriaeth a roddir i’r gofal yn uwch yn y sector ADY. Rwy'n teimlo bod angen adeilad pwrpasol sy'n well am gynnig cymorth penodol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol ac i ddarparu ar gyfer y plant prif ffrwd mewn modd priodol. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod ystafelloedd dosbarth prif ffrwd yn parhau i beidio â phrofi effeithiau toriadau ac aflonyddwch a achosir gan y dysgwyr mwy agored i niwed y mae arnynt angen cymorth unigol wedi'i dargedu.
- Mae fy mab yn mynd i gampws Stryd Tyleri ac ym mlwyddyn 1 maen nhw eisoes wedi rhannu’r dosbarth a rhoi disgyblion blwyddyn 1 ym mlwyddyn 2 gan bod y dosbarth yn llawn felly mae cau Ysgol Roseheyworth a disgwyl i blant ymuno â Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch yn chwerthinllyd gan eu bod eisoes yn llawn, bydd adegau gollwng a chasglu plant yn yr ysgol yn wallgof o brysur er bod hynny eisoes yn wir. Hefyd, ceir trigolion sy’n byw yn agosach at roseheyworth ac mae disgwyl i blant nad yw eu teulu’n gyrru i gymudo mor bell yn annheg iawn.
- Mae fy mab wedi ei chael hi'n anodd iawn ymgartrefu yn yr ysgol hon. Ond nawr mae wedi gwneud. Mae'n ffiaidd sut y gellid gwahanu'r holl blant oddi wrth yr ysgol, ffrindiau, ac athrawon. NID wyf fi a’m mab yn cefnogi hyn o gwbl!
- Mae fy mab yn awtistig ac yn mynychu'r nyth yn Roseheyworth mae wedi ymgartrefu nawr ac yn gyfforddus, gallai ei symud nawr achosi iddo lithro’n ôl ac rydyn ni'n gwybod gyda'r nyth ei fod yn cael y cymorth y mae ei angen arno byddai'n ddinistriol pe baen nhw'n cau'r ysgol ac mae fy merch yn mynychu blwyddyn 1 mae ganddi ffrindiau ac mae fy ieuengaf wedi cyffroi cymaint ynghylch dechrau yn y meithrin gyda'r ffrindiau mae wedi'u gwneud yn y sesiynau mini me, rwy'n credu ei fod yn benderfyniad gwael os ydych chi'n cau'r ysgol ac nid wyf yn cytuno
- Mae fy mab yn dechrau yn y meithrin yn fuan ac mae'n mynd i fod yn anodd i mi fynd â 3 o blant naill ai i lawr i Stryd Tyleri neu i’r chwe chloch pan nad wyf yn gyrru hefyd bu sibrydion am ba mor beryglus yw'r meysydd parcio yn yr ysgolion eraill ac nid wyf yn mynd i roi fy mhlant mewn perygl
- Doedd fy mab sy'n 9 nawr ddim yn gallu mynd i'r meithrin oherwydd nad oedd gan gampws Stryd Tyleri le iddo, dim ond wedi i ni symud i Roseheyworth y gallai ddechrau yn y meithrin, mae'n ffordd bell i deithio i bobl yn yr ardal hon, i fynd i'r ysgolion eraill. Mae'r ysgolion eraill hynny’n profi anhrefn ar adeg casglu plant o’r ysgol ac mae arnoch eisiau ychwanegu rhagor o blant at yr ysgol, sy'n golygu mwy o draffig
- Bydd fy efeilliaid yn cael eu rhoi mewn dosbarth mwy a hwythau’n blant y cyfnod clo a dim ond newydd ddechrau gwneud cynnydd gyda'u sgiliau siarad a darllen. Mae'r ddau yn dioddef o orbryder oherwydd eu bod wedi'u geni yn ystod y cyfnod clo. Mae fy mhlentyn arall yn mynd i sesiynau mini me. Ni fydd fy mhlant yn cyrraedd yr ysgol ar amser gyda fy oriau gwaith gan ei fod yn bellach i fynd ac y bydd y traffig yn waeth
- Dim dewis i blant, straen i rieni, dosbarthiadau’n rhy fawr, traffig gwallgof yn Stryd Tyleri a dim ond gwaethygu y bydd pethau.
- Ni waeth faint o blant sy'n ei defnyddio, dylid ei chadw ar agor i'r rhai mewn angen.
- Dim cynlluniau ar gyfer yr adeilad, mwy o draffig, gormod o blant mewn adeilad, colli lle ac athrawon o dan fwy o straen.
- Dim darpariaeth yn ei lle ar gyfer y plant ag ADY ni allant fod yn yr ysgol brif ffrwd ond dim lle iddynt mewn lleoliadau ysgol arbenigol fel Pen y Cwm, os yw roseheyworth yn cau beth fydd yn

digwydd i'r plant hyn, mae angen lleoliadau cyfarwydd fel roseheyworth ac wynebau cyfarwydd arnynt a all eu tawelu pan fyddant mewn trallod, mae'r staff wedi gweithio'n galed yn datblygu lleoliad i gefnogi'r plant hyn a'u teuluoedd wrth aros am leoliad yn rhywle arall

- Ni ddylai unrhyw ysgol orfod cau, yn enwedig un yng nghanol cymuned glòs fel hyn. Mae angen ffordd arall.
- Dim digon o leoedd
- Nid oes digon o wario ar addysg leol nawr, heb doriadau.
- Ddim yn deg â disgyblion a rhieni sydd â hyn i boeni amdano!
- Ddim yn cytuno â'r cynnig hwn. Gorlawn yn yr ysgol, gormod o draffig yn ysgolion Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch.
- Ddim yn cytuno â'r cynnig hwn. Gorlawn yn yr ysgol. Gormod o draffig yn Stryd Tyleri yn awr ac ardal ysgol y chwe chloch.
- Nid yn unig y bydd yn wastraff adeilad, mae'r dosbarthiadau mewn ysgolion eraill yn mynd i fod yn rhy fawr felly nid yw hynny'n deg i ddisgyblion nac athrawon. Y straen, yr arian wedi'i wastraffu a wariwyd ar yr hen ysgol. Mae cymaint o ysgolion wedi cael eu dymchwel. Arian wedi'i wastraffu ar bob adeilad arall sy'n cael ei adael a'i wastraffu. Digon yw digon.
- Ddim yn ddiogel i fy mhlant gymudo i ysgol arall yn ddiogel.
- Gwrthwynebiadau i'r cynnig i gau'r ysgol. Ni fydd teuluoedd heb gludiant sy'n byw o fewn radiws o 1.5 milltir (o dan 8) 2 filltir (dros 8) yn gymwys i gael cludiant am ddim. Bydd disgwyl i blant a rhieni ADY gerdded i stryd tyleri neu'r chwe chloch ym mhob tywydd. Mae parcio yn Stryd Tyleri a'r chwe chloch eisoes dan straen gyda lleoedd cyfyngedig. Pryderon posibl ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Sut fyddwch chi'n ymdrin ag anghenion iechyd meddwl a llesiant plant ag ADY a'u rhieni. Bydd llawer o ddisgyblion ag anghenion synhwyraidd ADY yn cael trafferth gyda dosbarthiadau mwy, buarthau chwarae prysurach. Bydd effaith ar grwpiau ffrindiau a hwythau'n cael eu rhannu dros 2 ysgol. Effaith ar flwyddyn 5/6 yn mynd i'r blynyddoedd cynradd olaf. Bydd dosbarthiadau mwy yn effeithio ar addysg ein plentyn.
- Unwaith eto, nid wyf yn credu bod y cynnig hwn wedi cael ei ystyried yn ddigonol o ran y dyfodol. Mae datgan ei bod yn HEN ysgol, y mae angen atgyweiriadau drud iddi yn hollol annheg. Mae campws uwchradd CDdA hyd yn oed yn hŷn ac o ystyried ei fod yn 26 oed dylai fod llawer mwy o flynyddoedd ar ôl ar gyfer safle Roseheyworth. Efallai y dylid cynnal archwiliad allanol o bersonél a gyflogir gan CBSBG i weld lle dylid gwneud toriadau i wella'r gyllideb.
- Un o gryfderau mwyaf Roseheyworth yw ei dosbarthiadau bach, sy'n galluogi dysgu sydd wir wedi'i bersonoli i ddigwydd. Mae staff yn adnabod pob plentyn fel unigolyn, ac mae'r lefel hon o gymorth wedi'i deilwra yn ffactor allweddol yn y cynnydd rhagorol y mae disgyblion yn ei wneud. Mae'n anochel y byddai symud plant i ddosbarthiadau sylweddol fwy yn gwanhau'r dull personol hwn ac yn creu risg o ostwng deilliannau dysgu. Mae disgyblion hefyd yn cael budd o berthynas eithriadol o gadarnhaol gyda'u cyfoedion a'r holl aelodau o staff. Nid yw'r ymdeimlad hwn o berthyn a diogelwch emosiynol yn achlysurol - mae'n ganolog i'w llesiant a'u datblygiad academaidd. Byddai amharu ar y perthnasoedd sefydledig hyn yn niweidiol, yn enwedig i blant iau sy'n dibynnu'n helaeth ar gysondeb a chydnabod. Mae'r cyfnod cynradd yn ymwneud yn sylfaenol â helpu disgyblion i ymgyfarwyddo â gorchwylion rheolaidd a datblygu hyder yn eu hamgylchedd addysgol. Byddai unrhyw gamau i gau neu adleoli yn y cam cynnar hwn yn ddi-os yn tarfu ar ddisgyblion a gallent gael canlyniadau hirdymor ar gyfer eu taith addysgol. Mae sefydlogrwydd yn hanfodol, ac mae'r cynnig hwn yn bygwth tanseilio'r sefydlogrwydd hwnnw ar adeg ffurfiannol. Rwyf hefyd yn bryderus iawn am oblygiadau ymarferol cludiant. Mae'r ddau gampws arall gryn bellter i ffwrdd, ac i lawer o deuluoedd - gan gynnwys fy un i - mae hyn yn codi materion difrifol. Nid oes sicrwydd y ceir mynediad at gludiant dibynadwy, a byddai'r amser teithio hwy yn rhoi straen ychwanegol ar ddisgyblion a rhieni fel ei gilydd. Ar ben hynny, byddai teuluoedd sy'n dibynnu ar ddarpariaeth clwb brecwast yn wynebu heriau mwy byth, gan y gall amseroedd teithio cynharach wneud y cymorth hwn yn anhygyrch.
- Nid oes gan ysgolion lleol eraill y gallu i ymdopi â'r holl blant hyn. Byddai'n achosi tagfeydd ar strydoedd ysgolion eraill sydd eisoes yn wynebu traffig hynod brysur ar amseroedd gollwng a chasglu, Campws y Chwe Chloch yn arbennig. Byddai gan blant sy'n byw yn Roseheyworth, yn enwedig y rhai yn y pen uchaf, ffordd rhy bell i deithio, yn enwedig os oes rhaid iddynt fynd i'r Chwe Chloch. Byddent yn llai tebygol o gerdded, ac felly ni fyddent yn cael cymaint o ymarfer corff, yn ogystal bod y sefyllfa'n cyfrannu at lygredd aer. Byddai hyn yn cael gwared ar yr annibyniaeth sydd gan rai o'r plant hŷn i gerdded i'r ysgol ar eu pennau eu hunain.

- Mae ysgolion eraill eisoes yn cynnwys niferoedd uchel. Colli llwyth o swyddi yn yr ardal eto ac adeilad gwastraffus. Cywilydd ar CBSBG
- Mae angen yr ysgol hon ar ein plant, mae'n lleol, ac yn lle y gall rhieni a neiniau a theidiau gerdded iddo pan nad oes gennych gludiant, byddai mor anodd, casglu ein hŵyr, ac mae angen i ni gefnogi ein teuluoedd.
- allan o 3 champws y gymuned ddysgu, mae gan Roseheyworth y tiroedd eang gorau, ardal awyr agored, sy’n berffaith i blant iau h.y. sesiynau Mini me a pharcio da. Nid yw'r rhai sy'n methu gyrru o fewn pellter cerdded i'r ysgolion eraill.
- Gydag ysgolion gorlawn yn sicr bydd staff yn colli swyddi, bydd costau teithio uwch i deuluoedd sy'n byw yn agos
- Bydd gorlenwi ar gampysau eraill Abertyleri yn niweidiol i'r bobl ifanc/staff. Rwy'n teimlo y byddai campws roseheyworth yn safle perffaith i agor canolfan adnoddau i blant ag anghenion ADY. Mae angen mwy o ganolfannau adnoddau ym Mlaenau Gwent. Ysgol hollol iawn! Defnyddiwch hi’n ddoeth.
- Plant yn gorlenwi ysgolion, llai o addysg, traffig y tu allan i'r ysgol yn beryglus
- Bydd yn rhaid i rieni gerdded yn eithaf pell i ysgol arall. Bydd yn rhaid i ddosbarthiadau yn y Chwe Chloch fod yn fwy ac ni fydd plant yn dysgu.
- Mae parcio eisoes yn ddigon drwg heb ychwanegu mwy at y broblem
- Mae parcio yn ddigon drwg gyda'r holl ysgolion fel y mae a bydd ceisio cael plant o roseheyworth i ysgolion eraill yn achosi mwy o dagfeydd
- Rhan 1 o 2: Yn gyntaf, rydym ni fel Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Roseheyworth wedi ein dychryn gan y diffyg tystiolaeth, y gwallau a'r diffyg tosturi i'n cymuned, i'n disgyblion ac i'n Staff yn Ysgol Gynradd Roseheyworth o fewn y cynnig hwn. Ar ôl adolygu'r cynnig dros nifer o wythnosau a choladu'r wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu, mae'n amlwg i ni nad yw'r cynnig 100% yn hyfyw. Nid yw'n diwallu anghenion ein cymuned ac yn sicr nid yw'n cyd-fynd â datganiad cenhadaeth newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel Cyngor Marmot gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r cynnig yn anghyflawn, yn peidio â chynnwys digon o dystiolaeth, ac nid yw’n ystyried canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac ariannol y newidiadau sy'n cael eu hawgrymu. Mae anghenion y gymuned ehangach, unigolion agored i niwed gan gynnwys Plant ADY, staff a disgyblion yn Roseheyworth wedi cael eu gwthio o'r neilltu. Effaith Addysgol: Ein prif bryder yw'r effaith addysgol ar ein plant. Mae’n anochel y bydd dosbarthiadau mwy yn lleihau ansawdd yr addysgu. Mae adroddiad Estyn yn nodi bod angen darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion wella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae hefyd yn nodi bod angen gwella ansawdd yr addysgu fel y gall disgyblion wneud cynnydd addas. Gyda dosbarthiadau mwy, sut fydd cymorth yn cael ei dargedu? Gwyddom fod yr ysgol uwchradd yn tanberfformio’n sylweddol yn y meysydd hyn fel model 3-16 felly sut mae dosbarthiadau mwy yn helpu gyda'r sefyllfa hon? Mae’n anochel y bydd dosbarthiadau mwy a diffyg cymorth athrawon o ganlyniad i golli swyddi yn lleihau faint o gymorth wedi'i dargedu ac ansawdd addysgol gwell y mae ein plant a'n staff addysgu yn eu cynnal ar hyn o bryd yn Roseheyworth. Mae tystiolaeth ymchwil yn Ewrop yn dweud bod dosbarthiadau llai yn Ewrop ac ardaloedd eraill ledled y byd yn hanfodol i well profiadau dysgu. Sut fydd y pwysau diangen a roddir ar ein hathrawon yn effeithio ar addysg ein plant? Sut ydych chi'n bwriadu cyllidebu ar gyfer cymorth iechyd meddwl a llesiant ychwanegol i'n staff addysgu? Rydym wedi dysgu wrth gasglu tystiolaeth dros y 5 wythnos ddiwethaf bod dau ddosbarth cyfan o blant ar Gampws Stryd Tyleri tan yn ddiweddar wedi bod yn cael eu haddysgu’n LLAWN-AMSER yn un o'r coridorau oherwydd diffyg lle. Cafodd ei grybwyll gan rieni a'i ysgubo o dan y carped. Cawsom ein dychryn pan ddaethom i wybod am hyn. Nid yw hyn yn ddiogel nac yn ymarferol ar gyfer safonau dysgu a gallai hyn ailadrodd ei hun os bydd Roseheyworth ar gau. Dylai ein plant gael eu cefnogi ym mhob agwedd ar y cyfnod sylfaen o ddysgu unigol i lesiant unigol. Bydd dosbarthiadau mwy yn lleihau'r siawns o hyn. Ni fydd amgylcheddau gorlawn o fudd i iechyd meddwl a llesiant ein disgyblion na'n staff. Mae gennym ddigonedd o le yn Roseheyworth gan gynnwys ardal ysgol goedwig newydd ac ardaloedd buarth sydd bron yn fwy na'r mannau ar y cyfan ar gyfer chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch gyda'i gilydd. Fel Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau rydym wedi bod yn codi arian yn ddiflino i uwchraddio ein mannau awyr agored ac rydym wedi edrych ar gyllid yn ddiweddar ac wedi dyfyniadau ar gyfer rhoi arwynebau newydd a gosod mannau awyr agored ac offer chwarae/addysgol newydd heb unrhyw gost i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Rydym hefyd yn defnyddio'r ardaloedd hyn i gynnal digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn sy'n croesawu'r gymuned a thrwy hynny’n gwella iechyd

meddwl a llesiant nid dim ond pawb yn yr ysgol ond hefyd y gymuned ehangach. Nid yw'r ddau gampws arall wedi gallu cynnal digwyddiadau mor fawr oherwydd diffyg lle ac agweddau diogelwch. Mae ein plant a'n staff hefyd yn defnyddio'r cae wrth ymyl yr ysgol gan ei fod yn drosglwyddiad cwbl ddiogel a hygyrch o fuarth yr ysgol i'n plant. Nid oes angen croesi ffyrdd ac nid oes unrhyw risg o ymyrraeth draffig, sy'n ei wneud yn lle delfrydol i'n plant chwarae a dysgu. ADY: Darpariaeth ADY yw un o'r pethau pwysicaf y mae angen mynd i'r afael â hwy ac eto mae'n amlwg yn absennol o'r ddogfen ymgynghori. Mae ein plant ADY yn Roseheyworth wedi meithrin perthynas ddiogel â'n staff. Gallai newid campws i'n plant ADY yn y cyfnod sylfaen hanfodol hwn beri iddynt lithro'n ôl o ran eu hymddygiad a dysgu, achosi mwy o orbryder iddynt, achosi iddynt osgoi'r ysgol ac achosi mwy o angen am gymorth addysgol ac emosiynol. Byddai hyn yn arwain at fwy o bwysau ar rieni, plant a staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn dibynnu'n helaeth ar orchwylion rheolaidd, cynefindra ac amgylchedd sefydlog. Byddai tarfu am gyfnod byrrach hyd yn oed yn effeithio ar eu Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal a'u Cynlluniau Datblygu Unigol. Byddai hyn yn gohirio eu hymyriadau Llythrennedd a Rhifedd a byddai'n effeithio ar eu presenoldeb gyda hyn i gyd yn ychwanegu at straen ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant hwy, ac iechyd meddwl a llesiant eu rhieni a'u hathrawon ac yn arwain at lefelau presenoldeb is yn yr ysgol ac ymatebion negyddol i adroddiad Estyn. Bydd disgyblion ADY ag anghenion synhwyraidd ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn gyfforddus yn eu hamgylchedd dysgu/cymdeithasol yn Roseheyworth yn cael trafferth enfawr gyda dosbarthiadau mwy, grwpiau cymdeithasol mwy, ac amgylcheddau prysurach mewn buarthau chwarae a ffreuturau. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r plant ADY sydd eisoes yn mynychu'r ddau gampws arall, sut y byddant yn ymdopi â'r newid? Nid ydych wedi mynd i'r afael â sut y bydd unrhyw anghenion sydd gan ein plant ADY yn cael eu diwallu. Ar hyn o bryd mae gennym ddau 'Nyth' yn Roseheyworth ar gyfer plant ADY. Mae gan y ddau ardaloedd diogel i'r plant ddysgu a chwarae ac mae ein plant ADY yn ffynnu yn yr ardaloedd hyn. Byddai symud y plant hyn i ddysgu prif ffrwd neu eu gorfodi i mewn i ddarpariaethau ADY yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch lle mae adnoddau eisoes yn gorfod ymestyn yn rhy bell yn niweidiol i ddyfodol iach ar gyfer y plant hyn a'r plant sydd eisoes yn mynychu'r ddau gampws arall. Gofalwyr Ifainc: Mae gennym nifer o ofalwyr ifainc yn Roseheyworth. Mae'r plant hyn wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr. Mae eu cyfrifoldebau eisoes yn straen ac ni fydd eu symud i ffwrdd o fod yn agos at y bobl y maent yn gofalu amdanynt ond yn ychwanegu at y straen hwn. Niferoedd disgyblion a Phlant Meithrin/Plant sy'n Codi'n 3 heb eu cynnwys yn y cynnig: Ar hyn o bryd mae gennym 161 o ddisgyblion yn bresennol yn Roseheyworth. Mae hyn yn cynnwys 30 o blant meithrin a 5 o blant sy'n codi 3 y tymor hwn (Ebrill). Fel model 3-16 ni ddylai'r rhifau ar gyfer plant meithrin/plant sy'n codi'n 3 byth fod wedi cael eu gadael allan o'r ymgynghoriad hwn. Nid yw cwestiwn a godwyd yn ein cyfarfod cyhoeddus byth wedi cael ei ateb. Sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn bwriadu gwneud lle i'r 102 o blant meithrin/plant sy'n codi'n 3 sydd gennym ar hyn o bryd o fewn y niferoedd statudol? Fel y mae ar hyn o bryd, yn ôl eich ffigyrau chi ni fydd digon o le i ddarparu ar gyfer y plant hyn. Cynnydd yn y boblogaeth: Gyda'r broses colli swyddi arfaethedig sydd ar ddod yn Ysgol Gynradd Ystruth a'r diffyg lle presennol ledled y fwrdeistref, sut fydd hi'n bosibl darparu ar gyfer derbyniadau heb eu cynllunio. Yn ddiweddar cawsom fewnlifiad o blant ar y gofrestr yn Roseheyworth o sefyllfa fewnfudo. Beth sy'n digwydd os ydym yn y sefyllfa hon eto? Bydd 22 o gartrefi fforddiadwy wedi'u bwriadu ar gyfer teuluoedd ifainc yn cael eu hadeiladu gan Melin ar hen safle'r Clwb Bowlio ar Stryd Vivian yn y Chwe Chloch a rhwng 2026 a 2029 rhagwelir y bydd o leiaf 56 o gartrefi fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn yr ardal leol heb sôn am fewnlifiad o Gartrefi Gofal Plant sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd ar gyfer gwahanol safleoedd yn y fwrdeistref. Sut y bwriedir darparu ar gyfer y mewnlifiad o blant yn y dyfodol? Pa mor gadarn a seiliedig-ar-brawf-straen yw eich rhagamcanion ynghylch y twf arfaethedig hwn mewn tai, ochr yn ochr â phatrymau mudo a newid yn y dyfodol mewn dewisiadau rhieni yn enwedig gyda'r straen a fydd yn cael ei rhoi ar ddiffyg cludiant ysgol? Beth yw eich ffynonellau ar gyfer cyfraddau genedigaethau yn y dyfodol gan nad yw'r ymgynghoriad yn darparu unrhyw dystiolaeth ar gyfer hyn? Mae Llyw.Cymru wedi rhagweld cynnydd o 5.6% yn y boblogaeth mewn cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2022 a 2032 ar gyfer Blaenau Gwent. Gyda'ch cynlluniau chi eich hun i greu cyswllt trafnidiaeth a'r rheilffordd yn cael ei hestyn i Abertyleri, adfywio lleol gan gynnwys Rhaglen Strategol Blaenau'r Dyffryn yn dod â swyddi newydd ac felly teuluoedd newydd i'r ardal, a fydd hefyd yn cael eu denu gan y posibilrwydd o rai o'r prisiau tai isaf yn y DU yn ein bwrdeistref (Abertyleri yn arbennig) a chysylltiadau trafnidiaeth gwych â Chaerdydd a Bryste pan fydd yr orsaf newydd yn Abertyleri yn cyrraedd, sut y mae'n bosibl i chi ragweld

derbyn plant newydd yn CDdA? Ein rhagfynegiad ni yw na fydd dau gampws Cynradd yn gallu darparu ar gyfer y mewnlifiad o blant ar y pwynt hwn.

- Rhan 2 o 2 Ffigyrau: Ers i'r cynnig gael ei ryddhau, rydym fel Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau wedi gofyn am nifer o ddogfennau a ffigyrau dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Mae angen i chi ymchwilio i'ch ffigyrau a'r ymatebion i ni. Cafodd yr adroddiad cynnal a chadw diwethaf a gynhyrchwyd ar gyfer CDdA ei lunio yn ystod 2022. Oni fyddai wedi gwneud synnwyr cael yr adroddiad cynnal a chadw cyfredol sydd i fod i gael ei lunio ym mis Mehefin 2026 cyn hyd yn oed ystyried cyflwyno'r cynnig hwn? Fe wnaethom ofyn am restr o waith yn Roseheyworth ac rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei wneud a bod y rhan fwyaf o'r gwaith y mae ei angen ar yr adeilad yn gosmetig. Dim ond yn ddiweddar ers y Nadolig y gosodwyd drysau diogelwch newydd ar y coridorau ac y gosodwyd system teledu cylch cyfyng newydd. Nodwyd gan Steven Thomas yn ystod ein cyfarfod cyhoeddus y bydd yr ysgol yn cael ei chadw o fewn y sector addysg. Yna yn sicr bydd angen talu'r costau cynnal a chadw hyn o hyd a beth yw'r gwahaniaeth rhwng ei chadw ar agor fel ysgol gynradd a'i chadw fel rhywbeth arall mewn addysg? Sut ydych chi'n bwriadu arbed yr arian? Trwy symud disgyblion Roseheyworth, sut fyddwch chi'n bwriadu mantoli'r ffigyrau ac arbed arian o'r diffyg a ragwelir? Fe wnaethoch chi sôn yn ein cyfarfod cyhoeddus am ailstrwythuro ac o bosibl hyd yn oed ychwanegu lle at Gampysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri mae'n anochel y bydd hyn yn costio 100oedd o filoedd o bunnoedd. Gyda'r pwysau ychwanegol o draffig gwaith ychwanegol ar amseroedd gollwng a chasglu sydd eisoes yn profi tagfeydd. Yn ychwanegol at y gost hon bydd yr asesiad diogelwch a'r addasiadau i'r agweddau diogelwch ar y ffyrdd. Croesfannau ffyrdd ychwanegol, mwy o oleuadau stryd, halen ychwanegol ar balmentydd yn ystod misoedd y gaeaf, mannau parcio ceir ychwanegol gan gynnwys mynediad i fwy o gerbydau pobl anabl, gwell mynediad brys ac yn anochel cost wardeniaid parcio neu bresenoldeb yr heddlu pan fydd y traffig yn mynd mor orlawn gyda'r ceir ychwanegol gan rieni Roseheyworth. Mae llif y traffig eisoes ar y lefelau straen uchaf yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch. Yn unol â chanllawiau gan fenter 'llwybrau diogel i'r ysgol' Llywodraeth Cymru, beth sy'n digwydd os ystyrir nad yw'r llwybrau i Stryd y Tyleri a'r Chwe Chloch ar gael neu eu bod yn anniogel? Gwyddom fod Stryd Gladstone a Stryd y Dderwen yn enwedig yn ardaloedd â lefelau traffig uchel ac yn arbennig o beryglus, yn enwedig a Stryd Gladstone yn gweithredu fel y prif lwybr bws o Abertyleri i Frynmawr. Sut ydych chi'n bwriadu mynd â'n plant i'r ysgol yn ddiogel a lliniaru'r costau hyn? Yn ychwanegu at hyn mae'r gost arfaethedig o £30,000 y flwyddyn i gludo cyfran fach o blant sy'n mynychu Roseheyworth ar hyn o bryd i ac o Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch. Nid yw'r ateb hwn yn gost-effeithiol gan na fydd y mwyafrif o blant yn ein hysgol yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn gan eu bod yn byw o dan y radiws milltiroedd gofynnol. Cawsom rai dogfennau o ffynhonnell ag enw da sy'n nodi bod y prif benaethiaid / dirprwyon o fewn CDdA rhyngddynt yn ennill dros 1.1 miliwn o bunnoedd. Cafodd copi o'r ddogfen ei drosglwyddo i Steven Thomas yn y cyfarfod cyhoeddus. Yn sicr, dylid ystyried ailstrwythuro staff a buddsoddi mewn mwy o staff addysgu, ochr yn ochr â'r cynnig i ddiddymu model CDdA fel blaenoriaeth dros gau ein hysgol. Clwb Brecwast, Darpariaeth ar ôl Ysgol a Chyn-Ysgol Mini Me: Ar hyn o bryd rydym yn darparu goruchwyliaeth clwb brecwast i 60 o blant yn Roseheyworth. Nod Darpariaeth Clwb Brecwast Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd, maethiad a chyrhaeddiad addysgol. Os na ddarperir cyllid i ganiatáu i'r 60 o blant yn Roseheyworth sy'n mynychu clwb brecwast ar hyn o bryd gael mynediad at y ddarpariaeth ar y campysau eraill, mae'n siŵr na fydd nodau menter Llywodraeth Cymru yn cael eu cyrraedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Ar hyn o bryd mae Mini Me hefyd yn rhoi darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer nifer o ddisgyblion Roseheyworth, sut fyddwch chi'n bwriadu helpu rhieni'r plant hyn yn ystod y broses bontio arfaethedig? Ar hyn o bryd mae sesiynau Mini Me yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Mae'r lleoliad hefyd yn rhoi darpariaeth Dechrau'n Deg. Allwch chi sicrhau rhieni y bydd sesiynau Mini Me yn aros yng Nghymuned Roseheyworth? Mae yna rieni sy'n mynd â'u plant ar droed i sesiynau Mini Me o Gymuned Roseheyworth ar hyn o bryd. A fyddwch chi'n talu costau cludo'r plant hyn i leoliad newydd? Mae yna hefyd rieni sy'n gweithio sy'n gollwng plant mewn Clwb Brecwast yn Roseheyworth ac yna brodyr a chwiorydd iau mewn sesiynau Mini Me sut ydych chi'n bwriadu helpu'r rhieni sy'n gweithio sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd? Mae yna hefyd rieni nad ydynt yn gyrru ond nad ydynt yn byw yn eich dalgylch cludiant am ddim. Mae gan y rhieni hyn hefyd blant sy'n mynychu Roseheyworth ac mae ganddynt frodyr a chwiorydd mewn sesiynau Mini Me. Sut ydych chi'n bwriadu helpu'r rhieni hyn? Effaith Gymunedol: Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd i Ysgol Gynradd Roseheyworth a Chymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Roseheyworth ers rhyddhau'r cynnig wedi bod yn

ddigynsail. Rydym wedi cymryd yr amser i sgwrsio gyda phobl o fewn y gymuned ac nid oes un person wedi anghytuno â'n gwrthwynebiad i gau'r ysgol. Mae gan Ysgol Gynradd Roseheyworth arwyddocâd Emosiynol a Hanesyddol fel Ysgol y Mileniwm a byddai ei chau yn cael effaith enfawr ar bobl Roseheyworth a'r ardaloedd cyfagos gan mai hi yw calon y gymuned. Fel y soniwyd o'r blaen, mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Roseheyworth wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau yn Ysgol Gynradd Roseheyworth, gan gynnwys Ffair Haf, Marchnadoedd Nadolig, Helfeydd Wyau Pasg, nosweithiau Bingo Cymunedol i enwi dim ond ychydig. Mae'r digwyddiadau hyn yn dod â'n cymuned at ei gilydd a byddai colli'r digwyddiadau hyn yn drychinebus. Mae eich asesiad cymunedol yn nodi y bydd effaith niwtral neu ddim effaith ar y gymuned gyfagos ac ni allai hyn fod ymhellach o'r gwir. Mae eich datganiad cenhadaeth newydd fel Cyngor Marmot yn datgan: 'Rydym ymrwymedig i uchelgais beiddgar a phwysig: lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella bywydau pawb yn ein cymunedau - ni waeth ble maen nhw'n byw, faint maen nhw'n ei ennill, neu o ba gefndir maen nhw'n dod' Os ydych chi am i bawb 'ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a chydnerth' fel y dywedwch yna rydym ni fel Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Roseheyworth yn erfyn arnoch i dynnu'r cynnig hwn yn ôl a chadw Ysgol Gynradd Roseheyworth ar agor ar gyfer ein plant a'u teuluoedd, ein hathrawon a'n cymuned. Gwrandewch ar ein pryderon a rhowch ddyfodol mwy disglair ac iachach i ni. Ymlynwch wrth eich datganiadau oherwydd bod ein plant yn haeddu sefydlogrwydd, diogelwch, ac amgylchedd sy'n meithrin eu potensial. Mae Ysgol Gynradd Roseheyworth wedi bod, ac yn parhau i fod, yn lleoliad gwych lle mae plant yn cael y profiadau addysgol gorau. Gobeithio y byddwch chi'n ystyried ein pryderon. Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Roseheyworth CDdA

- Pathetig cau ysgol dda
- Rhowch gyfle arall i Roseheyworth. Mae staff a phlant yn bwysig!
- Cadwch yr ysgol os gwelwch yn dda
- Cadwch yr ysgol hon ar agor i bobl leol Abertyleri.
- Digon o ddisgyblion yn yr ysgol. Ysgolion a argymhellir eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Hefyd cludo'r disgyblion i'r ysgol ac oddi yno. Mae angen i'r Cyngor gyfaddawdu ar gost. Nid yw hyn yn weladwy a dim ond yn yr arian y gallant ei wneud o'r safle y mae gan y cyngor ddiddordeb.
- Nid yw'r penderfyniad posibl i gau'r ysgol hon yn ddewis da. Ni allaf weld sut mae'n bosibl gwasgaru'r plant rhwng ystafelloedd dosbarth sydd eisoes yn orlawn. Ychwanegu rhagor o straen i'r athrawon ac ati. Yn sicr bydd hyn yn effeithio ar y plant. Mae campws y Chwe Chloch yn eithaf bach. Ystafelloedd dosbarth bach, ardaloedd chwarae bach. Mae'r ceir i lawr yno yn y boreau a'r prynhawn yn anhrefn lwyr nawr dim ond ychwanegu at hyn fyddwch chi.
- Mae nifer y disgyblion eisoes yn rhy uchel ym mhob ysgol yn Abertyleri. Mae'r addysg y mae ein plant yn ei chael eisoes yn is na'r safon, dim ond effaith negyddol fydd hyn yn ei chael.
- Ni fydd rhoi disgyblion eraill mewn ysgolion lleol eraill yn helpu. Dywedwyd fod ganddyn nhw leoedd dros ben, rwy'n credu nad yw hyn yn gywir. Mae fy ŵyr yn mynychu'r chwe chloch, mae ganddo anghenion ychwanegol ac mae athrawon wedi dweud bod maint y dosbarth yn ei ddal yn ôl, ond dim help, ond a fydd hyn yn cynyddu maint y dosbarth? Beth am ddiogelwch gyda'r plant yn mynd/gadael yr ysgolion dywededig? Mae campws newydd y chwe chloch yn chwerthinllyd gyda rhai rhieni yn parcio am 2.15 gan nad oes unrhyw leoedd fel arall, yr un fath ag Abertyleri. Sut fydd disgyblion sy'n cael eu symud yn cyrraedd yr ysgolion eraill? Maen nhw'n mynychu roseheyworth am reswm
- Ailfeddyliwch am y syniad hwn ar gyfer staff a phlant. Mae eu bywydau'n cael eu troi â'u wyneb i waered!
- syniad chwerthinllyd
- Yn chwerthinllyd mae angen i'r sawl a feddyliodd am gau'r ysgol dreulio diwrnod yno, mae'r staff addysgu a'r Cynorthwywyr Addysgu yn gwneud gwaith gwych fel yr holl lanhawyr, staff y gegin a'r gofalwr.
- Chwerthinllyd! Mwy o wario ar staff cyflenwi, Problemau traffig, athrawon yn methu ymdopi, Plant yn cerdded milltiroedd!
- Ysgol Roseheyworth yw'r unig ysgol yn Abertyleri sydd â mynediad a pharcio da. Mae ganddi ddarpariaeth Mini-Me, llawer o le a dyma'r safle gorau o'r holl ysgolion. Ni fyddai'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn ymdopi â disgyblion ychwanegol felly mae angen iddi aros ar agor er budd y plant ac nid er mwyn gweddu i adran Addysg annigonol.
- Mae ysgol Roseheyworth yn gartref i lawer o ddisgyblion gan gynnwys fy mab fy hun sydd wedi cael trafferth ymgartrefu yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ADY yn

fwy na'r ysgolion eraill ac mae ei chau yn mynd i effeithio'n enfawr nid dim ond ar fy mhlentyn i ond ar lawer o rai eraill. Mae'n gwbl annerbyniol! Mae ein plant yn haeddu cael eu haddysgu yn rhywle lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel. Mae mynd i naill ai Stryd Tyleri neu'r 6 chloch sydd eisoes yn orlawn yn mynd i achosi problemau sylweddol i'n plant. Heb sôn am rieni nad ydynt yn gallu gyrru. Popeth yn iawn gyda darparu cludiant; fodd bynnag nid yw hynny'n gost-effeithiol. Ni fyddai traffig ychwanegol ar y ffyrdd sydd eisoes yn anhrefnus y tu allan i gampysau Stryd Tyleri a'r chwe chloch ond yn achosi tagfeydd pellach ac yn peryglu diogelwch y plant a'r cyhoedd hyd yn oed ymhellach nag y mae ar hyn o bryd. Campws Roseheyworth yw'r campws gorau allan o'r 3 ysgol ac ni ddylid ei gau! Mae'n amser cynhyrfus i bob un ohonom, yn rhieni, athrawon a'r gymuned ehangach nad ydynt yn cytuno â'r cynnig i gau. Rwy'n gwrthod caniatáu i'm mab fynd i mewn i un o'r ysgolion eraill lle maen nhw'n tanberfformio. Byddai'n well gen i addysgu fy mab gartref na chaniatáu iddo fynd i mewn i ddosbarth gorlawn. Mae'n annerbyniol. Mae fy mab yn ddigalon am y posibilrwydd o gau. Mae'n 6 oed. Nid yw'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud 100% er budd fy mab na'r plant eraill yn yr ysgol.

- Mae Roseheyworth wedi bod yn ysgol wych sydd wedi newid fy merch Mae hi bellach mor hyderus ac yn hoffi teimlo wedi ymgartrefu. Mae meddwl am gau'r ysgol yn fy mhoeni mewn gwirionedd o ran cyflwr meddwl fy mhlentyn. Nid yw hi'n hoff o dorfeydd na sŵn ychwaith ac rwy'n teimlo y byddai dosbarth mwy'n creu panig iddi. Ar hyn o bryd mae gennym daith gerdded hyfryd i'r ysgol ond wrth symud fy merch rwy'n gwybod y byddwn yn cael dechrau yn llawn straen i'r diwrnod. Yn gyntaf bydd yn rhaid i ni yrru ac yn ail, mae'r sefyllfa bresennol gyda pharcio a gollwng yn ofnadwy. Rwyf wedi pasio'r ddau leoliad yn CDdA ac wedi bod yn sownd dro ar ôl tro wrth fynd heibio ar amseroedd ysgol. Tybed hefyd a yw hyd yn oed yn ddiogel ar hyn o bryd i'r rhai sydd wedi'u lleoli yn Abertyleri a'r chwe chloch.
- Mae Roseheyworth yn ysgol gymharol newydd. Pam ei chau a symud disgyblion i ysgolion eraill gan achosi gorlenwi a chynnwrf i'r holl blant dan sylw. Mae'n ymddangos mai polisi cyngor Blaenau Gwent yw codi adeilad newydd, dymchwel hen adeilad ac yna darganfod nad yw'r adeilad newydd yn gweithio cystal â'r disgwyl. Felly maen nhw'n penderfynu cau hwnnw hefyd. Edrychwch ar yr arian sy'n cael ei wastraffu DRWY'R AMSER. Gadewch Roseheyworth i fod. Rhowch y gorau i darfu ar blant a rhieni. Syniad rhywun yn y cyngor ychydig flynyddoedd yn ôl oedd CDdA ac roedd llawer o wrthwynebiad i hynny nawr mae'n ymddangos bod ar y cyngor eisiau gwneud newidiadau i hynny. GADEWCH BETHAU I FOD. Beth sy'n digwydd i adeilad yr ysgol? A fydd hwnnw'n cael ei roi ar werth?
- Mae Roseheyworth yn ysgol anhygoel. Trwy gydol fy lleoliad cefais fy nghefnogi gan yr holl staff, ac roedd y plant yn ffynnu bob dydd. Mae gen i ffrindiau y mae eu plant yn mynd i'r ysgol hon a gellir gweld y cynnydd maen nhw'n ei wneud! Bydd cael gwared ar yr ysgol hon yn gamgymeriad enfawr ac rwy'n teimlo y bydd yn tarfu ar addysg y plant ac y byddwn yn gweld gostyngiad mewn presenoldeb ac yn llesiant meddyliol plant.
- Mae Roseheyworth wrth galon y gymuned. Mae cymaint o blant yn dod o gefndiroedd amddifadus iawn. Rydym yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu ar gyfer eu hanghenion. Gall yr anghenion hyn gael eu colli mewn dosbarthiadau o 30. Rydyn ni'n gwybod pwy sydd heb gael brecwast oherwydd nad yw rhieni yn gallu eu danfon i'r clwb brecwast ar amser. Rydyn ni'n rhoi bwyd iddyn nhw. Rydyn ni'n gwybod pwy sydd heb gôt neu siwmper. Rydyn ni'n rhoi dillad priodol iddyn nhw eu gwisgo fel y gallant fynd allan i chwarae. Rydyn ni'n adnabod y plant sydd heb lyfrau na phensiliau gartref felly rydyn ni'n trefnu'n gyfrinachol iddyn nhw 'ennill' y rhain mewn gwobrau. Mae'n torri fy nghalon y bydd y plant hyn - sydd eisoes dan gymaint o anfantais - yn mynd heb sylw mewn dosbarthiadau enfawr. Bydd staff yn rhy brysur ac wedi blino yn ymdopi â 30 mewn dosbarth, bydd pethau'n mynd heb i neb sylwi arnynt - neu os byddant yn sylwi arnynt, ni fydd neb yn gallu helpu. Sut all teuluoedd sy'n cael trafferth sicrhau bod eu plant yn gwisgo'n briodol ac yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd i fwyta brecwast, ymdopi â gorfod cerdded hanner awr i ffwrdd i gampws ST? Y gwir yw na fyddant. Bydd y tywydd, yr amser a'r pellter yn rhwystr arall i'r rhai amddifadus. Rwy'n deall pam fod hyn yn cael ei ystyried ond bydd cost cau Roseheyworth yn llawer mwy na £200,000 y flwyddyn. Bydd yn costio addysg i lawer. Er bod amheuwyr yn ofni bod hwn yn benderfyniad sydd wedi cael ei wneud yn barod, rwy'n gobeithio y gwrandewir ar leisiau pawb yn Abertyleri ac y bydd Roseheyworth yn parhau i fod ar agor.
- Mae Ysgol y Mileniwm Roseheyworth yn ysgol unigryw, arbennig iawn sydd wrth galon cymunedau clòs Arael View, The Lanes, Blaenau Gwent a'r tu hwnt. 16 mlynedd yn ôl, pan ddaeth yr amser i ddewis yr ysgol iawn i'n dau blentyn ifanc, fe wnaethom ymweld â phob ysgol gynradd

yn yr ardal. Roedden arnom eisiau ysgol a fyddai'n cynnig amgylchedd ysgogol, gofalgar, lle roedd dosbarthiadau'n fach a'r holl athrawon yn adnabod yr holl blant - o'r Meithrin hyd at flwyddyn 6. Rhywle lle byddai ein plant yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael gofal ac yn gartrefol, gan leihau gorbryder a chreu diwylliant dysgu iach. Er mai Ysgol Gynradd Abertyleri oedd ein hysgol agosaf ar y pryd, fe wnaethon ni ddewis Roseheyworth oherwydd ei bod yn cynnig yr holl bethau yr oedd arnom eu heisiau. Ysgol fach gyda staff ardderchog a oedd fel teulu i'r plant. Wrth siarad gyda rhieni presennol, mae hyn yn dal i fod yn wir am yr ysgol heddiw. Mae Ysgol Gynradd Roseheyworth yn achubiaeth go iawn i blant nad ydynt yn gwneud yn dda mewn amgylcheddau mwy, prysurach. Os yw Roseheyworth ar gau, ni fydd unrhyw opsiwn arall i'r plant hynny. Dylid ei gwerthfawrogi a'i chadw, y berl o ysgol ag ydyw. Peidiwch â mynd â hi oddi wrth y plant, rhieni a gofalwyr y mae ei dirfawr angen arnynt.

- Mae Campws Heol Roseheyworth yn hyb cymunedol tra hoff. Mae staff yn darparu addysg gyfoethogi i'r dysgwyr sy'n mynychu yno ac yn adnabod y teuluoedd y maent yn eu gwasanaethu'n dda iawn. Mae gan rieni a gofalwyr berthynas gadarnhaol â staff yr ysgol ac mae'r bartneriaeth hon yn sylfaen i ddysgwyr hapus sy'n teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd dysgu gwych hwn. Byddai'r cynnig i leihau capasiti yn CDdA trwy gau Campws Heol Roseheyworth yn sicr yn cael effaith negyddol ar y teuluoedd sy'n cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan Gampws Roseheyworth. Bydd rhieni yn ymddieithrio oddi wrth addysg eu plentyn oherwydd pellter a daearyddiaeth campysau eraill yr ysgol. Fel cyn-Lywodraethwr Ysgol yn Ysgol Heol Roseheyworth, rwy'n ymwybodol o'r parch a'r gwerthfawrogiad y mae'r teuluoedd yn ardal Roseheyworth yn ei deimlo tuag at leoliad a darpariaeth yr ysgol hon sy'n agos iawn at eu cartrefi. Byddai'n gamgymeriad enfawr bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.
- Ysgol Roseheyworth fu calon cymuned Roseheyworth am 26 mlynedd, Mae plant Roseheyworth wedi caru eu profiad yn yr ysgol. Mae dau o'm plant wedi mynd i'r ysgol ac mae fy mab i fod i ddechrau ym mis Medi, byddai ceisio danfon fy mab at un o'i gyd-ddisgyblion bron yn amhosibl gan bod gen i ferch anabl ac nad wyf yn gyrru. Ni fydd y cynnig hwn yn gwneud dim ond niwed i gymuned plant a rhieni Roseheyworth,
- Mae ysgol Roseheyworth yn rhan hanfodol o'r gymuned. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag arian, nid llesiant y plant na'r staff. Nid yw'n ymwneud ag addysg neu addysgu a dysgu - mae'n ymwneud â diffyg cyllid y caniatawyd iddo fynd yn fwy flwyddyn ar ôl blwyddyn gan CBSBG. Ni chyfathrebwyd am y cynnig hwn o gwbl wrth staff a glywodd amdano mewn postiad Facebook ofnadwy a gynhyrchwyd gan CBSBG. Rwy'n credu bod yr ymgynghoriad hwn i gyd yn cuddio'r gwirionedd - ni fydd unrhyw beth yn cael ei gyflawni o ganlyniad i leisio barn gan y gymuned. Mae'n ymwneud ag arian. Fel gyda'r cynnig 3-16 – ni wnaeth yr ymgynghoriad newid dim! Mae'n gymaint o drueni i gymuned Roseheyworth, a meddwl am orfod adleoli plant i ochr arall Abertyleri - straen gwbl ddiangen i rieni a gofalwyr. Rwy'n siŵr na fydd llawer o gymorth gan CBSBG ar gyfer hyn ac rwy'n siŵr y bydd Mrs Jarvis yn cael ychydig fisoedd â llawer o straen yn ymdrin â'r aflonyddwch hwn. Hynny yw, os nad yw hi'n bennaeth arall a fydd yn gadael oherwydd y model ysgol 3-16 a sefydlwyd gan CBSBG - unwaith eto i arbed arian!
- Ni ddylid cau Roseheyworth, mae llawer o rieni yn mynd â'u plant i'r ysgol ar droed gan fy nghynnwys i am lawer o wahanol resymau - fy un i yw na allaf yrru a bod fy ngŵr yn gweithio mewn sifftiau ac yn methu â'i chasglu/gollwng hi drwy'r amser, ac er nad oes gennyf unrhyw broblem cerdded i un o'r ysgolion eraill yn Abertyleri ni all fy merch sydd â chyflyrau meddygol gerdded y pellter hwnnw, mae'r daith gerdded i Roseheyworth yn cymryd tua 5 munud ond pan wyf wedi cerdded i mewn i ganol y dref mae wedi cymryd tuag 20 munud ar droed. Mae cau Roseheyworth yn gadael llawer o rieni â phroblem debyg - os na allwn yrru na cherdded y pellter hwnnw, sut fydd ein plant yn cyrraedd yr ysgol heb gostau ychwanegol?
- Roseheyworth yw'r hyn sy'n rhoi addysg i blant aber
- Yn anffodus, rwy'n credu y bydd cau Ysgol Roseheyworth yn cael effaith dreigl ar yr holl blant yn y gymuned. Bydd nid yn unig yn tarfu ar y rhai sy'n cael eu hadleoli i wahanol ysgolion ond bydd yn cynyddu'r niferoedd yn nosbarthiadau'r 2 ysgol arall, mae dosbarth fy mab eisoes yn cynnwys 30 o blant mewn dosbarth grŵp oedran cymysg yr wyf eisoes yn teimlo ei fod yn llawn hyd eithaf ei gapasiti. Mae hyd amseroedd bwyd hefyd wedi bod yn broblem barhaus oherwydd, o wrando ar eu hadborth, dim ond amser cyfyngedig sydd gan fy meibion i fwyta eisoes ac rwy'n teimlo y bydd hyn yn rhoi mwy byth o bwysau ar hynny. Mae parcio wrth ollwng a chasglu yn Stryd Tyleri eisoes yn brysur iawn ac mae parcio yn broblem go iawn ar safle'r ysgol ac mewn gwahanol strydoedd felly byddai ychwanegu rhagor o deuluoedd yn achosi mwy o anhrefn i'r ardal. Rwy'n deall bod

hyn yn cael ei gynnig oherwydd mater ariannol ond rwy'n teimlo y bydd llesiant ac addysg y plant yn cael eu peryglu trwy wneud y newidiadau hyn.

- Achubwch ein hysgol! Ysgol Roseheyworth yw'r lle yr es i i'r ysgol gynradd, mae'n lle anhygoel ar gyfer addysg ac mor agos at deuluoedd nad oes ganddynt gludiant ac rwy'n gwybod bod gan lawer o deuluoedd blant yn yr ysgol hon nad ydynt ond newydd ymgartrefu yn yr amgylchedd ac na fyddai symud ysgol yn dwyn unrhyw fudd iddynt!
- Bydd dosbarthiadau'r ysgolion yn rhy fawr ac ni fydd plant yn cael cyfle i ymgysylltu ag athrawon a dysgu'n ddigonol. Mae llawer o ddisgyblion yn cerdded i'r ysgol ac nid oes ganddynt gludiant. Mae pwysigion y cyngor yn dal i gael codiadau cyflog flwyddyn ar ôl blwyddyn er bod gwasanaethau yn cael eu torri a threth gyngor yn parhau i godi, am beth maen nhw'n cael tâl mewn gwirionedd?
- Ceir digon o anhrefn yn ystod amseroedd gollwng a chasglu plant yn ysgol y chwe chloch fel y mae heb ragor o draffig. Mae dosbarthiadau'n ddigon mawr fel y mae heb ychwanegu rhagor o ddisgyblion, bydd gwneud dosbarthiadau'n brysurach yn cael effaith enfawr ar ddysgu a llesiant staff a phlant.
- Ni ddylai'r ysgol gau!!
- Mae traffig ysgol eisoes yn tarfu ar yr ardal o amgylch ein tŷ ni oherwydd Ysgol Gynradd Abertyleri, a bydd hyn yn gwaethygu os bydd mwy o blant yn mynychu'r ysgol. Mae traffig yn parcio ar balmentydd ac yn blocio ein dreif ac ati
- Mae ysgolion eisoes yn orlawn. Gormod o ddisgyblion ym mhob dosbarth
- Mae ysgolion yn rhan bwysig o gymunedau ac mae cau yn fy marn i yn gam negyddol rwy'n ysgrifennu fel aelod o gymuned ehangach Abertyleri i fynegi ein gwrthwynebiad cryf i'r bwriad i gau Ysgol Roseheyworth. Mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn effeithio ar y teuluoedd y mae eu plant yn mynychu'r ysgol; mae'n effeithio ar bob un ohonom sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal hon. Mae'n anochel y bydd symud gwerth ysgol gyfan o blant i'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri, y mae'r ddwy ohonynt eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti, yn arwain at ystafelloedd dosbarth gorlawn a staff sydd dan bwysau. Nid dyma'r math o amgylchedd dysgu y mae plant ein tref yn ei haeddu, ac mae'n creu risg o leihau ansawdd addysg ledled Abertyleri yn ei chyfanrwydd. Rydym hefyd yn eithriadol o bryderus am y cynnydd sylweddol mewn traffig y byddai'r cynnig hwn yn ei greu o amgylch y Chwe Chloch a Stryd Tyleri. Mae'r ardaloedd hyn eisoes yn cael trafferth gyda thagfeydd, problemau parcio, a heriau diogelwch ar y ffyrdd yn ystod amseroedd gollwng a chodi y tu allan i'r ysgolion. Bydd ychwanegu cannoedd yn rhagor o blant at y safleoedd hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn anodd yn un beryglus. Mae'r ffyrdd lleol yn syml yn methu ag ymdopi â'r niferoedd uwch o geir, bysiau a cherddwyr, gan greu risg wirioneddol a diangen i blant, rhieni a phreswylwyr. Am y rhesymau hyn, erfyniwn yn daer ar y Cyngor i ailystyried. Byddai cau Ysgol Roseheyworth nid yn unig yn cael gwared ar ased cymunedol gwerthfawr ond byddai hefyd yn creu peryglon diogelwch y gellir eu hosgoi ac yn rhoi pwysau enfawr ar ysgolion eraill yn y dref. Mae Abertyleri yn haeddu datrysiadau sy'n diogelu addysg ein plant ac yn diogelu ein cymuned, nid penderfyniadau sy'n peryglu'r naill a'r llall.
- Mae ysgolion yn orlawn ac yn brin o staff fel y mae, mae angen iddi aros ar agor.
- Mae ysgolion yn ddigon gorlawn heb uno ysgol arall eto.
- Mae ysgolion wedi bod yn gwneud toriadau parhaus ac yn awr mae arnoch eisiau cau ysgol arall a rhoi mwy o straen ar yr ysgolion a fydd yn aros ar agor - mae angen i ysgolion aros ar agor a buddsoddi mwy mewn addysg plant
- Ni ddylid cau'r ysgol nid yw'n deg â phlant na staff os rhywbeth dylid cau'r ysgol gyfun a'i hailadeiladu.
- Ers i'r ysgol gael ei hagor yn 2000 mae wedi bod yn rhan enfawr o'r gymuned leol. Mae fy chwiorydd, fy mrawd, fy nghefndryd, a'm 5 o blant i gyd wedi mynychu roseheyworth. Symudais yn ddiweddar a bu'n rhaid i mi dynnu fy merch ieuengaf allan o'r ysgol a oedd yn benderfyniad anodd iawn i mi a'm gŵr. Os bydd yr ysgol yn cau bydd yn cael effaith enfawr nid dim ond ar blant a rhieni roseheyworth ond ar y plant a rhieni eraill o'r ysgolion eraill.
- Bydd ysgolion cynradd y Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn beryglus oherwydd draffig, bydd chwyddo dosbarthiadau hefyd yn effeithio ar allu dysgu plant
- Mae campws y Chwe Chloch eisoes yn ofnadwy ar gyfer parcio ar amseroedd casglu a gollwng. Nid oes digon o staff yn yr ysgolion i ddarparu ar gyfer y plant sydd yno yn awr. Pam ddylai ein plant ni orfod dioddef mwy oherwydd y cyngor a'u toriadau trwy'r amser!!
- Mae'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri eisoes yn llawn, nid yw'n deg â disgyblion nac athrawon bod rhagor o blant yn cael eu hychwanegu at yr ysgolion hyn os ydyn nhw'n cau campws

Roseheyworth. Mae'r parcio a'r mynediad yn ofnadwy yn y ddau gampws, a bydd yn rhaid i rieni deithio ymhellach i fynd â'u plant i'r ysgol. Bydd fy mhlentyn yn dioddef os cynyddir maint dosbarthiadau. Rwy'n credu bod gweithredoedd y cyngor yn anghywir ac yn ymarfer arbed arian, dim mwy.

- Mae gan gampws y Chwe Chloch ddosbarthiadau oedran cymysg eisoes felly yn sicr ni allai ddarparu ar gyfer mwy o blant
- Hyd yn hyn mae 3 o'm hwyrion wedi mynychu ysgol Roseheyworth. Hoffwn i'm 4ydd fynychu hefyd. Ceir cyfathrebu rhagorol rhwng y staff/rhieni a'r disgyblion a theimlaf y bydd hyn yn cael ei golli mewn ysgol gyda niferoedd uwch o disgyblion fesul aelod o staff
- Stopiwch gau ysgolion
- Stopiwch y dirywiad mewn cymdeithas NAWR! PLEIDLEISIWCH DROS REFORM!
- Ein hysgolion a llesiant ac addysg ein plant yw'r peth mwyaf pwysig dros unrhyw sefyllfa y mae'r cyngor yn ei chael ei hun ynddi, does bosibl. Mae'n rhaid bod arbediad arall yn rhywle o fewn blaenau gwent, a fyddai'n atal y drasiedi hon rhag digwydd. Mae'n hollbwysig nad yw plant campysau Abertyleri yn cael eu rhoi o dan fwy o bwysau gyda chynnydd ym maint y dosbarthiadau a'r cynnwrf y mae cau ysgol yn ei achosi. Mae'n ofnadwy
- Mae'r system 3 i 16 wedi bod yn drychineb ers ei chyflwyno. Credaf y dylid gohirio'r penderfyniad hwn ac y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol allanol, er mwyn dod o hyd i ateb boddhaol ar gyfer y dyfodol. Gydag etholiadau cyngor i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2027 byddwn i'n gohirio tan hynny, gan y gall fod gennym gyngor newydd wedi ei ethol.
- Mae'r dosbarthiadau yn ddigon mawr ac mae'n mynd i roi straen ar ddysgu ein plant
- Mae'r dosbarthiadau eisoes yn orlawn. Mae athrawon yn ceisio addysgu gormod o ddisgyblion mewn un dosbarth gyda'r plant yn meddu ar sgiliau dysgu amrywiol. Bydd cau'r ysgol yn rhoi pwysau ychwanegol ar 2 ysgol arall a dim ond 20 oed yw'r ysgol
- Mae'r dosbarthiadau yn rhy fawr nawr, beth fydd yn digwydd pan fydd nifer y plant yn codi eto, rydym wedi colli'r hawl i ddewis pa ysgol rydyn ni'n anfon ein plant iddi nawr. Digon yw digon gyda'r cyngor hwn
- Mae'r ystafelloedd dosbarth yn llawn fel y mae ac nid yw'n deg â'r disgyblion na'r straen ar athrawon
- Bydd cau ysgol roseheyworth yn dod ag aflonyddwch mawr i'm plentyn ac i mi fy hun, mae'n caru'r ysgol, yr athrawon a'r plant ac mae'n gwneud yn dda iawn. Rwyf hefyd yn cerdded i'r ysgol ac yna'n dal y bws i'r gwaith o'r tu allan i'r ysgol felly byddai newid ysgol yn anfantais fawr
- Bydd cau Ysgol Roseheyworth yn effeithio'n ddramatig ar addysg ein plant. Mae'r ysgolion y bwriedir anfon y plant iddynt yn llawn ill dwy. Mae plant niwrowahanol yn mynd i ddioddef oherwydd newid amgylchedd. Ac mae teithio o Roseheyworth i gampws y Chwe Chloch neu gampws Stryd Tyleri yn mynd i fod yn amhosibl i'r rhai sydd heb gar.
- Byddai cau'r lleoliad gofal plant yn fy ngadael mewn trafferth gyda gofal plant tra byddaf yn y gwaith.
- Bydd cau'r ysgol yn effeithio'n ddifrifol ar yr ysgolion eraill oherwydd cynnydd ym maint dosbarthiadau. Bydd llawer o rieni yn cael trafferth gyda pha mor bell y bydd yn rhaid iddynt deithio i'r ysgol bob dydd. Mae amseroedd casglu a gollwng yr ysgolion eraill bob dydd yn berygl i iechyd a diogelwch fel y mae heb sôn am os bydd Roseheyworth yn cau.
- Byddai cau'r ysgol yn ddinistriol i'r gymuned, yn ogystal ag ychwanegu pwysau ar yr ysgolion sy'n derbyn, heb sôn am y traffig wrth ollwng a chasglu, mae'n wallgof nawr ni allaf ond dychmygu pa broblemau fydd hyn yn eu hachosi.
- Mae cau'r ysgol hon yn ddiangen ac yn fyr olwg. Mae llawer o anghysonderau yn ffigyrau'r cynigion yn gwbl amlwg. Cynllun ystrywgar arall, anghyfreithlon yn ôl pob tebyg, gan gyngor sydd â DIM diddordeb mewn bod o wasanaeth i drigolion Abertyleri ac oedolion y dyfodol. Dylech fod â chywilydd.
- Bydd cau'r ysgol hon yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion sydd eisoes yn yr ysgol. Oni all y cyngor edrych ar ardaloedd eraill yn y fwrdeistref lle gellid gwneud arbedion.
- Bydd cau'r ysgol hon yn fy marn i yn cael effaith ddinistriol ar y gymuned leol, mae fy mhryderon yn cynnwys y pellter o Roseheyworth i'r cyfleuster addysgol nesaf yn Abertyleri, mae rhai o'r rhieni yn rhai risg uchel ac mae'r rhan fwyaf yn y dalgylch mewn tlodi gallai ychwanegu costau cludiant at eu gwariant ariannol achosi niwed sylweddol gyda risg uchel o bresenoldeb isel yn yr ysgol. Mae diogelwch ar y ffyrdd y gallai fod angen i'r plant gerdded arnynt yn bryder arall i mi gan bod rhai o'r

ffyrdd yn gul a'r palmentydd yn fach bydd angen edrych ar hyn i deulu sydd â phlentyn anabl neu fach er mwyn diogelu pawb dan sylw. Rwy'n ymwybodol iawn o nifer y plant sydd eisoes yn mynychu campysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch ac mae gorfod gwneud lle i holl blant Roseheyworth yn y naill neu'r llall yn mynd i achosi aflonyddwch ac o bosibl pryder mawr nid dim ond i rieni, plant ond hefyd i'r staff presennol yn y naill gampws a'r llall. Bydd angen edrych ar y rhain ac ymdrin â hwy o safbwynt pob parti cyn y gellir cymryd y camau uniongyrchol. Mae'r staff yn Roseheyworth wedi sefydlu'r Nyth ar gyfer plant AY ac ar hyn o bryd maent yn gofalu am blant sy'n cael ysgol brif ffrwd yn rhy anodd, bydd angen mynd i'r afael â hyn hefyd gan bod angen cymorth ychwanegol ar y plant hyn a lle diogel i allu gwireddu eu potensial unigol, rwy'n ymwybodol bod gan y ddau gampws arall hefyd y ddarpariaeth ar gyfer plant fel y rhai yn Roseheyworth ond a yw'r cyfleusterau'n bodoli i ehangu'r ddarpariaeth i gynnal y lefel uchel o ofal y mae ei hangen ar gyfer y plant hyn. Dim ond 26 oed yw Roseheyworth ac mae'n darparu amgylchedd glân diogel i'r holl blant lleol, rwy'n ymwybodol o'r gostyngiad mewn genedigaethau ond mae hyn yn digwydd yn rheolaidd a byddwn hefyd yn gofyn sut, os bydd y nifer yn codi eto, y bydd yr ysgolion yn ymdopi os na fydd campws Roseheyworth ar gael mwyach. Fel busnes gofal plant bach sydd wedi bod wedi'i leoli ar Gampws Roseheyworth am 16 mlynedd, rydym wedi bod yn rhan annatod o'r ysgol yn bwydo plant o ardaloedd ledled Blaenau Gwent. Rydym yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg ynghyd â rhaglen gofal plant am ddim 30 awr Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn cynnig clybiau yn y gwyliau ac ar ôl ysgol i rieni sy'n gweithio. Fy mhryderon yw y bydd y gymuned leol yn colli'r ddarpariaeth hon yn ogystal â'r cyfle i weld gweithgareddau fel ysgol goedwig. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol os bydd yr ysgol yn cau y byddant yn colli darparwr gofal plant a oedd yn un o'r cyntaf i dderbyn plant o dan ei chynllun? Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai'r wybodaeth ynglŷn â'r cynnig hwn wedi cael ei chyflwyno i mi cyn iddi gael ei chyhoeddi gan fy mod yn cyflogi 9 aelod o staff a hoffwn wybod sut y gallai'r cynnig posibl i gau'r ysgol effeithio ar eu cyflogaeth ac a oes unrhyw gyfleuster yn ei le i allu galluogi'r gofal plant i barhau i fod yn weithredol. Mae'r staff yn bryderus iawn fel y gallwch chi ddeall, rwy'n siŵr a chan fod Dechrau'n Deg yn ehangu i wasanaethu Blaenau Gwent gyfan ble mae'r plant hynny'n mynd i fynd gan nad yw'r cynnig yn ymorol amdanynt, rydym hefyd yn ymwybodol bod menter i bob ysgol allu darparu'r gallu yn y Blynyddoedd Cynnar ac os nad oes gan Mini Me's Person Bach Fel Fi Ltd le i fynd, ni all hynny fod yn wir am yr ysgol 3-16 yn ei chyfanrwydd. Ailystyriwch eich cynnig.

- Mae angen sefydlogrwydd ysgol leol ar y gymuned.
- Mae'r patrwm parhaus o ddinistrio ysgolion cynradd yn nyffryn Abertyleri yn bryderus; mae gadael ysgol gynradd ar un pen y dyffryn ac un yn y canol yn gadael ystod fawr o blant heb ymdeimlad o gymuned y mae'r ysgol yn ei ddarparu.
- Nid yw'r cyngor wedi bod yn dryloyw gyda gwybodaeth na manylion cynlluniau. Mae angen gwybodaeth am gapasiti ac effaith ar y ddau gampws arall hefyd a manylion eu cyllidebau a sut y bydd y sefyllfaoedd ar y cyfan os bydd y newid yn mynd yn ei flaen
- Mae'r penderfyniad i ailddosbarthu disgyblion ychwanegol i ddosbarthiadau sydd eisoes yn llawn neu bron yn llawn hyd eithaf eu capasiti yn bryderus iawn. Mae'n anochel y bydd cynyddu maint dosbarthiadau yn y modd hwn yn effeithio ar ansawdd addysg, sylw unigol, a llesiant cyffredinol y plant. Mae dosbarthiadau mwy yn rhoi straen ychwanegol ar staff addysgu ac yn lleihau lefel y cymorth y mae pob plentyn yn ei gael, yn enwedig y rhai y gall fod arnynt angen cymorth ychwanegol. Sut fydd y niferoedd uwch hyn yn cael eu rheoli? Mae'r sefyllfa yn codi pryderon am ddiogelu, lle mewn ystafelloedd dosbarth, adnoddau a llwyth gwaith staff.
- Nid yw'r ffaith eu bod yn symud plant i ysgolion sydd eisoes yn llawn yn dderbyniol. Ni fydd symud plant ALN i amgylchedd fel hyn ond yn rhwystro eu haddysg heb sôn am eu cyflwr meddyliol a'u cynnydd gyda'u hanghenion. Mae cludiant a'r logisteg o ran mynd â'r plant i'r ysgolion arfaethedig yn anodd iawn yn enwedig gydag aelwyd, fel ein haelwyd ni, lle mae gennym 2 blentyn i'w cludo ac yn enwedig pan nad oes sicrwydd y byddant yn yr un ysgol. Ar ben hynny, gyda rhannu dosbarthiadau sy'n hollti grwpiau cymdeithasol a chyfeillgarwch ni fydd o fudd i'r disgyblion mewn unrhyw ffordd, yn enwedig pan fydd ganddynt anghenion dysgu ADY. Ni fydd dosbarthiadau sy'n brin o staff ac yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti fel y mae, yn helpu plant ag anghenion ADY gan bod angen addysgu 1 i 1 a gofal cyson. Problem arall yw parcio yn yr ysgolion arfaethedig. Gan nad yw'r ysgolion hyn sydd eisoes bron yn llawn hyd eithaf eu capasiti a'r parcio yn briodol i'r plant yno fel y mae nac i'r rhieni o ran parcio, sut y bwriedir ymdrin â'r mater hwn?? Mae angen amgylchedd diogel ac ymarferol ar blant ag ADY i adael yr ysgol a mynd i'r ysgol heb y risg y bydd traffig yn achosi niwed iddynt. Ni fydd pethau fel clybiau brecwast, gweithgareddau y tu

allan i'r ysgol ac ati sy'n gofyn am leoliad neu gyflwyno cais i gael lle ar gael i'r plant sy'n cael eu symud o roseheyworth gan na fydd ganddynt unrhyw flaenoriaeth dros y disgyblion sydd eisoes yno. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn helpu rhieni gyda hyblygrwydd i gasglu a gollwng eu plant pan fo ganddynt swyddi ac ati, os bydd disgyblion ag ADY yn cael eu symud i un o'r ysgolion arfaethedig nad yw'n diwallu eu hanghenion neu nad yw'n ddelfrydol iddynt, sut mae'r ysgol honno yn mynd i gael ei haddasu neu ei threfnu i ddiwallu anghenion gofynnol y disgyblion hyn mewn digon o bryd fel nad yw'n effeithio ar eu haddysg?? Bydd yn rhaid gwario arian, nad yw'n bodoli yn ôl pob golwg, neu fel arall ni fyddai roseheyworth yn rhan o gynllun i'w chau. Mae angen i Roseheyworth aros ar agor nid dim ond er budd y plant sy'n ei mynychu ond i'r rhieni a'r gymuned o'i chwmpas. Fy marn i yw y dylid gwneud roseheyworth yn ysgol ADY yn unig lle gallant ddarparu'r addysg a'r gofal y mae eu hangen ar gymuned Abertyleri ac a haeddir ganddi.

- Fydd y syniad yn syml ddim yn gweithio mewn gwirionedd. Mae parcio ceir eisoes yn hunllef yn Stryd Tyleri ac os bydd llond ysgol arall o ddisgyblion a rhieni yn ymuno bydd hynny'n ei gwneud hi'n gwbl beryglus ac yn hunllef i'r trigolion o gwmpas gyda cheir yn llifo allan i'r strydoedd yn ystod amseroedd gollwng. Nid yw'r dalgylch ar gyfer cludiant am ddim yn ddigon mawr i leddfu hyn. Bydd y ffaith y byddwch chi'n tarfu ar y disgyblion hŷn ar ddiwedd eu hamser yn ysgol Roseheyworth ac yn eu symud i ysgol arall am flwyddyn, a hwythau wedyn yn symud eto ymhen blwyddyn yn anhygoel o niweidiol i'w haddysg. Ni fydd plant ag ADY yn ymdopi'n dda o gwbl â'r newid enfawr hwn ac rwy'n credu bod eu hanghenion yn cael eu diystyru'n llwyr er mwyn arbed ychydig o bunnoedd. Mae'n hysbys bod dosbarthiadau mwy yn niweidiol i addysg disgyblion ac rydych chi am ryw reswm yn ceisio gwneud i hynny ddigwydd. Nid wyf yn gwybod am unrhyw un sydd o blaid y cynllun chwerthinllyd hwn ac mae angen iddo stopio. Gallwn ddeall efallai pe bai cynllun i roi'r gorau i dderbyn plant newydd a gadael i'r set bresennol o ddisgyblion gwblhau eu hamser yno ond nid eu symud ymlaen i ysgol lle nad ydyn nhw'n adnabod neb, yn ddisgyblion nac athrawon. Mae angen stopio hyn.
- Nid yw'r effaith ar y campysau eraill a'r disgyblion wedi cael ei rhannu. Mae'r chwe chloch eisoes yn hunllef ac yn anniogel ar adegau casglu plant
- Y diffyg parcio digonol ar y ddau gampws, y cynnydd yn y pellter teithio, y pwysau pellach ar staff addysgu, yr effaith ar faint dosbarthiadau, gwisg ysgol newydd i'w phrynu neu ei newid i rieni sy'n cael trafferth gyda chostau byw, cynnig chwerthinllyd a gwastraff adnoddau amlwg a rheolaeth wael ar arian
- Mae'r dosbarthiadau mwy yn y ddwy ysgol arall yn bryder, gan effeithio ar staff a disgyblion. Bydd parcio ar amser gollwng a chasglu, sydd eisoes yn broblem yn y ddwy ysgol iau, yn dod â llawer mwy o dagfeydd gan felly annog pobl i barcio'n beryglus ac mewn ffordd a waherddir.
- Bydd y gymuned leol yn cael ei lledaenu i ysgolion ymhell oddi cartref a bydd angen cludo mewn ceir a fydd yn ychwanegu at y tagfeydd sydd eisoes yn cael eu teimlo gan y lleoliadau eraill. Hefyd bydd y gorlenwi yn nosbarthiadau'r lleoliadau eraill yn effeithio ar addysg ar lefel sylfaenol, mae hefyd yn sioc ar ôl dim ond 25 mlynedd bod yr adeilad hwn yn cael ei ddosbarthu fel un nad yw'n hyfyw ei atgyweirio. Mae'r cyfleuster cyn-ysgol yn rhan hanfodol i lawer o rieni yn yr ardal ac yn galluogi'r plant i fanteisio ar addysg a datblygiad cyn-ysgol.
- Mae'r seilwaith lleol o gwmpas y chwe chloch yn methu ag ymdopi â'r sefyllfa geir bresennol fel y mae. Mae rhai ffyrdd yn anhramwyadwy yn ystod amseroedd gollwng a chasglu y tu allan i'r ysgol.
- Mae colli ysgol yn achlysur trist i unrhyw gymuned. Fodd bynnag, os oes rhaid ei wneud yn sicr, gellid defnyddio'r adeilad ar gyfer canolfan hyfforddi i'r rhai sy'n dymuno gwneud astudiaethau technegol. Fel arall- canolfan Gymraeg 11-16.
- Mae'r 2 ysgol arall yn orlawn fel y mae.
- Mae'r ysgolion eraill yn llawn hyd eithaf eu capasiti a chyda llif traffig yr ardaloedd preswyl nid ydynt yn gallu ymdopi fel y mae. Mae llawer o blant eisoes yn cerdded i'r ysgol ac eraill yn gyrru gan greu mwy o draffig yn yr ardaloedd hyn. Mae'r pwysau ar athrawon eisoes yn uchel gyda'r dosbarthiadau mwy yn golygu nad oes digon o gymorth i staff a phlant fel ei gilydd.
- Mae'r niferoedd yn yr ysgolion eraill yn rhy uchel yn fy marn i
- Mae'r parcio eisoes yn wael iawn a byddai mewnlifiad o draffig yn gwneud y sefyllfa'n anniogel i ddefnyddwyr yr ysgol a phreswylwyr hefyd byddai'r ystafelloedd dosbarth yn orlawn a hynny pan fo ysgol sy'n hollol iawn a chanddi gyfleusterau da'n cael ei chau.
- Mae'r pwysau ar athrawon a staff cymorth ar hyn o bryd yn wanhaol gan orfodi staff dibynadwy i naill ai cymryd absenoldeb ychwanegol oherwydd salwch nad ydynt am ei gymryd neu i adael y

proffesiwn yn gynnar. Rhowch ystyriaeth drachefn i ddosbarthiadau llai, mwy hydrin ar draws y campws i leddfu rhywfaint o'r straen sydd arnom ni i gyd fel gweithwyr proffesiynol ymroddedig.

- Bydd yr ysgolion cynradd yn rhy lawn, mae pobl yn mynd i golli swyddi gan gynnwys fy mam. Os oes angen cael gwared ar unrhyw ysgol neu os oes angen mwy o waith i unrhyw ysgol na’r rhai eraill yna’r ysgol gyfun yw honno, beth am gael gwared ar yr adeilad hwnnw a gadael ein hysgolion cynradd i fod, buwyd yn potsian gyda nhw unwaith yn barod pan gaeodd ysgol gynradd Stryd y Dderwen a Bryngwyn
- Mae'r cynnig yn niweidiol i addysg a phresenoldeb y plant. Mae gan Flaenau Gwent broblemau gyda phresenoldeb eisoes a bydd symud plant i ysgolion ymhellach i ffwrdd yn gwneud pethau'n waeth Mae'r ysgolion eraill eisoes yn cael problemau gyda disgyblion sy'n gweithio mewn coridorau er eu bod yn cynnwys "niferoedd is na’u capasiti" felly nid yw'n glir ble y bydd y disgyblion ychwanegol yn mynd Fel nodyn arall wrth basio, bydd gwaredu’r ysgol yn lleihau cyfleusterau yn ardal Arael View,  dylai hyn arwain at ostyngiad yn y dreth gyngor
- Nid yw'r cynnig yn dderbyniol oherwydd bod campysau Abertyleri a’r Chwe Chloch eisoes yn orlawn, gyda dosbarthiadau sy’n llawn y tu hwnt i’w capasiti, tagfeydd o amgylch y safleoedd, a phryderon diogelwch parhaus gan gynnwys ymwneud diweddar gan yr heddlu, a chynnydd yn nifer y disgyblion o ddatblygiadau tai newydd yn gwaethygu hyn. Ateb mwy rhesymol a chytbwys fyddai adolygu ac addasu dalgylchoedd fel bod disgyblion o Abertyleri a’r Chwe Chloch yn mynychu Roseheyworth, sydd â mwy o le a fyddai'n ategu dosbarthiad tecach, llesiant, a gwell amodau dysgu. Nid yw'n glir pam nad yw Sofrydd, safle hŷn gyda niferoedd isel, wedi cael ei ystyried, a byddai cau Sofrydd gan gyfeirio disgyblion at y Chwe Chloch yn fwy rhesymegol na rhoi pwysau ychwanegol ar gampysau sydd eisoes dan bwysau. Mae gorfodi disgyblion Roseheyworth i deithio dros bellter sylweddol yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar fynediad lleol, llesiant, teithio diogel, a dysgu yn y gymuned, ac nid yw'r cynnig fel y mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion hyn nac yn cefnogi anghenion dysgwyr na'r gymuned ehangach.
- Y rhesymau dros hyn: Cau ysgol sy’n hollol iawn gyda chyfleusterau da sydd mewn gwirionedd ddim wedi bod ar agor mor hir â hynny i anfon plant i ysgolion cynradd eraill sydd eisoes yn orlawn.  Traffig a mynediad i gerbydau, eisoes yn methu ag ymdopi â’r niferoedd sy’n teithio i’r Chwe Chloch heb sôn am y traffig ychwanegol.  Mae hyn yn sicr yn beryglus i'r plant a phreswylwyr lleol.   Mae Roseheyworth yn ysgol gynradd i blant 3-11 oed.  Mae llawer o'r plant sy'n mynychu yno yn byw yn lleol iawn i'r ysgol honno gyda llawer o rieni yn methu gyrru neu heb gar, sut y gellir mynd â phlentyn 3 neu 4 oed ar droed yn ôl ac ymlaen i'r naill neu'r llall o'r ysgolion cynradd eraill cyn ac ar ôl ysgol pan ydynt yr oedran hwnnw (o ystyried yr hen dywydd Prydeinig da sydd gennym) byddai llawer o'r plant hyn yn cael eu gwlychu’n socian cyn cyrraedd yno.
- Mae'r ffyrdd o amgylch Campws Stryd Tyleri a'r ysgol uwchradd eisoes yn beryglus oherwydd diffyg cyfleusterau parcio. Mae ceir yn cael eu parcio'n rheolaidd ar balmentydd sy'n golygu bod yn rhaid i gerddwyr, pramiau ac ati fynd yng nghanol y ffordd. Ni fyddai cynyddu capasiti yn yr ysgol ond yn ychwanegu at y broblem parcio.
- Mae'r ysgol a'r athrawon yn rhan o'r ardal hon! Mae'r ysgol hon yn rhan bwysig i blant a rhieni ac yn rhoi gwerth ychwanegol i Abertyleri.
- Mae'r ysgol yn rhan frwd iawn o'r gymuned
- Mae'r ysgol yn hanfodol i'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau cludiant yn yr ardal hon yn wael ac ni all plant ddal bws i’r chwe chloch ac yn ôl (tua 1.2 milltir) gan nad oes ffordd ddiogel wedi'i chymeradwyo ac felly byddai plant yn cael eu rhoi mewn perygl. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ystâd dai fawr sy'n aml yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â’r ysgol oherwydd deilliannau gwael eu hunain ac mae gan yr ysgolion y bydd eu plant yn eu mynychu ddosbarthiadau llawnach a llai o staff. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn ddiffygiol yn yr union fodd y cafodd ei huno. Gormod o reolwyr yn llywio'r llong ym mhob math o gyfeiriadau. Mae’r Chwe Chloch eisoes wedi bod yn drychineb gyda llai o bresenoldeb na bryngwyn a Heol y Frenhines a’u disodlodd. Mae traffig yn beryglus o orlawn ar hyd y strydoedd o'i chwmpas, nid oes rhyw lawer o gyfleoedd i barcio sy’n gwneud y sefyllfa’n beryglus i ddisgyblion a'r cyhoedd fel ei gilydd Ni fydd staff addysgu yn adnabod plant y gymuned mwyach nac yn deall daearyddiaeth syml cerdded o un dref i bentref llai ar hyd lwybr heb ei farcio. Nid yw rhai plant erioed wedi bod mor bell â chwe chloch yn yr oedran hwn. Mae angen cydnabod bod angen sefydlogrwydd a diogelwch ar ddisgyblion cyfnod cynradd, nid toriadau ac ymgyrchoedd darbodaeth. Os yw'r ysgol yn cael ei dymchwel, mae'n debygol y byddai'n costio miliwn o bunnoedd, fel y gwnaeth y ganolfan hamdden ar ôl cael ei gadael yn

segur am ddeng mlynedd. Bydd buddsoddi yn yr ysgol yn costio llawer llai nag ailsefydlu cymuned mewn tirwedd estron. Ystyriwch y plant yn hytrach na cheisio gwneud elw

- Dim ond 20 mlwydd oed yw'r ysgol. Am wastraff arian, pam fyddech chi'n cau adeilad sy’n hollol iawn
- Dim ond 26 oed yw'r ysgol. ac mae ganddi faes parcio da ar gyfer bysiau a cheir. Nid oes gan yr ysgolion eraill hynny.
- Mae'r ysgol yn berffaith ac nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn i uno gan y bydd yn tynnu oddi ar ddysgu’r plant
- Mae'r ysgol yn ysgol mor hyfryd ac mae'r ysgolion eraill yn rhy orlawn nawr os ydyn nhw'n symud fy mhlant i’r chwe chloch ni fyddaf yn teithio i'r ysgol ac yn ôl bob dydd gan ei bod hi'n anhrefn yno nawr
- Mae'r cyfleusterau parcio ar gyfer yr ysgol yn y Chwe Chloch ac ysgol gynradd Abertyleri eisoes yn beryglus, pobl yn parcio yn unrhyw le, plant yn gorfod cerdded ar ffyrdd ac yn y blaen. Mae gan athrawon eisoes nifer fawr o ddisgyblion ym mhob dosbarth, gallai cau roseheyworth arwain at anwybyddu plant, cynnydd mewn ffurflenni damweiniau, bwlio, a phlant yn tangyflawni. Mae gen i 2 o blant sydd yn ysgol gynradd y chwe chloch, gan fy mod i'n byw yn agos pan gawson nhw eu cofrestru gyntaf, penderfynais wneud y daith ddyddiol gan nad yw'r ysgol honno wedi’i 'llenwi' â chymaint o blant ag ysgol gynradd Abertyleri, ac roedd gan fy mhlant ffrindiau yno eisoes ac nid oedd arnynt eisiau newid ysgol gan bod fy mhlentyn hynaf yn dweud bod hynny'n frawychus. Felly gall rhannu grwpiau cyfeillgarwch plant yn roseheyworth arwain at orbryder cymdeithasol, heb ystyried y plant hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol, nad ydynt yn ymdrin yn dda â newid fel y mae.
- Ni ddylai'r ysgol gau oherwydd nad yw'n deg â’r plant sy'n cerdded i'r ysgol ac â’r rhieni nad ydynt yn gallu gyrru.
- Ni ddylai'r ysgol gau gan golli swyddi a chynhyrfu staff a phlant. Roedd y sawl a feddyliodd am y syniad hwn yn hollol anghywir
- Dylai'r ysgol aros ar agor, mae campws y chwe chloch a champws Stryd Tyleri eisoes yn orlawn gyda disgyblion, bydd cau campws Roseheyworth a'u cyfuno â'r gweddill yn rhoi mwy o straen ar yr athrawon, heb sôn am y rhieni nad ydynt yn gyrru neu nad ydynt yn gallu cludo eu plant i'r campysau hyn, a fydd rhywbeth yn ei le i sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol yn ddiogel os yw'r ysgol yn cau?
- Dylai'r ysgol aros ar agor. Mae'n tarfu’n fawr ar staff a phlant. Mae'r ysgol yn gaffaeliad mawr i'r gymuned hon.
- Dylai'r ysgol aros ar agor. Mae mewn ardal dda i deuluoedd ac mae yna lawer o blant a rhieni sy'n dibynnu ar yr ysgol honno a'r lleoliad y mae ynddo. Byddai ei dymchwel yn golygu y byddai'n rhaid i rieni wedyn ddod o hyd i ffordd o deithio i’r chwe chloch ac ariannu eu teithiau.
- Ni ddylid cau’r ysgol!
- Adeiladwyd yr Ysgol newydd 26 mlynedd yn ôl. Mae'n amgylchedd ac adeilad dymunol. Mae’n adeilad pwrpasol, a ddisodlodd Ysgol Fabanod Blaenau Gwent ac Ysgol Plant Iau Cwmtyleri. Yr un ☝️ anfantais, ddwedwn i, yw ei bod yng ngogledd y dalgylch. Mae hyn yn golygu, i ddisgyblion yn enwedig o oedran ifanc deithio i’r Chwe Chloch. Mae'n gwbl annerbyniol. Ni ellid ystyried i’r rhai o ystâd dai Roseheyworth ac Areal View deithio i’r Chwe Chloch. Mae hynny heb ystyried y plant o Flaenau Gwent. Pan gaewyd ysgol Blaentyleri, roedd yn drist iawn. Fodd bynnag, nid oedd rhaid i'r plant deithio’n llawer pellach a darparwyd ysgol newydd sbon, i ddisodli ysgol Fictoraidd. Mae Roseheyworth yn fy marn i yn sefyllfa wahanol iawn. Ysgol newydd, ni ddylai ein Plant gael eu dadwreiddio o amgylchedd dysgu sefydlog iawn. Hoffwn gwrdd yn bersonol â'r cyfarwyddwr Addysg, Aelod Gweithredol Addysg ac Arweinwyr y Cyngor.
- Mae'r ysgolion eisoes yn orlawn. Efallai pe baem yn lleihau nifer y Cynghorwyr, y byddech chi'n gallu defnyddio eu cyflog blynyddol i gadw'r ysgol ar agor.
- Mae'r ysgolion eisoes yn orlawn. Bydd disgyblion yn cael llai o gyfle i ffynnu gan y bydd gan yr athrawon ormod o ddisgyblion i ganolbwyntio arnynt. Y rhai y mae ei angen yn fwy. Hefyd mae'r traffig eisoes yn ofnadwy a bydd yn gwaethygu gryn dipyn.
- Mae maint y dosbarthiadau ar hyn o bryd yn effeithio ar rai disgyblion gan bod y capasiti yn rhy fawr, ac os ychwanegir mwy byth o niferoedd at system sydd eisoes yn cael trafferth heb amheuaeth bydd hynny’n niweidiol nid dim ond i addysg y plant ond hefyd i'w llesiant.

- Mae'r ddogfen cyflogau staff sy'n mynd o gwmpas yn syfrdanol. Fel grŵp fe wnaethom ei thrafod ac fe gefais sioc bod 13 o uwch aelodau o staff ar gyfer 4 ysgol. Er mwyn arbed arian, mae angen edrych ar y strwythur staffio hwn.
- Mae Campws Stryd Tyleri eisoes yn llawn hyd eithaf ei gapasiti. Byddai'r traffig ychwanegol ar amseroedd dechrau a gorffen yn effeithio ar breswylwyr lleol. Pryder ynglŷn â darpariaeth barhaus y "nyth" sy'n rhoi cymorth angenrheidiol i ddisgyblion oedran cynradd.
- Mae'r traffig a'r aflonyddwch yr ydym eisoes yn eu cael oherwydd ysgol gynradd Abertyleri eisoes yn ddigon gwael heb lwyth arall o rieni sy'n parcio ym mhobman, yn enwedig gan rwystro ein mynedfa gefn, sydd eisoes yn broblem yr ydym wedi rhoi gwybod i'r ysgol a chynghorydd lleol amdani sawl gwaith ond mae'n ymddangos nad oes unrhyw un yn poeni
- Bydd y traffig hyd yn oed yn fwy peryglus o amgylch Campysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch
- Bydd y ddau gampws sy'n weddill yn orlawn, bydd y parcio yn ofnadwy. Dosbarthiadau mwy i'n plant sy'n arwain at ddeilliannau dysgu gwael.
- Mae'r cyflogau athrawon yn wallgof. Sut allwch chi gyfiawnhau 13 aelod o staff ar y lefel uchaf? Mae angen edrych ar y strwythur staffio.
- Mae yna lawer o wahanol bryderon ynglŷn â'ch cynnig, gan gynnwys: *Pam adeiladwyd campws y Chwe Chloch os oedd gostyngiad yn cael ei ragweld yn nifer y disgyblion? Yn sicr pe bai cynllunio strategol priodol yn ei le, gellid bod wedi arbed cost yr adeilad newydd i drethdalwyr a defnyddio'r tir at ddibenion eraill? Ydych chi'n dweud bod y cyngor wedi methu yn ei waith cynllunio gwreiddiol? Nid targed y dylech geisio ei gyrraedd yw uchafswm maint dosbarthiadau. Os yw ysgolion yn cynnwys llai o ddisgyblion nag uchafswm eu capasiti, dylid ystyried hyn yn beth da gan y bydd yr addysgu o ansawdd uwch ac y gellir darparu addysg un-i-un. Rwy'n gwerthfawrogi nad oes gennyf y ffigyrau ac mae hwn yn bwnc sensitif, ond gobeithio eich bod chi'n gwerthfawrogi'r pwynt rwy'n ceisio ei wneud. Dim ond trwy fod yn Abertyleri, mae'n amlwg bod cynnydd wedi bod mewn lleiafrifoedd ethnig sy'n symud i'r ardal, a dw i'n deall fod hynny yn rhannol oherwydd cynlluniau adleoli'r llywodraeth ac ati. Os bydd y mewnlifiad hwn yn parhau, a fydd hyn yn rhoi baich ychwanegol ar ysgolion? Rwy'n nodi nad Saesneg yw iaith 1af rhai o'r plant hyn, a fydd angen mwy o gymorth un-i-un arnynt a hwythau'n mynd ag amser addysgu oddi wrth blant eraill pan fydd yn anochel eich bod yn cwtogi ar niferoedd staff? Wrth i lefelau diagnosis gynyddu, sut fyddwch chi'n rheoli plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn amgylchedd dysgu mwy cyfyng? Bydd disgyblion â chyflyrau fel Awtistiaeth yn gweld lleihad yn eu llesiant gydag ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd chwarae mwy gorlawn, a llai o argaeledd ar gyfer cymorth un-i-un. Cadw staff - Mae CDdA eisoes mewn mesurau arbennig a chyda mwy o alw ar athrawon gyda nifer y disgyblion yn cynyddu, sut fyddwch chi'n sicrhau eich bod yn cadw'r addysgwyr gorau, a allai ddewis amgylcheddau sydd dan lai o bwysau neu hyd yn oed ddiwydiannau gwahanol? Cludiant – mae ffyrdd lleol a pharcio o amgylch Campysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch eisoes yn drychineb, damwain ddifrifol yn llythrennol yn aros i ddigwydd. Bydd mwy o bobl a thraffig yn gwaethygu'r broblem. A gymeradwywyd y ceisiadau cynllunio gwreiddiol ar gyfer y niferoedd disgyblion hyn? Mae'r campws uwchradd yn jôc, sy'n gwneud i bobl adael yr ardal. Efallai y dylech roi cynllun priodol ar waith ar gyfer rheoli'r amgylchedd hwnnw cyn torri niferoedd. Ydych chi wedi ystyried pam fod niferoedd y boblogaeth yn gostwng? Dylai'r dref fod yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, a fydd yn dod â phobl i'r dref ac yn tyfu'r boblogaeth mewn gwirionedd. Adran arall yn y Cyngor sy'n gweithio mewn seilo ac yn edrych ar sut y gellir torri costau i ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi a rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae gennym y dreth gyngor uchaf yng Nghymru ac un o'r uchaf yn y DU ac eto rydych chi'n parhau i wasgu mwy a mwy - mae'n debyg mai dyna ran o'r rheswm pam fod y boblogaeth yn gostwng felly bydd y cylch yn parhau. Yn y pen draw, rydych chi eisoes yn gwybod bod y newid hwn yn mynd i ddigwydd felly eto dim ond siom arall i'r ardal ei hychwanegu at y rhestr!
- Bu wastad ysgol gynradd ac ysgol plant iau leol yn ein cymuned ac fe es i i'r ysgolion hyn fy hun ... yna pan adeiladwyd ysgol y mileniwm Roseheyworth mynychodd fy 2 fachgen yno ac yna fy merch flynyddoedd yn ddiweddarach a minnau hefyd yn gyn-wraig cinio yno mae'r ysgol yn fawr gyda'r holl bethau y mae eu hangen ar gyfer y plant. ardaloedd chwarae mawr a hefyd cae mawr y mae'r plant wedi ei ddefnyddio dros y blynyddoedd ar gyfer diwrnod mabolgampau a gweithgareddau eraill... Mae sut y mae rhai mamau'n mynd i lwyddo i fynd â'u plant i'r ysgol arall nad ydynt yn gyrru y tu hwnt i bob deall i mi, ni fyddwn byth wedi gwneud hynny fy hun a minnau'n rhiant sengl. Meddyliwch am ein plant a phlant y dyfodol cyn eich penderfyniad ynglŷn â'n hysgol annwyl ... staff a rhieni cyn i chi wneud eich penderfyniadau

- Nid oes digon o feddwl o gwbl wedi cael ei roi i effaith nifer cynyddol o blant yn Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch, a sut y gallai hyn effeithio ar ddisgyblion presennol. Ni chafwyd unrhyw astudiaeth effaith a diogelwch i ganfod effaith mwy o draffig, yn enwedig ar Stryd Tyleri a Stryd Newall, sydd eisoes yn annerbyniol ar amseroedd gollwng a chasglu y tu allan i’r ysgol. Mae ceir a faniau preswylwyr yn parcio ar balmentydd, dylai fod llinellau melyn dwbl yr holl ffordd i fyny Stryd Tyleri a stryd newall ar yr ochr i’r ffyrdd lle nad ydynt yn parcio i atal ceir rhag parcio ar y palmant. Dylai wardeniaid traffig allu dirwyo pobl am barcio ar y palmant. Dylai fod marciau ffordd melyn, dim stopio ar y naill ochr na'r llall i fynedfa Stryd Newall a llinellau melyn dwbl i fyny’r ochr lle nad yw pobl yn parcio ar y ffordd. Mae'n anhrefn yn ystod rhai boreau wrth geisio mynd i mewn ac allan o'r man gollwng cylchog. Oherwydd parcio ar y palmant a pharcio ar linellau dwbl ymhellach i lawr Stryd Tyleri mae traffig yn stopio. Sut all mwy o bobl ddefnyddio'r ffordd i gyrraedd yr ysgol pan nad yw'r cyngor hyd yn oed yn gallu datrys themâu sy'n bodoli eisoes. Hefyd, dylai'r cyngor fod â chywilydd ohono'i hun am adeiladu ysgol na allai bara 25 mlynedd yn ôl pob golwg heb fod angen gwaith cynnal a chadw mawr. Roedd gennym ysgolion a barhaodd yn y gymuned hon am dros 100 mlynedd oherwydd eu bod wedi'u hadeiladu'n gadarn, yn wahanol i Roseheyworth mae’n debyg. Am wastraff arian trethdalwyr gan Flaenau Gwent
- Mae digon o draffig i lawr yr ysgol fel y mae a digon ym mhob ystafell ddosbarth ar hyn o bryd, heb ychwanegu at y dosbarth.
- Nid oes parcio addas ar gampws Stryd Tyleri ar gyfer rhieni presennol. Felly, rwy'n credu y byddai'n beryglus cynyddu capasiti'r ysgol.
- Nid oes digon o le i blant ychwanegol
- Mae llawer o blant yn y dosbarthiadau fel y mae
- Bydd gormod o blant mewn un dosbarth, mae'r safle yn dda i deuluoedd nad oes ganddynt gludiant ac sy'n gallu mynd â’u plant i'r ysgol ar droed. Mae gan yr ysgol gyfleusterau anhygoel ac mae plant yn gwneud yn dda yno. Byddai cau'r ysgol hon yn drosedd, gan roi arian o flaen addysg plant ac ansawdd bywyd teuluoedd o ran cludiant. Rwy'n teimlo os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, y byddwch chi'n gweld mwy o blant yn colli cyfleoedd yn yr ysgol neu'n cael eu haddysgu gartref ac ar eu colled o ran ochr gymdeithasol yr ysgol
- Bydd llawer gormod o ddisgyblion mewn un dosbarth, mae'r dosbarthiadau yn ddigon mawr nawr heb ychwanegu rhagor o ddisgyblion atynt. Bydd addysg fy mhlentyn a phlant pawb arall yn dioddef er mwyn i CBSBG arbed cwpl o bunnoedd. A pheidiwch â gwneud i mi sôn am y tyllau yn y ffyrdd.
- Nid oes unrhyw ystyriaeth i blant ag anghenion ychwanegol. Mae’r cludiant a'r niferoedd mewn dosbarthiadau yn unig yn annichonadwy. Mae plant sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd addasu i newidiadau yn eu hysgol eu hunain nawr yn mynd i wynebu llawer mwy gyda hyn i gyd. Byddant yn mynd oddi wrth oedolion y maent yn ymddiried ynddynt i fod gyda neb y maent yn gwybod eu bod yn ddiogel. Fe ymdriniwyd â hyn mewn ffordd ofnadwy ac ni feddyliwyd o gwbl am unrhyw un o blith disgyblion, rhieni na staff! Rydych chi'n chwalu ystafelloedd dosbarth, oedolion diogel, mannau diogel a chymuned fach nad ydych yn malio amdani o gwbl!
- Nid oes digon o le yn ysgol y Chwe Chloch gan eu bod wedi gorfod rhannu’r derbyn rhwng y meithrin a’r derbyn felly bydd yn orlawn gyda mwy o ddisgyblion
- Y dyddiau hyn mae nifer y disgyblion ym mhob dosbarth eisoes yn golygu eu bod yn orlawn, ni fydd y cynnig hwn i gau’r ysgol ond yn golygu dosbarthiadau â mwy o ddisgyblion, ym mha bynnag ysgol y maent yn cael eu rhoi ynddi.
- Byddant yn cael eu danfon i ysgolion eraill i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau i amgylchedd newydd na ellir ei ddefnyddio ac efallai y bydd llawer o ysgolion yn llawn cyn derbyn disgyblion newydd. Dewis wedi'i gymryd i ffwrdd.
- Meddyliwch am y plant druan yn hyn i gyd!! Nhw fydd y rhai sy'n dioddef :(
- Rwy’n meddwl ei fod yn jôc eich bod chi'n ceisio defnyddio addysg plant i leihau costau! Mae'r ysgolion y byddai'n rhaid iddynt uno eisoes yn llawn hyd eithaf eu capasiti ac mae'n risg enfawr i iechyd gan bod y traffig yn yr ysgolion eraill hyn eisoes yn beryglus heb y traffig ychwanegol o roseheyworth! Nid wyf wedi gweld unrhyw ddewisiadau eraill cadarnhaol gennych i geisio codi arian, gan ail-fuddsoddi o brosiectau eraill. Dim ond cau ysgol. Mae Abertyleri fel tref yn cael ei gadael ar ôl yn y fwrdeistref hon a dylech chi fel cyngor a'ch llywodraeth fod â chywilydd!
- Wrth feddwl am y rhieni yn gorfod mynd â'u plant i'r ysgol os ydyn nhw'n mynd i’r chwe chloch neu Abertyleri, a fyddan nhw'n darparu bws.

- Mae'r ardal hon yn ardal dlawd iawn ym Mlaenau Gwent gyda llawer iawn o dai cymdeithasol ac anweithgarwch economaidd yn bennaf. Mae'r plant yn yr ardal hon eisoes dan anfantais ac nid yw cau eu hysgol leol o fudd i'r plant na'r teuluoedd sy'n byw yn yr ardal hon. Mae angen i ni fod yn cefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn gyda gwasanaethau statudol ychwanegol yn hytrach na mynd â nhw i ffwrdd.
- Mae'r cynnig hwn i gau'r ysgol mor anghywir, nid oes digon o ysgolion yn yr ardal fel y mae, beth sy'n bod arnoch chi.
- Mae'r penderfyniad hwn yn hynod siomedig ac, a bod yn onest, yn anghywir. Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn derbyn, ar adeg pan ddylem fod yn cryfhau cymorth i bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf amddifadus, ein bod yn hytrach yn ei gymryd i ffwrdd. Bydd cau Roseheyworth yn taro'r rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf - teuluoedd sydd eisoes yn wynebu heriau go iawn, o ddydd i ddydd. Gadewch i ni fod yn glir: nid yw penderfyniadau fel hyn yn glanio'n gyfartal. Maen nhw'n syrthio galetaf ar y rhai sydd eisoes yn cael trafferth - teuluoedd heb y modd, yr amser na'r hyblygrwydd i amsugno'r effaith. Nid ysgol yn unig yw Roseheyworth - mae'n rhan o wead y gymuned. Mae'n cynrychioli sefydlogrwydd, cyfle, ac ymdeimlad o berthyn. Ac mae risg bod ei chau yn mynd â hynny oddi wrth yr union blant y mae arnynt ei angen fwyaf. Os ydym o ddifrif ynglŷn â thegwch, ynglŷn â chyfle, ac ynglŷn â rhoi cyfle gwirioneddol i bob person ifanc yn Abertyleri mewn bywyd, yna dylem fod yn buddsoddi yn y cymunedau hyn - nid yn tynnu darpariaeth oddi wrthynt. Nid yw hyn yn teimlo fel cynnydd. Mae'n teimlo fel gofyn i'r rhai ar y gwaelod gario pwysau penderfyniadau na wnaethant eu creu. Ni allwn adeiladu dyfodol gwell dynni oddi wrth y rhai sydd fwyaf mewn angen.
- Mae'r syniad hwn mor anghywir ym mhob ffordd, cymaint o aflonyddwch drwyddi draw. A oes unrhyw un o'r bobl yn bwysig yn hyn i gyd!
- Mae'r syniad hwn yn anghywir. Dim ond dwy ysgol sydd gennym yn yr ardal, felly i ble plant hyn i fod i fynd. Mae'n rhaid eu bod mor ddryslyd. Meddyliwch eto.
- Mae hon yn ysgol wych. Pam gwasgu mwy o blant i ysgol arall gan leihau'r dysgu gan y bydd dosbarthiadau yn fwy
- Mae hyn yn achos o roi arian o flaen dyfodol plant.
- Mae hon yn ysgol wych, cadwch hi.
- Mae hon yn ysgol hyfryd, gymharol newydd gyda chyfleusterau awyr agored ardderchog a bydd symud plant i'r campysau eraill yn cynyddu tagfeydd a phroblemau parcio. pam adeiladu campws newydd (Y Chwe Chloch) a chwpl o flynyddoedd yn ddiweddarach cau un arall? Am wastraff arian enfawr, cywilydd arnoch chi!
- Mae hyn yn chwerthinllyd, mae pob un o'r plant hynny yn eu hamgylchedd sy'n rhoi rhwyd ddiogelwch iddynt, bydd yn effeithio'n aruthrol ar iechyd meddwl plant a bydd rhieni nad ydynt yn gallu gyrru yn mynd â'u plant allan o'r system addysg yn gyfan gwbl
- Mae hyn yn hollol warthus, pan ydych chi'n gwastraffu arian ar bethau fel y gwaith adeiladu i droi'r hen lyfrgell yn swyddfeydd fyddant yn cael eu defnyddio a'r gwastraff cyllid cyson gan CBSBG. Dylai pob un ohonoch fod â chywilydd ohonoch chi eich hunain. CBSBG bydd gennych uffern o frwydr ar eich dwylo.
- Mae hwn yn gynnig hollol ddinistriol. Mae Ysgol Roseheyworth yn hyb dysgu gwych y bydd ei golli yn niweidiol i'r gymuned. Am unwaith, Cyngor Blaenau Gwent, gwnewch rywbeth a fydd yn helpu pobl ifanc yr ardal Peidiwch â chael gwared ar yr ysgol
- Y rheswm dros hyn yw effaith parcio ar fy stryd i (Stryd Newall) a hefyd y ffaith y bydd mwy o draffig yn gwneud y ffyrdd cyfagos yn fwy peryglus i'r plant ysgol a'r teuluoedd sy'n ceisio mynd i'r ysgol.
- Dyma ffordd arall o geisio arbed arian ar draul y plant lleol. Sut ydych chi'n mynd i ffitio'r holl blant i'r dosbarthiadau presennol yn yr ysgolion eraill heb i'r dosbarthiadau fynd yn rhy fawr? Rwy'n credu y dylid ystyried pa mor bell i ffwrdd o Gampws Roseheyworth yw'r ysgolion eraill... Nid oes gan bob teulu fynediad at gar. Rwy'n gwybod bod rhai rhieni yn defnyddio'r clwb ar ôl ysgol i hwyluso eu trefniadau gweithio, sut fydd y rhieni hyn yn ymdopi? A fyddant yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i waith a fydd yn ei dro yn cael effaith niweidiol ar eu bywydau?
- Nid dyma'r syniad gorau i chi ei gael erioed. Mae'r ysgol yn hyb i rieni a disgyblion ddod i adnabod ei gilydd. Mae'r plant hyn yn mynd i fod ar goll!
- Mae hyn yn dwp gan y bydd CDdA yn cael ei gorlwytho a bydd gormod o blant, felly bydd y plant ag anghenion arbennig yn dioddef

- Dyma'r ardal fwyaf difreintiedig yn Abertyleri, bydd symud y plant hyn i ysgolion eraill yn achosi mwy o absenoldeb o'r ysgol yn enwedig yn ystod y gaeaf a'r tywydd gwael, gan achosi iddynt syrthio ymhellach ar ei hôl hi. Mae mwy o blant ADY mewn dwy ysgol yn achosi mwy o broblemau i'r plant dan sylw, staff a disgyblion eraill, gan na fydd ganddynt y lle na'r staff i'w lletya'n iawn.
- Mae'r cynllun hwn yn dangos diystyriaeth lwyr i ddisgyblion ac athrawon. Mae’n anochel y bydd ychwanegu tua deg o blant ychwanegol at bob dosbarth yn Stryd Tyleri a’r Chwe Chloch yn niweidio'r amgylchedd dysgu i ddisgyblion sydd yno eisoes. Nid yw bod ag un athro/athrawes yn rheoli dosbarthiadau â thua 25 o ddisgyblion yn rhesymol nac yn effeithiol, ac mae'n rhoi pwysau annerbyniol ar staff gan hefyd leihau deilliannau addysgol. Mae'n ymddangos bod hwn yn benderfyniad sy'n cael ei ysgogi gan arian a wnaed gan rywun yn y cyngor sydd ymhell i ffwrdd o realiti'r ystafell ddosbarth. Pe bai atebolrwydd yn bwysig, byddai'r unigolyn hwnnw'n cael ei dynnu o'i rôl a'r arian yn cael ei ailgyfeirio at gefnogi ein hysgolion yn briodol.
- Mae'r cynnig hwn yn gwbl ffiaidd ac nid er budd pennaf y plant, o safbwynt addysgol, eu llesiant na'u cyflwr emosiynol.
- Bydd y cynnig hwn yn ergyd enfawr i Roseheyworth a'r gymuned o'i chwmpas. Fydd plant y disgwylir iddynt deithio pellteroedd hwy o ardal mor amddifadus yn y pen draw ddim yn mynychu'r ysgol, gan effeithio ar eu haddysg a'u llesiant. Bydd yr effaith ar blant ag ADY yn y Chwe Chloch a Stryd Tyleri yn niweidiol. Defnyddir unrhyw le sbâr ar yr adeg hon ar gyfer ymyrraeth a/neu fannau ymneilltuo i blant ac arnynt angen hynny fwyaf - bydd hyn yn cael ei gymryd oddi wrthynt. Rwy'n siomedig gyda'r ffordd y cynhaliwyd y cyfarfod ar gyfer staff - dylent fod wedi cael cyfle priodol i leisio eu teimladau. Mae'r syniad o wneud hyn o flaen rhieni yn wirioneddol amhroffesiynol. Yn olaf, rwy'n credu bod staff CDdA yn haeddu ymddiheuriad gwirioneddol am y ffordd y mae'r wybodaeth hon wedi dod allan.
- Bydd y cynnig hwn yn achosi anghyfleustra sylweddol i rieni ar draws holl gampysau yr ysgol. Mae’r Chwe Chloch a Stryd Tyleri eisoes yn profi anawsterau mynediad a pharcio, sy'n debygol o waethygu. Bydd effeithiau ar rieni disgyblion yn Rose Heyworth hefyd, gan y byddai'n ofynnol iddynt gludo eu plant i naill ai Stryd Tyleri neu’r Chwe Chloch - taith o ddwy filltir o leiaf. Mae'r newid hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar ddysgwyr yn y ward honno a gallai effeithio'n andwyol ar eu profiad addysgol.
- Mae'r ysgol hon wedi bod ar agor am flynyddoedd lawer ac yn awr maen nhw’n cau fy hen ysgol gynradd. Beth yw diben ei chau beth bynnag. Lle mae'r plant i gyd i fod i fynd?!?!?
- Mae gan yr ysgol hon gyfleusterau ardderchog, sy'n gaffaeliad i'r gymuned gyda chaeau chwarae ar gyfer chwaraeon / gemau yn sownd ynddi. Parcio da. Amgylchedd gwych wedi'i amgylchynu gan goed, gwyrddni sy'n helpu iechyd meddwl a llesiant plant.
- Dim ond am 26 mlynedd y mae’r ysgol hon wedi bod ar agor, mae digon o fywyd yn yr ysgol hon eto.
- Prin 25 oed yw’r ysgol hon, gyda theuluoedd newydd yn symud i'r ardal drwy'r amser. Arferem fod â thuag 8 ysgol gynradd yn yr ardal nawr maen nhw eisiau lleihau hyn i 2 sy’n warthus. Ni ddylid caniatáu iddo ddigwydd, mae'r Cyngor Llafur hwn fel y llywodraeth hon yn gwastraffu mwy a mwy o'n trethi.
- Mae'r ysgol hon ar garreg fy nrws, o fewn pellter cerdded, mae fy mhlentyn wedi ymgartrefu ac yn hapus yn yr ysgol hon a bydd ei symud yn tarfu ar y drefn sydd ganddi a gallai achosi problemau yn y dyfodol, ni fyddaf yn teithio yr holl ffordd i lawr i’r chwe chloch gan ei fod yn rhy bell oherwydd materion gofal plant, rwy'n dibynnu ar deulu i'w chasglu gan ei fod o fewn pellter cerdded oherwydd nad ydynt yn gallu gyrru. Mae Stryd Tyleri eisoes yn llawn hyd eithaf ei chapasiti felly ble ydych chi'n disgwyl i'r plant hyn ddysgu? A fydd mwy o athrawon yn yr ystafelloedd dosbarth yn yr ysgolion hyn? Gan y bydd llawer gormod o blant ym mhob ystafell ddosbarth ac yn yr ysgol ei hun. Mae'r traffig yn yr ysgolion hyn a'r ardal o'u cwmpas eisoes yn wallgof a bydd yn llawer gwaeth. Byddai cadw ysgol roseheyworth ar agor yn bendant o fudd i'r plant sydd yno eisoes a phawb sy'n mynychu. Mae angen i blant ddysgu, peidio â chael eu gwasgu i mewn i ystafell ddosbarth gyda llawer gormod o blant a dim digon o athrawon. Cadwch hi ar agor a meddyliwch am y plant yn enwedig a'r rhieni.
- Mae angen i'r ysgol hon aros ar agor i blant a rhieni’r ysgol. Bydd hyn yn effeithio ar blant os byddant yn cael eu symud rhwng ysgolion a gall effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant
- Mae'r ysgol hon yn darparu addysg a chymorth y mae eu dirfawr angen ar ddisgyblion a'r gymuned

- Mae'r ysgol hon wedi'i dynodi ar gyfer cau ac un o'r ffactorau yw cost y gwaith atgyweirio y mae ei angen. Fe'i gelwir yn Ysgol y Mileniwm, a agorodd yn 2000, 26 mlynedd yn ôl. Mae'r ysgol hŷn, a elwid gynt yn Ysgol Gyfun Abertyleri, hefyd yn rhan o CDdA, ac fe'i hagorwyd tua 38 mlynedd yn ôl. Mewn cymhariaeth, mae hyn yn llawer hŷn ac felly bydd angen mwy o atgyweiriadau a chynnal a chadw yn y dyfodol. Mae Campws Roseheyworth yn gwasanaethu plant sy'n byw yn y dalgylch hwnnw a bydd eu hanfon i naill ai Campws Stryd Tyleri neu'r Chwe Chloch yn golygu bod ganddynt dipyn o bellter i gerdded, nid oes gan bob rhiant y moethusrwydd i allu teithio mewn car. Ni all y ddau gampws arall arfaethedig ar gyfer addysg gynradd ymdopi â disgyblion ychwanegol, dosbarthiadau mawr. Rydym yn byw yn un o'r ardaloedd mwyaf eithriadol o amddifadus yng Nghymru, hyd yn oed y DU, lle mae'n aml yn wir mai'r unig ffordd allan yw trwy addysg. Mae nifer llai mewn dosbarthiadau a chymorth ychwanegol gan oedolion yn ffactorau sy'n gwneud cyfraniad enfawr i'r daith hon.
- Bydd hyn yn tarfu ar fywydau'r plant ac yn effeithio arnynt yn academaidd. Bydd hefyd yn arwain at golli llawer o swyddi ar adeg lle mae swyddi eisoes yn anodd dod o hyd iddynt, a'u cadw.
- Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar ddysgu/addysg. Y llynedd roedd plant yn y coridor nid mewn ystafell ddosbarth oherwydd diffyg lle i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cau'r ysgol nid dim ond yn effeithio ar drigolion lleol Ysgol Rosehayworth ond hefyd yn effeithio ar blant mewn ysgolion eraill sy'n perthyn i gymuned ddysgu Abertyleri. Hefyd bydd y tagfeydd traffig yn berygl i blant a rhieni
- Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar niferoedd yn yr ystafelloedd dosbarth ar Gampws Stryd Tyleri. Hefyd, does arnaf fi ddim eisiau i'm merch gael ei symud i ysgol arall gan y byddai hyn yn effeithio'n fwy byth arni hi a'n teulu!
- Bydd hyn yn effeithio ar ddysgu disgyblion yr effeithir arnynt ac yn cynyddu'r pwysau ymhellach ar staff addysgu trwy ddosbarthiadau mwy a llwythi gwaith trymach.
- Ni fydd hyn o fudd i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol - ble mae'r lle dynodedig ar eu cyfer neu staff dynodedig? Dylid ymddiheuro am bostio hwn cyn i'r staff wybod am hyn.
- Byddai hyn yn gamgymeriad gan y bydd ysgolion eraill yn llawn felly bydd yn cael effaith ar ddysgu'r plant a bydd tagfeydd traffig yn waeth.
- Byddai hyn yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd o ystyried faint o draffig a fyddai'n deillio o'r cynnig hwn. Heb sôn am darfu ar addysg plant. Dewisais Roseheyworth yn fwriadol oherwydd pan ymwelais â Stryd Tyleri dim ond rhif oedd y plant, prin oedd unrhyw un yn cael eu hadnabod wrth eu henw oherwydd y nifer o blant!
- Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ein plant, gyda niferoedd yn y dosbarthiadau yn cynyddu ac anghenion ein plant ddim yn cael eu diwallu
- Yn seiliedig ar brofiad blaenorol, byddai symud mwy o staff a phlant i gampws y Chwe Chloch yn creu llawer mwy o dagfeydd. Rwy'n defnyddio'r ardal gyfagos i fynd â'm cŵn am dro ac ymweld â'r Gwarcheidwad yn rheolaidd ac eisoes yn cael mynediad yn anodd iawn.
- Mae gan Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch lawer o ddisgyblion nad yw eu hanghenion addysgol yn cael eu diwallu, mae llawer o'r plant hyn yn niwroawahanol ac nid oes digon o gyllid, cymorth, dealltwriaeth, staff, amser nac adnoddau i ddarparu ar gyfer anghenion y plant hyn neu i roi profiadau neu ddeilliannau cadarnhaol iddynt. Mae rhoi mwy o blant mewn lleoliadau sydd eisoes dan bwysau yn mynd i achosi mwy o niwed i ddisgyblion presennol a'r rhai sy'n cael eu trosglwyddo o Rosheyworth yn ogystal â deilliannau a phrofiadau hyd yn oed yn waeth. Bydd straen ychwanegol hefyd ar staff addysgu sydd eisoes dan straen oherwydd gwleidyddiaeth yn yr ysgol a bwlio rhwng staff o wahanol lefelau wrth geisio addysgu orau y gallant ag adnoddau gwael.
- Mae campysau Stryd Tyleri a'r chwe chloch eisoes yn llawn, bydd y plant hynny hefyd yn dioddef os bydd roseyworth ar gau, syniad mor hurt i gau'r ysgol.
- Mae gan Stryd Tyleri haen reoli sy'n amhersonol tuag at ein plant. Nid oes gan ddirprwyon a phennaeth y safle unrhyw syniad pwy yw fy mhlant wrth iddynt gyrraedd bob bore. Ni fydd cynyddu'r niferoedd ar y safleoedd trwy ychwanegu disgyblion Roseheyworth ond yn ychwanegu at anhysbysrwydd ein plant. Mae wedi bod yn ddeng mlynedd ac mae'r model 3-16 yn dal i fethu ond mae'r cyngor yn gwrthod gwrthdroi eu penderfyniad. Mae gen i blant hŷn a oedd yn hapus iawn yn Ysgol Gynradd Abertyleri pan oedden nhw'n fach ac fe wnaeth y cyngor ddinistrio tair/pedair ysgol gynradd ardderchog i gefnogi'r ysgol uwchradd. Dylid cael gwared ar reolaeth bendrwm a buddsoddi mewn staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi'n iawn. Gallai defnyddio Roseheyworth gyda'i dosbarthiadau llai fod yn beth da mewn gwirionedd a gellid ychwanegu

canolfan ADY i dynnu'r pwysau oddi ar Ystruth a'r Chwe Chloch. Does gen i ddim amheuaeth y bydd y cyngor yn anwybyddu'r gymuned eto ac mai ymarfer ticio blychau yw'r ymgynghoriad hwn.

- Byddai cau'r ysgol hon yn cael effaith niweidiol nid dim ond ar y plant ond ar y Fwrdeistref gyfan.
- Er mwyn arbed yr arian rydych chi wedi'i grybwyll, byddai angen i chi ddiswyddo'r holl staff sy'n gweithio ar gampws rr. Os yw'r staff yn mynd i gael eu defnyddio yn rhywle arall, yna ble mae'r arbedion? Dywedwyd y byddai safle roseheyworth yn aros o fewn addysg, i beth? Ysgol ADY arbenigol? Peidiwch â dweud nad yw'r adeilad wedi'i glustnodi ar gyfer defnydd arall, oherwydd pam y byddai'n cael ei gadw o fewn y gwasanaeth addysg os nad ydyw. Bydd yr atgyweiriadau yn cael eu gwneud a'r safle yn cael ei ddefnyddio i bwrpas newydd. Felly gwnewch y gwaith atgyweirio, a gwasgarwch y plant rhwng yr ysgolion eraill i wneud y dosbarthiadau yn llai ac yn fwy cyfartal. 10 mlynedd yn ôl aethom o dan yr ymbarél hwn i achub croen yr ysgol gyfun, nawr dyma ni eto, yn mynd i gau ysgol gynradd i achub croen yr ysgol gyfun.
- At y sawl a fynno wybod, ysgrifennaf i fynegi fy ngwrthwynebiad cryf i'r bwriad i gau Ysgol Roseheyworth. Am 26 mlynedd, mae'r ysgol hon wedi bod yn ffynhonnell hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd, diogelwch a chyfle i deuluoedd yn un o ardaloedd mwyaf amddifadus Abertyleri. Byddai ei chau yn rhoi pwysau ychwanegol ar rieni sydd eisoes yn wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd, gan orfodi plant i deithio ymhellach a mynychu ysgolion sydd eisoes yn agos at fod yn llawn hyd eithaf eu capasiti. Ceir risg y bydd hyn yn creu dosbarthiadau mwy, llai o gymorth, a dirywiad mewn ansawdd addysgol; canlyniadau nad ydynt er budd pennaf unrhyw blentyn. Byddai cau'r ysgol hefyd yn cael effaith ddifrifol ar staff ac ar ddysgwyr agored i niwed. Mae llawer o weithwyr ymroddedig, y mwyafrif ohonynt yn fenywod lleol mewn rolau rhan-amser, yn wynebu colli eu swyddi neu gael eu hadleoli, gan ddyfnhau caledi mewn cymuned sydd eisoes dan anfantais. Mae'r ansicrwydd ynghylch dyfodol y ddarpariaeth ADY a'r amgylchedd NYTH yn codi pryderon pellach, gan bod y plant hyn yn dibynnu ar gymorth arbenigol cyson na ellir ei efelychu mewn mannau eraill heb gynllunio a buddsoddi gofalus. O ystyried y risgiau hyn, mae'n amlwg y byddai cau Ysgol Roseheyworth yn achosi niwed anghymesur i'r union blant a theuluoedd y mae arnynt fwyaf angen sefydlogrwydd a chymorth. Erfyniaf ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gynnal ei ymrwymiad i hawliau plant ac i lesiant y gymuned hon drwy gadw Ysgol Roseheyworth ar agor.
- At y sawl a fynno wybod, mae gen i gysylltiad â'r Ysgol dan sylw oherwydd bod fy Mam wedi gweithio yno am 26 mlynedd fel Gweinyddes Feithrin. Nid oedd ar fy Mam erioed eisiau gweithio yn unrhyw le arall, mae'r Ysgol wrth galon y gymuned leol, mae'r plant a gerddodd drwy'r drysau hynny 26 mlynedd yn ôl bellach yn cerdded drwodd gyda'u plant eu hunain. Mae fy Mam yn dal i gofio'r holl blant a fu'n ddisgyblion yno. Mae mewn lleoliad delfrydol, mae ar y llwybr bysiau, mae ganddi'r mynediad gorau o'r tair ysgol gynradd. Mae cae chwarae ar bwys buarth y plant iau y gall y disgyblion chwarae arno. Peidiwch â chau'r ysgol anhygoel hon. Bydd yn cael effaith niweidiol ar blant a theuluoedd Roseheyworth.
- Rhy bell i rieni Arael View ac ati gerdded i'r Chwe Chloch.
- Rhy bell i'r plant gerdded, DIM BWS WEDI'I DDARPARU!
- Rhy bell i gerdded, yn effeithio ar y rhai mwyaf amddifadus, bws ddim yn ddibynadwy ac yn rhy ddrud. CYWILYDD ARNOCH CHI.
- Bydd gormod o blant mewn un dosbarth yn cael effaith negyddol ar y plant hyn. Bydd dysgu, addysgu ac addysg yn methu a bydd rhai plant yn cael eu gadael ar ôl. Bydd dosbarth o 20 yn gwneud llawer gwell yn academaidd na dosbarth o 34. Ni fydd disgyblion yn cael yr un gofal a sylw. Nid yw'r ystafelloedd dosbarth yn ddigon mawr, mae staff eisoes o dan bwysau a bydd y traffig i gyrraedd yr ysgol yn cynyddu, gan wneud y cymudo'n beryglus ac yn straen. Efallai y dylid bod wedi meddwl am feini prawf mwy llym ar gyfer lleoli disgyblion mewn ysgolion a lleoliadau ar gyfer ysgolion o'r blaen.
- gormod o blant mewn un dosbarth, ni all yr athrawon reoli'r holl blant ac ni fyddant yn gallu ymdopi â'r anghenion, hefyd mae gan yr athrawon hyn blant ag anghenion a fydd yn cael eu gwthio o'r neilltu.
- Gormod o benaethiaid. Mae angen strwythur staffio newydd
- Anghytuno'n llwyr â chau'r ysgol
- Hollol annerbyniol, nid dim ond colli swyddi, beth am y modd y bydd yn tarfu ar yr holl blant hyn. Mae parcio yn y chwe chloch yn uffernol ar adegau ysgol ond pan ddwedir bod y chwe chloch yn ysgol wych, gellir dweud yr un peth yn union am roseheyworth!!

- Mae traffig ar safle'r Chwe Chloch yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd. Cymaint o geir wedi'u parcio a dim lle i gerdded yn ddiogel ar y palmentydd. Rwy'n gallu gweld y traffig o'm tŷ ac mae'n frawychus faint o geir sy'n ceisio mynd i fyny ac i lawr y bryn yn y bore a'r prynhawn. Yr un yw'r sefyllfa ar safle Abertyleri. Sut mae'r naill leoliad neu'r llall yn gallu darparu ar gyfer mwy o draffig. Ni fydd rhai rhieni lleol i ddisgyblion yn mynd â'u plant i'r ysgol ar droed ac ni fydd hyn ond yn gwaethygu gyda rhieni yn gorfod teithio ymhellach i ddanfon eu plant i'r ysgol. Mae gen i dri o wyrion, dau yn roseheyworth ac un a fydd yn dechrau ymhen blwyddyn ac mae meddwl am y tri yn cael eu symud i ysgol arall yn bryderus iawn, yn enwedig gan bod un yn awtistig ac yn tueddi i redeg i ffwrdd. A oes rhaid i ni aros am ddamwain neu farwolaeth ddifrifol cyn i'r cyngor weld nad yw'r syniad hwn yn ymarferol.
- Mae traffig yn ddrwg yn Stryd Tyleri. Cafodd rhiant ei daro yr wythnos hon. Beth os bydd hyn yn digwydd i blentyn? Nid oes digon wedi'i wneud ar gyfer diogelwch. Mwy o geir a mwy o broblemau.
- Problemau traffig, problemau amgylcheddol, dosbarthiadau rhy fawr. Ar ôl i'r ysgolion fynd, beth wedyn!!
- Mae ceisio cau ysgol gymunedol heb ymgynghori â'r gymuned yn dangos diffyg parch tuag at y gymuned ac ar ben hynny yn tanseilio ymddiriedaeth y bobl y mae eich cyngor yn eu gwasanaethu.
- Annheg â phlant ifanc sydd wedi dod yn gyfforddus ac wedi gwneud ffrindiau yn eu hysgol, i'w dadwreiddio i ysgol newydd sydd eisoes yn orlawn.
- Bydd yn tarfu'n fawr ar y plant. Mae digon o blant yn y Chwe Chloch a Stryd Tyleri erbyn hyn ac nid yw'r ysgol wedi bod ar agor am gymaint â hynny o flynyddoedd.
- Syniad gwirion iawn! Nid yw'r ysgolion yn Abertyleri byth yn flaenoriaeth. Mae'n bryd iddynt ddod yn flaenoriaeth!
- Syniad gwirion iawn. Nid oes gan yr ysgolion y cyfleusterau/arian digonol gyda'r galw presennol heb ychwanegu rhagor o blant.
- Hon oedd yr ysgol gynradd orau i mi fynd iddi, ac fe fynychais i tua 5. Roedd hyn tua 10 mlynedd yn ôl, ond roedd y cynllun yn anhygoel
- Gwastraff adeilad
- gwastraff adeilad bydd yn achosi gorlenwi yn yr ysgolion sy'n weddill
- Gwastraffu arian
- Rydym yn ardal amddifadus ac ni ddylem fod yn gwneud toriadau i Addysg. Rwy'n cwestiynu a oes digon o le yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch i ddarparu ar gyfer cau'r ysgol gan gynnwys yn y dyfodol – sut y gwyddom ni na fydd cyfraddau genedigaethau yn yr ardal yn codi dros y 5-10 mlynedd nesaf a'r tu hwnt. Hefyd fel un o breswylwyr Stryd Newall, mae'r sefyllfa parcio yn y bore ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn ofnadwy - mae rhywun yn mynd i gael ei anafu'n ddifrifol yn y dyfodol ac yn enwedig os yw hyn yn golygu bod mwy o rieni yn gorfod gyrru eu plant o ardal Roseheyworth!
- Mae'r cynnig wedi ein llorio, bydd plant yn cael eu niweidio'n feddyliol gan adael ffrindiau, i fynd i ddosbarthiadau sy'n rhy fach, gan orfod teithio, anodd iawn i'r rhan fwyaf o rieni, efallai y bydd angen i rieni roi'r gorau i swyddi oherwydd amseroedd ysgol, dim capasiti ar gyfer ceir, diogelwch i blant sy'n cerdded i'r ysgol a goblygiadau o ran costau. ysgol yn newydd iawn a dim arian yn cael ei wario arni
- Ni allwn agor yr ysgol hon
- Fe frwydrom ni 26 mlynedd yn ôl dros yr ysgol. Roedd ei hangen arnom. Caeodd yr ysgol leol, ac roedd arnom ni eisiau ysgolion i'n hwyrion a nawr mae arnoch chi eisiau cael gwared arni. Gwastraff amser ac arian.
- Rydyn ni newydd symud i roseheyworth roeddwn i'n mynd i symud fy merch gan ei bod yn llawer haws i mi fynd â'm merch i'r ysgol aeth fy mhlant i roseheyworth nid wyf yn meddwl y dylai'r ysgol gau gan bod llawer o rieni efallai na fyddant yn cael lleoliad i'w plant ac mae'n mynd i fod yn waith caled mynd â nhw i ysgol wahanol os gwelwch yn dda cadwch roseheyworth ar agor
- Rydyn ni'n byw yn y Blaenau ni yw'r brif ffynhonnell gofal plant, rydyn ni'n mynd i gael y teithio mor anodd. Cafwyd trafodaeth hefyd wrth gât yr ysgol am gyflogau staff ym mhen uchaf y gadwyn - rhaid trafod hyn.
- Mae angen cymaint o ysgolion â phosibl arnom
- Mae angen adroddiadau ariannol arnom! sut all ysgol fod mewn cymaint o ddyled! Yr ysgol gyfun yw'r broblem go iawn! Cyhoeddwch y ffigyrau

- Mae angen mwy o ysgolion arnom felly pam cau ysgol sydd eisoes yn weithredol
- Mae angen i ni gadw'r ysgol hon ar agor gan bod eraill yn orlawn a bod dim angen rhagor o blant arnyn nhw
- Mae arnom eisiau dadansoddiad ariannol llawn o'r 4 campws, yr effaith ar ffyrdd a phriffyrdd cyhoeddus o ran gyrru a pharcio peryglus.
- Beth fydd yn digwydd i'r ysgol os bydd yn cau Mae hyn yn bryder mawr i'r ardal Aeth fy mhlant i'r ysgol. Mae'n gymaint o drueni ei gweld yn cau, dim ond yn 2000 y cafodd yr adeilad ei godi, am wastraff arian.
- Beth fydd yn digwydd pan, ymhen ychydig flynyddoedd, fydd ymchwydd arall yn y gyfradd genedigaethau? Adeiladu campws newydd ag arian treth BG a thorri yn ôl ar rywbeth arall i wneud iawn am y diffyg? Chwerthinllyd.
- Beth fydd yr union gymhareb rhwng disgyblion ac athrawon yn yr ysgol sy'n derbyn ar ôl i ddisgyblion o'r ysgol sy'n cau gael eu trosglwyddo? A fydd unrhyw ddosbarthiadau yn fwy na'r terfyn cyfreithiol o 30 o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 ac, os felly, sut fydd y cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth? Faint o athrawon a chynorthwywyr addysgu ychwanegol fydd yn cael eu cyflogi cyn cau'r ysgol i atal dosbarthiadau mwy? A all y cyngor gadarnhau bod gan yr ysgol sy'n derbyn ddigon o le mewn ystafelloedd dosbarth a digon o gyfleusterau (neuadd fwyta, buarth chwarae, toiledau) ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion? Pa dystiolaeth annibynnol sy'n dangos na fydd dosbarthiadau mwy yn lleihau ansawdd addysgol na chyrhaeddiad disgyblion? Sut fydd y cyngor yn sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau yn parhau i gael yr un lefel o gymorth arbenigol ar ôl symud? Beth fydd y cynnydd mewn pellter teithio cyfartalog ac amser teithio ar gyfer disgyblion yr effeithir arnynt, a sut fydd y cyngor yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch a thagfeydd? Beth yw'r gwir arbedion ariannol o gau'r ysgol unwaith y bydd costau ar gyfer staff ychwanegol, ehangu ystafelloedd dosbarth, a chludiant wedi cael eu cynnwys? Beth yw'r niferoedd disgyblion a ragwelir yn yr ardal hon dros y 5–10 mlynedd nesaf, ac a allai cau'r ysgol greu prinder lleoedd mewn ysgolion yn y dyfodol? A all y cyngor esbonio sut y mae cau ysgol leol weithredol yn gwella deilliannau addysgol i'r plant yr effeithir arnynt, yn hytrach na lleihau costau yn unig?
- Pan fo ysgol yn ateb ei diben ac yn gweithio'n dda gyda lleoliad cyn-ysgol annibynnol gydag 8 swydd. Pam ei chau.
- Pan oedd fy mhlentyn yn Stryd Tyleri roedd maint dosbarthiadau bob amser yn fawr, nid yw ehangu'n deg â phob disgybl na staff addysgu. Byddai'r arian a fudd yn cael ei wario ar gludiant i'r ysgol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn byw ger Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch sef y disgyblion sy'n byw ger ysgol Roseheyworth yn sicr yn wallgofrwydd. Hyd yn oed os yw rhieni disgyblion sydd ar hyn o bryd yn Roseheyworth yn gallu danfon disgyblion i'r ysgol, mae'r trefniadau parcio a gollwng yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch eisoes yn beryglus. Dylid gwneud disgyblion ag anghenion AAA yn ganolog i'r ymgynghoriad hwn hefyd. Rwy'n gobeithio y bydd ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar blant hefyd yn digwydd gyda'r holl ddisgyblion yr effeithir arnynt, yn enwedig y rhai yn Roseheyworth. Mae gan bob plentyn hawl i gael eu hawliau o dan CCUHP. Peidiwch â gwneud hyn yn ymarfer symbolaidd os gwelwch yn dda. Heb amheuaeth mae'r penderfyniad eisoes wedi cael ei wneud sy'n hynod siomedig. Gadewch i ni obeithio nad felly y mae hi, a bod cymuned Abertyleri a Chwmtyleri yn anghywir.
- Ble mae fy mhlant bach yn mynd i fynd? Dydw i ddim yn gyrru, rwy'n mynd mewn tacsi i'r dref sy'n costio £10 ar gyfer siwrne un ffordd. Ni allaf ei fforddio. Bydd fy mhlant yn colli eu ffrindiau
- Ble mae'r plant o ystâd Bournville, Arrael View a Roesheyworth i fod i fynd. Mae'n rhy bell i blant ifancach gerdded 1 filltir. Byddant wedi blino cyn iddynt gyrraedd. Sut mae hynny'n dda i lesiant plant!
- Ble fydd y plant hyn yn mynd? Sut fyddan nhw'n cyrraedd y campws arall? Sut mae rhieni (nad ydynt yn gyrru) i fod i gymudo bob dydd, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf? Pa ganlyniadau fydd hyn yn eu cael ar gyfer niferoedd yn y dosbarthiadau mewn campysau eraill? Sut fydd staff yn cael eu hadleoli? Beth fydd yn digwydd i'r tir mae'r ysgol arno? Nid yw cael gwared ar ysgol gynradd i orboblogi rhai eraill yn ymwneud ag unrhyw beth o gwbl heblaw arian! Mae addysg a llesiant y plant ynghyd â diogelu yn cael eu hanwybyddu'n llwyr. Proses benderfynu gywilyddus gan gyngor BG a'r Gweinidog Addysg.
- Er fy mod yn cydnabod y gallai rhai ysgolion fod â niferoedd is na'u capasiti ar hyn o bryd, byddai symud bwrw ymlaen â'r cynnig hwn yn dwyn canlyniadau difrifol a phellgyrhaeddol i ddisgyblion a'u teuluoedd. O safbwynt ymarferol, mae'r goblygiadau yn bryderus iawn. Mae'n anochel y bydd

gofyn i deuluoedd deithio dros fwy o bellter bob dydd yn cynyddu maint y traffig o amgylch y campysau sy'n weddill. Bydd hyn nid yn unig yn gwaethygu tagfeydd ond hefyd yn cynyddu'r risg o ddamweiniau traffig ffyrdd, yn enwedig yn ystod amseroedd brig ar gyfer gollwng a chasglu plant. Gallai mwy o draffig ar ffyrdd lleol sydd eisoes yn brysur hefyd rwystro mynediad ar gyfer gwasanaethau brys, gan greu risgiau diogelwch y gellir eu hosgoi i'r gymuned ehangach. Hefyd, bydd cydgrynhoi mwy o ddisgyblion ar lai o safleoedd yn rhoi straen ychwanegol ar ardaloedd preswyl cyfagos, gan gynyddu sŵn, tagfeydd a llygredd aer. Ni ddylid tanamcangyfrif yr effaith gronnus ar lesiant cymunedol, ansawdd yr amgylchedd ac, yn bwysicaf oll, diogelwch plant. Am y rhesymau hyn, ceir risg y bydd y cynnig hwn yn achosi aflonyddwch a niwed sylweddol sy'n gorbwyso unrhyw fudd canfyddedig o ran mynd i'r afael â lleoedd gwag.

- Er fy mod yn gwerthfawrogi bod maint y dosbarthiadau yn RH yn fach, mae maint dosbarthiadau yn ST eisoes yn ddigon mawr a bydd unrhyw ddisgyblion ychwanegol yn cynyddu maint y dosbarth i faint rhy fawr i'r disgyblion gael eu haddysgu'n gywir. Mae'r ffyrdd o amgylch campws ST eisoes yn rhy brysur ac yn orlawn ar amseroedd ysgol a fyddai'n gwaethygu gyda chynnydd yn nifer y disgyblion. Mae'r llwybr cerdded i ST i fod yn llwybr diogel i'r ysgol ond nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd ac eto, gyda mwy o draffig, byddai'r llwybr hyd yn oed yn llai o lwybr cerdded diogel. O ystyried bod cyfraddau genedigaethau'n amrywio, mae cau campws RH i'w weld yn ddramatig oherwydd pan fydd nifer y plant yn codi eto, a fydd y cyngor â'i fryd ar adeiladu ysgol arall i ymateb i'r cynnydd mewn plant. Mae angen i lesiant y plant fod yn flaenllaw yn y penderfyniad hwn ac mae'n ymddangos nad yw hyn yn wir. Efallai y dylid ailystyried y dalgylchoedd ar gyfer ffrydiau derbyn yn y dyfodol er mwyn caniatáu i fwy o blant y dref fynychu campws RH. Mae lleoliad daearyddol y campws yn well na ST a RH mwy na thebyg gan ei fod yn safle mwy gyda mannau awyr agored enfawr. A allai'r campws gael ei ddefnyddio fel un amlbwrpas. O bosibl yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r ganolfan hamdden er enghraifft gan y gellid gosod trac ar gyfer rhedeg - yr agosaf ar hyn o bryd yw Brynmawr neu Oakdale. Neu ei ddefnyddio ar y cyd â'r campysau cynradd eraill i ddefnyddio'r mannau allanol er budd y plant.
- Mae pwy bynnag gafodd y syniad hwn yn hollol anghywir. Mae llawer o les plant yn y fantol yma, felly dylid ailfeddwl. Rhiant dig!
- Pam ydych chi'n talu i 13 o staff ar y lefel uchaf? Mae £1.1 miliwn yn anweddus. Nid oes angen 13 o staff ar y lefel uchaf ar 4 campws. Fe es i i'r ysgol uwchradd honno-1 Pennaeth-1 dirprwy. Yr un peth yn fy ysgol gynradd. Rydych chi'n dweud bod CDdA mewn trafferthion ariannol. Dyma lle mae angen i chi edrych.
- Pam adeiladu ysgolion newydd lle mae'r gwaith cynllunio, maen nhw'n wastraff lle. Dim atebolrwydd mae awdurdodau ysgolion wedi colli cysylltiad!
- Pam cau ysgol hollol iawn y mae'r plant yn ei charu! Mae angen yr ysgol hon arnom yn ein cymuned! Peidiwch â'i chau.
- pam cau'r ysgol hon sy'n anghywir. rydym yma i helpu ein plant yn yr ardal hon sydd mor amddifadus yng nghymoedd de Cymru, rwy'n siŵr bod yna ffyrdd eraill o arbed arian fel BAE CAERDYDD
- Pam fod angen i ni gau'r ysgol? Rydych chi'n amlwg eisoes wedi penderfynu beth sy'n digwydd ar y tir hwnnw. Pam fod gennym y nifer fwyaf o gynghorwyr yng Nghymru mewn ardal mor fach. Sut allwch chi gyfiawnhau hynny a'r gost o dalu i chi a chithau'n gwneud dim.
- Pam fod angen iddi gau a pha effaith ar ysgolion eraill y bydd yn ei chael gyda mwy o gapasiti ac a fydd ysgolion yn cael mwy o gymorth os bydd yr ysgol yn cau a chyllid ychwanegol i wneud lle i'r disgyblion
- Pam fod yr ysgol yn un 3-16 ac eto nid yw eich ffigyrau yn cynnwys y 102 o blant meithrin ar y gofrestr. Rwy'n cymryd nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn eich rhagfynegiadau - pam lai. Mae angen edrych ar hynny. Pam fod cael gwared ar 10 aelod o staff yn arbed £670,000 i chi pan fydd y 13 ar y lefel uchaf yn cael £1.1 miliwn rhyngddynt. Pam fod 13 o staff pendrwm mewn adeilad pedwar campws? Roeddech chi i'ch gweld fel pe baech wedi cael sioc i glywed hyn yn y cyfarfod cyhoeddus. Onid y cyngor sy'n talu eu cyflogau? Er mwyn arbed yn ariannol mae angen i chi edrych ar y cynnig ar gyfer y strwythur staffio. Mae arnynt eisiau 1 aelod o staff yn llai ar y rhengoedd uchaf. Ac yna cynyddu'r cyflog a delir i staff lefel uchaf.... Sut mae hynny'n arbed arian? A allwn ni gael eglurhad ar hyn os gwelwch yn dda. Beth sy'n digwydd gyda'r adeilad? Os yw'n aros o fewn y gwasanaeth addysg beth am ei gadw fel ysgol gynradd? Ydych chi'n ei throi'n chwaer gangen i Ben y Cwm? Pa reswm arall allai fod gennych dros gadw adeilad yn y gwasanaeth addysg? Ar gyfer beth os nad ar gyfer ysgol gynradd? Mae angen eglurhad arnom.

- Pam cau ysgol berffaith a gorfod cludo plant ar fysiau i un arall
- Pam cau ysgol a agorwyd ychydig flynyddoedd yn ôl? Bydd y plant yn cymryd atynt am eu bod yn colli eu ffrindiau. Rwy'n gwbl gandryll eich bod chi'n gwneud hyn. Meddyliwch amdano, mae'n ysgol hyfryd ac nid yw'n haeddu hyn.
- Pam, wrth ddyrannu plant i'r meithrin/derbyn nad ydych chi'n gwasgaru'r ffrwd ar draws pob un o'r 3 safle? pam fod gan Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch ffrwd fwy? Dylid gwasgaru plant yn gyfartal gan sicrhau bod dosbarthiadau yn llai ac yn fwy diogel ac yn amgylcheddau addysgu gwell. Rwy'n tybio ei fod wedi cael ei wneud er mwyn gwneud i Roseheyworth edrych yn waeth. Nid ydych chi'n disgwyl i eraill deithio ond i ysgol roseheyworth symud yn ei chyfanrwydd? mae'r Cyngor wedi gwneud cam â phawb ar bob lefel
- Bydd yn creu anhrefn, nid yw mwy yn beth da.
- yn gwneud casglu a gollwng plant hyd yn oed yn fwy peryglus
- Gyda Blaenau Gwent ar waelod cynghreiriau cyrhaeddiad yng Nghymru, pam fyddech chi'n cau ysgol, yn cynyddu maint dosbarthiadau ac o bosibl yn gostwng lefelau ymhellach er mwyn torri costau. Mae ein plant yn bwysig.
- Yn poeni am ddosbarthiadau mwy, mae'r plant mewn dosbarthiadau llai ar hyn o bryd, a fyddant yn dal i gael y cymorth a chyrraedd eu targedau? Beth am y pwysau ychwanegol a roddir ar athrawon, a'r plant yn llithro'n ôl. A fydd digon o barcio a chyfleusterau ar y campysau eraill i ddarparu ar gyfer mwy o blant/teuluoedd?
- Hoffwn gadw'r ysgol ar agor. Dewis wedi'i gymryd i ffwrdd.
- Rydych chi'n rhiant mewn cymuned. Mae'r cyngor wedi penderfynu cau ysgol gynradd leol yn agos atoch chi. Mae angen i chi rannu eich pryderon. 1. Y ffordd yr oedd y cyfathrebu yn ofnadwy. Dylai fod cynllun clir ac ni ddylai staff fod wedi cael gwybod ar ôl postiad ar y cyfryngau cymdeithasol. 2. Unwaith eto mae'r genhedlaeth nesaf yn dioddef gan ddiffyg buddsoddiad yn ein cymuned. Mae'r plant tlotaf yn ein hardal yn byw yn ein rhodfeydd. Maen nhw eisoes dan anfantais ac mae eu cael i'r ysgol yn frwydr. Bydd hyn yn effeithio ar bresenoldeb a buddsoddiad yn y dyfodol. 3. Mae angen buddsoddiad nawr er mwyn twf yn y gymuned Fel rhiant yn y gymuned hon, rwy'n bryderus iawn am benderfyniad y cyngor i gau ein hysgol gynradd leol. Yn gyntaf, mae'r ffordd y cyflewyd y penderfyniad hwn wedi bod yn ofnadwy. Dylai fod cynllun cyfathrebu clir, parchus ar waith. Ni ddylai staff byth bod wedi cael eu rhoi mewn sefyllfa o ddod i wybod am benderfyniad mor arwyddocaol trwy bostiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedden nhw'n haeddu cael eu hysbysu'n briodol ac yn uniongyrchol cyn i unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus gael ei wneud. Yn ail, unwaith eto mae'r genhedlaeth nesaf yn dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad yn ein cymuned. Mae rhai o'r plant tlotaf yn ein hardal yn byw yn y Rhodfeydd. Mae'r teuluoedd hyn eisoes yn wynebu heriau sylweddol, ac mae cael plant i'r ysgol yn gallu bod yn anodd. Bydd cael gwared ar ysgol leol yn gwneud hyn yn waeth. Mae'n achosi risg o leihau presenoldeb ac ehangu'r bwlch i blant sydd eisoes dan anfantais. Yn hytrach na chefnogi'r teuluoedd hyn, mae'r penderfyniad hwn yn teimlo fel ei fod yn gwneud eu sefyllfa'n anos byth. Yn olaf, os ydym am i'n cymuned dyfu a ffynnu, mae angen buddsoddiad go iawn nawr. Mae ysgolion wrth galon cymuned. Mae eu cau yn anfon y neges nad yw ein hardal yn werth buddsoddi ynddi. Os oes ar y cyngor eisiau gweld twf a chyfleoedd hirdymor yma, mae'n rhaid iddo ddechrau trwy fuddsoddi yn y gwasanaethau a'r seilwaith sy'n cefnogi ein plant a'n teuluoedd. Mae ein plant yn haeddu gwell, ac felly hefyd ein cymuned.
- Rydych chi'n gofyn i blant ifanc gerdded dros bellter i'r ysgol. Y dewis arall yw Ysgol Gelli Crug ac rydych chi'n gofyn i'r pennaeth dderbyn 120 o ddisgyblion ychwanegol. Dim ond 26 oed yw'r ysgol ac rydych chi'n bwriadu ei rhoi heibio. Ydych chi'n barod i ddarparu cludiant i'r disgyblion?
- Rydych chi'n ceisio cael gwared ar galon ac enaid ein cymuned gyda chynnig nad yw'n dangos unrhyw ystyriaeth ystyrlon i'r plant sy'n dibynnu ar yr ysgol hon bob dydd. Ni chynhaliwyd asesiad difrifol o sut y bydd yr aflonyddwch hwn yn effeithio ar eu haddysg, eu llesiant emosiynol, neu ddiogelwch disgyblion a rhieni. Yn hytrach, rydych chi'n bwrw ymlaen â chynllun a fyddai'n gorfodi ysgolion sydd eisoes dan bwysau – y Chwe Chloch a Stryd Tyleri - i amsugno hyd yn oed mwy o blant, er gwaethaf tystiolaeth glir nad ydynt wedi'u paratoi i ymdopi â gorlenwi o'r fath. Nid yw'r ffigyrau rydych chi wedi'u cyflwyno yn gwneud synnwyr, ac mae'r broses sy'n ymwneud â'r cynnig hwn wedi bod yn bryderus iawn. Yn hytrach nag ymgysylltu'n agored â theuluoedd a'r cyhoedd ehangach, cafodd gwybodaeth ei chadw'n ôl nes i'r drafft cyntaf gael ei ddatgelu'n answyddogol ar-lein. Dim ond wedyn yr ymddangosodd unrhyw gyfathrebiad, a hyd yn oed wedyn roedd yn teimlo fel ymgais i reoli'r adlach yn hytrach nag ymgynghori â'r gymuned go iawn. Nid yw ein

hysgol yn sefyll ar ei phen ei hun. Mae rhieni o'r ysgolion cyfagos wedi lleisio eu cefnogaeth oherwydd eu bod yn cydnabod y gwerth y mae'r ysgol hon yn ei roi - nid dim ond yn academaidd, ond fel amgylchedd diogel, anogol a sefydlog i'n plant. Ni fydd y gymuned hon yn caniatáu i'r pryderon hyn gael eu diystyru neu eu sgubo'n dawel o'r neilltu. Byddwn yn parhau i sefyll gyda'n gilydd, ac ni fyddwn yn gadael i'r mater hwn gael ei sgubo o dan y carped.

- Ni allwch honni bod Cymru anysgedig ac yna cau ysgolion cynradd, sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad.
- Byddwch yn cael gwared ar sylfaen ac fel rhiant gyda phlentyn ag anghenion arbennig rwy'n gwybod pa mor anodd yw hi i fod ag ysgol sy'n gallu cefnogi eich plentyn ac efallai y byddwch chi'n cael gwared ar yr unig opsiwn sydd gan riant o ran ysgol
-

## Sylwadau gan ymatebwyr sy'n cefnogi'r cynnig yn rhannol

- Er fy mod yn cefnogi defnyddio cyllid yn well, mae gen i bryderon difrifol am y traffig cynyddol yn Stryd Tyleri sydd eisoes yn broblem ar gyfer gyrru a pharcio. Mae angen ystyried hawlenni parcio i breswylwyr yn unig ar y stryd ei hun, twmpathau cyflymder i reoli cyflymderau ac o bosibl ei gwneud yn stryd unffordd i leihau'r problemau gyda lled y ffordd nad yw ond yn addas ar gyfer un cerbyd ar y tro yn barod
- A fyddai'n bosibl defnyddio'r ysgol ar gyfer disgyblion hŷn o Ysgol Gyfun Abertyleri neu fel ysgol ddysgu arbennig ar gyfer disgyblion anabl?
- Mae'r ysgol hon yn rhan fawr o galon y gymuned hon. Roedd fy mhrofiad blaenorol ohoni fel Llywodraethwr ac ymwelydd yn gadarnhaol. Roedd yn ysgol hapus gyda staff ymroddedig a oedd yn adnabod eu teuluoedd. Mae'n meithrin ymdeimlad cymunedol o berthyn a gwerth. Gall y pellter ar gyfer teuluoedd ac yn enwedig plant sy'n cerdded yn annibynnol i'r ysgol fod yn broblem gyda'r cynlluniau yn y dyfodol. Er fy mod yn gwerthfawrogi agweddau ar y rhesymau dros y cynnig, sef costau cynnal a chadw a niferoedd sy'n gostwng, byddwn yn gobeithio bod yr holl atebion creadigol eraill wedi cael eu hystyried a'u disbyddu mewn ymgais i gadw presenoldeb yr ysgol hon yn y gymuned yn gyntaf.
- Rwy'n credu ei bod yn bwysig torri costau ond fel rhywun sy'n gweithio yn Abertyleri rwy'n poeni'n fawr am yr effaith y bydd yn ei chael ar y traffig a'r parcio yn y dref. Fe wnaeth cau gwaelod y maes parcio aml-lawr dros dro brofi nad yw Abertyleri yn gallu ymdopi ag unrhyw draffig pellach heb barcio mwy cyfleus, ac mae'n amlwg bod pobl yn defnyddio'r meysydd parcio hyn wrth ollwng plant mewn ysgolion a'u casglu oddi yno.
- Mae fy mab yn ddisgybl ym mlwyddyn 5 sy'n mynychu campws Roseheyworth ar hyn o bryd, mae'n mynd i drosglwyddo i ysgol gynradd yng Nglynebwy sy'n agos ataf fi (ei fam) ond rwy'n rhannol gefnogol i gau'r ysgol, mae'r ysgol yn gwbl llawn materion bwlio nad ydynt yn cael eu datrys dim ond eu sgubo o'r neilltu mae rhai plant yn cael eu ffafrio yn yr ysgol uwchlaw eraill a gall staff gan amlaf fod yn llai a llai empathig tuag at ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd nid yw'r ysgol wedi'i harfogi i ymdrin â'r plant sydd ganddi ond mae'r rhan arall ohonof yn pryderu oherwydd gallai gwasgu'r holl blant hyn gyda'i gilydd yn yr ysgolion eraill gyda'i gilydd hefyd helaethu'r broblem hon, mae'r cyllid ar gyfer yr holl ysgolion yn llawer rhy ychydig a dyma'r peth rhesymegol i'w wneud mae manteision ac anfanteision yn bersonol ond weithiau nid yw'r rhai proffesiynol sy'n gwneud penderfyniadau'n meddwl yn rhesymegol. Mae fy mab yn cael ei dynnu allan y naill ffordd neu'r llall, ond yr hyn y byddaf yn ei ddweud yw .... Meddyliwch am y rhieni nad ydynt yn gyrru ac y mae ganddynt nifer o blant, y rhieni nad ydynt yn gallu gadael ar adeg benodol i gerdded i'r ysgolion eraill oherwydd bod ganddynt blant mewn ysgolion eraill ag anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol y mae angen eu gollwng mewn cartrefi. nid yw'r rhieni fel Stretch Armstrong ac ni allant fod mewn dau le yr un pryd ac mae angen ystyried y tywydd hefyd gan y gallai cerdded ymhellach yn y gwynt, y glaw, y rhew a'r eira achosi mwy o salwch gyda'r plant, pethau fel hyn i'w hystyried ond byddai'n well gen i pe bai fy mhlentyn yn cael addysg lle mae anghenion yn cael eu diwallu ac lle maent yn cael eu cefnogi'n feddyliol ac yn emosiynol yn amgylchedd yr ysgol. Rwy'n credu bod angen i bob agwedd ar y broses feddwl hon ar gyfer y penderfyniad hwn gael ei hystyried yn eang. Diolch - Beth collier
- Rwy'n pryderu am faint o draffig sydd eisoes yn ardal campysau'r Chwe Chloch a Stryd Tyleri ar adegau gollwng a chasglu, byddai mwy o ddisgyblion ym mhob campws gan olygu mwy o draffig yn yr ardal, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb. A fyddai'r plant yn cael digon o amser i allu

casglu a bwyta'u bwyd yn ystod amser cinio oherwydd bod mwy o blant yn defnyddio'r neuaddau cinio? A oes digon o leoedd o fewn darpariaeth y clwb Brecwast i allu darparu ar gyfer yr holl blant a fydd o bosibl yn symud o Heol Roseheyworth? Rwyf wedi clywed gan rieni'r campysau eraill bod disgyblion eisoes yn cael eu haddysgu mewn coridorau felly mae mwy o ddisgyblion yn mynd i achosi mwy o straen ar yr ystafelloedd dosbarth. Bydd yr amser o ansawdd y gall athrawon ei roi i ddisgybl yn cael ei leihau'n ddramatig gan y bydd maint y dosbarthiadau yn fwy. Nid yw niferoedd y Meithrin wedi cael eu hystyried yn ystod yr Ymgynghoriad a bydd angen i'r plant hyn gael eu haddysgu yn rhywle. Pam fod 13 o staff mewn rolau arwain dros y 4 Campws yn sicr gellir edrych ar hynny i arbed arian fel a ddwedwyd wrthym pan orfodwyd yr ysgol 3-16 arnom ni fel rhieni. Mae rhai plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael trafferth cerdded i'r ysgol nawr. Gan nad yw'r rhieni yn gyrru, bydd hyn yn cael effaith ar eu llesiant. Beth fydd yn digwydd i'r lleoliad Mini Mes gwych sydd wedi helpu a chefnogi llawer o'r Plant dros y blynyddoedd. I'r plant sydd allan o'r dalgylch bydd goblygiadau o ran costau cludiant. Mae rhai rhieni yn poeni sut y byddan nhw'n danfon eu plant i'r ysgol ac os nad ydyn nhw'n mynychu gallent wynebu dirwyon. Mae'r adroddiad cynnal a chadw ar gyfer atgyweiriadau'n hen (2022) felly nid yw'n adlewyrchu gwir gost atgyweiriadau. Mae peth o'r gwaith eisoes wedi'i wneud.

- Fel un o gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o fewn y portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, rwy'n deall y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig a'r ystyriaethau strategol ehangach sydd wedi goleuo'r penderfyniad hwn. Fodd bynnag, fel rhiant, mae gen i rai pryderon. Mae fy mhlentyn ar hyn o bryd yn mynychu Campws Stryd Tyleri ac mae yn y Derbyn. Oherwydd nifer y plant yn y garfan hon, mae dau ddosbarth Derbyn. Er gwaethaf hyn, mae fy mhlentyn yn cael adborth cyfyngedig iawn trwy Class Dojo, fel arfer dim ond 1–2 bwynt y mis, gyda'r mwyafrif yn cael ei roi gan yr athro Addysg Gorfforol. Mae hyn er ein bod yn ymwneud yn gyson â'r holl dasgau gwaith cartref ac yn atgyfnerthu ymddygiadau cadarnhaol a dysgu gartref. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r cyd-destun gweithredol ac ariannol ehangach y tu ôl i'r cynnig, mae fy nghytundeb rhannol yn adlewyrchu pryder ynghylch profiad presennol y disgyblion, cyfathrebu, a chydnabyddiaeth unigol. Rwy'n teimlo y byddai cyfathrebu cryfach rhwng yr ysgol a'r cartref ac adborth mwy cyson yn helpu i roi sicrwydd i rieni am ansawdd y ddarpariaeth yn ystod unrhyw gyfnod pontio neu newid. Rwyf hefyd yn bryderus am effaith bosibl dosbarthiadau mwy pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Yn y blynyddoedd cynnar, mae plant yn cael budd sylweddol o sylw unigol, adborth rheolaidd, a pherthnasoedd cryf â staff addysgu. Pe bai maint dosbarthiadau'n cynyddu, byddwn yn pryderu sut y gall hyn effeithio ar ansawdd addysg, lefel y cymorth personol sydd ar gael, a chyfleoedd ar gyfer adborth ystyrlon. Mae'r derbyn yn flwyddyn mor sylfaenol, ac mae sicrhau bod plant yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u hannog yn hanfodol i'w hyder a'u hymgysylltiad hirdymor â dysgu.
- Rydym yn deall y sefyllfa ac mae'n rhaid i ni gefnogi'r cynnig hwn. Ond mae plant yn siomedig iawn y tro hwn, oherwydd gallent golli eu ffrindiau. A hefyd nid yw gormod o blant mewn un ystafell ddosbarth yn dda i blant nac ychwaith athrawon. (Rhy orlawn)
- Fel athro ar gampws y Chwe Chloch mae fy mhryderon yn ymwneud yn bennaf â chadw staff, goblygiadau o ran llwyth gwaith i staff a llesiant plant. Rwy'n teimlo'n gryf y dylai staff yn Roseheyworth fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau ynghylch ble mae dysgwyr yn cael eu lleoli fel dewis arall. Rwy'n credu y bydd cau'r ysgol yn dwyn goblygiadau ar gyfer cludiant i'r campysau eraill. Rwy'n poeni y bydd yn effeithio'n negyddol ar bresenoldeb os bydd rhieni yn cael trafferth cael eu plant i'r ysgol. Mae'n ymddangos bod campws Roseheyworth mewn ardal arbennig o amddifadus yn Abertyleri. Byddwn yn gobeithio y bydd rhieni a theuluoedd yn cael eu cefnogi gyda'r newid hwn. Rwy'n tybio y bydd angen addasu dalgylchoedd ar gyfer y campysau sy'n weddill i ddosbarthu dysgwyr yn unol â hynny. Rwy'n credu y bydd cynnydd yn nifer y disgyblion ar gampws Stryd Tyleri St a'r Chwe Chloch yn effeithio'n fawr ar lwyth gwaith athrawon a bydd nifer y plant ag ADY ym mhob dosbarth yn sicr yn cynyddu o ganlyniad. A fydd ysgolion yn cael adnoddau/cymorth ychwanegol gan yr ALI i gynorthwyo'r ysgolion gyda hyn?

**Sylwadau gan ymatebwyr sy'n cefnogi'r cynnig**

- Oherwydd lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd, gostyngiad mewn genedigaethau a ragwelir ar gyfer y dalgylch hwn a chyllid annigonol.
- Rwy'n cefnogi'r cynnig fel ymateb synhwyrol ac angenrheidiol i niferoedd disgyblion newidiol a'r angen i gynllunio'n gyfrifol ar gyfer dyfodol addysg yn Abertyleri. Mae sicrhau bod capasiti ysgolion yn cyd-fynd â thueddiadau'r boblogaeth leol yn teimlo fel dull cyfrifol. Rwy'n croesawu'r ffocws ar

sicrhau bod ysgolion yn Abertyleri yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, yn hytrach na gwasgaru adnoddau'n rhy denau ar draws adeiladau nad oes mo’u hangen yn llawn mwyach. Bydd hyn hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Gymuned Ddysgu yn ei chyfanrwydd ac yn ei gwneud yn hyfyw yn y dyfodol a fydd yn ei dro yn diogelu swyddi yn y tymor hwy. Rwyf hefyd yn teimlo y bydd hyn yn helpu i godi safonau yn gyffredinol gan y gellir canolbwyntio adnoddau addysgu yn well lle mae eu hangen

- Fel llywodraethwr, credaf y bydd y cynnig i leihau nifer y campysau nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â'r lleoedd gwag presennol ar draws y gymuned ddysgu, ond y bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymdrechion tymor hwy i leihau'r gyllideb ddiffyg sylweddol. Mae ymagwedd ofalus ac ystyriol yr awdurdod lleol at y cynnig hwn yn rhoi tawelwch meddwl i mi, ac rwy'n fodlon ar y sicrwydd a ddarperir ynghylch y cymorth parhaus i ddysgwyr, staff a theuluoedd trwy gydol y broses bontio. Mae'n amlwg bod cynllunio priodol wedi digwydd i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn effeithiol, gyda ffocws cryf ar gynnal ansawdd y ddarpariaeth a tharfu gyn lleied â phosibl. Ar y cyfan, rwy'n cefnogi'r cynnig hwn fel cam angenrheidiol a chyfrifol sy'n adlewyrchu anghenion presennol a chynaliadwyedd y ddarpariaeth yn y dyfodol, gyda budd pennaf y gymuned hefyd yn greiddiol iddo.
- Mae'n ysgol wych a staff hyfryd xxx. Byddai'n drueni ei gweld yn cau xx. Mae yna ysgolion hŷn na hyn fel Ysgol Gyfun Abertyleri . Mae'r ysgol gyfun wedi bod yn suddo ers blynyddoedd ac mae angen gwneud llwyth o waith iddi x. Ac os ydych chi'n cau ysgol roseheyworth byddai'n rhaid i chi ddarparu cludiant gan bod llawer o bobl o'r Blaenau, a gwahanol ardaloedd yn defnyddio'r ysgol hon. Ac mae darparu’r cludiant yn costio arian. Ac ni fydd yr ysgolion rydych chi'n ystyried anfon y plant iddynt yn gallu ymdopi â’r plant y byddant yn eu derbyn yno gan eu bod yn orlawn fel y mae. Rwy'n credu ei bod yn ofnadwy eich bod chi eisiau cau ysgol hyfryd fel hon .
- Cefais fy magu yn yr ysgol honno a byddai ei chau yn gwneud cam â'r cyhoedd, athrawon, staff a disgyblion
- Ar yr amod bod digon o le yn y ddwy ysgol gynradd arall yn yr ardal, yna rwy'n credu ei fod yn syniad da. Mae ysgolion yn cael trafferth fel y mae a gallai hyn ryddhau rhywfaint o gyllideb ar gyfer y ddwy ysgol arall a gwella ansawdd y ddwy ysgol arall yn sylweddol. Rosheyworth bellach yw'r ysgol hynaf ac mae'n debygol o fod yn eithaf gwael o ran sgôr perfformiad ynni. Ar wahân i'r bobl sy'n byw yn yr ardal gyfagos, dydw i ddim yn meddwl mai Rosheyworth fyddai dewis cyntaf unrhyw un. Rwyf wedi clywed sawl peth negyddol ynglŷn â champws Stryd Tyleri felly rwy'n credu bod angen edrych ar hyn ac o bosibl ychydig o ad-drefnu i'w roi yn ôl ar y trywydd iawn. Yn olaf, yr unig bwynt negyddol rwy'n ei weld gyda'r disgyblion yn ymuno â'r ddau gampws arall yw faint o anhrefn fydd o gwmpas y ffyrdd a'r meysydd parcio. Mae'r ddwy ysgol eisoes yn ofnadwy yn ystod amseroedd casglu a gollwng, gydag oedi enfawr yn aml neu hyd yn oed ddamweiniau mewn rhai achosion. Mae angen rhywfaint o feddwl i wneud hyn yn fwy hydrin.
- Rwy'n credu y dylai'r ysgol aros gan bod yna lawer o blant sy'n dibynnu ar yr ysgol honno, gan gynnwys fy nheulu, fy nith a'm neiaint. Os bydd yr ysgol yn cau, ni fydd gan y plant sy'n weddill unrhyw le i fynd.
- Mae gen i 2 wyres yn yr ysgol hon mae'n hollol ffiaidd clywed am y cau hwn, mae gan un anghenion synhwyraidd, mae gan y plentyn arall awtistiaeth. Mae hyn yn gymaint o bryder gan wybod eu bod nhw'n gorfod mynd trwy hyn i gyd, rwy'n credu bod ganddyn nhw ddigon yn mynd ymlaen ar hyn o bryd. Cadwch yr ysgol hon ar agor.
- Nid oes angen ysgolion â goralw arnom beth fyddai'n digwydd pe bai Roseheyworth yn cau. Mae angen gwell cynllunio a threfnu i lenwi'r lle sydd gennym yno.
- Mae'n ymddangos yn wirion cadw ysgol ar agor gyda chyn lleied o ddisgyblion pan mae gorwariant mor fawr yn yr ysgol. Mae lle yn yr ysgolion eraill a bydd yn haws rhedeg 3 champws nid 4. Dylid edrych ar faint rheolaeth yr ysgol hefyd gan bod yna lawer ohonynt. Mae'r ysgol yn cael trafferth felly mae llai i'w reoli yn well. Mae niferoedd disgyblion gostyngol yn bryder ac felly hefyd beth fydd yn digwydd i'r campysau eraill os bydd Roseheyworth yn aros ar agor
- Rwy'n cefnogi'r cynnig gan ei fod yn cynrychioli defnydd darbodus o arian cyhoeddus, yn lleihau costau cynnal a chadw a rhedeg diangen gan hefyd ddiogelu addysg reng-flaen. Mae'r ddogfen yn esbonio'n glir sut y gellir ail-fuddsoddi arbedion i wella cyfleusterau, adnoddau a chymorth i ddysgwyr ar draws y campysau sy'n weddill. Rwy'n cefnogi'r cynnig gan ei fod yn amlwg yn seiliedig ar sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg yn Abertyleri. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi achos clir a rhesymol dros newid, a ategir gan amcanestyniadau ar gyfer niferoedd disgyblion a data ariannol.

- Cadwch yr ysgol hon ar agor!
- Rwy'n teimlo bod yr ysgol hon yn rhan hanfodol o addysg plentyn ac mae'n gwasanaethu rhan hanfodol yn y gymuned. Nid yw pob plentyn neu riant yn gallu teithio dros bellter pellach ac mae angen i wasanaeth addysg Blaenau roi plant o flaen elw
- Ni ddylid ei chau
- Roeddwn i'n arfer byw yn Arael View yn y 1990au ac rwy'n cofio rhai o'r meysydd sirol a gymerwyd i ffwrdd i'r ysgol hon gael ei hadeiladu, felly pam ei bod hi'n cau ? nid yw mor hen neu a yw'n mynd i gael ei haddasu i greu Tai Amlfeddiannaeth ?? ni fyddai'n fy synnu o gwbl ???! Rwy'n credu bod angen yr ysgol hon ar gyfer ardal roseheyworth hefyd byddai'n gwneud cymuned wych i'r ardal hon. Felly rwyf o blaid ei hachub.
- Ymateb i'r Ymgynghoriad – Cynnig Cymuned Ddysgu Abertyleri Ysgrifennaf i gadarnhau fy nghefnogaeth lawn i'r cynnig i leihau capasiti cynradd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri trwy gau un campws cynradd. Rwy'n cydnabod nad yw cau neu leihau'r ddarpariaeth addysg byth yn benderfyniad hawdd. Mae ysgolion a champysau wrth galon eu cymunedau, ac mae'n hawdd deall y bydd unrhyw gynnig o'r natur hon yn achosi pryder i ddisgyblion, rhieni, staff a phreswylwyr. Fodd bynnag, lle mae nifer y disgyblion yn gostwng a lleoedd gwag parhaus yn arwain at ddiffygion ariannol cynyddol, mae'n hanfodol bod penderfyniadau anodd a chyfrifol yn cael eu gwneud er budd hirdymor pennaf dysgwyr a'r gwasanaeth addysg ehangach. Mae parhau heb gynllun clir yng nghyd-destun niferoedd gostyngol ar gofrestrau a chyllidebau diffyg cynyddol yn achosi risg fwy o lawer. Dros amser, byddai hyn yn tanseilio ansawdd addysg, yn cyfyngu ar fuddsoddiad mewn dysgu ac addysgu, ac yn creu pwysau ariannol na ellir ei adennill yn realistig. Yn y cyd-destun hwnnw, credaf fod y cynnig yn nodi ymateb cymesur, ystyriol a chynaliadwy. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod gan Gampws Heol Roseheyworth y nifer isaf o ddisgyblion ar y gofrestr a'r lefelau uchaf o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, ac y gellir gwneud lle i bob disgybl yn ddiogel ac yn briodol ar y campysau cynradd sy'n weddill. Rwy'n cael fy sicrhau bod digon o gapasiti o fewn campysau cyfagos a bod y cynnig yn cynnwys gweithredu fesul cam i gefnogi sefydlogrwydd a pharhad. Fel Pennaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, rwy'n gweithio'n agos gydag ysgolion ledled Blaenau Gwent i gefnogi ymgysylltu, llesiant, presenoldeb, pontio a deilliannau ehangach i blant a phobl ifanc. O'r safbwynt hwn, rwy'n cefnogi'n gryf ymrwymiad y Cyngor i gefnogi teuluoedd trwy'r broses bontio, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu helpu i ymgartrefu, teimlo'n hyderus a pharhau i ffynnu. Lle mae ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd, gall trawsnewid weithio'n dda. Mae'r cynnig hwn hefyd yn cyd-fynd â Gweledigaeth Blaenau Gwent ar gyfer Addysg, gan roi pwyslais ar ansawdd, cynaliadwyedd a deilliannau hirdymor yn hytrach na chynnal darpariaeth nas defnyddir ddigon ar draul y system ehangach. Mae strwythur ysgol mwy hyfyw ac ariannol sefydlog yn galluogi arweinyddiaeth gryfach, gwell defnydd o adnoddau, a gwell cymorth i ddysgwyr, yn enwedig y rhai a allai fod angen help ychwanegol. I grynhoi, er bod hwn yn ddewis anodd, credaf ei fod yn benderfyniad angenrheidiol a chyfrifol. Mae'r cynnig yn dangos cynllunio clir, asesiad realistig o risg, ac ymrwymiad i ddiogelu ansawdd addysg nawr ac yn y dyfodol. Fel gwasanaeth sy'n cyd-fynd yn agos ag ysgolion ac yn eu cefnogi, rwy'n cefnogi'r cynnig hwn a'r egwyddorion sy'n sail iddo.
- Cau'r ysgol orau sy'n bodoli
- Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llwyr. Cefais fy ngeni a'm magu yn Abertyleri a mynychais ysgol uwchradd Roseheyworth ac roeddwn i'n rhan o'r ffrwd gyntaf i fynd i Ysgol Uwchradd Abertyleri. Rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr bod gan bobl bryderon am gau un o'r campysau ond mae gan yr ysgol ddyletswydd i ddarparu dysgu a chyfleusterau rhagorol i bob disgybl ond gyda chyllideb ddiffyg enfawr a chynnydd pellach yn y diffyg ni fydd yn gallu darparu hyn, ac felly bydd yn gwneud cam â'i disgyblion. Bydd cau campws Heol Roseheyworth yn galluogi'r ysgol i wella ei chyllideb a sicrhau y bydd disgyblion yn y 3 champws yn cael addysg o safon. Ni all barhau i ddarparu gwasanaethau dros 3 champws cynradd. Does ar neb eisiau gweld adeilad ysgol yn cau ond gyda nifer y disgyblion yn gostwng ledled y wlad nid yw cadw adeilad ysgol ar agor gyda % uchel o leoedd gwag yn hyfyw. Os nad yw'r cynnig yn cael ei gytuno, gallai'r Cyngor wynebu methdaliad. Bydd y cynnig yn effeithio ar ganran fach o gyfanswm poblogaeth disgyblion Blaenau Gwent, os na chytunir arno bydd yn effeithio ar boblogaeth gyfan BG gan y bydd angen colli gwasanaethau a chynyddu'r Dreth Gyngor.
- Ni all yr ysgol barhau i weithredu ar ei ffurf bresennol oherwydd nifer y lleoedd gwag
- Rwy'n cefnogi'r cynnig.
- Rwy'n teimlo y dylai'r ysgol aros ar agor dim ond oherwydd bod llawer o deuluoedd yn byw yn agos iawn ati

- Fel cyn-ddisgybl a elwodd o amgylchedd dysgu Blaenau Gwent, rwy'n cefnogi'r cynnig gan ei fod yn amlwg yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg yn Abertyleri. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyflwyno achos clir a rhesymol dros newid, a ategir gan amcanestyniadau cadarn ar gyfer nifer y disgyblion a data ariannol. Yn bwysig, mae'n dangos y dewrder i wneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol er mwyn diogelu a chryfhau deilliannau addysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynnig yn dangos cynllunio hirdymor cyfrifol trwy sicrhau bod capasiti ysgolion yn cyd-fynd â niferoedd disgyblion presennol a rhagamcanol, gan sicrhau bod y gymuned ddysgu yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gydnerth yn wyneb newid demograffig. Mae lleihau lleoedd gwag yn gam angenrheidiol a synhwyrol i ddiogelu ansawdd addysgol yn hytrach na'i wanhau. Cynaliadwyedd, dyheadau a chynllunio i'r dyfodol Yn hanfodol, trwy fuddsoddi mewn darpariaeth gryfach, fwy cynaliadwy, gall yr amgylchedd dysgu feithrin hyder, sgiliau a balchder yn well yn lle hynny. Fel rhywun sydd wedi gadael ac wedi myfyrio yn ddiweddarach ar werth fy addysg yn lleol, credaf fod gan ddarpariaeth flaengar o ansawdd da rôl allweddol o ran annog pobl ifanc i weld Blaenau Gwent nid dim ond fel lle i dyfu, ond fel lle i ddychwelyd iddo, cyfrannu ato ac ymgartrefu ynddo.
- Er bod cau campws Heol Roseheyworth yn golled i'r gymuned ddysgu a'i disgyblion, credaf y bydd hyn yn sicrhau'r dyfodol i genedlaethau
- Mae LASIS yn cefnogi'r cynnig i leihau capasiti'r ysgol gynradd, sy'n rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri, o 980 i 770, i leihau capasiti ffisegol Cymuned Ddysgu Abertyleri trwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws y Chwe Chloch a Champws Stryd Tyleri) gyda'r cynnig yn cael ei roi ar waith yn raddol gan ddechrau o fis Medi 2026 ac yn cael ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2027. Mae LASIS yn cefnogi'r egwyddor y byddai'r cynnig yn cefnogi Gweledigaeth Blaenau Gwent ar gyfer Addysg a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion buddsoddi Blaenau Gwent a Blaenoriaethau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (CDC). Hefyd, mae'r cynnig yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio adeiladau gwag mewn ysgolion. Mae risgiau a mesurau lliniaru wedi cael ystyriaeth briodol fel rhan o'r cynnig. I gloi, mae LASIS yn cytuno â barn y Cyngor, sef pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, y bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, gwell ansawdd addysg, ac yn sicrhau hyfywedd hirdymor Cymuned Ddysgu Abertyleri.
- Achubwch ein hysgol
- Dim digon o barcio yng Nghampws y Chwe Chloch
- Os yw'r ysgol yn wir wedi dyddio, ac yn peri risgiau i iechyd a diogelwch a bod angen gormod o waith strwythurol, yna wrth gwrs byddai'n fuddiol cau'r ysgol a dosbarthu'r disgyblion rhwng Stryd Tyleri a'r chwe chloch. Mae pob plentyn yn haeddu cael amgylchedd dysgu cyfoes, rwy'n deall bod cyllidebau'r cyngor a chyllidebau ysgolion eisoes yn dynn. Fy nghwestiwn fyddai, beth sy'n digwydd i'r gyllideb ar gyfer yr ysgol honno? A fydd yn cael ei gwahanu rhwng rhwng Stryd Tyleri a'r chwe chloch?
- Rwy'n teimlo bod y cynnig yn gwneud synnwyr o ystyried y dosbarthiadau gwag yn ST a'r Chwe Chloch. Mae niferoedd is yn ST nag erioed o'r blaen a chyda'r gyllideb ddiffyg yn cynyddu os na fydd rhywbeth yn digwydd bydd yn effeithio ar y prif safleoedd eraill. Dylai bod â llai o gampysau alluogi mwy o gysondeb rhwng campysau a bod yn haws i'w reoli. Mae hyn hefyd yn galluogi rheolaeth haws a llai o angen am UDA. Mae cost rhedeg adeilad a nifer y staff yn RR yn uchel felly gellid eu gwrthbwyso yn erbyn y diffyg er mwyn osgoi colli swyddi. Dylai'r ymgynghoriad ystyried pam fod niferoedd mor isel ar hyn o bryd a pham nad oedd plant yn mynychu CDdA pan oedd Abertyleri yn llawn hyd eithaf ei chapasiti gyda hyd at 500 o blant.
- Mae'r ysgol hon wedi bod o gwmpas ers blwyddyn yr holl frawd neu chwaer iau aeth yma a nawr mae fy mhlant yn mynd yno i. Nid oes gan yr un rhiant drafnidiaeth lleol byw sydd os yw'r ysgol ar gau yn gallu mynd â phlant i'r ysgol
- Mynychodd fy mab roseheyworth roedd yn ysgol anhygoel mae wedi mynd i uwchradd yn y set uchaf. Ond mae'n symud ymlaen i'r uwchradd mae'n niwroamrywiol ac mae'r ysgol yn brin o staff i helpu'r plant hyn. Pe bai ysgol roseheyworth yn mynd byddai'n rhyddhau arian i'r ysgolion eraill nid yw'r gost ar gyfer cadw ysgol ar agor ar 127 yn hyfyw